



**Barnwriaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd**

Y Llys Gweinyddol Canllaw Adolygiad Barnwrol 2022



**Barnwriaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd**

Y Llys Gweinyddol Canllaw Adolygiad Barnwrol 2022

Cynnwys

Rhagair i Argraffiad 2022.....	8
Rhagymadrodd i Argraffiad 2022.....	9
RHAN A: MATERION RHAGARWEINIOL.....	10
1. Rhagarweiniad.....	10
1.1. Y Canllaw Adolygiad Barnwrol	10
1.2. Y Rheolau Trefniadaeth Sifil	10
1.3. Cyfarwyddiadau Ymarfer	12
1.4. Ffurflenni.....	12
1.5. Ffioedd.....	13
1.6. Cyfrifo terfynau amser.....	14
1.7. Y Llys Gweinyddol	14
1.8. Swyddfa'r Llys Gweinyddol	15
1.9. Y farnwriaeth a'r Meistr	15
2. Trylwyrdd Gweithdrefnol	16
2.1. Yr angen i gadw at y rheolau	16
2.2. Sanctiynau	16
3. Y Partïon.....	18
3.1. Adnabod y partïon	18
3.2. Y partïon.....	18
3.3. Hawlwyr / diffynyddion / partïon â budd lluosog	20
3.4. Teitlau achosion.....	21
4. Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain	22
4.1. Cyffredinol	22
4.2. Dyletswydd i gydymffurfio â rheolau trefniadaeth	22
4.3. Y Gwrandawriad	23
4.4. Cymorth ymarferol i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.....	24
4.5. Cynrychiolaeth gyfreithiol a chyllid	24
4.6. Cyfeillion McKenzie.....	26
5. Gorchmynion Atal Sifil a Gorchmynion Achosion Sifil.....	27
5.1. Cyffredinol	27
5.2. Gorchmynion atal sifil.....	28
5.3. Gorchmynion achosion sifil	28
6. Cyn Cychwyn yr Hawliad	30
6.1. Ystyriaethau cyffredinol.....	30
6.2. Protocol Cyn-Achos Adolygiad Barnwrol.....	30
6.3. Sefyllfaoedd lle gallai hawliad am adolygiad barnwrol fod yn amhriodol.....	31
6.4. Terfynau amser.....	34
6.5. Adolygiadau barnwrol o benderfyniadau mewnffudo a lloches	37
6.6. Adolygiad barnwrol o benderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.....	38

6.7.	Adolygiad Barnwrol o benderfyniadau a wnaed o dan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus	39.
RHAN B: YR HAWLIAD		41
7.	Cychwyn yr Hawliad.....	41
7.1.	Trosolwg o'r drefn adolygiadau barnwrol.....	41
7.2.	Ffeilio'r Ffurflen Hawlio	41
7.3.	Dogfennaeth ofynnol.....	44
7.4.	Dyletswydd i wneud ymholiadau	46
7.5.	Dyletswydd i fod yn ddiidwyll a chydweithredu â'r Llys.....	46
7.6.	Datgelu	47
7.7.	Lle i ffeilio'r hawliad (lleoliad priodol).....	47
7.8.	Ffeilio dogfennau gyda'r Llys	49
7.9.	Cyflwyno'r Ffurflen Hawlio.....	50
7.10.	Darpariaethau ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n destun Gorchymyn Achos Sifil neu Orchymyn Atal Sifil	51
7.11.	Diwygio'r hawliad neu seiliau'r adolygiad barnwrol cyn i'r Llys ystyried rhoi caniatâd .	52
8.	Y Cydnabyddiad Cyflwyno	54
8.1.	Cyflwyno Cydnabyddiad Cyflwyno	54
8.2.	Terfynau amser ar gyfer ffeilio'r Cydnabyddiad Cyflwyno.....	55
8.3.	Cynnwys y Cydnabyddiad Cyflwyno	55
8.4.	Ceisiadau'r diffynnydd.....	56
8.5.	Cam caniatâd – ymateb	56
9.	Cam Caniatâd y Broses Adolygiad Barnwrol.....	58
9.1.	Y cais.....	58
9.2.	Gorchmynion llys yn ymwneud â chaniatâd	58
9.3.	Gorchmynion heb unrhyw haeddiant.....	60
9.4.	Ailystyried mewn gwrandawriad llafar	60
9.5.	Amcan-amser ar gyfer gwrandawriad atgynhyrchu	61
9.6.	Y drefn mewn gwrandawriadau atgynhyrchu.....	62
9.7.	Y drefn pan mai'r Uwch Dribiwnlys yw'r diffynnydd	63
9.8.	Gorchmynion Capió Costau Adolygiad Barnwrol: cyffredinol.....	65
10.	Ar ôl cael Caniatâd	70
10.1.	Cyfarwyddiadau ar gyfer gwrandawriad sylfaenol	70
10.2.	Diwygio'r hawliad.....	72
10.3.	Beth i'w wneud os oes angen cyfieithydd	73
10.4.	Cyfrifoldeb am ddod a charcharorion ac unigolion a gedwir yn y ddalfa i'r Llys.....	73
11.	Gwrandawriad sylfaenol.....	74
11.1.	Fformat y gwrandawriad	74
11.2.	Tystiolaeth.....	74
11.3.	Defnyddio'r iaith Gymraeg	75
11.4.	Adolygiad barnwrol heb wrandawriad	75
11.5.	Y trothwy ar gyfer rhoi rhyddhad.....	75
11.6.	Dyfarniadau a gorchmynion.....	76
12.	Rhwymedïau	79

12.1.	Rhagarweiniad	79
12.2.	Gorchymyn gorfodol	79
12.3.	Gorchymyn dileu	79
12.4.	Gorchymyn gwahardd	80
12.5.	Datganiad.....	80
12.6.	Datganiad o anghydnawsedd	81
12.7.	Gwaharddeb.....	82
12.8.	Iawndal.....	82
12.9.	Caniatáu rhwymedïau	83
12.10.	Rhwymedïau pan na fyddai'r canlyniad wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd amdano wedi digwydd.....	83
13.	Rheoli Achosion	84
13.1.	Rheoli achosion yn y Llys Gweinyddol.....	84
13.2.	Dyletswyddau'r partïon.....	85
13.3.	Rôl staff Swyddfa'r Llys Gweinyddol.....	86
13.4.	Rôl cyfreithwyr Swyddfa'r Llys Gweinyddol.....	86
13.5.	Meistr y Llys Gweinyddol.....	88
13.6.	Rôl y Farnwriaeth	89
13.7.	Ceisiadau unwaith y mae hawliad wedi cychwyn.....	89
13.8.	Ceisiadau i atal hawliad.....	90
13.9.	Rhyddhad o sancsiynau	91
13.10.	Camddefnyddio prosesau'r Llys.....	92
13.11.	Cyfathrebiadau sy'n ddifriol neu sy'n amhriodol mewn rhyw ffordd arall	92
14.	Rhestru.....	94
14.1.	Polisi rhestru	94
14.2.	Y drefn restru	94
14.3.	Llysoedd Adrannol.....	95
14.4.	Gwneud cais i ohirio gwrandawriad a restrwyd.....	96
RHAN C: PWYNTIAU YMARFER PENODOL		97
15.	Dyletswydd i fod yn ddiwyll a chydweithredu â'r Llys.....	97
15.1.	Y ddyletswydd	97
15.2.	Y ddyletswydd fel y mae'n berthnasol i hawlwr a'u cynrychiolwyr	97
15.3.	Y ddyletswydd fel y mae'n berthnasol i ddiffynyddion sy'n awdurdodau cyhoeddus a'u cynrychiolwyr.....	98
15.4.	Partïon â budd.....	100
15.5.	Golygu.....	100
16.	Rhyddhad interim.....	101
16.1.	Pryd y mae rhyddhad interim yn briodol?	101
16.2.	Gwneud cais am ryddhad interim cyn cychwyn hawliad	101
16.3.	Ceisiadau am gymorth interim a wneir ar yr un pryd â ffeilio hawliad.....	102
16.4.	Ceisiadau am ryddhad interim a wneir ar ôl i hawliad gychwyn	102
16.5.	Y broses ar gyfer penderfynu ceisiadau am ryddhad interim	102
16.6.	Y meini prawf ar gyfer penderfynu ceisiadau am ryddhad interim.....	103
16.7.	Herio penderfyniad a wnaed ynghylch cais am ryddhad interim	103
.		
16.8.	Achosion symud ymaith.....	104

17.	Achosion brys	106
17.1.	Cyffredinol.....	106
17.2.	Asesu a yw achos yn un brys ac, os felly, pa mor frys.....	106
17.3.	Y cais am ystyriaeth frys.....	107
17.4.	Y dogfennau sydd raid eu cynnwys gyda'r cais	108
17.5.	Sut i ffeilio'r cais a bwndel y cais	108
17.6.	Cyflwyno'r cais	109
17.7.	Y Llys yn ystyried y cais	109
17.8.	Ceisiadau y tu allan i oriau	110
18.	Cymryd camau gweithredu yn erbyn cynrychiolwyr proffesiynol am gamddefnyddio prosesau'r Llys.....	111
18.1.	Awdurdodaeth <i>Hamid</i> : cyffredinol.....	111
18.2.	Awdurdodaeth <i>Hamid</i> : camddefnyddio'r broses ystyriaeth frys.....	112
18.3.	Camau gweithredu rheolyddion proffesiynol	113
20.	Dadleuon fframwaith a dogfennau angenrheidiol eraill	123
20.1.	Cyffredinol.....	123
20.2.	Cynnwys dadleuon fframwaith.....	123
20.3.	Hyd a fformat dadleuon fframwaith.....	124
20.4.	Ffeilio a chyflwyno dadleuon fframwaith	125
20.5.	Dogfennau angenrheidiol eraill	125
21.	Dogfennau.....	127
21.1.	Bwndeli: cyffredinol	127
21.2.	Bwndel y gwrandawriad.....	127
21.3.	Gwrandawiadau Eraill	128
21.4.	Fformat bwndeli.....	128
21.5.	Sut i gyflwyno bwndeli electronig.....	129
21.6.	Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain	131
21.7.	Sanctsiynau am beidio â chydymffurfio	131
22.	Awdurdodau	132
22.1.	Cyffredinol.....	132
22.2.	Gwrandawiadau sylfaenol	132
22.3.	Gwrandawiadau Eraill	133
22.4.	Fformat bwndeli awdurdodau	133
22.5.	Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain	133
22.6.	Sanctsiynau.....	133
23.	Tystiolaeth	134
23.1.	Tystiolaeth tystion.....	134
23.2.	Tystiolaeth arbenigol	135
RHAN D: DOD Â HAWLIAD I BEN.....		138
24.	Dod â Hawliad i Ben	138
24.1.	Rhagarweiniad	138
24.2.	Y Llys yn penderfynu.....	138
24.3.	Dirwyn i ben	138

24.4.	Gorchmynion cydsynio ac achosion diwrthwynebiad	139
24.5.	Setliadau ar ran plant a phartïon a warchodir	140
24.6.	Pwyntiau ymarfer eraill	141
25.	Costau	142
25.1.	Atebolrwydd am gostau	142
25.2.	Costau rhesymol a sail yr asesiad	143
25.3.	Asesiad diannod ac asesiad manwl.....	144
25.4.	Gorchmynion costau ar y cam caniatâd.....	146
25.5.	Costau ar ôl i hawliad gael ei setlo	147
25.6.	Partïon â budd a chostau	147
25.7.	Gorchmynion costau o blaid ac yn erbyn ymyrwyr.....	148
25.8.	Gorchmynion nad ydynt yn sôn am gostau.....	149
25.9.	Ceisiadau i roi gorchmynion costau o'r neilltu	149
25.10.	Gorchmynion costau pan fydd y parti sy'n talu yn cael Cymorth Cyfreithiol.....	149
25.11.	Gorchmynion bod costau i'w talu o Gronfeydd Canolog (achosion troseddol yn unig)	150
25.12.	Gorchmynion costau yn erbyn llysoedd, tribiwnlysoedd neu grwneriaid	151
25.13.	Gorchmynion costau a wastraffwyd	151
25.14.	Gorchmynion costau pan gynrychiolir parti ar sail <i>pro bono</i>	151
25.15.	Hawliadau cyfraith amgylcheddol.....	152
26.	Apeliadau	155
26.1.	Apeliadau mewn achosion sifil.....	155
26.2.	Herio penderfyniad i ganiatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol.....	155
26.3.	Apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol	155
26.4.	Apelio yn erbyn gorchmynion rheoli achosion.....	156
26.5.	Apelio yn erbyn gorchmyn interim a wnaed gan Feistr.....	156
26.6.	Apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed yng ngwrandawriad sylfaenol cais am adolygiad barnwrol	157
26.7.	Apelio mewn achosion neu faterion troseddol	157
	Atodiad 1 – Manylion Cyswllt.....	159
	Atodiad 2 - Ffurflenni a Ffioedd	162
	Atodiad 3 – Cyfeiriadau ar gyfer Cyflwyno i Adrannau Llywodraeth Ganolog	163
	Atodiad 4 – Polisi Rhestru'r Llys Gweinyddol.....	166
	Atodiad 5 – Traddodi Dyfarniadau'r Llys Gweinyddol yng Nghymru	176
	Atodiad 6 – Adolygiad Barnwrol yn yr Uwch Dribiwnlys.....	177
	Atodiad 7 – Y Llys Gweinyddol: Gwybodaeth i Ddefnyddwyr y Llys.....	179.
A.	BWNDELI ELECTRONIG	
	(Cyfarwyddyd Ymarfer 54A, §§ 4.5 a 15; Cyfarwyddyd Ymarfer 54B, §1.3)	180

B.....	181
Trefniadau ar ffeilio ac ymateb i hawliadau, apeliadau a cheisiadau	182
C. CEISIADAU I'W HYSTYRIED AR FRYS	182
D. GWAITH NAD YW'N FRYD: HAWLIADAU AC APELIADAU SIFIL	183
Ffeilio hawliadau, apeliadau a cheisiadau nad ydynt yn rhai brys	184
Ymateb i hawliadau, apeliadau neu rybuddion cyflwyno cais	185
Ffeilio hawliadau a chychwyn ceisiadau ac apeliadau drwy achos datganedig	185
Ymateb i hawliadau ac apeliadau drwy achos datganedig.....	186
Ffeilio apeliadau a chodi Rhybuddion Cyflwyno Cais	187
Ceisiadau papur	188
Gwrandawliadau	188
Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd (dros y ffôn neu e-bost).....	189
Defnyddio cyfrif PBA i dalu.....	189
Ymweld â chownter y Swyddfa Ffioedd (Llysoedd Barn Brenhinol, Llundain yn unig)	189
Help i dalu ffioedd.....	190
Atodiad 8 – Sut i gysylltu â'r Llys Gweinyddol drwy e-bost.....	191

Rhagair i Argraffiad 2022

Hwn yw seithfed argraffiad y Canllaw Adolygiad Barnwrol, sy'n adnodd gwerthfawr i bawb sy'n ymwneud ag achosion sydd gerbron y Llys Gweinyddol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am bob rhan o'r broses o wneud hawliad am adolygiad barnwrol. Mae arferion da'n cael eu hadnabod a pheryglon yn cael eu rhagweld. Mae'n ofynnol i bawb sy'n ymwneud ag achosion adolygiad barnwrol (pa un ai a ydynt yn gyfreithwyr neu beidio) ei ddarllen.

Mae cynhyrchu'r Canllaw hwn yn ddibynnol ar waith nifer o farnwyr, cyfreithwyr a staff y Llys. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Mr Ustus Swift (Prif Farnwr y Llys), a Mr Ustus Chamberlain (golygydd y chweched a'r seithfed argraffiad) am eu cyfraniadau gwerthfawr. Cawsant eu cynorthwyo yn fedrus gan Laura McMullan, cyfreithiwr Swyddfa'r Llys Gweinyddol a wnaeth gasglu a rhoi trefn ar y diwygiadau a Christine Sorrell, Clerc Mr Ustus Chamberlain, a wnaeth gynorthwyo i gynhyrchu'r Canllaw. Mae nifer o farnwyr eraill a staff Llys wedi cyfrannu hefyd. Rwy'n ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gynhyrchu'r Canllaw gwerthfawr hwn sy'n rhan mor bwysig o waith yr Uchel Lys.

Y Gwir Anrhydeddus Y Fonesig Victoria Sharp DBE

Llywydd Adran Mainc y Frenhines

Rhagymadrodd i Argraffiad 2022

Mae'r Canllaw hwn yn rhoi eglurhad cyffredinol o waith ac arferion y Llys Gweinyddol. Ei nod yw cynorthwyo partïon i gynnal hawliadau am adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol, drwy ddod â darpariaethau statudol, rheolau trefniadaeth, cyfarwyddiadau ymarfer a chyfraith achosion perthnasol sy'n ymwneud ag agweddau trefniadol adolygiadau barnwrol at ei gilydd mewn un lle. Mae'n cynnwys canllawiau cyffredinol ar sut y dylid cynnal ymglyfreitha yn y Llys Gweinyddol i gyflawni'r prif amcan o ymdrin ag achosion yn gyfiawn ac am gost gymesur.

Paratowyd y Canllaw gyda holl ddefnyddwyr y Llys mewn golwg, p'un a ydynt yn bobl heb gynrychiolaeth gyfreithiol (a elwir yn "ymglyfreithwyr drostynt eu hunain") neu'n bobl sydd â chynrychiolaeth gyfreithiol. Disgwylir i holl ddefnyddwyr y Llys ddilyn y Canllaw hwn wrth baratoi a chyflwyno eu hachosion.

Mae'r Canllaw yn cyfeirio darllenwyr at adrannau perthnasol y Rheolau Trefniadaeth Sifil a Chyfarwyddiadau Ymarfer cysylltiedig. Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Llys Gweinyddol wedi dod yn un o'r llysoedd arbenigol prysuraf yn yr Uchel Lys. Mae'n hanfodol bwysig bod pawb sy'n barti mewn achos adolygiad barnwrol yn ymwybodol o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ac yn eu dilyn fel y gellir gwneud defnydd effeithlon o adnoddau'r Llys (gan gynnwys amser y barnwyr sy'n eistedd yn y Llys Gweinyddol). Nid yw hyn wedi digwydd bob tro yn y gorffennol, ac o ganlyniad mae'r Llys wedi wynebu problemau. Dyma restru ychydig o enghreifftiau: ceisiadau'n hawlio'n ddiangen eu bod yn rhai brys; dadleuon ysgrifenedig a bwndeli o ddogfennau yn rhy hir; awdurdodau a dadleuon fframwaith yn cael eu ffeilio'n hwyr iawn ac yn y fformat anghywir. Roedd rhaid i'r Llys ailddatgan pwysigrwydd ystyried yn ofalus p'un a yw'n fater brys yn [R \(DVP\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#). Mae'r Llys hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd paratoi datganiadau achos a dadleuon fframwaith cryno. O ran y materion hyn a phynciau eraill, mae'r Canllaw hwn yn nodi'n glir yr hyn a ddisgwylir. Gellir cosbi partïon a/neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol os ydynt yn methu â chydymffurfio.

Mae'r Uwch Dribiwnlys yn parhau i gynnal nifer sylweddol o achosion adolygiad barnwrol. Mae [Atodiad 6](#) yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ei awdurdodaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar achosion mewnfudo.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd adborth adeiladol ar Ganllaw 2021 ac rydym wedi ei ystyried wrth gynhyrchu'r argraffiad hwn. Rydym yn parhau i groesawu adborth, a dylid ei anfon drwy e-bost i GuideFeedback@administrativecourtoffice.justice.gov.uk. Bwriadwn ddiweddarau'r Canllaw hwn o bryd i'r gilydd, fel y bo'n briodol.

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Swift, Prif Farnwr y Llys Gweinyddol

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Chamberlain

Y Llysoedd Barn Brenhinol, Gorffennaf 2022

Rhan a: materion rhagarweiniol

1. Rhagarweiniad

1.1. Y Canllaw Adolygiad Barnwrol

- 1.1.1. Paratowyd y Canllaw hwn o dan gyfarwyddyd Prif Farnwr y Llys Gweinyddol. Mae'n egluro arferion a gweithdrefnau'r Llys Gweinyddol yng nghyswllt achosion adolygiad barnwrol. Fe'i gynhyrchwyd i'w gwneud yn haws i bartïon gynnal achosion o'r fath. Nis fwriedir iddo ddelio â sylwedd cyfraith weinyddol, neu gyfraith gyhoeddus yn fwy cyffredinol. Oherwydd hyn, dylid cyfeirio at yr amryw destunau academiaidd a thestunau ymarferwyr ar y pwnc am ragor o fanylion.
- 1.1.2. Rhaid darllen y Canllaw hwn ochr yn ochr â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil ("CPR") a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ategol. Mae'r Cyfarwyddiadau Ymarfer sy'n mynd law yn llaw â Rhan 54 o'r CPR wedi'u diwygio ers 31 Mai 2021. Rhaid i ymgyfreithwyr a'u cynghorwyr ymgyfarwyddo eu hunain â'r CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer.
- 1.1.3. Nid oes gan y Canllaw rym cyfraith, ond mae'n "waith darllen hanfodol i bawb sy'n ymarfer yn y Llys Gweinyddol".¹ Dylai pawb sy'n cymryd rhan mewn achos yn y Llys Gweinyddol roi sylw iddo.² Fodd bynnag, lle bo hynny'n berthnasol, dylai partïon dynnu sylw'r Llys at reol neu achos penodol ac nid dibynnu ar gyfeirio at y Canllaw hwn yn unig. Mae'r Canllaw yn berthnasol i achosion a wrandewir yn y Llys Gweinyddol ble bynnag y mae'n eistedd ac yn Swyddfeydd y Llys Gweinyddol ("ACOs") ledled Cymru a Lloegr.
- 1.1.4. Mae cynnwys y Canllaw, gan gynnwys unrhyw wefannau, cyfeiriadau e-bost, rhifau ffôn a chyfeiriadau, yn gywir adeg ei gyhoeddi. Bydd y Canllaw yn cael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd.
- 1.1.5. Lle bo'n bosibl, mae fersiwn electronig y ddogfen hon yn cynnwys dolenni i bob dogfen y cyfeirir ati, ac mae ar gael yn [Canllaw Adolygiad Barnwrol y Llys Gweinyddol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/publications/cpr-1-1-1)

1.2. Y Rheolau Trefniadaeth Sifil

- 1.2.1. 1.2.1. Mae'r prif amcan a nodir yn [CPR 1.1\(1\)](#) yn ganolog i bob achos sifil, gan gynnwys hawliadau am adolygiad barnwrol. Mae'n gofyn bod partïon a'r Llys yn ymdrin ag achosion yn gyfiawn a chymesur, gan gynnwys am gost gymesur.
- 1.2.2. Mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil wedi'u rhannu'n Rhannau. Cyfeirir at Ran neilltuol ar ffurf: "CPR Rhan 54". Cyfeirir at reol (a pharagraff) o fewn Rhan ar ffurf: "CPR 54.12(2)". Gallwch weld a darllen y Rheolau Trefniadaeth Sifil

¹ [R \(DVP\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#), [8].

² [R \(AB\) v Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire ac Eraill \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#), [108].

cyfredol ar wefan y Llywodraeth yn
www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/rules.

- 1.2.3. Llywodraethir y drefn adolygiad barnwrol yn bennaf (ond nid yn unig) gan [CPR Rhan 54](#) a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer cysylltiedig. Mae'n angenrheidiol i unrhyw ymgyfreithiwr sy'n ystyried dechrau achos barnwrol ddarllen y rhain. Rhoddir rhagor o fanylion am y darpariaethau hyn drwy'r Canllaw hwn.

1.3. Cyfarwyddiadau Ymarfer

- 1.3.1. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer neu Gyfarwyddiadau Ymarfer gyda'r mwyafrif o Rannau'r CPR, ac mae Cyfarwyddiadau Ymarfer eraill yn delio â materion fel Protocolau Cyn-achos.
- 1.3.2. Gwneir y Cyfarwyddiadau Ymarfer yn unol â statud ac mae ganddynt yr un awdurdod â'r Rheolau Trefniadaeth Sifil eu hunain. Ond, os bydd unrhyw wrthdaro rhwng rheol a Chyfarwyddyd Ymarfer, y rheol fydd drechaf. Cyfeirir at bob Cyfarwyddyd Ymarfer yn y Canllaw â rhif unrhyw Ran y mae'n atodiad iddo o'i flaen. Er enghraifft, cyfeirir at Gyfarwyddyd Ymarfer A sy'n atodiad i CPR Rhan 54 fel CPR 54A PD. Bydd cyfeiriad at is-baragraff penodol mewn Cyfarwyddyd Ymarfer yn cael ei nodi fel CPR 54A PD paragraff 5.1, er enghraifft.
- 1.3.3. Y prif Gyfarwyddiadau Ymarfer sy'n gysylltiedig â CPR Rhan 54 yw [CPR 54A PD \(Adolygiad Barnwrol\)](#), [CPR 54B PD \(Ceisiadau brys a cheisiadau eraill am ryddhad interim\)](#), [CPR 54C PD \(Llys Gweinyddol \(Lleoliad\)\)](#) a [CPR 54D PD \(Hawliadau Llys Cynllunio\)](#).
- 1.3.4. Mae'n angenrheidiol i unrhyw ymgyfreithiwr sy'n ystyried dechrau achos adolygiad barnwrol ddarllen y Cyfarwyddiadau Ymarfer hyn.

1.4. Ffurflenni

- 1.4.1. Mae [CPR 4 PD](#) yn rhestru'r ffurflenni y mae angen eu defnyddio fel arfer o dan y CPR.
- 1.4.2. Mae Atodiad A yn rhestru ffurflenni'r Llys Gweinyddol y cyfeirir atynt ac sy'n ofynnol yn ôl y CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer. Mae'n bosibl y bydd ACO yn darparu ffurflenni eraill ac na fydd y rhain ar gael ar-lein.
- 1.4.3. Y ffurflenni N a ddefnyddir amlaf gydag achosion adolygiad barnwrol yw:
- N461 Ffurflen Hawlio Adolygiad Barnwrol
 - N461 PC Ffurflen Hawlio Adolygiad Barnwrol (Llys Cynllunio)
 - N462 Cydnabyddiad Cyflwyno - Adolygiad Barnwrol
 - N462 PC Cydnabyddiad Cyflwyno - Adolygiad Barnwrol (Llys Cynllunio)
 - N463 Adolygiad Barnwrol – cais am ystyriaeth frys
 - N463 PC Adolygiad Barnwrol – cais am ystyriaeth frys (Llys Cynllunio)
 - N464 Cais am gyfarwyddiadau ynghylch lleoliad ar gyfer gweinyddu a phenderfynu
 - N464 PC Cais am gyfarwyddiadau ynghylch lleoliad ar gyfer gweinyddu a phenderfynu (Llys Cynllunio)

1.4.4. Mae angen y ffurflenni N cyffredinol canlynol hefyd wrth wneud cais am adolygiad barnwrol:

- N215 Tystysgrif cyflwyno
- N244 Rhybudd cyflwyno cais
- N260 Datganiad costau (Asesiad Diannod)
- N279 Rhybudd dirwyn achos i ben
- N434 Rhybudd newid cynrychiolydd cyfreithiol

1.4.5. 1.4.5. Mae'r ffurflenni y cyfeirir atynt yn [CPR 4 PD](#) ar gael ar wefan ACO: www.gov.uk/government/collections/administrative-court-forms

1.4.6. Mae yna rai ffurflenni sydd heb eu rhestru yn y rheolau ac y mae'n rhaid i ymarferwyr eu defnyddio. Dwy ffurflen bwysig yw Ffurflen QBD OHA, a ddefnyddir ar gyfer gwneud cais y tu allan i oriau (gweler [paragraff 17.8](#) yn y Canllaw hwn), a Ffurflen 86b a ddefnyddir i wneud cais am wrandawriad llafar pan wrthodir rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar sail y papurau (gweler [paragraff 9.2](#) yn y Canllaw hwn).

1.5. Ffioedd

- 1.5.1. O dan [Orchymyn Achosion Sifil \(Ffioedd\) 2008 Rhif 1053 \(L.5\)](#) (wedi'i ddiwygio), mae'n ofynnol i ACO godi ffioedd ar gamau penodol mewn achos neu pan fydd parti'n gofyn am orchymyn gan y Llys. Nodir y ffioedd perthnasol (adeg cyhoeddi'r Canllaw hwn) yn [Atodiad 2](#).³ I weld beth yw'r ffioedd cyfredol, ewch i wefan y Llys Gweinyddol yn <https://www.gov.uk/government/publications/fees-in-the-civil-and-family-courts-full-list-ex50a>.
- 1.5.2. Gall fod gan rai ymgyfreithwyr hawl i beidio â thalu ffioedd.⁴ Mae canllawiau ar hawl parti i beidio â gorfod talu ffioedd yn ffurflen EX160A a gall ymgyfreithwyr wneud cais ar-lein yn <https://www.gov.uk/help-i-dalu-ffioedd-llysoedd-a-thribiwnlysoedd>. Dylai ymgyfreithwyr fod yn ymwybodol y gallai fod cymorth rhag talu pob ffi ar gael, heblaw am ffioedd copïo (ac eithrio yn achos ymgyfreithwyr blinderus a rhai sy'n destun Gorchymyn Atal Sifil, lle mae gwahanol reolau'n berthnasol, gweler [paragraff 5.1.6](#) yn y Canllaw hwn).
- 1.5.3. Ni ddylid drysu rhwng ffioedd y llys â chostau rhwng partïon, sy'n gallu bod yn sylweddol fwy na ffioedd Llys. Trafodir costau ym [Mhennod 25](#) yn y Canllaw hwn.

³ Mae'r ffioedd i'w gweld yn [Atodlen 1 i Orchymyn Achosion Sifil \(Ffioedd\) 2008](#) (wedi'i ddiwygio).

⁴ Mae'r darpariaethau ar gyfer dileu ffioedd i'w gweld yn [Atodlen 2 i Orchymyn Achosion Sifil \(Ffioedd\) 2008](#) (wedi'i ddiwygio).

- 1.5.4. Disgwylir i ymgyfreithiwr drosto'i hun gydymffurfio â'r gofynion i ddefnyddio'r ffurflen gywir ac i dalu ffioedd, yn union fel ymgyfreithiwr gyda chynrychiolydd cyfreithiol. Felly, dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ymgyfarwyddo eu hunain â'r rhannau hynny o'r Canllaw hwn sy'n berthnasol i'w hawliad, ac â'r gofynion perthnasol.

1.6. Cyfrifo terfynau amser

- 1.6.1. Oni bod y cyfnod penodedig yn 5 niwrnod neu lai, bydd unrhyw gyfeiriad at ddiwrnodau neu ddyddiau yn y CPR, y Cyfarwyddiadau Ymarfer neu yn y Canllaw hwn yn gyfeiriad at ddyddiau neu ddiwrnodau calendr clir, sy'n cynnwys penwythnosau a gwyliau banc.⁵
- 1.6.2. Nid yw dyddiad cyflwyno dogfen yn golygu'r dyddiad pan fydd y ddogfen yn cyrraedd y Llys. Pan fydd dogfen wedi'i hanfon drwy'r post, ystyrir mai'r dyddiad cyflwyno yw'r ail ddiwrnod gwaith ar ôl y diwrnod yr anfonwyd y ddogfen.⁶

1.7. Y Llys Gweinyddol

- 1.7.1. Mae'r Llys Gweinyddol yn rhan o Adran Mainc y Frenhines yn yr Uchel Lys (un o 3 adran yr Uchel Lys ynghyd ag Adran y Siawnsri a'r Adran Deulu). Mae'r Llys Gweinyddol yn gwrando ceisiadau am adolygiad barnwrol⁷ ynghyd â rhai apeliadau statudol a cheisiadau sydd y tu allan i gylch gwaith y Canllaw hwn.
- 1.7.2. Adolygiad barnwrol yw'r weithdrefn lle gall unigolyn, cwmni neu sefydliad herio cyfreithlondeb penderfyniad neu weithred arall unigolyn neu gorff y mae ei bwerau yn cael ei lywodraethu gan gyfraith gyhoeddus. Yma, fe gyfeirir at unigolion a chyrrff sy'n atebol i adolygiad barnwrol fel "cyrrff cyhoeddus".
- 1.7.3. Y Gwir Anrhydeddus Y Fonesig Victoria Sharp DBE yw Llywydd Adran Mainc y Frenhines ("y Llywydd"). Mr Ustus Swift yw Prif Farnwr y Llys Gweinyddol ("Prif Farnwr"). Mrs Ustus Steyn DBE yw Barnwr Cyswllt Canolbarth Lloegr a Chymru a De Orllewin Lloegr. Mr Ustus Fordham yw Barnwr Cyswllt Gogledd a Gogledd Ddwyrain Lloegr.
- 1.7.4. Gan amlaf mae achosion yn y Llys Gweinyddol yn cael eu gwrando gan un Barnwr Uchel Lys neu gan farnwr neu ddirprwy farnwr arall sydd wedi'i awdurdodi i eistedd yn y Llys Gweinyddol.
- 1.7.5. Mae hawliadau am adolygiad barnwrol sy'n herio penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwrando yn y Llys Cynllunio arbenigol, sy'n rhan o'r Llys Gweinyddol.
- 1.7.6. Mae rhai achosion yn y Llys Gweinyddol yn cael eu gwrando gan Lys Adrannol, sydd fel arfer yn cynnwys un Arglwydd neu Arglwyddes Ustus Apêl (neu'r Llywydd) ac un Barnwr Uchel Lys.

⁵ Gweler [CPR 2.8](#) am ragor o fanylion ac enghreifftiau.

⁶ [CPR 6.14](#) a [CPR 6.26](#).

⁷ Gweler paragraff [6.5](#), [6.6](#) a [6.7](#) yn y Canllaw hwn, lle trafodir yr esemptiadau.

- 1.7.7. Os yw parti o'r farn mai Barnwr Uchel Lys ddylai wrando ei achos (yn hytrach na barnwr arall), neu Lys Adrannol, yna dylid hysbysu'r ACO cyn gynted â phosibl, gan roi rhesymau.

1.8. Swyddfa'r Llys Gweinyddol

- 1.8.1. Rheolir achosion adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol gan ACO. Rhaid ffeilio pob dogfen gydag ACO a rhaid cyfeirio unrhyw ymholiad ynghylch achos at ACO (nid at y farnwriaeth yn uniongyrchol).
- 1.8.2. Mae ACO a'i staff yn rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ("GLITEM/HMCTS") sydd, yn ei dro, yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ("MOJ"). Mae swyddfeydd ACO yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham, Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, Canolfan Llys Cyfun Leeds, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion ac yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain. Mae manylion cyswllt y Canolfannau hyn i'w gweld yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 8](#) i'r Canllaw hwn.
- 1.8.3. Mae ACO ar agor ar gyfer busnes rhwng 10am a 4.30pm (rhwng 10am a 4pm yng nghyswllt ACOs y tu allan i Lundain) bob dydd gydol y flwyddyn ac eithrio:⁸
- 1.8.3.1. Pob dydd Sadwrn a dydd Sul;
- 1.8.3.2. Dydd Gwener y Grogolith;
- 1.8.3.3. Dydd Nadolig;
- 1.8.3.4. un diwrnod arall dros gyfnod y Nadolig i'w benderfynu'n unol â'r tabl sy'n atodol i [CPR 2A PD](#). Bydd hyn yn dibynnu ar ba ddiwrnod o'r wythnos y mae dydd Nadolig;
- 1.8.3.5. gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr;
- 1.8.3.6. unrhyw ddiwrnodau eraill ar gyfarwyddyd yr Arglwydd Ganghellor, gyda chytundeb uwch-aelodau o'r farnwriaeth.

1.9. Y farnwriaeth a'r Meistr

- 1.9.1. Mae'r farnwriaeth yn y Llys Gweinyddol yn cynnwys Barnwyr yr Uchel Lys (fe'u hanerchir fel "Yr Anrhydeddus Mr / Mrs Ustus ...") ynghyd â barnwyr a dirprwy farnwyr eraill a awdurdodwyd i eistedd yn y Llys Gweinyddol. Pan fydd y Canllaw hwn yn cyfeirio at farnwr neu farnwyr, bydd yn cynnwys y rhain i gyd. Anerchir pob barnwr yn y Llys fel "Fy Arglwydd" neu "Fy Arglwyddes".
- 1.9.2. Yn y Llysoedd Barn Brenhinol, ceir hefyd Feistr y Llys Gweinyddol, a'r un presennol yw Meistr Gidden. Fel rheol mae'n ymdrin â cheisiadau interim a cheisiadau cyn-achos ac fe'i anerchir yn y Llys fel 'Meistr'.

⁸ [CPR 2A PD paragraff 2](#)

2. Trylwyredd Gweithdrefnol

2.1. Yr angen i gadw at y rheolau

- 2.1.1. Mae achosion adolygiad barnwrol yn wahanol i achosion cyfraith breifat oherwydd yn nodweddiadol nid buddion y parti yn yr ymgyfreitha yn unig yw'r buddion sydd dan sylw. Gan ddibynnu ar y cyd-destun, gall yr achos effeithio ar drydydd partïon. Efallai y bydd angen ystyried budd y cyhoedd hefyd.
- 2.1.2. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y bydd y Llys yn anwybyddu neu'n goddef achosion o dorri cyfarwyddiadau'r Llys neu rywmedigaethau a osodwyd gan y CPR, Cyfarwyddiadau Ymarfer neu'r Canllaw hwn. Mae'r llysoedd apeliadol wedi pwysleisio'r angen am drylwyredd gweithdrefnol mewn achosion adolygiad barnwrol.⁹
- 2.1.3. Adlewyrchir pwysigrwydd trylwyredd gweithdrefnol mewn nifer o adrannau yn y Canllaw hwn. Yn benodol, tynnir sylw at yr angen i weithwyr proffesiynol cyfreithiol ac ymgyfreithwyr drostynt eu hunain:
 - 2.1.3.1. ystyried yn ofalus pwy yw'r partïon priodol mewn unrhyw hawliad (gweler [paragraff 3.2](#) yn y Canllaw hwn);
 - 2.1.3.2. cydymffurfio'n llwyr â'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll bob amser, ond yn enwedig wrth wneud ceisiadau am ystyriaeth frys (gweler [paragraff 17.3.3](#) yn y Canllaw hwn);
 - 2.1.3.3. sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwneud cyn gynted â phosibl ac nad ydynt yn cael eu gadael tan y funud olaf (er enghraifft, gweler [paragraff 13.7](#) am geisiadau i ymestyn amser; [paragraff 23.2](#) am geisiadau i ddwyn tystiolaeth arbenigol);
 - 2.1.3.4. cydymffurfio â therfynau amser a bennir gan gyfarwyddyd y Llys, y CPR neu Gyfarwyddyd Ymarfer a gwneud cais am ryddhad rhag sancsiynau pan fydd dogfennau'n cael eu ffeilio'n hwyr (gweler [paragraff 13.7.7](#), ac [13.9](#) yn y Canllaw hwn);
 - 2.1.3.5. ffeilio dogfennau ac awdurdodau ar ffurf copi caled ac yn electronig yn y fformat cywir (gweler [paragraff 20.3](#), [21.4](#) a [22.4](#)).

2.2. Sancsiynau

- 2.2.1. Os yw partïon, neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol, yn methu â chydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol a osodir gan y CPR, y Cyfarwyddiadau Ymarfer neu'r Canllaw hwn, mae gan y Llys ystod o sancsiynau sydd ar gael iddo, gan gynnwys y pŵer i:

⁹ [R \(Spahiu\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 2604](#), [2019] 1WLR 1297, [2]; [R \(Talpada\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 841](#), [67]; [R \(Dolan\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2020\] EWCA Civ 1605](#), [2021] 1 WLR 2326, [116]-[120]; a [R \(AB\) Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#), [108].

- 2.2.1.1. wrthod derbyn dogfennau a ffeiliwyd yn y fformat anghywir (gweler [paragraff 7.3.9](#), [20.4.5](#), [21.4.5](#), [21.7.1](#) a [22.6.1](#) yn y Canllaw hwn) neu'n hwyr (gweler [paragraff 20.4.5](#), [21.2.5](#), [21.7.1](#) a [22.6.1](#) yn y Canllaw hwn);
- 2.2.1.2. gosod gorchmynion costau niweidiol yn erbyn parti (gweler [paragraff 24.1](#) yn y Canllaw hwn) neu orchymyn cost wedi'i wastraffu yn erbyn cynrychiolydd cyfreithiol (gweler [paragraff 25.13](#) yn y Canllaw hwn); a
- 2.2.1.3. cyfeirio cynrychiolydd cyfreithiol at y rheolydd proffesiynol priodol (gweler [Pennod 18](#) yn y Canllaw hwn).

3. Y Partion

3.1. Adnabod y partion

- 3.1.1. Pwrpas rhan hon y Canllaw yw rhoi cyfarwyddyd ar bwy ddylai'r partion fod mewn hawliad am adolygiad barnwrol. Mae adnabod y partion yn gywir yn sicrhau y cynhelir trafodaethau cyn-achos rhwng y bobl iawn (gweler y cyfeiriad at y Protocol Cyn-achos ym [mharagraff 6.2](#) yn y Canllaw hwn). Mae hefyd yn sicrhau bod unrhyw ddogfennau Llys yn cyfeirio at y partion gywir.

3.2. Y partion

3.2.1. Hawlydd (Hawlwyrr)

- 3.2.1.1. Hawlwyr yw'r bobl hynny sy'n dymuno herio ymddygiad corff cyhoeddus yn y Llys Gweinyddol (am ragor o wybodaeth am "fudd digonol", gweler [paragraff 6.3.2](#) yn y Canllaw hwn).
- 3.2.1.2. Gall yr hawlydd fod yn unrhyw unigolyn neu gwmni corfforedig (a elwir hefyd yn gorfforaeth). Gall partneriaethau ddwyn achos yn enw'r bartneriaeth.
- 3.2.1.3. Gall y Llys ganiatáu i gymdeithasau anghorfforedig (heb bersonoliaeth gyfreithiol) ddwyn achos adolygiad barnwrol yn eu henw eu hunain.¹⁰ Ond mae'n well, a gallai'r Llys fynnu bod achos yn cael ei ddwyn yn enw un unigolyn neu fwy, er enghraifft daliwr swydd neu aelod o'r gymdeithas, neu gan gwmni cyfyngedig preifat a ffurfiwyd gan unigolion. Gellir gwneud gorchmynion costau yn erbyn y parti / partion a enwir fel yr hawlydd (hawlwyrr).
- 3.2.1.4. Gall corff cyhoeddus fod yn hawlydd mewn achos adolygiad barnwrol. Mae gan y Twrnai Cyffredinol bwerau cyfraith gwlad i ddwyn achos. Gall awdurdod lleol ddwyn achos o dan [a.222 Deddf Llywodraeth Leol 1972](#).

3.2.2. Diffynnydd/Diffynyddion

- 3.2.2.1. Y diffynnydd yw'r corff cyhoeddus y mae ei ymddygiad yn cael ei herio, nid yr unigolyn a wnaeth y penderfyniad yn y corff cyhoeddus hwnnw.
- 3.2.2.2. Pan fydd y penderfyniad wedi'i wneud gan un o Adrannau'r Llywodraeth, yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol yw'r diffynnydd. Felly, hyd yn oed os mai penderfyniad a wnaed gan was sifil sy'n gweithio yn y Swyddfa Gartref, er enghraifft, sy'n cael ei herio, Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref fyddai'r diffynnydd.¹¹

¹⁰ [Aireborough Neighbourhood Development Forum v Cyngor Dinas Leeds \[2020\] EWHC 45 \(Admin\)](#), [29].

¹¹ Mae'r system gyfan o weinyddiaeth a threfniadaeth adrannol yn seiliedig ar y syniad cyfansoddiadol fod penderfyniad gan swyddog y llywodraeth, yn gyfansoddiadol, yn benderfyniad gan y Gweinidog ac yntau neu

- 3.2.2.3. Os mai ymddygiad llys neu dribiwnlys sy'n cael ei herio, yna y llys neu'r tribiwnlys fydd y diffynnydd. Gelwir parti'r ochr arall yn yr achos yn 'barti â budd' (gweler isod yn [3.2.3.2.](#)).

3.2.3. Partïon â budd

- 3.2.3.1. Parti â budd yw unrhyw un (gan gynnwys corfforaeth neu bartneriaeth), ac eithrio'r hawlydd neu'r diffynnydd, y mae'r hawliad yn "effeithio'n uniongyrchol" arno neu arni.¹² Mae "effeithio'n uniongyrchol" yn golygu "wedi'i effeithio heb ymyrraeth unrhyw asiantaeth gyfryngol".¹³ Er enghraifft, pan fydd hawlydd yn herio penderfyniad awdurdod lleol sy'n ddiffynnydd i roi caniatâd cynllunio i drydydd parti, mae'r hawliad yn effeithio'n uniongyrchol ar y trydydd parti oherwydd byddai'r rhyddhad a geisir yn effeithio ar ei hawliau cyfreithiol, felly mae'n rhaid iddynt gael eu henwi fel parti â budd.
- 3.2.3.2. Os mai llys neu dribiwnlys yw'r diffynnydd, rhaid enwi unrhyw barti'r ochr arall yn y llys neu'r tribiwnlys is yn barti â budd yn yr hawliad am adolygiad barnwrol.¹⁴
- 3.2.3.3. Rhaid cynnwys partïon â budd mewn gohebiaeth cyn-achos a'u henwi yn y Ffurflen Hawlio. Hefyd, rhaid cyflwyno'r Ffurflen Hawlio i bartïon â budd.¹⁵

3.2.4. Ymyrwyr

- 3.2.4.1. Mewn achos adolygiad barnwrol, mae gan y Llys bŵer i dderbyn tystiolaeth a chyflwyniadau gan bobl sydd ddim yn barti i'r achos. Gall unrhyw un wneud cais, o dan [CPR 54.17](#) am ganiatâd i gyflwyno sylwadau neu ffeilio tystiolaeth. Dylid gwneud unrhyw gais o'r fath drwy lenwi Rhybudd Cyflwyno Cais. Rhaid gwneud hyn yn brydlon.¹⁶ Mae yna gostau i'w hystyried hefyd (gweler paragraff [25.7](#) yn y Canllaw hwn).
- 3.2.4.2. Dylai ymyrwyr posibl sicrhau bod yr holl bartïon yn ymwybodol o'r cais arfaethedig o'r cam cynharaf.
- 3.2.4.3. Dylai'r Rhybudd Cyflwyno Cais egluro pwy yw'r ceisydd a nodi pam ac ar ba ffurf y mae'r ceisydd eisiau cymryd rhan yn y gwrandawriad (e.e. trwy wneud cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig neu drwy wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a ffeilio tystiolaeth).

hithau'n unig sy'n atebol i'r Senedd. Gelwir yr egwyddor hon yn egwyddor Carltona: gweler *Carltona Ltd v Commissioners of Works* [1943] 2 All ER 560.

¹² [CPR 54.1\(2\)\(f\)](#).

¹³ *R v Rent Officer Service ex p. Muldoo* [1996] 1 WLR 1103, 1105.

¹⁴ [CPR 54A PD paragraff 4.6\(2\)](#).

¹⁵ [CPR 54.7\(b\)](#).

¹⁶ [CPR 54.17\(2\)](#).

- 3.2.4.4. Dylai'r cais gynnwys crynodeb o'r sylwadau y mae'r ymyrrwr posibl yn bwriadu eu gwneud yn y gwrandawriad a chopi o unrhyw dystiolaeth y mae'r ymyrrwr posibl yn bwriadu ei ffeilio a'i chyflwyno, gydag esboniad o berthnasedd y dystiolaeth honno i'r materion yn yr achos.
- 3.2.4.5. Os yw'r ceisydd sy'n dymuno ymyrryd yn gwneud cais am orchymyn costau sy'n wahanol i'r darpariaethau a wnaed gan [adran 87 Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015](#), rhaid i'r cais gynnwys copi o'r gorchymyn y gwneir cais amdano a'r seiliau dros ei geisio.

3.3. Hawlwyr / diffynnyddion / partïon â budd lluosog

- 3.3.1. Gall un hawlydd neu, mewn amgylchiadau priodol, mwy nag un hawlydd, ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol. Er enghraifft, gallai fod yn briodol i fwy nag un hawlydd ddwyn hawliad os yw'r penderfyniad sy'n cael ei herio yn effeithio ar nifer o unigolion gwahanol. Fodd bynnag, dylai partïon gofio bod angen sicrhau bod hawlwr yn gyfyngedig i'r rhai sydd yn y sefyllfa orau i ddwyn yr hawliad. Nid yw'n briodol ychwanegu partïon dim ond i godi proffil yr ymgyfreitha neu i'w gwneud hi'n haws codi arian. Gall y Llys wrthod cytuno i dderbyn partïon ychwanegol o'r fath.¹⁷
- 3.3.2. Gellir dwyn hawliad yn erbyn un diffynnydd neu, mewn amgylchiadau priodol, yn erbyn dau ddiffynnydd neu fwy. Gallai hyn fod yn briodol, er enghraifft, pan fydd dau gorff neu fwy yn gyfrifol am yr ymddygiad sy'n cael ei herio.
- 3.3.3. O bryd i'w gilydd gall amgylchiadau godi sy'n ei gwneud yn briodol cyfuno nifer o wahanol heriau gan wahanol hawlwr yn erbyn diffynnyddion gwahanol yn un hawliad unigol am adolygiad barnwrol. Yn gyffredinol, ni fydd hyn ond yn briodol os yw'n gyfleus ymdrin â'r gwahanol heriau gyda'i gilydd.
- 3.3.4. Os bydd hawlydd yn ystyried bod yr hawliad yn effeithio'n uniongyrchol ar rywun, mae'n rhaid i'r hawlydd enwi'r unigolyn hwnnw fel parti â budd a chyflwyno'r Ffurflen Hawlio arno/arni.¹⁸ Mae'n rhaid i ddiffynnydd hefyd enwi unrhyw unigolyn y mae'r diffynnydd yn ei ystyried yn barti â budd oherwydd bod y penderfyniad sy'n cael ei herio yn effeithio'n uniongyrchol arno/i yn y Cydnabyddiad Cyflwyno¹⁹ a bydd y Llys yn ystyried gwneud yr unigolyn hwnnw'n barti â budd pan fydd yn penderfynu'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.
- 3.3.5. Os nad yw unigolyn sy'n ddiffynnydd neu'n barti â budd posibl wedi'i enwi neu wedi'i gyflwyno â'r Ffurflen Hawlio, gall y Llys gyfarwyddo ei fod ef neu hi yn cael ei ychwanegu fel parti a bod yr hawliad yn caei ei gyflwyno arno/arni.

¹⁷ Gweler [paragraff 6.3.2](#) yn y Canllaw hwn.

¹⁸ [CPR 54.6](#) a [54.7](#).

¹⁹ [CPR 54.8\(4\)\(ii\)](#).

Pan fydd hyn yn digwydd, gall y parti â budd wneud sylwadau neu gyflwyno Cydnabyddiad Cyflwyno.²⁰

3.4. Teitlau achosion

- 3.4.1. Mewn achosion adolygiad barnwrol, mae teitl achos yn wahanol i achosion sifil eraill i adlewyrchu'r ffaith mai fersiwn fodern o weithdrefn hanesyddol yw adolygiad barnwrol lle mae Barnwriaeth Ei Mawrhydi yn gweithredu mewn capasiti goruchwylol i sicrhau bod pwerau cyhoeddus yn cael eu harfer yn briodol. Mae teitl achos yn adlewyrchu hyn:²¹

“Y Frenhines (ar gais X) v Y”, lle mai X yw'r Hawlydd ac Y yw'r Diffynnydd.

- 3.4.2. Yn aml fe ysgrifennir teitl achos fel a ganlyn, gyda R (y Goron) yn dynodi'r Frenhines:

R (ar gais X) v Y ac Eraill; neu R (X) v Y.

- 3.4.3. Ni fydd y Goron yn ymwneud o gwbl â'r hawliad ar ran yr hawlydd. Mater o ddefod bur yw cynnwys enw'r Frenhines yn y teitl.²²

²⁰ [CPR 19.2\(2\)](#) a [CPR 19.2\(4\)](#). Mewn achos priodol, byddai gan gyfreithwyr ACO bwerau i wneud gorchymyn o'r fath o dan [CPR 54.1A](#). Am fanylion ynghylch y gofyniad i gyflwyno'r papurau ar barti newydd, gweler [CPR 5A PD paragraff 3.1](#). Ar gyfer dileu partïon, gweler [CPR 19.2\(3\)](#). Mewn achos priodol, byddai gan gyfreithwyr ACO bwerau i wneud gorchymyn o'r fath o dan [CPR 54.1A](#).

²¹ Rhagnodir y ffurf hon ar deitl achos yng Nghyfarwyddyd Ymarfer (Llys Gweinyddol: Sefydliad) [2000] 1 WLR 1654.

²² [R \(Ben-Abdelaziz\) v Haringey LBC \[2001\] EWCA Civ 803](#), [2001] 1 WLR 1485, [29].

4. Ymglyfreithwyr Drostynt eu Hunain

4.1. Cyffredinol

- 4.1.1. Erbyn hyn, mae llawer o achosion yn y Llys Gweinyddol yn cael eu cynnal gan bartïon nad oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol broffesiynol ac sy'n cynrychioli eu hunain. Gelwir y rhain yn "ymglyfreithwyr drostynt eu hunain". Mae'r rheolau trefniadaeth a'r rheolau ymarfer yr un mor berthnasol i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain ag i bartïon a gynrychiolir gan gyfreithwyr. Mae sawl math o gymorth ar gael i unigolion sy'n dymuno cael cyngor cyfreithiol cyn dwyn hawliad am adolygiad barnwrol. Hefyd bydd y Llys, pan fo hynny'n briodol, yn ystyried y ffaith nad yw parti'n cael ei gynrychioli a bydd yn sicrhau bod parti'n heb gynrychiolaeth yn cael eu trin yn deg.
- 4.1.2. Rhaid i bartïon â chynrychiolaeth drin ymglyfreithwyr drostynt eu hunain yn ystyriol bob amser mewn achos ymglyfreitha. Atgoffir parti'n â chynrychiolaeth o'r arweiniad a gyhoeddwyd gan Gyngor y Bar, CILEx a Chymdeithas y Gyfraith: gweler <https://www.lawsociety.org.uk/topics/civil-litigation/litigants-in-person-guidelines-for-lawyers>.
- 4.1.3. Rhaid i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain hwythau ddangos ystyriaeth a pharch at eu gwrthwynebwyr (p'un ai oes ganddynt gynrychiolaeth gyfreithiol neu beidio), at gynrychiolwyr eu gwrthwynebwyr ac at y Llys.
- 4.1.4. Rhaid i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain roi cyfeiriad cyflwyno yng Nghymru neu Loegr ar y Ffurflen Hawlio. Mae'n hanfodol bod ACO a holl bartïon eraill yr achos yn cael gwybod am unrhyw newid cyfeiriad yn ysgrifenedig, neu efallai ni fydd gohebiaeth bwysig megis hysbysiadau gwrandawladau yn cyrraedd.

4.2. Dyletswydd i gydymffurfio â rheolau trefniadaeth

- 4.2.1. Disgwylir i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain gydymffurfio â'r CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ac mae darpariaethau'r Canllaw hwn yn berthnasol iddynt. Gellir cosbi ymglyfreithwyr drostynt eu hunain am beidio â chydymffurfio â'r rheolau.
- 4.2.2. Felly, dylai ymglyfreithwyr drostynt eu hunain ymglyfarwyddo eu hunain â'r rhannau hynny o'r Canllaw hwn sy'n berthnasol i'w hawliad, a hefyd gofynion perthnasol y CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer.²³ Dyma enghreifftiau o bethau i'w hystyried:
 - 4.2.2.1. Mae'r gofyniad i nodi seiliau her mewn ffordd gydlynol a threfnus (gweler [paragraff 7.3.1](#) yn y Canllaw hwn) yn berthnasol i

²³ [Barton v Wright Hassall LLP \[2018\] UKSC 12](#), [2018] 1 WLR 1119, [18].

ymgyfreithwyr drostynt eu hunain yn yr un modd ag y mae'n berthnasol i ymgyfreithwyr sydd â chynrychiolaeth.

- 4.2.2.2. Mae'r gofyniad i ddarparu'r holl wybodaeth a ffeithiau perthnasol i'r Llys ac i'r partïon eraill yn yr hawliad (a ddisgrifir ym [mharagraff 15.1](#) yn y Canllaw hwn o dan y pennawd "Dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r Llys") yn berthnasol i bob ymgyfreithiwr. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys gofyniad bod partïon yn datgelu i'w gilydd ac i'r Llys ddogfennau a ffeithiau sy'n berthnasol i faterion yr hawliad, hyd yn oed os ydynt yn anffafriol i'w hachos eu hunain. Mae'r ddyletswydd hon yn arbennig o bwysig pan wneir cais i'r Llys heb i'r parti arall fod yn bresennol neu phan na hysbysir y parti arall am y cais ymlaen llaw (fel arfer mewn achosion brys). Yn hyn o beth, mae gan yr ymgyfreithiwr ddyletswydd benodol i dynnu sylw'r Llys at faterion o'r fath.
- 4.2.2.3. Mae gan bob parti mewn achos, p'un a yw'n cael ei gynrychioli neu beidio, ddyletswydd i dynnu sylw'r Llys at bob mater perthnasol ac i beidio â chamarwain y Llys. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, na ddylai partïon gamliwio'r gyfraith a rhaid iddynt felly roi gwybod i'r Llys am unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol neu benderfyniadau blaenorol gan y Llys sy'n berthnasol i'w hachos ac y maent yn ymwybodol ohonynt (p'un a ydynt yn ffafriol i'w hachos neu beidio).

4.3. Y Gwrandawriad

- 4.3.1. Mae'n rhaid i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain roi copïau o unrhyw ddogfen ysgrifenedig (a elwir yn "dadl fframwaith") sy'n nodi'r dadleuon y maent yn bwriadu dibynnu arnynt ac unrhyw ddeunydd arall i gefnogi eu dadleuon (er enghraifft, adroddiadau o achosion) i'r Llys ac i'w gwrthwynebwyr mewn da bryd cyn y gwrandawriad. Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ymgyfarwyddo eu hunain â'r rheolau ynghylch dadleuon fframwaith sydd ym [Mhennod 20](#) yn y Canllaw hwn. Os nad ydynt yn dilyn y rheolau hyn, gallai'r Llys wrthod gwrandawrio'r achos neu gallai ohirio'r achos i roi digon o amser i'r parti neu bartïon eraill ystyried ac ymateb i'r dadleuon neu ddeunydd hwyr. Os bydd y Llys yn gwneud hyn, gall orchymyn bod yr ymgyfreithiwr drosto'i hun yn talu costau'r diffynnydd sy'n gysylltiedig â gohirio'r achos.
- 4.3.2. Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain bennu, cyn y gwrandawriad, pa bwyntiau yw'r rhai cryfaf yn eu barn hwy. Dylent nodi'r pwyntiau hyn yn gyntaf yn eu dadl fframwaith ac mewn cyflwyniadau llafar i'r Llys.
- 4.3.3. Yn y gwrandawriad, gofynnir i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain roi eu henw(au) i'r tywysydd neu i staff cymorth y Llys os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod.
- 4.3.4. Bydd enw'r achos yn cael ei alw allan gan staff y Llys. Yna, bydd y gwrandawriad yn dechrau.
- 4.3.5. Yn y gwrandawriad, yr hawlydd fydd fel arfer yn siarad yn gyntaf, ac yna'r diffynnydd. Yna yn olaf, bydd yr hawlydd yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr

hyn a ddywedodd y diffynnydd. Weithiau gall y barnwr ystyried ei bod yn synhwyrol, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, i amrywio'r drefn honno a gadael i'r diffynnydd, er enghraifft, siarad yn gyntaf.

- 4.3.6. Yn y gwrandawriad, gall y barnwr wneud lwfansau ar gyfer ymgyfreithiwr drosto'i hun i gydnabod yr anawsterau y bydd yn eu hwynebu wrth gyflwyno ei hawliad ei hun. Bydd y barnwr yn caniatáu i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun egluro ei achos neu ei hachos mewn ffordd sy'n deg iddo/i. Efallai y bydd y barnwr yn gofyn cwestiynau iddo/i. Bydd unrhyw barti arall yn y Llys, p'un a yw'n cael ei gynrychioli neu beidio, hefyd yn cael cyfle i wneud cyflwyniadau i'r barnwr. Ar ddiwedd y gwrandawriad bydd y barnwr naill ai yn gwneud dyfarniad llafar neu'n "gohirio'r dyfarniad" (h.y. gohirio'r achos er mwyn llunio dyfarniad ysgrifenedig). Os gwneir gorchymyn yn y gwrandawriad, yna bydd y barnwr fel arfer yn egluro cynnwys y gorchymyn. Dylai cynrychiolwyr y partïon eraill hefyd wneud hynny ar ôl y gwrandawriad os oes angen mwy o esboniad ar yr ymgyfreithiwr drosto'i hun.

4.4. Cymorth ymarferol i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain

- 4.4.1. Nid yw staff y Llys na'r barnwyr mewn sefyllfa i roi cyngor ar sut i gynnal hawliad. Fodd bynnag, mae llawer o gymorth ymarferol ar gael.
- 4.4.2. Mae [Support Through Court](#) yn wasanaeth annibynnol ac am ddim sydd ar gael mewn nifer o adeiladau'r llys i helpu ymgyfreithwyr drostynt eu hunain. Nid ydynt yn rhoi cyngor cyfreithiol ac ni wnânt gynrychioli ymgyfreithiwr, ond gallant roi cymorth drwy gymryd nodiadau, trafod proses y llys a rhoi cymorth gyda ffurflenni. Mae 'Support Through Court' ar gael ym mhob canolfan lys lle gwrandewir y rhan fwyaf o adolygiadau barnwrol (Canolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham, Canolfan Cyfiawnder Sifil Bryste, Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, Canolfan Llys Cyfun Leeds, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion ac yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain) a hefyd mewn rhai adeiladau llys eraill. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.supportthroughcourt.org.
- 4.4.3. Mae Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor ar ystod eang o faterion mewn canolfannau galw heibio, dros y ffôn ac ar-lein (gweler www.citizensadvice.org.uk).
- 4.4.4. Mae Canolfan Cyngor ar Bopeth yn y Llysoedd Barn Brenhinol a fydd, efallai, yn gallu cynnig rhywfaint o gyngor. Mae wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod, ar yr ochr chwith yn y brif neuadd (gweler www.rcjadvise.org.uk).
- 4.4.5. Mae yna ganllawiau ar gael i helpu ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gan gynnwys Canllaw gan Gyngor y Bar ar gynrychioli eich hun yn y Llys (www.thejusticegap.com/wp-content/uploads/2013/07/Bar-Council-guide.pdf).

4.5. Cynrychiolaeth gyfreithiol a chyllid

- 4.5.1. Gellir darparu cynrychiolaeth gyfreithiol mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynrychiolaeth drwy dalu ffi, cymorth cyfreithiol, a chynrychiolaeth pro-bono (h.y. cynrychiolaeth gyfreithiol am ddim).

4.5.2. Cynrychiolaeth drwy dalu ffi

- 4.5.2.1. Bydd cynrychiolwyr cyfreithiol yn gweithredu ar ran parti sy'n talu ffioedd yn uniongyrchol iddynt. Fel arfer, codir am gynrychiolaeth drwy dalu ffi fesul awr neu drwy gytuno ymlaen llaw ar ffi benodedig.
- 4.5.2.2. Bydd rhai cynrychiolwyr cyfreithiol yn cytuno i weithredu ar ran parti o dan gytundeb ffi amodol ("CFA"), a elwir fel arfer yn gytundeb "dim ennill, dim ffi". Bydd cwmni unigol neu fargyfreithwyr yn gallu cadarnhau ar ba sail y byddant yn gweithredu.
- 4.5.2.3. Bydd rhai cyfreithwyr yn cytuno i wneud darn penodol o waith heb gynrychioli'r cleient drwy'r achos i gyd. Er enghraifft, gallai cyfreithiwr fod yn barod i ddrafftio dadl fframwaith i'w defnyddio wedyn gan yr ymgyfreithiwr drosto'i hun yn y gwrandawriad, neu ymddangos mewn gwrandawriad penodol. Gelwir hyn weithiau'n waith "di-fwndel".

4.5.3. Cymorth cyfreithiol (achosion sifil)

- 4.5.3.1. Bydd cynrychiolwyr cyfreithiol unigol yn gallu cadarnhau p'un a allant weithio ar sail cymorth cyfreithiol ac a oes gan hawlydd hawl i wneud cais am gymorth cyfreithiol ac, os felly, y telerau pam y gall gael cymorth cyfreithiol.

4.5.4. Cymorth cyfreithiol (achosion troseddol)

- 4.5.4.1. Nid yw achosion adolygiad barnwrol yn gysylltiedig ag achosion is-lys ac felly ni fydd unrhyw orchymyn cynrychiolaeth a wneir yn yr is-lys yn berthnasol i achos adolygiad barnwrol.²⁴ Ni all y Llys Gweinyddol ei hun wneud gorchymyn cynrychiolaeth, er gallai cymorth cyfreithiol fod ar gael gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

4.5.5. Cyngor a chynrychiolaeth pro bono

- 4.5.5.1. Mae rhai cyfreithwyr a bargyfreithwyr yn fodlon cynnig peth cyngor cyfreithiol pro bono (h.y. am ddim) ar ragolygon hawliad. Bydd cyfreithwyr neu fargyfreithwyr unigol yn gallu cadarnhau a ydynt yn barod i roi cyngor ar y fath delerau.
- 4.5.5.2. Mae yna rai sefydliadau arbenigol sy'n trefnu cyngor a chynrychiolaeth am ddim. Y mwyaf yw: Y Ganolfan Genedlaethol Pro-Bono (www.nationalprobonocentre.org.uk); Advocate (a elwid gynt yn Uned Pro Bono y Bar) (www.weareadvocate.org.uk); a Law Works (www.lawworks.org.uk).

²⁴ [Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Troseddol \(Cyffredinol 2013, rheoliad. 20\(2\)\(a\)\).](#)

- 4.5.5.3. Dylai darpar ymgyfreithwyr nodi mai adnoddau cyfyngedig sydd gan sefydliadau pro bono. Golyga hyn na allant gynnig cymorth i bawb. Gall y broses o wneud cais gymryd amser maith. Mae'r Llys Gweinyddol yn annhebygol o atal hawliad neu ganiatáu estyniad amser ar gyfer ffeilio hawliad i aros am ganlyniad cais am gyngor neu gynrychiolaeth pro-bono.

4.6. Cyfeillion McKenzie

- 4.6.1. Gall ymgyfreithiwr drosto'i hun dderbyn cymorth gan unigolyn heb gymhwyster cyfreithiol; gelwir y bobl hyn yn "Cyfeillion McKenzie". Pan fydd Cyfaill McKenzie yn helpu, rhaid i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun fod yn bresennol yn y gwrandawriad a bod yn gyfrifol am sut y cynhelir yr achos yn y gwrandawriad hwnnw, ond gall y Cyfaill McKenzie roi peth cymorth.
- 4.6.2. Rhoddwyd canllawiau ar Gyfeillion McKenzie yng Nghyfarwyddyd Ymarfer (Cyfeillion McKenzie: Llysoedd Sifil a Theulu),²⁵ gan sefydlu bod Cyfaill McKenzie yn cael:
- 4.6.2.1. bod yn gefn i ymgyfreithiwr drosto'i hun;
- 4.6.2.2. cymryd nodiadau;
- 4.6.2.3. helpu gyda phapurau'r achos; a
- 4.6.2.4. rhoi cyngor yn dawel ar unrhyw agwedd o ran y ffordd y mae'r achos yn cael ei gynnal.
- 4.6.3. Roedd y Nodyn Ymarfer hefyd yn sefydlu nad yw Cyfaill McKenzie yn cael:
- 4.6.3.1. gweithredu fel asiant yr ymgyfreithiwr yn yr achos;
- 4.6.3.2. rheoli achos yr ymgyfreithiwr y tu allan i'r Llys, er enghraifft drwy lofnodi dogfennau Llys; nac ychwaith
- 4.6.3.3. annerch y Llys, gwneud cyflwyniadau llafar na holi tystion ar ran yr ymgyfreithiwr drosto'i hun.
- 4.6.4. Gall y Llys roi caniatâd i unigolyn nad yw'n barti, ac sydd heb unrhyw hawl i ymddangos yn y llys, annerch y Llys. Dim ond mewn achosion eithriadol y mae hyn yn digwydd, os gwneir cais a lle gellir dangos bod rhoi caniatâd o'r fath er budd cyfiawnder.
- 4.6.5. Dylai ymgyfreithiwr drosto'i hun sydd am fynychu gwrandawriad gyda chymorth gan Gyfaill McKenzie roi gwybod i'r Llys cyn gynted â phosib, gan ddweud pwy fydd y Cyfaill McKenzie. Dylai'r Cyfaill McKenzie sydd mewn golwg gyflwyno curriculum vitae byr neu ddatganiad arall yn egluro ei brofiad perthnasol ac yn cadarnhau nad oes ganddo/i unrhyw fudd yn yr achos a'i f/bod yn deall y rôl a dyletswydd cyfrinachedd.

²⁵ [2010] 1 WLR 1881, [2010] 4 All ER 272, a gweler <https://www.judiciary.uk/publications/mckenzie-friends/>

- 4.6.6. Rhaid i'r ymgyfreithiwr drosto'i hun a'r Cyfaill McKenzie roi gwybod i'r Llys os yw'r Cyfaill McKenzie yn cael ei d/thalu am ei g/chymorth a bod yn barod i roi manylion am y tâl hwnnw. Gallai'r Llys atal Cyfaill McKenzie rhag cynorthwyo os yw'r Llys yn credu bod rheswm da dros wneud hynny mewn unrhyw achos unigol. Mae'n anghyfreithlon i unrhyw un sydd heb awdurdod i roi cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol, gyda thâl neu neb dâl, ar faterion mewnfudo.²⁶
- 4.6.7. Os yw'r Llys yn credu bod unigolyn yn camddefnyddio'r hawl i fod yn Gyfaill McKenzie (er enghraifft drwy fynychu amryw o hawliadau er anfantais i'r ymgyfreithiwr a / neu i'r Llys) ac mae hyn yn gyfystyr ag ymyrryd yn y broses briodol o weinyddu cyfiawnder, gall y Llys wneud gorchymyn yn cyfyngu neu'n atal unigolyn rhag bod yn Gyfaill McKenzie.²⁷

5. Gorchmynion Atal Sifil a Gorchmynion Achosion Sifil

5.1. Cyffredinol

- 5.1.1. Mae gan y Llys y pŵer i wneud gorchymyn atal sifil ("CRO") o dan [CPR 3C PD](#) mewn perthynas ag unrhyw unigolyn sydd wedi dwyn hawliad neu wedi gwneud cais yr ystyrir ei fod yn "hollol ddi-deilyngdod". O dan [adran 42 Deddf Uwchlysoedd 1981](#) gall y Llys wneud gorchymyn achos sifil ("CPO") mewn perthynas ag unigolyn sydd wedi defnyddio ymgyfreitha yn flinderus.
- 5.1.2. Effaith y naill orchymyn neu'r llall yw bod rhaid i unigolion sy'n destun y gorchmynion hyn gael caniatâd y Llys cyn y gallant gychwyn hawliad am adolygiad barnwrol.
- 5.1.3. Mae'r cais a wneir i gychwyn achos yn wahanol i'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.
- 5.1.4. Os yw unigolyn sy'n destun CRO neu CPO yn ffeilio hawliad neu'n gwneud cais i'r Llys heb yn gyntaf wneud cais am ganiatâd i gychwyn achos a chael caniatâd i wneud hynny, yna ni gychwynnir yr hawliad neu'r cais. Hefyd, efallai y bydd y Llys yn ystyried bod ffeilio'r hawliad neu'r cais yn achos o ddirmyg llys.
- 5.1.5. Rhaid i'r cais am ganiatâd i gychwyn achos gael ei wneud drwy ffeilio rhybudd cyflwyno cais (N244)²⁸ gydag ACO a chynnwys y ffi berthnasol.
- 5.1.6. Nid oes help ar gael i dalu'r ffi hon ac felly mae'n rhaid ei thalu. Os rhoddir caniatâd i gychwyn achos yn ddiweddarach, a bod y ceisydd yn gallu hawlio cymorth rhag talu'r ffi, gellir ad-dalu'r ffi.²⁹

²⁶ [a.84 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999](#).

²⁷ [Noueiri v Paragon Finance plc \[2001\] EWCA Civ 1402](#), [2001] 1 WLR 2357.

²⁸ [CPR 3A PD paragraff 7.2](#), [CPR 3C PD paragraff 2.6, 3.6 a 4.6](#).

²⁹ [Gorchymyn Achosion Sifil \(Ffioedd 2008, Sch. 2, paragraff 19\(3\)\)](#) (wedi'i ddiwygio).

5.2. Gorchmynion atal sifil

- 5.2.1. Cyn gwneud cais am ganiatâd i gychwyn achos neu gais am ganiatâd i wneud cais i ddiwygio neu ddiddymu'r CRO, rhaid i barti sy'n destun CRO nodi natur a seiliau'r cais a rhoi o leiaf 7 diwrnod i'r parti arall ymateb.³⁰
- 5.2.2. Rhaid i gais am ganiatâd i gychwyn achos neu am ganiatâd i wneud cais i ddiwygio neu ddiddymu'r CRO:³¹
 - 5.2.2.1. fod yn ysgrifenedig; a
 - 5.2.2.2. chynnwys ymateb ysgrifenedig y parti arall, os o gwbl, i'r rhybudd a gyflwynwyd.
- 5.2.3. Bydd cais o'r fath yn cael ei benderfynu heb wrandawriad.
- 5.2.4. Mae hawl i apelio (gweler [Pennod 26](#) yn y Canllaw hwn), oni bai bod y Llys wedi gorchymyn y bydd y penderfyniad i wrthod y cais yn derfynol.³²

5.3. Gorchmynion achosion sifil

- 5.3.1. Rhaid i'r rhybudd cyflwyno cais ar gyfer unigolyn sy'n destun CPA nodi:³³
 - 5.3.1.1. teitl a chyfeirnod yr achos y gwnaed y gorchymyn ynddo;
 - 5.3.1.2. enw llawn a chyfeiriad yr ymgyfreithiwr;
 - 5.3.1.3. beth mae'r ymgyfreithiwr eisiau caniatâd i'w wneud (e.e. cychwyn hawliad am adolygiad barnwrol neu wneud cais am orchymyn interim neu orchymyn cyn-achos);
 - 5.3.1.4. (yn gryno) pam y mae'r ceisydd yn gwneud cais i gael y gorchymyn;
- a'r
- 5.3.1.5. achlysuron blaenorol y gwnaeth yr ymgyfreithiwr gais am ganiatâd.³⁴
- 5.3.2. Rhaid ffeilio'r rhybudd cyflwyno cais ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig y mae'r ymgyfreithiwr yn dibynnu arni i gefnogi ei g/chais.³⁵ Fel rheol, dylai hyn fod yn gopi o bapurau'r hawliad y mae'r ymgyfreithiwr yn gofyn am ganiatâd i'w ffeilio.

³⁰ [CPR 3C PD paragraff 2.5, 3.5 a 4.5.](#)

³¹ [CPR 3C PD paragraff 2.6, 3.6 a 4.6](#)

³² [CPR 3C PD paragraff 2.3\(2\), 2.6\(3\), 3.3\(2\), 3.6\(3\), 4.3\(2\) a 4.6\(3\).](#) Am yr amodau o ran pryd y gellir diddymu gorchymyn atal sifil estynedig, gweler [Middlesbrough Football & Athletic Co v Earth Energy Investments LLP a Millinder \[2019\] EWHC 226 \(Ch\).](#)

³³ [CPR 3A PD paragraff 7.3.](#)

³⁴ [CPR 3A PD paragraff 7.5.](#)

³⁵ [CPR 3A PD paragraff 7.4.](#)

- 5.3.3. Nid oes rhaid cyflwyno'r cais i unrhyw ymgyfreithwyr eraill sydd mewn golwg oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo hynny,³⁶ ond y mae'n arfer da i wneud hynny.
- 5.3.4. Bydd y cais yn cael ei roi gerbron barnwr a allai, heb i'r ymgyfreithiwr fod yn bresennol:³⁷
- 5.3.4.1. gwneud gorchymyn yn rhoi'r caniatâd y gofynnir amdano;
- 5.3.4.2. rhoi cyfarwyddyd bod angen i'r ymgyfreithiwr gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig bellach cyn y gellir gwneud gorchymyn ar y cais;
- 5.3.4.3. gwneud gorchymyn yn gwrthod y cais heb wrandawriad; neu
- 5.3.4.4. rhoi cyfarwyddyd ar gyfer gwrandawrio'r cais.
- 5.3.5. Bydd y Llys yn gwrthod y cais oni bai ei fod yn fodlon nad yw'n camddefnyddio'r broses a bod seiliau rhesymol dros wneud y cais.³⁸
- 5.3.6. O safbwynt unigolyn sy'n destun CPO, bydd gorchymyn yn gwrthod y cais, gyda neu heb wrandawriad, yn derfynol ac ni ellir ei ailystyried nac apelio yn ei erbyn.³⁹

³⁶ [CPR 3A PD paragraff 7.7.](#)

³⁷ [CPR 3A PD paragraff 7.6.](#)

³⁸ [a. 42\(3\) Deddf Uwchlysoedd 1981.](#)

³⁹ [a. 42\(4\) Deddf Uwchlysoedd 1981.](#)

6. Cyn Cychwyn yr Hawliad

6.1. Ystyriaethau cyffredinol

- 6.1.1. Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau ymarferol i'w cymryd cyn dwyn hawliad, gan gynnwys y weithdrefn cyn-achos, ffactorau a allai olygu bod dwyn hawliad yn amhriodol, amddiffyn costau, yr amserlenni ar gyfer cychwyn achos, a dyletswyddau'r partïon sy'n ymwneud â datgelu dogfennau.
- 6.1.2. Dylai unrhyw ddarpar hawlydd feddwl yn ofalus am oblygiadau cychwyn hawliad. Mae ymgyfreithiwr drosto'i hun yn wynebu baich trymach o ran amser ac ymdrech nag ymgyfreithiwr gyda chynrychiolaeth gyfreithiol, ond mae pob ymgyfreitha'n gofyn am lefel uchel o ymrwymiad gan y partïon. Ni ddylid synied yn rhy isel am hyn.
- 6.1.3. Prif amcan y CPR yw delio gydag achosion yn gyfiawn ac am gost gymesur. Yn bron pob achos mae rhai sy'n ennill a rhai sy'n colli. Fel arfer gwneir gorchymyn bod y collwr yn talu costau'r enillydd a gall costau ymgyfreitha fod yn sylweddol (gweler [Pennod 25](#) yn y Canllaw hwn am ragor o gyfarwyddyd ynghylch costau).

6.2. Protocol Cyn-Achos Adolygiad Barnwrol

- 6.2.1. Cyn belled ag y bo'n rhesymol bosib, dylai darpar hawlydd geisio datrys yr hawliad heb fynd i gyfraith. Mynd i gyfraith ddylai fod y dewis olaf.
- 6.2.2. Mae'r camau y dylid eu cymryd cyn cychwyn achos i'w gweld yn y Protocol Cyn-Achos Adolygiad Barnwrol ("y Protocol"). Mae'r Protocol ar gael i'w ddarllen ar wefan y Llywodraeth yn https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/prot_jrv.
- 6.2.3. Mae'n bwysig iawn dilyn y Protocol cyn cychwyn hawliad, a hynny am ddau reswm: yn gyntaf, gallai ddatrys y mater heb fod angen mynd i gyfraith, neu o leiaf gyfyngu ar y materion sy'n destun yr ymgyfreitha; yn ail, os nad yw'r parti neu'r partïon wedi dilyn y Protocol, gallant fod yn destun sancsiynau cost.

- 6.2.4. Rhaid dod â hawliad am adolygiad barnwrol o fewn y terfynau amser o dan y CPR. Nid yw proses y Protocol yn effeithio ar y terfynau amser hyn (gweler [paragraff 6.4](#) yn y Canllaw hwn). Ni fyddai'r ffaith bod parti'n dilyn y camau a nodir yn y Protocol, ynddo'i hun, yn debygol o naill ai gyfiawnhau methiant i ddod â hawliad o fewn y terfynau amser o dan y CPR, na fod yn rheswm dros gael estyniad amser. Felly, dylai parti sy'n ystyried gwneud cais am adolygiad barnwrol weithredu'n gyflym i gydymffurfio â'r Protocol ond nodi'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno os yw'r hawliad yn parhau i fod heb ei ddatrys.
- 6.2.5. Os yw'n achos brys (e.e. lle mae angen brys am orchymyn interim), efallai na fydd yn bosibl dilyn y Protocol yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, hyd yn oed mewn achos brys, dylai'r parti'n geisio cydymffurfio â'r Protocol hyn eithaf eu gallu. Ni fydd y Llys yn gorchymyn sancsiynau cost am beidio â chydymffurfio os yw'n fodlon nad oedd yn bosib cydymffurfio oherwydd natur daer y mater.
- 6.2.6. O dan gam un y Protocol rhaid i'r parti'n ystyried a fyddai dull arall o ddatrys yr anghydfod ("ADR") yn fwy priodol. Mae'r Protocol yn sôn am drafod a negodi, atgyfeirio at yr Ombwdsmon a chyfryngu (math o drafodaeth wedi'i hwyluso gyda chymorth parti niwtral annibynnol).
- 6.2.7. Cam dau yw anfon llythyr cyn-achos at y diffynnydd. Dylai'r llythyr fod yn y fformat a nodir yn [Atodiad A i'r Protocol](#). Dylai'r llythyr gynnwys dyddiad a manylion y weithred neu'r anwaith sy'n cael ei herio a rhoi crynodeb clir o'r ffeithiau y mae'r hawliad yn seiliedig arnynt. Dylai hefyd gynnwys manylion am unrhyw wybodaeth berthnasol y mae'r hawlydd yn gofyn amdani ac eglurhad ynghylch pam ei bod yn berthnasol.
- 6.2.8. Dylid fel arfer rhoi 14 diwrnod i'r diffynnydd ymateb i'r llythyr cyn-achos a rhaid i'r diffynnydd wneud hynny yn y fformat a nodir yn [Atodiad B i'r Protocol](#). Pan fo angen, gall y diffynnydd ofyn am amser ychwanegol i ymateb. Dylai'r hawlydd ganiatáu amser rhesymol i'r diffynnydd ymateb, pan fo hynny'n bosibl o dan amgylchiadau'r achos a heb roi'r terfynau amser ar gyfer cychwyn yr achos yn y fantol.

6.3. Sefyllfaoedd lle gallai hawliad am adolygiad barnwrol fod yn amhriodol

- 6.3.1. Mae rhai sefyllfaoedd lle na fydd adolygiad barnwrol yn briodol neu'n bosib. Dylid ystyried y rhain ar y dechrau. Dylai ymgyfreithwyr gyfeirio at y CPR a'r sylwebaeth mewn gweithiau academiaidd ar gyfraith weinyddol. Dyma rai o'r sefyllfaoedd hynny'n gryno:
- 6.3.2. Diffyg budd digonol (neu locus standi)
- 6.3.2.1. Nid oes gan unigolyn hawl i wneud cais am adolygiad barnwrol oni bai fod ganddo neu ganddi "fudd digonol" yn y mater sy'n sail i'r hawliad.⁴⁰ neu (yn Lladin) locus standi.

⁴⁰ [a.31\(3\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

- 6.3.2.2. Bydd unrhyw fater o fudd digonol yn cael ei benderfynu wrth ystyried y cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ond gellir hefyd ei godi a'i benderfynu yn hwyrach ymlaen.
- 6.3.2.3. Ni all y partïon neu'r Llys gytuno bod achos yn gallu parhau pan nad oes gan yr hawlydd fudd digonol.⁴¹ Rhaid i barti fod â budd digonol i wneud hawliad.
- 6.3.2.4. Yn gyffredinol, bydd gan unigolion y mae ymddygiad corff cyhoeddus yn cael effaith uniongyrchol ac andwyol ar eu hawliau cyfreithiol a rhwymedigaethau hawl i'w herio. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gellir ystyried bod gan hawlydd nad yw ei hawliau a'i rhwymedigaethau cyfreithiol yn cael eu heffeithio (fel cymdeithas neu sefydliad anllywodraethol), ond sydd ag arbenigedd penodol ym mhwnc yr hawliad, fudd digonol os yw'r hawliad o fudd i'r cyhoedd.⁴² Fel arfer bydd rhaid i gymdeithas neu sefydliad anllywodraethol sy'n hawlio budd digonol ar y sail hon ddangos ei fod yn ymwneud yn wirioneddol â maes pwnc penodol. Ni fydd y Llys o reidrwydd yn derbyn y bydd gan endid corfforaethol ag amcanion eang iawn fudd digonol i fynd ar drywydd hawliadau ym mhob achos y mae ei destun yn dod o fewn yr amcanion hynny.⁴³
- 6.3.2.5. Mae'r hyn sy'n cyfrif fel budd digonol yn dibynnu ar amgylchiadau'r hawliad penodol.⁴⁴ Mewn rhai amgylchiadau, bydd prawf o fudd digonol culach yn berthnasol.⁴⁵ Rhaid i hawlydd sy'n honni bod awdurdod cyhoeddus wedi gweithredu mewn ffordd sy'n anghyfreithlon yn ôl [a. 6\(1\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#) neu sy'n dibynnu ar hawl o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fod yn "ddioddefwr" y weithred anghyfreithlon.⁴⁶
- 6.3.2.6. Ond efallai na fydd gan unigolyn sydd heb yr arbenigedd perthnasol neu sydd ddim yn cynrychioli budd y cyhoedd fudd digonol os na fyddai'r rhyddhad a geisir yn effeithio'n bersonol

⁴¹ Cadarnhawyd yr egwyddor hon mewn nifer o achosion eraill, er enghraifft yn *R v Ysgrifennydd Gwladol Gwasanaethau Cymdeithasol ex parte Y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant* [1990] 2 QB 540, 556.

⁴² Gweler e.e. *R v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad ex p. World Development Movement* [1994] EWHC Admin 1, [1995] 1 WLR 386, 392-396; *R (McCourt) v Y Bwrdd Parôl* [2020] EWHC 2320 (Admin), [31]-[32].

⁴³ Gweler *R (Good Law Project Ltd) v Y Prif Weinidog* [2022] EWHC 298 (Admin), [53]-[59].

⁴⁴ *Comisiynwyr Cyllid y Wlad v National Federation of Self-Employed & Small Businesses Ltd* [1982] AC 617.

⁴⁵ O safbwynt budd digonol mewn achosion caffael, gweler *R (Good Law Project Ltd) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol* [2021] EWHC 346 (Admin), [2021] PTSR 1251. Ond gweler hefyd *R (Good Law Project Ltd) v Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet* [2022] EWCA Civ 21, [6].

⁴⁶ *a. 7(1) Deddf Hawliau Dynol 1998*. Yn ôl a. 7(7), mae unigolyn yn ddioddefwr gweithred anghyfreithlon os, a dim ond os byddai yn ddioddefwr dan Erthygl 34 o'r Confensiwn petai achos yn cael ei ddwyn gerbron Llys Hawliau Dynol Ewrop yng nghyswllt y ddeddf honno. Trafodir ystyr "dioddefwr" yn cyd-destun hwn yn *R (Pitt) v General Pharmaceutical Council* [2017] EWHC 809 (Admin), (2017) 156 BMLR 222, [52]-[67].

arno ef neu hi. Barnir hyn ar yr adeg pan fydd y Llys yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.⁴⁷

- 6.3.2.7. Os yw un neu fwy o'r hawlwyd yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol neu mewn sefyllfa dda fel arall i ddwyn yr hawliad, gallai hynny olygu y bydd gan eraill nad ydynt yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol, neu sydd ddim mewn sefyllfa mor dda i ddwyn yr hawliad, ddiffyg budd.⁴⁸
- 6.3.2.8. Nid yw'n briodol i ychwanegu partïon (yn enwedig gwleidyddion neu ffigyrau cyhoeddus eraill) dim ond i godi proffil yr ymgyfreitha neu gynorthwyo i godi arian.⁴⁹

6.3.3. Rhwymedi arall addas

- 6.3.3.1. Mae adolygiad barnwrol yn rhwymedi posibl yn niffyg popeth arall.⁵⁰ Os oes ffordd arall o herio ar gael i'r hawllydd, sy'n cynnig rhwymedi neu unioni addas, dylid fel arfer wneud defnydd llwyr o'r rhwymedi arall cyn gwneud cais am adolygiad barnwrol.
- 6.3.3.2. Mae enghreifftiau o rwymedi arall yn cynnwys trefn gwyno fewnol, prosesau ar gyfer adolygu ac apelio (statudol neu'n anstatudol).
- 6.3.3.3. Os bydd y Llys yn canfod bod gan yr hawllydd rwymedi arall addas (neu ei fod wedi bod â rhwymedi arall addas), fel arfer bydd y Llys yn gwrthod rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.

6.3.4. Mae'r hawliad yn academiaidd

- 6.3.4.1. Os bydd hawliad yn un academiaidd, h.y. nid oes achos mwyach i'w benderfynu a allai effeithio'n uniongyrchol ar hawliau a rhwymedigaethau partïon yr hawliad,⁵¹ fel arfer ni fydd yn briodol dwyn achos adolygiad barnwrol. Un enghraifft o senario o'r fath fyddai pan fydd y diffynnydd wedi cytuno i ailystyried y penderfyniad sy'n cael ei herio. Pan fo'r hawliad wedi dod yn academiaidd ers iddo gael ei gychwyn, nid yw'n briodol yn gyffredinol i fynd ar drywydd yr hawliad.
- 6.3.4.2. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd y Llys yn penderfynu parhau â hawliad er bod y canlyniad wedi dod yn fater academiaidd i'r hawllydd. Er enghraifft, efallai y bydd y Llys yn

⁴⁷ Gweler e.e. [R \(JS\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 234 \(Admin\)](#), [33].

⁴⁸ Gweler e.e. [R \(Jones\) v Commissioner of Police of the Metropolis \[2019\] EWHC 2957 \(Admin\)](#), [2020] 1 WLR 519, [62]; [R \(Good Law Project Ltd\) v Y Prif Weinidog \[2022\] EWHC 298 \(Admin\)](#), [59].

⁴⁹ Gweler e.e. [R \(Good Law Project\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2021\] EWHC 346 \(Admin\)](#), [2021] PTSR 1251, [106]-[108].

⁵⁰ Gweler e.e. [R \(Archer\) v Comisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi \[2019\] EWCA Civ 1021](#), [2019] 1 WLR 6355, [68].

⁵¹ [R v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref ex parte Salem \[1999\] 1 AC 450](#); [R \(L\) v Cyngor Sir Dyfnaint \[2021\] EWCA Civ 358](#), [38] & [64].

gwneud hyn os oes nifer fawr o achosion tebyg yn bodoli neu ar ddod, neu o leiaf mae rhai achosion tebyg yn bodoli neu ar ddod a ni fyddai'r penderfyniad yn sensitif i'r ffeithiau.⁵²

6.3.5. Mae'n annhebygol iawn y byddai'r gwall wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r canlyniad

6.3.5.1. Mae [Adran 31\(3C\)-\(3F\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) yn datgan bod rhaid i'r Llys wrthod cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol os yw'n ymddangos i'r Llys ei bod yn debygol iawn na fyddai'r canlyniad i'r hawlydd wedi bod yn dra gwahanol hyd yn oed pe na bai'r ymddygiad y cwynir yn ei gylch wedi digwydd.

6.3.5.2. Yr ymddygiad y cwynir amdano yw ymddygiad (neu ymddygiad honedig) y diffynnydd y mae'r ceisydd yn honni ei fod yn cyfiawnhau i'r Uchel Lys roi rhyddhad.

6.3.5.3. Pan gyrhaeddir y trothwy hwn, mae gan y Llys ddisgresiwn i ganiatáu i'r hawliad fynd yn ei flaen os oes budd cyhoeddus eithriadol mewn gwneud hynny.

6.3.6. Mae'r hawliad yn herio penderfyniad llys uwch nad yw'n destun adolygiad barnwrol

6.3.6.1. Ni ellir herio penderfyniadau'r Uchel Lys,⁵³ y Llys Apêl na'r Goruchaf Lys trwy adolygiad barnwrol.

6.3.6.2. Pan fydd Llys y Goron yn delio â threial trwy dditad, nid yw ei ymddygiad yn destun adolygiad barnwrol.⁵⁴ Fel arall, mae penderfyniadau Llys y Goron yn destun adolygiad barnwrol.

6.4. Terfynau amser

6.4.1. Rhaid cychwyn hawliad am adolygiad barnwrol yn brydlon, a dim hwyrach na 3 mis ar ôl i'r seiliau dros wneud yr hawliad godi yn y lle cyntaf.⁵⁵ Y ffordd i gychwyn hawliad yw ffeilio Ffurflen Hawlio sy'n cwrdd â'r gofynion a nodir yn [CPR Rhan 54](#). Y prif ofyniad yw cychwyn yr hawliad yn brydlon. Hyd yn oed os yw'r hawliad wedi'i gychwyn cyn pen 3 mis o ddyddiad yr ymddygiad a heriwyd, gall dal fod yn hwyr os na chafodd yr hawliad ei gychwyn yn brydlon gan yr hawlydd.⁵⁶

6.4.2. Wrth ystyried a yw hawliad wedi'i wneud mewn pryd, dylai hawlydd hefyd fod yn ymwybodol o ddau bwynt pwysig:

⁵² [R \(Zoolife International Ltd\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig \[2007\] EWHC 2995 \(Admin\)](#), [2008] ACD 44, [36].

⁵³ Mae hyn yn cynnwys achlysuron pan wrthodir rhoi caniatâd i apelio gan y Llys Gwarchod: [SM v Y Llys Gwarchod ac Anor \[2021\] EWHC 2046 \(Admin\)](#).

⁵⁴ [a. 29\(3\)](#), a [46\(1\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

⁵⁵ [CPR 54.5\(1\)](#).

⁵⁶ Gweler e.e. [R v Cyngor Dosbarth Cotswold ex parte Cyngor Plwyf Barrington \[1998\] 75 P & CR 515](#).

- 6.4.2.1. Ni ellir ymestyn y terfyn amser drwy gytundeb rhwng y partïon.⁵⁷ Fodd bynnag, gellir ei ymestyn gan y Llys yn ôl ei ddisgresiwn a gall cytundeb ymlaen llaw i beidio â chymryd pwynt amser fod yn berthnasol i arfer y disgresiwn hwnnw.⁵⁸ I gael rhagor o fanylion ynghylch ymestyn terfynau amser ceisiadau, gweler [paragraff 6.4.4](#) a [7.3.1.5](#) yn y Canllaw hwn.
- 6.4.2.2. Pan fydd yr hawliad yn herio penderfyniad, mae'r terfyn amser yn dechrau o'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad sy'n cael ei herio (nid y dyddiad pan hysbyswyd yr hawlydd am y penderfyniad).⁵⁹
- 6.4.3. Mae eithriadau i'r rheol terfyn amser gyffredinol uchod. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
- 6.4.3.1. Achosion cynllunio:⁶⁰ Pan fydd yr hawliad yn ymwneud â phenderfyniad a wnaed o dan ddeddfwriaeth gynllunio, rhaid ffeilio'r hawliad heb fod yn hwyrach na chwe wythnos ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Diffinnir deddfwriaeth gynllunio fel [Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990](#), [Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990](#), [Deddf Cynllunio \(Sylweddau Peryglus\) 1990](#) a [Deddf Cynllunio \(Darpariaethau Canlyniadol\) 1990](#). Mae'r cyfnod o chwe wythnos yn cychwyn o ddyddiad y penderfyniad (er enghraifft, y caniatâd cynllunio), nid y dyddiad y daeth yr hawlydd i wybod am y penderfyniad.
- 6.4.3.2. Hefyd, mae adolygiadau ac apeliadau statudol (a rhai gweithdrefnau adolygiad barnwrol) mewn achosion cynllunio yn destun terfynau amser llym a byr ar gyfer cychwyn achos. Mewn rhai achosion, nid yw'r ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu ymestyn y cyfnod. Mae angen i hawlwr wirio'r darpariaethau mewn statudau perthnasol yn ofalus.
- 6.4.3.3. Achosion contractau cyhoeddus:⁶¹ [Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 \(Offeryn Statudol 2015/102\)](#) sy'n rheoli'r drefn y gall cyrff cyhoeddus ei defnyddio i gynnig gwasanaethau cyhoeddus ar gontract allanol (a elwir weithiau'n "caffael"). Pan fydd yr hawliad yn ymwneud â phenderfyniad a wnaed dan y Rheoliadau hyn, rhaid cychwyn yr hawliad o fewn yr amser a nodir gan [Reoliad 92](#), sef, ar hyn o bryd, 30 diwrnod ar ôl y dyddiad pryd y gwyddai'r hawlydd am y tro cyntaf, neu y dylai'r hawlydd fod wedi gwybod, fod sail dros ddwyn achos wedi codi. Dylid nodi bod y terfyn amser hwn yn dechrau o'r dyddiad gwybod, yn wahanol i'r rheol gyffredinol pan mai dyddiad y penderfyniad ei hun yw'r dyddiad perthnasol. Mae terfyn amser ychwanegol yn berthnasol

⁵⁷ [CPR 54.5\(2\)](#).

⁵⁸ Gweler e.e. [R \(Zahid\) v Prifysgol Manceinion \[2017\] EWHC 188 \(Admin\), \[73\]-\[78\]](#).

⁵⁹ R v Yr Adran Drafndiaeth ex parte Presvac Engineering [1992] 4 Admin LR 121.

⁶⁰ [CPR 54.5\(5\)](#).

⁶¹ [CPR 54.5\(6\)](#).

os gwnaed y contract eisoes ond mae'r hawlydd yn ceisio datganiad o aneffeithiolrwydd (h.y., datganiad bod y contract yn aneffeithiol ar gyfer y dyfodol). Rhaid dwyn hawliad o'r fath cyn pen chwe mis gan ddechrau ar y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract: gweler [Rheoliad 92](#).

- 6.4.3.4. Contractau Cyfleustodau: Mae darpariaethau tebyg yn berthnasol pan wneir yr her o dan [Reoliadau Contractau Cyfleustodau 2016 \(Offeryn Statudol 2016/274\)](#) neu [Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 \(Offeryn Statudol 2016/273\)](#). Fodd bynnag, nodwch nad yw'r terfynau amser hyn yn berthnasol i hawliadau cyfraith breifat am iawndal mewn perthynas ag ymarferion caffael cyhoeddus nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau hyn.⁶² Am arweiniad pellach ar Adolygiadau Barnwrol Contract Cyhoeddus, gweler [paragraff 6.7](#) yn y Canllaw hwn.
- 6.4.3.5. Adolygiad Barnwrol o'r Uwch Dribiwnlys:⁶³ Pan mai'r diffynnydd yw'r Uwch Dribiwnlys, rhaid cychwyn yr hawliad dim hwyrach na 16 diwrnod ar ôl anfon hysbysiad o benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys at yr hawlydd. Eto dylid nodi'r gwahaniaeth rhwng hyn a'r rheol gyffredinol: yn yr achos hwn, cyfrifir y terfyn amser o ddyddiad anfon, nid dyddiad gwneud, y penderfyniad.
- 6.4.3.6. Adolygiad Barnwrol o benderfyniad gan Weinidog yng nghyswllt ymchwiliad cyhoeddus, neu gan aelod o banel ymchwiliad.⁶⁴ Y terfyn amser ar gyfer yr heriau hyn yw 14 diwrnod oni bai fod y Llys yn rhoi estyniad amser. Nid yw'r terfyn amser byrrach hwn yn berthnasol i unrhyw her i gynnwys yr adroddiad ar yr ymchwiliad, nac i benderfyniad na allai'r hawlydd fod wedi bod yn ymwybodol ohono hyd nes cyhoeddi'r adroddiad.⁶⁵
- 6.4.4. Estyniadau amser
- 6.4.4.1. Mae [CPR 3.1\(2\)\(a\)](#) yn caniatáu i'r Llys ymestyn neu fyrhau'r terfyn amser hyd yn oed os yw'r amser i gydymffurfio eisoes wedi dod i ben. Os yw'r terfyn amser eisoes wedi dirwyn i ben, rhaid i'r hawlydd wneud cais am estyniad amser. Rhaid nodi manylion y cais yn adran 9 y Ffurflen Hawlio (Ffurflen N461). Bydd y cais am estyniad amser yn cael ei ystyried gan y barnwr ar yr un pryd â phenderfynu rhoi caniatâd neu beidio i wneud cais am adolygiad barnwrol.
- 6.4.4.2. Wrth ystyried a ddylid caniatáu estyniad amser, bydd y Llys yn ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys a roddwyd esboniad digonol am yr oedi ac a fydd estyniad yn achosi caledi neu ragfarn

⁶² [Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth v Arriva Rail East Midlands Ltd \[2019\] EWCA Civ 2259](#).

⁶³ [CPR 54.7A\(3\)](#).

⁶⁴ [a. 38\(1\) Deddf Ymchwiliadau 2005](#).

⁶⁵ [a. 38\(3\) Deddf Ymchwiliadau 2005](#).

sylweddol i'r diffynnydd neu unrhyw barti arall neu'n niweidiol i weinyddiaeth dda.⁶⁶

- 6.4.4.3. Gyda rhai mathau o achosion cynllunio ([paragraff 6.4.3.1](#) yn y Canllaw hwn) ac achosion contract cyhoeddus ([paragraff 6.4.3.3](#)), ni ellir caniatáu estyn amser.

6.5. Adolygiadau barnwrol o benderfyniadau mewnfudo a lloches

- 6.5.1. Ers 1 Tachwedd 2013, yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) ("UTIAC"), ac nid y Llys Gweinyddol yw'r awdurdodaeth briodol ar gyfer cychwyn adolygiad barnwrol yn y mwyafrif o benderfyniadau sy'n ymwneud â mewnfudo a lloches (gweler [Atodiad 1](#) am fanylion cyswllt UTIAC).
- 6.5.2. O dan Gyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus⁶⁷ rhaid cychwyn unrhyw gais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ac unrhyw gais sylfaenol am adolygiad barnwrol yn UTIAC (neu os cychwynnir y cais yn y Llys Gweinyddol, rhaid ei drosglwyddo i UTIAC) os yw'n herio:
- 6.5.2.1. penderfyniad a wnaed o dan y Deddfau Mewnfudo neu unrhyw offeryn sy'n cael effaith, yn llwyr neu'n rhannol, o dan ddeddfiad yn y Deddfau Mewnfudo, neu sy'n ymwneud fel arall â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros yma. Y Deddfau Mewnfudo ydi [Deddf Mewnfudo 1971](#), [Deddf Mewnfudo 1988](#), [Deddf Apeliadau Lloches a Mewnfudo 1993](#), [Deddf Lloches a Mewnfudo 1996](#), [Deddf Mewnfudo a Lloches 1999](#), [Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2002](#), [Deddf Lloches a Mewnfudo \(Trin Hawlwyr, ayyb.\) 2004](#), [Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006](#), [Deddf Ffiniau'r DU 2007](#), [Deddf Mewnfudo 2014](#) a [Deddf Mewnfudo 2016](#); neu
- 6.5.2.2. penderfyniad a wnaed gan Siambr Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf, heb ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys.
- 6.5.3. Mae pob mater mewnfudo a lloches arall yn aros o fewn awdurdodaeth y Llys Gweinyddol.⁶⁸ Hefyd, hyd yn oed os bydd cais yn dod o fewn y dosbarthiadau hawliad a ddisgrifir ym [mharagraff 6.5.2](#) uchod, rhaid i unrhyw gais sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol gael ei wneud yn y Llys Gweinyddol:
- 6.5.3.1. her i ddilysrwydd deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (neu i ddilysrwydd rheolau mewnfudo);

⁶⁶ Gweler [Maharaj v National Energy Corporation of Trinidad and Tobago](#)

[2019] UKPC 5, [38]: "[Yma mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r prawf statudol yn rheswm da dros oedi ond yn hytrach yn brawf ehangach o fod yn rheswm da dros ymestyn amser. Bydd hyn yn debygol o ddod â llawer o ystyriaethau i'r golwg y tu hwnt i'r rhai sy'n berthnasol i reswm gwrthrychol da dros yr oedi, gan gynnwys pwysigrwydd y materion, y posibilrwydd o lwyddiant, presenoldeb neu ddiffyg rhagfarn neu niwed i weinyddiaeth dda, a budd y cyhoedd.](#)"

-asylum-chamber/" <https://www.judiciary.uk/publications/lord-chief-justices-direction-regarding-the-transfer-of-immigration-and-asylum-judicial-review-cases-to-the-upper-tribunal-immigration-and-asylum-chamber/>

⁶⁸ Gweler [paragraff 6.5.4](#) yn y Canllaw hwn am esiampl.

- 6.5.3.2. her i gyfreithlondeb cadw dan glo;
- 6.5.3.3. her i benderfyniad yn ymwneud â chael eich cynnwys ar y gofrestr Noddwyr trwyddedig a gynhelir gan UKBA;
- 6.5.3.4. her i benderfyniad sy'n penderfynu ynghylch dinasyddiaeth Brydeinig;
- 6.5.3.5. her i benderfyniad yn ymwneud â chymorth neu lety lloches;
- 6.5.3.6. her i benderfyniad gan yr Uwch Dribiwnlys;
- 6.5.3.7. her i benderfyniad gan y Comisiwn Apeliadau Mewnfudo Arbennig;
- 6.5.3.8. cais am ddatganiad o anghydnawsedd o dan [a.4 Deddf Hawliau Dynol 1998](#); a
- 6.5.3.9. her i benderfyniad a ardystiwyd (neu sy'n datgan yn ysgrifenedig) ei fod wedi cael ei wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddibynnu'n llwyr neu'n rhannol ar wybodaeth yr ystyrir na ddylid ei chyhoeddi er budd diogelwch cenedlaethol.
- 6.5.4. Nid yw heriau i benderfyniadau a wnaed o dan y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, ar gyfer adnabod dioddefwyr masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern⁶⁹ yn benderfyniadau mewnfudo. Daw'r rhain o dan awdurdodaeth y Llys Gweinyddol.
- 6.5.5. Mae [Atodiad 6](#) yn cynnwys rhagor o wybodaeth am adolygiadau barnwrol yn yr Uwch Dribiwnlys a'r UTIAC yn benodol.
- 6.5.6. P'un a yw hawliad, yn unol â'r Cyfarwyddyd a wnaed gan yr Arglwydd Brif Ustus, yn dod o fewn awdurdodaeth UTIAC neu'r Llys Gweinyddol, caiff ei benderfynu fel mater o sylwedd, nid ffurf. Er enghraifft, gallai cychwyn hawliad yn y Llys Gweinyddol ar y sail ei fod yn dod o fewn yr eithriad cadw anghyfreithlon i awdurdodaeth UTIAC fod gyfystyr â chamddefnyddio proses lle nad oes unrhyw reswm amlwg i'r hawliad cadw.⁷⁰

6.6. Adolygiad barnwrol o benderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf

- 6.6.1. Ers 3 Tachwedd 2008, yr Uwch Dribiwnlys (Siambur Apeliadau Gweinyddol) ("UTAAC"), ac nid y Llys Gweinyddol, yw'r awdurdodaeth briodol ar gyfer cychwyn adolygiad barnwrol sy'n herio rhai penderfyniadau a wnaed gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (gweler [Atodiad 1](#) am fanylion cyswllt UTAAC).
- 6.6.2. O dan Gyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus⁷¹ rhaid i unrhyw gais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol gael ei ffeilio yn, neu ei drosglwyddo'n

⁶⁹ Gweler cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref: <https://www.gov.uk/government/publications/human-trafficking-victims-referral-and-assessment-forms/guidance-on-the-national-referral-mechanism-for-potential-adult-victims-of-modern-slavery-england-and-wales>

⁷⁰ Gweler [R \(Ashraf\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2013\] EWHC 4028 \(Admin\)](#).

⁷¹ [Cyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus, Uwch Dribiwnlys: Awdurdodaeth Adolygiad Barnwrol](#), o dan [a.18\(6\) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007](#).

orfodol, i'r UTAAC ynghyd ag unrhyw gais sylfaenol am adolygiad barnwrol os yw'n cwestiynu'r canlynol:

- 6.6.2.1. unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar apêl a wnaed mewn perthynas ag arfer hawl o dan y Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol sy'n cydymffurfio ag [a.5\(1\) Deddf Digolledu am Anafiadau Troseddol 1995](#) (apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch adolygiadau); ac
- 6.6.2.2. unrhyw benderfyniad gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf pan nad oes hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys a phan nad yw'r penderfyniad hwnnw'n un eithriedig o dan baragraff (b), (c) neu (f) o a.11(5) Deddf 2007 (apeliadau yn erbyn tystysgrifau diogelwch gwladol).
- 6.6.3. Nid oes gan y cyfarwyddyd effaith lle mae hawlydd yn gofyn am ddatganiad o anghydnawsedd. Yn yr achos hwnnw, y Llys Gweinyddol yw'r awdurdodaeth ar gyfer gwrando'r hawliad.

6.7. Adolygiad Barnwrol o benderfyniadau a wnaed o dan y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus

- 6.7.1. Pan fydd penderfyniad a wnaed o dan [Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015](#) yn cael ei herio, gall hawlwyr ystyried bod angen dod ag achos adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol yn ogystal â gwneud hawliad yn y Llys Technoleg ac Adeiladu ("TCC"). Pan digwydd hyn, bydd yr hawliad, oni bai fod Prif Farnwr y Llys Gweinyddol neu Brif Farnwr y TCC yn cyfarwyddo fel arall, yn symud ymlaen yn y TCC gerbron barnwr sydd wedi'i awdurdodi i eistedd yn y TCC ac yn y Llys Gweinyddol.
- 6.7.2. Os digwydd hyn, rhaid i'r hawlydd:
 - 6.7.2.1. adeg cyflwyno'r Ffurflen Hawlio i ACO, drwy lythyr i ACO a chopi i Brif Farnwr y Llys Gweinyddol a Phrif Farnwr y TCC, ofyn i'r hawliad am adolygiad barnwrol gael ei drosglwyddo i'r TCC;
 - 6.7.2.2. nodi'n glir ar y llythyr hwnnw: "CAIS BRYD I DROSGLWYDDO HAWLIAD CAFFAEL CYHOEDDUS I'R TCC";
 - 6.7.2.3. os na chaiff yr hawlydd ei hysbysu o fewn 3 diwrnod i gyflwyno'r Ffurflen Hawlio y bydd yr achos yn cael ei drosglwyddo i'r TCC; rhaid iddo/i gysylltu ag ACO ac yna parhau i ddiweddarau'r TCC ar y sefyllfa.
- 6.7.3. Bydd y weithdrefn hon ond yn berthnasol pan fydd ffurflenni hawlio yn cael eu cyflwyno gan yr un hawlydd yn erbyn yr un diffynnydd yn y Llys Gweinyddol a'r TCC ar yr un pryd (hynny yw o fewn 48 awr i'w gilydd).
- 6.7.4. Pan drosglwyddir y papurau i'r TCC gan ACO yn unol â'r weithdrefn hon, bydd Prif Farnwr y TCC yn adolygu'r papurau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn rhoi gwybod i'r hawlydd ac i ACO a ddylid rheoli achos a / neu wrando'r ddau hawliad gyda'i gilydd yn y TCC.

- 6.7.5. Os felly, bydd achos yr hawliad am adolygiad barnwrol yn cael ei reoli a'i benderfynu yn y TCC.
- 6.7.6. Os bydd Prif Farnwr y TCC yn penderfynu na ddylai'r hawliad am adolygiad barnwrol fynd rhagddo yn y TCC, bydd yr hawliad am adolygiad barnwrol yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Llys Gweinyddol. Rhoddir rhesymau dros wneud hynny. Yna bydd achos yr hawliad am adolygiad barnwrol yn cael ei reoli a'i benderfynu yn y Llys Gweinyddol.

7. RHAN B: YR HAWLIAD

8. 2. Cychwyn yr Hawliad

8.1. 2.1. Trosolwg o'r drefn adolygiadau barnwrol

- 7.1.1. Mae adolygiad barnwrol yn broses dau gam. Y cam gyntaf ydi bod rhaid i'r hawlydd gael caniatâd (a elwir gynt yn "hawl"⁷²) gan y Llys i wneud cais am adolygiad barnwrol. Os yw'r Llys yn rhoi caniatâd, yr ail gam yw penderfynu'r hawliad.
- 7.1.2. Yn wahanol i nifer o achosion sifil a throseddol eraill, nid yw'r broses adolygiad barnwrol yn cynnwys gwrandawriad rheoli achos yn awtomatig (er gallai'r barnwr orchymyn un os credir bod hynny'n angenrheidiol). Mae'r Llys yn disgwyl i'r partion gysylltu â'i gilydd a gydag ACO i sicrhau bod yr hawliad yn barod ar gyfer ei benderfynu gan y Llys. Mae cynnal deialog agored rhwng y partion a staff ACO yn hanfodol os yw achos i redeg yn llyfn.
- 7.1.3. Gellir defnyddio'r diagram llif ar y dudalen nesaf fel canllaw cyflym i'r broses adolygiad barnwrol. Mae'r diagram llif yn darlunio camau'r Uchel Lys: trafodir awdurdodaeth y Llys Apêl mewn perthynas â'r cam caniatâd yn ddiweddarach yn y canllaw hwn. Amlinellir manylion llawn pob cam yn nes ymlaen yn y Canllaw hwn.

8.2. 1.1. Ffeilio'r Ffurflen Hawlio

- 7.2.1. Rhaid cychwyn pob hawliad am adolygiad barnwrol drwy ffeilio Ffurflen Hawlio i ACO. Mae'r dyddiad ffeilio, a ysgrifennir fel arfer ar y Ffurflen Hawlio mewn llawysgrif gan staff ACO pan fydd y Ffurflen Hawlio yn cyrraedd ACO, yn wahanol i'r dyddiad cychwyn, sef dyddiad sêl y Llys pan fydd yr Hawliad yn cael ei gychwyn gan ACO. Gwneir cais am adolygiad barnwrol ar y dyddiad y caiff ei ffeilio.
- 7.2.2. Mae'n ofynnol i'r hawlydd wneud cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar y Ffurflen Hawlio: gweler adran 4 y Ffurflen. Rhaid i'r hawlydd hefyd nodi'r rhwymedïau adolygiad barnwrol a geisir (gweler [Pennod 12](#) yn y Canllaw hwn). Mae lle i hyn yn y Ffurflen Hawlio yn adran 8.
- 7.2.3. Os yw'r hawlydd wedi ffeilio'r hawliad yn ACO yng Nghaerdydd, gellir ei gyflwyno yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 7.2.4. Wrth ffeilio'r Ffurflen Hawlio, rhaid cynnwys y ffi berthnasol. Os nad yw'r ffi berthnasol yn cael ei thalu, bydd y Ffurflen Hawlio yn cael ei dychwelyd yn syth ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig.
- 7.2.5. Rhaid i'r hawlydd ffeilio un copi o'r Ffurflen Hawlio adolygiad barnwrol, wedi'i llenwi, ar gyfer ei chadw gan ACO. (Os bydd yr hawliad wedyn yn cael ei restru gerbron Llys Adrannol, rhaid cael ail neu drydydd copi.) Rhaid i'r hawlydd hefyd ffeilio copi ychwanegol o'r Ffurflen Hawlio ar gyfer bob


⁷² Fe ddefnyddir "Hawl" o hyd yn [a. 31 Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

diffynnydd a pharti sydd â budd yn yr hawliad. Bydd y copïau ychwanegol yn cael eu selio a'u dychwelyd i'r hawlydd er mwyn eu cyflwyno i'r diffynnydd / diffynyddion a'r partiön â budd (gweler [paragraff 7.9](#) yn y Canllaw hwn am gyfarwyddyd ar gyflwyno ac [Atodiad 3](#) am restr o gyfeiriadau ar gyfer cyflwyno i adrannau'r llywodraeth).

- 7.2.6. Ar y Ffurflen Hawlio a/neu mewn dogfen sy'n cyd-fynd â'r Ffurflen Hawlio (gweler isod) dylai'r hawlydd gyfeirio at unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n eithrio awdurdodaeth y Llys i ystyried y cais, neu i roi'r rhyddhad a geisir, ac unrhyw fecanwaith apelio amgen y gellid neu y gellid bod wedi'i ddefnyddio cyn ceisio adolygiad barnwrol.⁷³
- 7.2.7. Rhaid enwi unrhyw unigolyn sy'n barti â budd yn y Ffurflen Hawlio a rhaid ei chyflwyno iddynt. I gael arweiniad pellach ynghylch pwy sy'n barti â budd, gweler [paragraff 3.2.3](#) yn y Canllaw hwn.

⁷³ [CPR 54A PD paragraff 4.1\(2\)](#)

Y Broses Adolygiad Barnwrol



8.3. Dogfennaeth ofynnol

- 7.3.1. Rhaid darparu rhai manylion penodol pan fydd y Ffurflen Hawlio yn cael ei ffeilio.⁷⁴ Gellir cynnwys y rhain yn y Ffurflen Hawlio ei hun neu mewn dogfen neu ddogfennau ar wahân. Y manylion gofynnol yw:
- 7.3.1.1. datganiad o'r ffeithiau y dibynnir arnynt, mewn paragraffau wedi'u rhifo (yn adran 5 y Ffurflen Hawlio neu mewn dogfen ar wahân);
 - 7.3.1.2. datganiad clir a chryno⁷⁵ o'r seiliau dros wneud yr hawliad, eto ar ffurf paragraffau wedi'u rhifo (yn adran 6 y Ffurflen Hawlio neu mewn dogfen ar wahân);
 - 7.3.1.3. os yw'r hawliad yn cynnwys hawliad am iawndal o dan [Ddeddf Hawliau Dynol 1998](#), rhaid pledio a nodi'r hawliad am iawndal yn fanwl mewn modd priodol ([yn adran 4 y Ffurflen Hawlio neu mewn dogfen ar wahân](#));⁷⁶
 - 7.3.1.4. pan fo'r hawlydd yn bwriadu codi mater datganoli, rhaid i'r hawlydd nodi darpariaethau perthnasol [Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#), [Deddf Gogledd Iwerddon 1998](#) neu [Ddeddf yr Alban 1998](#); a rhaid i'r Ffurflen Hawlio gynnwys crynodeb o'r ffeithiau, yr amgylchiadau a'r pwyntiau cyfreithiol sy'n arwain at y mater datganoli;
 - 7.3.1.5. unrhyw gais am estyniad amser ar gyfer ffeilio'r Ffurflen Hawlio (gellir gwneud y cais yn adran 9 y Ffurflen Hawlio, neu mewn dogfen wedi'i hatodi);
 - 7.3.1.6. unrhyw gais am gyfarwyddiadau (gellir gwneud y cais yn adran 9 y Ffurflen Hawlio, neu mewn dogfen wedi'i hatodi).
- 7.3.2. Gellir cynnwys y datganiad o'r ffeithiau perthnasol a'r datganiad o'r seiliau dros ddwyn yr hawliad mewn un ddogfen o'r enw "Datganiad o Ffeithiau a Seiliau".⁷⁷ Gellir defnyddio'r ddogfen hon hefyd i nodi manylion unrhyw hawliad am iawndal, nodi unrhyw faterion datganoli a darparu seiliau dros unrhyw gais a wneir.
- 7.3.3. Ni ddylai'r datganiad o'r ffeithiau a'r datganiad o'r seiliau, gyda'i gilydd, fod yn fwy na 40 tudalen.⁷⁸ Mewn llawer o achosion bydd y llys yn disgwyl i'r dogfennau hyn fod llawer byrrach. Gall y llys roi caniatâd i'r dogfennau fod yn fwy na 40 tudalen, ond rhaid gwneud cais am ganiatâd o'r fath naill ai cyn ffeilio'r ddogfen, neu o leiaf ar yr un pryd â ffeilio'r ddogfen. Fodd bynnag,

⁷⁴ [CPR 54A PD paragraff 4.2 - 4.3](#).

⁷⁵ I ddarllen mwy am bwysigrwydd crynoder, gweler [R \(Dolan\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2020\] EWCA Civ 1605](#), [119]-[120].

⁷⁶ [R \(Nazem Fayad\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 54](#), [54]-[56]. Os nad yw hawliadau am iawndal wedi'u nodi'n ddigon manwl, gallai hyn olygu costau i'r hawlydd.

⁷⁷ [CPR 54A PD paragraff 4.2\(2\)](#).

⁷⁸ [CPR 54A PD paragraff 4.2\(3\)](#).

dylai partïon gadw mewn cof bod y Llys Apêl wedi nodi bod “dogfennau sy’n eithriadol o hir yn celu yn hytrach nag amlygu hanfod yr achos” ac yn “gwneud gwaith y llys yn anoddach”.⁷⁹ Pwrpas y Datganiad o’r Ffeithiau a Seiliau yw darparu datganiad clir a chryno o’r ffeithiau y dibynnir arnynt i gefnogi’r hawliad a’r seiliau dros wneud yr hawliad. Dylai’r seiliau egluro achos yr hawlydd yn gryno gan gyfeirio at y ffeithiau y dibynnir arnynt.⁸⁰

7.3.4. Dylai’r datganiad o’r seiliau gynnwys pob sail sy’n cael ei herio; nodi’r ddarpariaeth neu’r egwyddor gyfreithiol berthnasol y dywedir iddi gael ei thorri; a darparu’n gryno digon o fanylion am y toriad honedig i alluogi’r partïon a’r Llys i adnabod y materion hanfodol.⁸¹ Dylai pob sail godi mater penodol sy’n ymwneud â’r penderfyniad sy’n cael ei herio.⁸² Dylid nodi dadleuon a chyflwyniadau i gefnogi’r seiliau ar wahân yng nghyswllt pob sail.

7.3.5. Rhaid hefyd ffeilio dogfennau eraill gyda’r Ffurflen Hawlio:⁸³

7.3.5.1. tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi’r hawliad ac (os yw’n berthnasol) unrhyw gais arall sydd wedi’i gynnwys yn y Ffurflen Hawlio;

7.3.5.2. copi o unrhyw lythyr penderfyniad neu orchymyn y mae’r hawlydd yn ei herio yn yr hawliad;

7.3.5.3. pan fydd yr hawliad yn herio penderfyniad a wnaed gan lys neu driwlynlys, copi cymeradwy o resymau’r Llys neu’r triwlynlys dros ddod i’r penderfyniad hwnnw;

7.3.5.4. pan fydd yr hawliad yn herio penderfyniad unrhyw awdurdod cyhoeddus arall, copi o unrhyw gofnod o’r penderfyniad;

7.3.5.5. copïau o unrhyw ddogfennau y mae’r hawlydd yn bwriadu dibynnu arnynt;

7.3.5.6. copïau o unrhyw ddeunydd statudol perthnasol; a

7.3.5.7. rhestr o ddogfennau hanfodol i’w darllen ymlaen llaw gan y Llys (a chyfeiriadau tudalen at y rhannau y bwriedir dibynnu arnynt).

7.3.6. Rhaid darparu’r dogfennau mewn bwndel sy’n cynnwys mynegai a thudalennau wedi’u rhifo. Pan fydd yr hawliad i’w wrando gan Lys Adrannol, rhaid darparu un copi caled o’r bwndel hawliad ar gyfer pob barnwr.) Rhaid hefyd darparu fersiwn electronig o’r bwndel yn unol â’r Cyfarwyddyd yn

⁷⁹ [R \(Dolan\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2020\] EWCA Civ 1605](#), [120].

⁸⁰ R (SSE Generation Ltd) v Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd [2022] EWHC 865 (Admin), [75].

⁸¹ [CPR 54A PD paragraff 4.2\(1\)\(b\)](#).

Roedd⁸² [R \(Talpada\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 841](#) yn pwysleisio’r angen am ddatganiad clir a chryno o’r seiliau, yng nghyd-destun apeliadau, [68]. Gweler hefyd [Hickey v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau \[2018\] EWCA Civ 851](#), [74].

⁸³ [CPR 54A PD paragraff 4.4](#).

[Atodiad 7](#) i'r Canllaw hwn. Rhaid cyflwyno'r copi caled a'r copi electronig i'r Llys (oni ofynnir yn wahanol gan y Llys).⁸⁴

- 7.3.7. Rhaid darparu un copi o'r bwndel hawliad i'w gadw gan y Llys.
- 7.3.8. Bydd ACO yn cadw un copi o'r Ffurflen Hawlio, y bwndel hawliad, ac unrhyw ddogfennau eraill a ffeiliwyd gyda'r Ffurflen Hawlio. Ni ellir dychwelyd y copi hwn o ddogfennau'r hawliad ar ôl i'r hawliad ddod i ben. Dylai'r partïon sicrhau eu bod wedi gwneud eu copïau eu hunain o ddogfennau'r hawliad i bwrpas cyfeirio. Yr eithriad i hyn yw pan oedd yn ofynnol i barti ffeilio dogfen wreiddiol (fel gweithred neu ddogfen adnabod). Wrth ddychwelyd y ddogfen hon, gall ACO wneud copi ohoni cyn ei dychwelyd a chadw'r copi ar ffeil y Llys.
- 7.3.9. Os na fydd yn bosibl ffeilio'r holl ddogfennau a amlinellir ym [mharagraff 7.3.5](#) uchod, rhaid i'r hawlydd nodi pa ddogfennau sydd heb eu ffeilio a'r rhesymau pam nad ydynt ar gael ar hyn o bryd.⁸⁵ Os bydd y Ffurflen Hawlio yn cael ei ffeilio heb y dogfennau angenrheidiol a heb esboniad pam bod hyn yn bod, ac os na nodir pryd y bydd yn cael eu darparu, efallai y bydd ACO yn dychwelyd y Ffurflen Hawlio heb ei chyhoeddi.
- 7.3.10. Os dychwelir y Ffurflen Hawlio yn unol â [pharagraff 7.3.9](#) uchod, ni ystyrir ei bod wedi ei ffeilio i bwrpas terfynau amser yr adolygiad barnwrol (gweler [paragraff 6.4](#) yn y Canllaw hwn).
- 7.3.11. Os na chaiff y dogfennau angenrheidiol a restrir ym [mharagraff 7.3.1](#) uchod eu ffeilio gyda'r Ffurflen Hawlio, ond yn hytrach yn ddiweddarach, byddant wedi cael eu ffeilio allan o amser. Rhaid felly cynnwys cais am estyniad amser i ffeilio'r dogfennau. Rhaid gwneud y cais hwn drwy Rybudd Cyflwyno Cais gyda'r ffi berthnasol (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).

8.4. Dyletswydd i wneud ymholiadau

- 7.4.1. Rhaid i hawlydd wneud ymholiadau priodol ac angenrheidiol cyn ceisio caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ystyriaeth frys neu ryddhad interim i sicrhau cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol bosibl bod yr holl ffeithiau perthnasol yn hysbys.⁸⁶

8.5. Dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r Llys

- 7.5.1. Mae yna ddyletswydd arbennig - dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r Llys - sy'n berthnasol i bob parti mewn hawliadau am adolygiad barnwrol. Mae'n ofynnol i bartïon sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol a'r holl ffeithiau perthnasol yn cael eu rhoi gerbron y Llys. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r partïon ddatgelu gwybodaeth neu ffeithiau perthnasol sydd naill ai'n cefnogi neu'n tanseilio eu hachos. Efallai y bydd y ddyletswydd

⁸⁴ [CPR 54A PD paragraff 4.5.](#)

⁸⁵ [CPR 54A PD paragraff 4.4\(2\).](#)

⁸⁶ [CPR 54A PD paragraff 4.1\(1\).](#)

i fod yn ddiwyll yn ei gwneud yn ofynnol i barti ddatgelu dogfen yn hytrach na'i chrynhai.

- 7.5.2. Mae'n eithriadol bwysig bod partïon yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i fod yn ddiwyll. Eglurir y ddyletswydd hon yn fwy manwl isod ym [mharagraff 15.1](#) yn y Canllaw hwn.

8.6. Datgelu

- 7.6.1. Mae'r ddyletswydd i fod yn ddiwyll yn sicrhau bod gan y Llys yr holl wybodaeth berthnasol. Nid yw'r rheolau cyffredinol sy'n gofyn am ddatgelu dogfennau mewn hawliadau sifil yn berthnasol i hawliadau am adolygiad barnwrol.
- 7.6.2. Gellir gwneud cais i ddatgelu dogfennau penodol neu ddogfennau o ddosbarth neu fath arbennig yn ystod hawliad am adolygiad barnwrol. O dan [CPR 31.12\(1\)](#), gall y Llys orchymyn bod dogfennau'n cael eu datgelu pan fo hyn yn angenrheidiol i ddelio'n deg ac yn gyfiawn â mater penodol.⁸⁷ Gwneir cais o dan [CPR 31.12\(1\)](#) yn unol â'r egwyddorion a drafodir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn.
- 7.6.3. Yn ymarferol, pur anaml y mae angen gorchymyn datgelu dogfennau mewn hawliadau am adolygiad barnwrol. Efallai na fydd angen datgelu dogfennau fel bo'r Llys yn gallu ystyried mater penodol. Hefyd, gallai'r diffynnydd fod wedi datgelu'r dogfennau perthnasol naill ai cyn i'r achos gychwyn neu fel rhan o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr achos: gweler [paragraff 15.1](#) yn y Canllaw hwn ar y ddyletswydd i fod yn ddiwyll.

8.7. Lle i ffeilio'r hawliad (lleoliad priodol)

- 7.7.1. Mae 5 swyddfa ACO yng Nghymru a Lloegr lle gellir ffeilio hawliad. Mae'r rhain yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Birmingham, Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, Canolfan Llys Cyfun Leeds, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion ac yn y Llysoedd Barn Brenhinol yn Llundain. Mae manylion cyswllt y Canolfannau hyn i'w gweld yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 8](#) i'r Canllaw hwn.
- 7.7.2. Pan fydd hawliad yn ceisio herio cyfreithlondeb penderfyniad corff cyhoeddus yng Nghymru, rhaid ei gyhoeddi yn ACO Caerdydd a bydd pob gwrandawriad yn cael ei gynnal yng Nghymru.⁸⁸
- 7.7.3. Yn ychwanegol at yr uchod, y disgwyliad cyffredinol yw y bydd achosion yn cael eu gweinyddu a'u penderfynu yn yr ardal y mae gan yr hawliad gysylltiad agosaf â hi.⁸⁹ Dylid felly ffeilio'r hawliad yn yr ACO y mae gan yr hawliad gysylltiad agosaf â hi. Pan fydd gan yr hawliad gysylltiad agosaf â'r ardal a

⁸⁷ Gweler [R v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad ex p. World Development Movement Ltd \[1994\] EWHC Admin 1](#), [1995] 1 WLR 386, [396]-[397]. Mae hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau i ddatgelu dogfennau gan rai nad ydynt yn bartïon: [R \(AB\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2022\] EWHC 87 \(Admin\)](#), [7]-[11].

⁸⁸ [CPR 7.1A](#).

⁸⁹ [CPR 54C PD paragraff 2.1 a 2.5](#).

gwmpesir gan Gylchdaith Gorllewin Lloegr yna dylid ei gychwyn yn yr ACO yng Nghanolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd. Bydd yr hawliad yn cael ei weinyddu yng Nghaerdydd, ond bydd pob gwrandawriad (oni bai bod amgylchiadau eithriadol) yn cael ei gynnal mewn llysoedd yng Nghylchdaith Gorllewin Lloegr (ym Mryste yn bennaf).

- 7.7.4. Fel arfer, bydd unrhyw hawliad a gychwynnir ym Birmingham yn cael ei benderfynu mewn Llys priodol yng Nghanolbarth Lloegr; yng Nghaerdydd, mewn llys yng Nghymru neu Gylchdaith Gorllewin Lloegr; yn Leeds, llys yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr; ym Manceinion, llys yng Ngogledd Orllewin Lloegr; ac yn Llundain, yn y Llysoedd Barn Brenhinol. Er nad anogir hyn, gall yr hawlydd gyflwyno hawliad mewn ardal wahanol i'r un y mae ganddo ef neu hi gysylltiad agosaf â hi. Dylai'r hawlydd nodi, yn adran 4 y Ffurflen Hawlio, pam fod yr hawliad wedi cael ei gyflwyno mewn ardal wahanol. Dylid cyfiawnhau'r penderfyniad yn unol â'r ystyriaethau canlynol:⁹⁰
- 7.7.4.1. unrhyw reswm a roddwyd gan unrhyw barti dros fod yn well ganddynt leoliad penodol;
- 7.7.4.2. hwylustod a chost teithio i wrandawriad;
- 7.7.4.3. argaeledd ac addasrwydd dulliau eraill o fynychu gwrandawriad (er enghraifft, trwy gyswllt fideo);
- 7.7.4.4. graddau a natur unrhyw fudd cyhoeddus o ran y dylid gwrandao'r achos mewn unrhyw ardal benodol;
- 7.7.4.5. yr amser o fewn yr hyn y mae'n briodol i'r achos gael ei benderfynu;
- 7.7.4.6. a fyddai'n ddymunol gweinyddu neu benderfynu ar yr hawliad mewn ardal arall o ystyried faint o hawliadau a gyflwynwyd i'r Llys ynghyd â chapasiti, adnoddau a llwyth gwaith y Llys hwnnw;
- 7.7.4.7. a yw'r hawliad yn codi materion sy'n ddigon tebyg i rai sy'n codi mewn hawliad arall fel bo'n ddymunol ei benderfynu ar yr un pryd â'r hawliad arall, neu'n syth ar ei ôl; a
- 7.7.4.8. p'un a yw'r hawliad yn codi materion sy'n gysylltiedig â datganoli, ac, am y rheswm hwnnw, a fyddai'n fwy priodol ei benderfynu yn Llundain neu yng Nghaerdydd; ac
- 7.7.4.9. yr ardal lle mae cynrychiolydd cyfreithiol y partïon wedi'i leoli.
- 7.7.5. Os cychwynnir yr hawliad mewn ACO na chredir ei bod yr un fwyaf priodol, gellir ei drosglwyddo drwy orchymyn barnwrol. Fel arfer bydd y Llys yn gofyn am farn y partïon cyn trosglwyddo hawliad.⁹¹ Os yw'r diffynnydd neu unrhyw

⁹⁰ [CPR 54C PD paragraff 2.5.](#)

⁹¹ I weld enghreifftiau o benderfyniad i drosglwyddo hawliad i ACO sydd y tu allan i Lundain, gweler [R \(Fortt\) v Financial Services Compensation Scheme Ltd \[2022\] EWHC 152 \(Admin\)](#) a [R \(Khyam\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder \[2002\] EWHC 993 \(Admin\)](#).

barti â budd yn credu bod yr hawliad wedi'i gychwyn yn yr ACO anghywir, ac nad yw'r Llys ei hun wedi codi'r mater hwn, gall ef neu hi godi'r mater o leoliad yn eu crynodeb o seiliau'r amddiffyniad.

8.8. Ffeilio dogfennau gyda'r Llys

- 7.8.1. Mae cownteri ACO Llundain yn parhau i fod ar gau i'r cyhoedd, heblaw am Gownter y Swyddfa Ffioedd, sydd ar agor drwy apwyntiad yn unig Mae cownteri Caerdydd a Manceinion ar agor drwy apwyntiad yn unig. Mae cownteri Leeds a Birmingham ar agor.
- 7.8.2. Yn Llundain, gellir ffeilio copiâu caled o ddogfennau drwy eu rhoi yn y blwch post sydd ym mhrif neuadd y Llysoedd Barn Brenhinol, wedi'i farcio â "Llys Gweinyddol" (dydd Llun i ddydd Gwener yn unig). Caiff y blwch post ei wagio bob dydd am 9.30am a 2.30pm. Ni fydd dogfennau a roddir yn y blwch post ar ôl 2.30pm yn cael eu casglu tan y diwrnod dilynol. Os oes angen i ddogfen gael ei chasglu ar frys (er enghraifft, oherwydd bod ei hangen ar gyfer gwrandawriad), dylai partïon anfon e-bost i swyddfa gyffredinol y Llys Gweinyddol yn generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk i wneud trefniadau i'r ddogfen gael ei chasglu. Anfonwch yr e-bost gan ei marcio'n flaenoriaeth uchel a rhwch "Brys/Urgent" yn y blwch pwnc.
- 7.8.3. Mae'r swyddogaethau yr ymdriniwyd â hwy o'r blaen wrth y cownteri bellach yn cael eu gwneud yn electronig, gan gynnwys ffeilio dogfennau gyda'r Llys. Mae'r broses ar gyfer ffeilio electronig wedi'i nodi yn y ddogfen Y Llys Gweinyddol: Gwybodaeth i Ddefnyddwyr y Llys, sydd i'w gweld yn [Atodiad 7](#) i'r Canllaw hwn. Mae'r Llys yn disgwyl i bob parti ymgysgu ei hun â'r canllaw a'i ddilyn.
- 7.8.4. Bydd ACO yn derbyn dogfennau a gyflwynir drwy e-bost cyn belled:
 - 7.8.4.1. nad oes angen cynnwys ffi gyda'r ddogfen sy'n cael ei ffeilio, neu y mae rhif PBA wedi'i anfon gyda'r ddogfen, derbynneb o'r taliad a wnaed gyda cherdyn debyd/credyd neu dystysgrif dileu ffi;
 - 7.8.4.2. nid yw'r ddogfen, gan gynnwys unrhyw atodiadau, yn fwy na'r mwyafswm y mae'r swyddfa llys briodol wedi nodi y gall ei derbyn drwy e-bost;⁹²
 - 7.8.4.3. mae'r neges e-bost, gan gynnwys unrhyw atodiadau yn llai na 10MB.
- 7.8.5. Pan fo modd e-bostio dogfen, rhaid ei hanfon i fewnflwch cyffredinol yr ACO berthnasol (gweler y rhestr gysylltiadau yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 8](#)).⁹³ Ni ddylai unrhyw barti sy'n ffeilio dogfen drwy e-bost hefyd ffeilio copi caled, oni gafwyd cyfarwyddyd i wneud hynny.

⁹² nid yw, gan amlaf, yn fwy na 50 tudalen, ond dylai'r partïon wirio hyn gyda'r swyddfa llys briodol.

⁹³ [CPR 5B PD paragraff 2.1 a 2.2.](#)

- 7.8.6. Gellir ffeilio dogfen drwy ffacs pan fo angen ei ffeilio ar frys. Dim ond os yw'n achos brys y dylid ffacio bwndeli a / neu ddogfennau gwrandawriad sy'n galw am gynnwys ffi a rhaid iddynt gynnwys ymrwymiad i dalu'r ffi. Ni ddylai unrhyw barti sy'n ffeilio dogfen drwy ffacs hefyd ffeilio copi caled, oni gafwyd cyfarwyddyd i wneud hynny.⁹⁴ [Os yw parti yn bwriadu ffeilio dogfennau drwy ffacs, dylai yn gyntaf ffonio'r ACO berthnasol i sicrhau bod y peiriant ffacs ar gael, a bod rhywun yno i dderbyn y ddogfen.](#)
- 7.8.7. Rhaid anfon dadleuon fframwaith i gyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer dadleuon fframwaith yn yr ACO berthnasol (gweler y rhestr gysylltiadau yn [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 8](#)). Gweler [Pennod 20](#) yn y Canllaw hwn am ragor o wybodaeth am ddadleuon fframwaith.
- 7.8.8. Bydd unrhyw ddogfen sy'n cael ei ffeilio drwy ffacs neu e-bost ar ôl 4pm yn cael ei thrin fel un wedi'i ffeilio'r diwrnod canlynol.⁹⁵
- 7.8.9. Rhaid i neges e-bost a anfonir i'r Llys gynnwys enw, rhif ffôn a chyfeiriad neu gyfeiriad e-bost yr anfonwr ar gyfer cysylltu â rhaid iddi (gan gynnwys yr atodiadau) fod mewn fformat testun plaen neu destun cyfoethog ac nid HTML. Pan fydd achos wedi cychwyn, rhaid i'r neges e-bost hefyd nodi'n glir gyfeirnod y Llys ar gyfer yr achos, enwau'r partïon a dyddiad ac amser unrhyw wrandawriad y mae'r e-bost yn berthnasol iddo.
- 7.8.10. Gall ACO neu farnwr gyfarwyddo neu orchymyn bod dogfen yn cael ei ffeilio drwy e- bost neu ffacs mewn amgylchiadau gwahanol i'r rhai uchod.
- 7.8.11. Y gobaith ydi y bydd system ffeilio electronig CE-File yn cael ei chyflwyno yn y Llys Gweinyddol yn ystod 2023. Bydd rhagor o wybodaeth ynghylch y dyddiad cychwyn a manylion eraill yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Farnwriaeth ymhen amser. Mae'n debyg y bydd Cyfarwyddyd Ymarfer yn cael ei gyhoeddi i gyd-fynd â chyflwyniad system CE-File.

8.9. Cyflwyno'r Ffurflen Hawlio

- 7.9.1. Rhaid i'r hawlydd gyflwyno copi wedi'i selio o'r Ffurflen Hawlio, ynghyd â chopi o'r bwndel o ddogfennau a ffeiliwyd gyda'r Ffurflen Hawlio, i'r diffynnydd neu ddiffynyddion ac unrhyw barti â budd o fewn 7 diwrnod i gyflwyno'r hawliad. Rhaid cyflwyno hwn; ni ellir tybio ei fod wedi'i gyflwyno.⁹⁶ Os na fydd y ffurflen hawlio wedi'i chyflwyno o fewn 7 diwrnod, rhaid gwneud cais am estyniad amser i gyflwyno'r ffurflen hawlio (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).⁹⁷

⁹⁴ [CPR 5A PD paragraff 5.3.](#)

⁹⁵ [CPR 5A PD paragraff 5.3.\(6\)](#) a [CPR 5B PD paragraff 4.2](#)

⁹⁶ [R \(Good Law Project Ltd\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) [2022] EWCA Civ 355, [24].

Nid yw⁹⁷ [CPR 7.6](#) yn berthnasol i estyniadau amser ar gyfer cyflwyno ffurflen hawlio adolygiad barnwrol, ond dylid dilyn ei egwyddorion ar gais o dan [CPR 3.1\(2\)\(a\)](#) i ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno hawliad am adolygiad barnwrol. Felly, oni bai bod hawlydd wedi cymryd yr holl gamau rhesymol i gydymffurfio â [CPR 54.7](#) ond nad yw wedi gallu gwneud hynny, ni ddylid ymestyn yr amser ar gyfer cyflwyno hawliad: *ibid*, [85]

- 7.9.2. O safbwynt pob Adran o'r Llywodraeth, dylid cyflwyno papurau ar y swyddfa a enwir o dan Ddeddf Achosion y Goron 1947 (atgynhychir yn [Atodiad 3](#) i'r Canllaw hwn).⁹⁸ O safbwynt awdurdodau lleol, dylid cyflwyno papurau ar y prif swyddfeidd a chynnwys nodyn yn dweud y dylid cyfeirio'r papurau at adran gyfreithiol yr awdurdod.
- 7.9.3. Os yw'r parti y bwriedir cyflwyno'r papurau iddo/iddi y tu allan i'r DU, neu os dymuna'r hawlydd wneud cais i hepgor cyflwyno'r Ffurflen Hawlio, mae darpariaethau gwahanol yn berthnasol. Dylai'r hawlydd ystyried [CPR 6.16](#) (ar gyfer hepgor cyflwyno'r Ffurflen Hawlio) a [CPR 6.30-6.34](#), [CPR 6.36-6.37](#), a [CPR 6B PD](#) (ar gyfer cyflwyno papurau y tu allan i'r DU).
- 7.9.4. Unwaith y bydd yr hawlydd wedi cyflwyno'r papurau i'r diffynnydd/diffynyddion ac unrhyw barti neu bartïon â budd, rhaid i'r hawlydd gadarnhau hyn ag ACO drwy ffeilio tystysgrif cyflwyno (Ffurflen N215) cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r Ffurflen Hawlio. Os na fydd ACO wedi cael tystysgrif cyflwyno neu gydnabyddiad cyflwyno gan y diffynnydd erbyn 28 niwrnod ar ôl cyflwyno'r Ffurflen Hawlio, bydd yr achos yn cael ei gau.
- 7.9.5. Os bydd hawliad yn cael ei gau oherwydd bod yr hawlydd wedi methu â ffeilio tystysgrif cyflwyno mewn pryd, bydd rhaid cael gorchymyn barnwrol i ailagor yr hawliad. Rhaid gwneud cais am orchymyn o'r fath drwy ffeilio rhybudd cyflwyno cais a chynnwys y ffi berthnasol (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn). Rhaid i'r hawlydd egluro yn y cais pam na ffeiliwyd tystysgrif cyflwyno mewn pryd ac a wnaeth y methiant achosi unrhyw anfantais i unrhyw barti neu oedi i'r broses adolygiad barnwrol ac egluro'r rhesymau pam y dylid ailagor yr hawliad.
- 7.9.6. Mae [CPR 39.8](#) yn datgan bod rhaid datgelu unrhyw gyfathrebu rhwng parti mewn achos a'r Llys, ac os yw'n ysgrifenedig (p'un ai ar ffurf papur neu'n electronig), anfon copi at y parti neu'r partïon eraill neu eu cynrychiolwyr (gyda rhai eithriadau). Os bydd parti yn methu â chydymffurfio â'r rheol, gall y Llys osod sancsiynau neu ddychwelyd y cyfathrebiad i'r anfonwr heb ystyried ei gynnwys.

8.10. Darpariaethau ychwanegol ar gyfer unigolion sy'n destun Gorchymyn Achos Sifil neu Orchymyn Atal Sifil

- 7.10.1. Os yw hawlydd yn destun gorchymyn achos sifil a wnaed o dan [a. 42 Deddf Uwchlysoedd 1981](#) neu'n destun gorchymyn atal sifil a wnaed o dan [CPR 3.11](#), rhaid i'r hawlydd wneud cais am ganiatâd i gychwyn achos cyn y gall ef neu hi ffeilio cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.
- 7.10.2. Rhaid gwneud cais o'r fath ar Ffurflen N244 a chynnwys y ffi berthnasol. Nid yw'r ffi hon yn un y mae cymorth rhag talu ar gael ar ei chyfer ond gellir ad-dalu'r ffi os rhoddir caniatâd i gychwyn achos.
- 7.10.3. Trafodir y gofynion o ran unigolion sy'n destun gorchymyn achos sifil neu orchymyn atal sifil yn fwy manwl ym [Mhennod 5](#) yn y Canllaw hwn.

⁹⁸ [CPR 54A PD paragraff 5.2\(b\)](#).

8.11. Diwygio'r hawliad neu seiliau'r adolygiad barnwrol cyn i'r Llys ystyried rhoi caniatâd

- 7.11.1. Os yw'r hawlydd yn dymuno ffeilio tystiolaeth bellach, diwygio neu gyfnwid y Ffurflen Hawlio neu fwndel yr hawliad, neu ddibynnu ar seiliau pellach ar ôl eu cyflwyno, rhaid iddo ef neu hi wneud cais am orchymyn yn caniatáu iddynt wneud hynny.⁹⁹ Mae'r weithdrefn ceisiadau interim a drafodir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn yn berthnasol yn hyn o beth.
- 7.11.2. Mae gan y Llys ddisgresiwn i ganiatáu diwygiadau neu beidio, a bydd yn cymryd i ystyriaeth unrhyw anfantais y byddai'n cael ei achosi i'r partïon eraill, neu i weinyddiaeth dda.
- 7.11.3. Os bydd y diffynnydd wedi cytuno i ailystyried y penderfyniad gwreiddiol a heriwyd (a thrwy hynny, yn cytuno i bob pwrpas i ddiddymu'r penderfyniad a heriwyd heb ymyrraeth y Llys), gallai fod yn fwy priodol i ddod â'r hawliad i ben (gweler [Pennod 24](#) yn y Canllaw hwn), yn hytrach na'i atal am y tro neu geisio ei ddiwygio. Un eithriad yw pan fydd yr achos yn codi pwynt o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol a bod y pwynt a oedd dan sylw mewn perthynas â'r penderfyniad gwreiddiol yn parhau i fod yn fater pwysig mewn perthynas â'r penderfyniad dilynol.¹⁰⁰
- 7.11.4. Os yw'r diffynnydd wedi gwneud penderfyniad newydd yn disodli'r penderfyniad sy'n cael ei herio, a bod yr hawlydd yn dymuno herio'r penderfyniad newydd, gyda'r mwyafrif o achosion y cam gweithredu priodol fyddai dod â'r hawliad i ben a ffeilio un newydd. Er nad oes rheol bendant, gan amlaf bydd yn well i bob parti os na ymdrinnir ag achos adolygiad barnwrol fel achos "treigl" neu "esblygol".¹⁰¹
- 7.11.5. Os gwneir cais i newid er mwyn herio penderfyniad diweddarach, mae yna nifer o faterion i'w nodi:¹⁰²
- 7.11.5.1. Gall y Llys bennu amod yn mynnu bod yr hawliad yn cael ei ail-lunio a bod unrhyw fwndeli deunyddiau yn cael eu paratoi o'r newydd, i ddileu unrhyw ddeunydd amherthnasol diangen a gweithio o un casgliad o bapurau. Fel arfer, dylai gorchymyn drafft neu orchymyn cydsynio drafft sydd am ddiwygio'r hawliad o dan amgylchiadau o'r fath gynnwys darpariaeth yn caniatáu ffeilio bwndel hawliad newydd diwygiedig neu, yn ddelfrydol, gynnwys copi o'r bwndel hawliad diwygiedig arfaethedig.

⁹⁹ Gweler [CPR 54A PD paragraff 11.1-11.4](#) ar gyfer addasu'r seiliau. Gweler [R \(AB\) Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#) [112]-[114].

¹⁰⁰ [R \(Bhatti\) v Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bury \[2013\] EWHC 3093](#) a [R \(Yousuf\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2016\] EWHC 663 \(Admin\)](#).

¹⁰¹ [R \(Dolan\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2020\] EWCA Civ 1605](#), [2021] 1 WLR 2326, [118]; [R \(Spahiu\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 2604](#), [2019] 1 WLR 1297, [62]-[63].

¹⁰² [R \(Hussain\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder \[2016\] EWCA Civ 1111](#), [2017] 1 WLR 761.

- 7.11.5.2. Mae gan y Llys ddisgresiwn i ganiatáu diwygiadau a gall wneud asesiad mai'r ffordd orau o gynnal achos yw trwy wrthod caniatâd i newid a mynnu bod hawliad newydd yn cael ei ddwyn gerbron y llys.
- 7.11.5.3. Bydd y Llys yn sicrhau ei fod yn gwirio nad yw hawlydd yn ceisio osgoi cydymffurfio ag unrhyw derfynau amser drwy ofyn i hawliad gael ei ddiwygio yn hytrach na chychwyn un newydd.
- 7.11.5.4. Bydd hefyd disgwyl i hawlydd sy'n ceisio caniatâd i ddiwygio hawliad roi hysbysiad priodol i bob unigolyn perthnasol, gan gynnwys partïon â budd.

9. Y Cydnabyddiad Cyflwyno

9.1. Cyflwyno Cydnabyddiad Cyflwyno

- 8.1.1. Mae'n rhaid i unrhyw ddiffynnydd neu barti â budd y cyflwynwyd Ffurflen Hawlio iddo sy'n dymuno cymryd rhan yng ngham caniatâd am adolygiad barnwrol yr hawliad ffeilio a chyflwyno Cydnabyddiad Cyflwyno.¹⁰³
- 8.1.2. Rhaid defnyddio ffurflen N462. Os cafodd yr hawliad ei gychwyn yn yr ACO yng Nghaerdydd, neu os cafodd ei drosglwyddo yno, gellir cyflwyno'r Cydnabyddiad Cyflwyno ac unrhyw dystiolaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
- 8.1.3. Mae'n beth doeth i unrhyw ddiffynnydd neu barti â budd ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno fel bod y Llys yn gwybod a yw diffynnydd neu barti â budd yn dymuno herio'r hawliad. Fodd bynnag, nid oes rhaid ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno, oni orchmynnir hynny gan y Llys.
- 8.1.4. Os bydd parti'n methu â ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno o fewn y terfynau amser perthnasol (gweler [paragraff 8.2](#) isod), bydd hyn yn effeithio ar yr hawliad mewn 3 ffordd:
- 8.1.4.1. anfonir y papurau at farnwr i ystyried a yw am roi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol heb unrhyw wybodaeth am sefyllfa'r parti;
- 8.1.4.2. os bydd y barnwr yn cyfarwyddo bod caniatâd i'w ystyried mewn gwrandawriad llafar (gweler [paragraff 9.2.1.4](#) yn y Canllaw hwn) neu os bydd y barnwr yn gwrthod rhoi caniatâd a bod yr hawlydd yn gwneud cais i hyn gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn), yna ni chaiff y parti gymryd rhan yn y gwrandawriad caniatâd heb ganiatâd y Llys;¹⁰⁴ a
- 8.1.4.3. gall y barnwr gymryd i ystyriaeth methiant y parti i ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno wrth ystyried costau (gweler Pennod [25](#) yn y Canllaw hwn).¹⁰⁵
- 8.1.5. Os nad yw parti'n ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno a'i fod yn cael caniatâd yn ddiweddarach, gall y parti hwnnw dal gymryd rhan yn y penderfyniad ar yr hawliad sylfaenol am adolygiad barnwrol (gweler [paragraff 9.2.1.1](#) a [Phennod 11](#) yn y Canllaw hwn).¹⁰⁶

¹⁰³ [CPR 54.8\(2\)](#).

¹⁰⁴ [CPR 54.9\(1\)\(a\)](#).

¹⁰⁵ [CPR 54.9\(2\)](#).

¹⁰⁶ [CPR 54.9\(1\)\(b\)](#).

9.2. Terfynau amser ar gyfer ffeilio'r Cydnabyddiad Cyflwyno

- 8.2.1. Rhaid ffeilio'r Cydnabyddiad Cyflwyno yn ACO cyn pen 21 niwrnod ar ôl cyflwyno'r Ffurflen Hawlio.¹⁰⁷ Gellir ymestyn neu fyrhau'r cyfnod o 21 diwrnod drwy orchymyn barnwrol. Gall barnwr hefyd ystyried cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol heb aros i Gydabyddiad Cyflwyno gael ei ffeilio.
- 8.2.2. Os na all y partïon gytuno rhyngddynt i ymestyn yr amser ar gyfer ffeilio;¹⁰⁸ yna bydd rhaid i'r Llys wneud gorchymyn. Rhaid gwneud cais am fwy o amser yn unol â'r drefn ceisiadau interim ac ar ôl talu'r ffi berthnasol (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn). Neu, gellir gwneud y cais yn ôl-weithredol yn y Cydnabyddiad Cyflwyno yn Adran D, cyn belled nad yw'r penderfyniad ar y cais i ganiatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol eisoes wedi'i wneud.
- 8.2.3. Rhaid cyflwyno'r Cydnabyddiad Cyflwyno i'r holl bartïon eraill cyn pen 7 niwrnod ar ôl ei ffeilio ag ACO.
- 8.2.4. Cyn gynted ag y bydd bob parti yn yr hawliad wedi ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno, neu pan fydd y terfyn amser wedi dod i ben, gellir anfon y papurau at farnwr i ystyried a yw am roi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol drwy ystyried y papurau'n unig (gweler [Pennod 9](#) yn y Canllaw hwn).

9.3. Cynnwys y Cydnabyddiad Cyflwyno

- 8.3.1. Rhaid i'r Cydnabyddiad Cyflwyno:
 - 8.3.1.1. nodi'r seiliau cryno dros herio'r hawliad, (neu seiliau cryno'r amddiffyniad), sail gyfreithiol ymateb y diffynnydd i achos yr hawlydd ac unrhyw ffeithiau perthnasol (gan gynnwys unrhyw faterion materol o anghydfod ffeithiol), os yw'r parti yn ei herio. Dylai'r seiliau cryno gynnwys crynodeb byr o'r rhesymau sy'n sail i'r penderfyniad neu'r ymddygiad a heriwyd, neu'r rhesymau pam gellir penderfynu ar y cais am ganiatâd heb yr wybodaeth honno.¹⁰⁹ Gellir nodi'r seiliau cryno yn Adran C o'r Cydnabyddiad Cyflwyno neu eu hatodi fel dogfen ar wahân;
 - 8.3.1.2. bod mor gryno â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na 30 tudalen. Mewn llawer o achosion bydd y Llys yn disgwyl i'r seiliau cryno fod llawer byrrach na hyn. Gall y Llys roi caniatâd i fynd y tu hwnt i'r terfyn 30 tudalen. Rhaid gwneud cais am hyn a dylid ei gyflwyno cyn ffeilio'r ddogfen, neu o leiaf ar yr un pryd â ffeilio'r ddogfen;¹¹⁰
 - 8.3.1.3. nodi, drwy roi tic yn y blwch perthnasol yn Adran A, os yw'r parti yn bwriadu herio'r cais am ganiatâd ar y sail ei bod yn hynod

¹⁰⁷ [CPR 54.8\(2\)\(a\)](#).

¹⁰⁸ [CPR 54.8\(3\)](#).

¹⁰⁹ [CPR 54.8\(4\)\(a\)\(i\)](#); [CPR 54A PD paragraff 6.2](#).

¹¹⁰ [CPR 54A PD paragraff 6.2](#).

debygol na fyddai'r canlyniad i'r hawlydd wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd amdano wedi digwydd. Os gwneir hyn, rhaid i'r seiliau cryno egluro pam;¹¹¹

- 8.3.1.4. nodi, yn Adran B, enw a chyfeiriad unrhyw unigolyn y credir ei fod yn barti â budd;¹¹²
- 8.3.1.5. nodi, yn Adran E, a yw'r parti'n herio cais yr hawlydd am drothwy costau awtomatig o dan Gonfensiwn Aarhus (gweler [paragraff 25.15](#) yn y Canllaw hwn), os gwnaed cais o'r fath.
- 8.3.2. Gellir ffeilio tystiolaeth gyda'r Cydnabyddiad Cyflwyno ond nid yw hyn yn angenrheidiol.
- 8.3.3. Pan na fydd parti'n bwriadu herio'r hawliad, dylid esbonio'n glir yn Adran C yn y Cydnabyddiad Cyflwyno a yw'r parti yn bwriadu aros yn niwtral neu a fyddai, mewn egwyddor, yn cytuno i ddiddymu'r penderfyniad. Bydd yr wybodaeth hon yn galluogi'r Llys i reoli'r hawliad yn briodol. Os yw'r parti yn cytuno, mewn egwyddor, i ddiddymu'r penderfyniad, yna dylai'r parti'n geisio cytuno ar ffordd o setlo'r hawliad ar y cyfle cyntaf posib.
- 8.3.4. Pwrpas y Cydnabyddiad Cyflwyno (ac yn benodol seiliau cryno yr amddiffyniad) yw cynorthwyo'r Llys i benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ac, os felly, ar ba delerau. Ni ddylai diffynyddion a phartïon â budd wrthwynebu rhoi caniatâd yn awtomatig ac yn ddifeddwl. Mewn achosion priodol, gallant ac fe ddylent gynorthwyo'r Llys trwy nodi yn y Cydnabyddiad Cyflwyno nad yw caniatâd yn cael ei wrthwynebu.

9.4. Ceisiadau'r diffynnydd

- 8.4.1. Wrth gyflwyno'r Cydnabyddiad Cyflwyno, gall diffynnydd neu barti â budd ofyn am gyfarwyddyd pellach neu orchymyn interim gan y Llys yn Adran D.¹¹³ Mae enghreifftiau o geisiadau y gellir eu gwneud ar y cam hwn yn cynnwys cais am gostau'r parti wrth baratoi'r Cydnabyddiad Cyflwyno ac am ollwng unrhyw waharddebau a wnaed yn flaenorol.

9.5. Cam caniatâd – ymateb

- 8.5.1. Nid yw'r CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn cynnwys darpariaeth ar gyfer adegau pan fydd yr hawlydd eisiau ymateb i'r Cydnabyddiad Cyflwyno pan wneir cais ar bapur. Anaml y mae angen ymateb ac ni anogir gwneud hyn. Ni fydd ACO yn oedi rhag ystyried cais am ganiatâd ar y sail bod yr hawlydd yn dymuno ymateb. Os yw'r hawlydd yn credu fod yna rhywbeth yn y Cydnabyddiad Cyflwyno y dylid ymateb iddo, yna dylai ddrafftio dogfen gryno sy'n cyfeirio at y mater penodol hwnnw yn unig. Rhaid anfon cais am ganiatâd i ffeilio ymateb gyda'r ddogfen hon a dylid eu ffeilio yn brydlon. Bydd unrhyw

¹¹¹ [CPR 54.8\(4\)\(a\)\(ia\)](#).

¹¹² [CPR 54.8\(4\)\(a\)\(ii\)](#). Am ragor o fanylion am bwy sy'n barti â budd, gweler [paragraff 3.2.3](#) yn y Canllaw hwn.

¹¹³ [CPR 54.8\(4\)\(b\)](#).

ymateb a ddaw i law cyn i'r cais gael ei anfon at farnwr i ystyried rhoi caniatâd yn cael ei roi gerbron y barnwr. Mater i'r barnwr fydd penderfynu a yw am ei gymryd i ystyriaeth neu beidio.¹¹⁴

¹¹⁴ [R \(Wingfield\) v Cyngor Dinas Caergaint \[2019\] EWHC 1975 \(Admin\)](#), [80]-[81].

10. Cam Caniatâd y Broses Adolygiad Barnwrol

10.1. Y cais

- 9.1.1. Rhaid i'r hawlydd gael caniatâd gan y Llys i wneud cais am adolygiad barnwrol. Os rhoddir caniatâd ar rai o'r seiliau neu'r seiliau i gyd, bydd yr hawliad fel arfer yn symud at wrandawriad llawn ar sail y seiliau y rhoddwyd caniatâd arnynt. (Gelwir hyn yn wrandawriad sylfaenol - gweler [Pennod 11](#) yn y Canllaw hwn.)
- 9.1.2. Yn y lle cyntaf, anfonir papurau'r hawliad (sy'n cynnwys y papurau a ffeiliwyd gan yr hawlydd, unrhyw Gydnabyddiad Cyflwyno ac unrhyw ymateb a gafwyd adeg coladu'r papurau) at farnwr. Bydd y barnwr yna'n ystyried y papurau ac yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol.

(Gall y barnwr wneud gorchmynion eraill cyn penderfynu ynghylch caniatâd; gweler [paragraff 9.2.1.4 – 9.2.1.6](#) yn y Canllaw hwn.)

- 9.1.3. Bydd y barnwr yn gwrthod rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol oni bai y caiff ei fodloni bod sail gredadwy dros gredu bod gan adolygiad barnwrol siawns realistig o lwyddo.¹¹⁵

9.1.4. Hyd yn oed os oes sail gredadwy dros gredu bod gan hawliad siawns realistig o lwyddo, rhaid i'r barnwr wrthod rhoi caniatâd:

- 9.1.4.1. oni bai ei fod ef neu hi o'r farn bod gan y ceisydd fudd digonol yn y mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef (gweler [paragraff 6.3.2](#) yn y Canllaw hwn); ac
- 9.1.4.2. os yw'n ymddangos yn dra debygol na fyddai'r canlyniad i'r hawlydd wedi bod yn dra gwahanol pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd yn ei gylch wedi digwydd.¹¹⁶

- 9.1.5. Os yw'r Llys yn ystyried bod oedi diangen wedi bod wrth wneud yr hawliad, gall y Llys wrthod rhoi caniatâd.¹¹⁷ Trafodir oedi mewn mwy o fanylder ym [mharagraff 6.4](#) yn y Canllaw hwn.
- 9.1.6. Mae'r rhesymau eraill dros wrthod rhoi caniatâd yn cynnwys rhwymedi arall addas ([paragraff 6.3.3](#)) a bod yr hawliad yn academiaidd neu wedi dod yn academiaidd ([paragraff 6.3.4](#)).

10.2. Gorchmynion llys yn ymwneud â chaniatâd

- 9.2.1. Gellir gwneud nifer o wahanol orchmynion ar ôl ystyried y papurau. Rhestrir isod rhai o'r gorchmynion mwyaf cyffredin:

¹¹⁵ Gweler *Sharma v Brown-Antoine* [2006] UKPC 57, [2007] 1 WLR 780, [14(4)]; [Twrnai Cyffredinol Trinidad a Tobago v Ayers-Caesar](#) [2019] UKPC 44, [2]; [Maharaj v Petroleum Company of Trinidad and Tobago Ltd](#) [2019] UKPC 21; [Simone v Canghellor y Trysorlys](#) [2019] EWHC 2609 (Admin), [112].

¹¹⁶ [a.31\(3C\)-\(3F\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

¹¹⁷ [a.31\(6\)\(a\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

9.2.1.1. Rhoi caniatâd

Mae'r barnwr wedi penderfynu bod achos credadwy ar bob sail. Bydd yr achos yn symud i wrandawriad sylfaenol. Yn yr achos hwn, bydd y barnwr fel arfer yn rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer y gwrandawriad sylfaenol.

9.2.1.2. Gwrthod rhoi caniatâd

Mae'r barnwr wedi penderfynu nad yw'r un o'r seiliau a gyflwynodd yr hawlydd yn rhai credadwy, felly ni ddylid gwrandao'r hawliad mewn gwrandawriad sylfaenol. Bydd y barnwr yn rhoi rhesymau byr dros y penderfyniad hwnnw yn y gorchymyn.¹¹⁸ Gall y barnwr orchymyn bod yr hawlydd yn talu'r costau a gafodd y diffynnydd wrth baratoi'r Cydnabyddiad Cyflwyno (gweler [paragraff 25.4](#) yn y Canllaw hwn).

9.2.1.3. Rhoi caniatâd yn rhannol

Mewn rhai achosion, efallai y bydd y barnwr yn penderfynu bod rhai o'r seiliau a gyflwynodd yr hawlydd, ond nid rhai eraill, yn gredadwy. Bydd y barnwr yn cyfarwyddo bod y mater yn cael ei wrando mewn gwrandawriad sylfaenol ar y seiliau hynny'n unig. Gall yr hawlydd wneud cais i'r seiliau a wrthodwyd at ddibenion caniatâd gael eu hailystyried mewn gwrandawriad llafar (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn). Ni chaiff yr hawlydd godi neu atgynhyrchu seiliau newydd yn y gwrandawriad sylfaenol os na roddwyd caniatâd eisoes oni bai fod y llys (yn anarferol) yn caniatáu hynny.¹¹⁹

9.2.1.4. Gohirio rhoi caniatâd tan y cynhelir gwrandawriad llafar drwy hysbysiad

Nid yw'r barnwr wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar y cais am ganiatâd. Yn hytrach, bydd y cais am ganiatâd yn cael ei ystyried mewn gwrandawriad llafar yn y Llys gyda'r hawlydd ac unrhyw bartïon eraill sydd am gyflwyno sylwadau i'r Llys yn bresennol. Bydd ffurf y gwrandawriad yn debyg i ffurf gwrandawriad atgynhyrchu (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn).

9.2.1.5. Gohirio rhoi caniatâd tan y cynhelir gwrandawriad "treigl".

Nid yw'r barnwr wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar y cais am ganiatâd. Yn hytrach bydd y cais am ganiatâd yn cael ei ystyried yn y Llys gyda'r gwrandawriad sylfaenol i ddilyn yn syth os rhoddir caniatâd. Yn y gwrandawriad treigl, mae'r barnwr yn debygol o wrando ar y dadleuon dros roi caniatâd a'r prif hawliad gyda'i gilydd, a rhoi un dyfarniad, ond mater i ddisgresiwn y barnwr yw sut y mae'n ymdrin â'r gwrandawriad.

Wrth baratoi'r dogfennau ar gyfer gwrandawriad treigl, dylai'r bartïon ddilyn yr un rheolau ag a wneir wrth baratoi ar gyfer gwrandawriad sylfaenol (gweler [Pennod 11](#) yn y Canllaw hwn). Dylai'r dogfennau sydd gerbron y Llys fod yr un fath â phe bai'r gwrandawriad yn wrandawriad sylfaenol.

¹¹⁸ [CPR 54.12\(2\)](#).

¹¹⁹ [R \(Talpada\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 841](#), [23] & [68].

Os gorchmynnir gwrandawriad treigl, bydd ACO yn gofyn i'r hawlydd lofnodi ymgymeriad i dalu ffi'r cais sylfaenol am adolygiad barnwrol a fyddai wedyn yn dod yn daladwy os bydd y barnwr yn rhoi caniatâd yn nes ymlaen.

9.2.1.6. Ailgyflwyno'r cais am ganiatâd

Nid yw'r barnwr wedi gwneud unrhyw benderfyniad ar y cais am ganiatâd. Yn hytrach, bydd y barnwr yn gofyn i'r partïon wneud rhywbeth (fel ffeilio dogfennau neu sylwadau ychwanegol) neu aros am ddigwyddiad arall (megis canlyniad achos tebyg). Unwaith y bydd y peth wedi'i wneud neu'r digwyddiad wedi digwydd, neu pan fydd y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny wedi dod i ben, bydd y papurau'n cael eu hailgyflwyno i'r barnwr i ystyried caniatâd ar sail y papurau.

10.3. Gorchmynion heb unrhyw haeddiant

- 9.3.1. Os yw'r barnwr yn ystyried bod y cais am ganiatâd heb unrhyw haeddiant, gall wrthod rhoi caniatâd a chofnodi bod yr hawliad yn un heb unrhyw haeddiant.
- 9.3.2. Mae'r term "heb unrhyw haeddiant" yn berthnasol i achos sy'n sicr o fethu; nid oes rhaid i'r achos ymwneud â chamdriniaeth neu ofid.¹²⁰
- 9.3.3. Os caiff achos ei ardystio i fod yn un heb unrhyw haeddiant, ni fydd hawl i wrandawriad atgynhyrchu llafar¹²¹ (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn) a bydd yr hawliad yn cael ei benderfynu'n derfynol yn y Llys Gweinyddol, er bydd hawl i apelio (gweler [paragraff 26.3](#) yn y Canllaw hwn).

10.4. Ailystyried mewn gwrandawriad llafar

- 9.4.1. Os gwrthodir caniatâd, dylai'r hawlydd ystyried rhesymau'r barnwr dros wrthod rhoi caniatâd ar sail y papurau cyn cymryd unrhyw gamau pellach.
- 9.4.2. Os nad yw'r hawlydd yn cymryd unrhyw gamau pellach, yna 7 diwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn yn gwrthod caniatâd, bydd ACO yn cau'r achos. Os yw'r Llys wedi cyfarwyddo'r partïon i ffeilio cyflwyniadau ysgrifenedig ar gostau, neu wedi rhoi cyfarwyddyd ynghylch unrhyw agwedd arall ar yr achos, bydd yr hawliad yn aros ar agor hyd nes y caiff y mater costau neu'r agwedd arall ei ddatrys. Os oes gorchymyn costau interim mewn lle ar y pryd, ac oni bai fod y Llys wedi cyfarwyddo fel arall, bydd yn parhau i fod mewn grym (er bod yr achos wedi cau'n weinyddol) a bydd rhaid i'r partïon wneud cais i roi'r gorchymyn hwnnw o'r naill du (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).
- 9.4.3. Os yw'r hawlydd, ar ôl ystyried y rhesymau, eisiau parhau i herio'r mater ond nid oes hawl i apelio, gall ofyn i'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad

¹²⁰ [R \(Wasif\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \(Nodyn Ymarfer\) \[2016\] EWCA Civ 82](#), [2016] 1 WLR 2793.

¹²¹ [CPR 54.12\(7\)](#).

barnwrol gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar (a elwir yn aml yn wrandawriad atgynhyrchu).¹²²

- 9.4.4. Pan fydd ACO yn cyflwyno gorchymyn yn gwrthod caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar sail y papurau, bydd hefyd yn cynnwys hysbysiad atgynhyrchu (Ffurflen 86b). Os yw'r hawlydd yn dymuno gofyn i'r barnwr ailystyried eu cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol mewn gwrandawriad llafar, rhaid iddo ef neu iddi hi lenwi a dychwelyd y ffurflen hon i ACO o fewn 7 diwrnod¹²³ i ddyddiad ei chyflwyno. Mae rhaid talu ffi. Dylai'r hawlydd anfon copi o Ffurflen 86b at unrhyw barti a ffeiliodd Gydabyddiad Cyflwyno.
- 9.4.5. Rhaid i'r Hawlydd ddarparu seiliau dros gyflwyno'r cais newydd am ganiatâd, a dylai ymateb i resymau'r barnwr dros wrthod caniatâd drwy egluro'n fyr pam fod yr hawlydd yn credu bod y rhesymau hynny'n anghywir.¹²⁴ Nid yw'n ddigon dweud y gofynnir am gais atgynhyrchu ar y seiliau gwreiddiol yn unig, heb geisio egluro cwmplas y cais a pham fod yr hawlydd yn credu bod rhesymau'r barnwr yn wallus. Os na ymdrechir i ymateb i resymau'r barnwr dros wrthod caniatâd, gall y barnwr wneud gorchymyn costau yn erbyn yr hawlydd yn y gwrandawriad atgynhyrchu a / neu orfodi unrhyw sancsiwn arall y mae ef neu hi yn credu i fod yn briodol.
- 9.4.6. Ar ôl derbyn yr hysbysiad atgynhyrchu, bydd ACO yn rhestru gwrandawriad llafar (gweler [paragraff 14.2.1](#) yn y Canllaw hwn ar restru). Heb orchymyn barnwrol, ni all y gwrandawriad ddigwydd heb fod y partïon wedi cael o leiaf dau ddiwrnod o rybudd.¹²⁵ Bydd ACO yn anfon rhybudd o ddyddiad y gwrandawriad at yr holl bartïon.
- 9.4.7. Fel arfer bydd y gwrandawriad atgynhyrchu yn un cyhoeddus; gall unrhyw un fynychu a dod i wylïo a bydd fel arfer yn digwydd yn y Llys.

10.5. Amcan-amser ar gyfer gwrandawriad atgynhyrchu

- 9.5.1. Disgwylir i wrandawriadau atgynhyrchu fod yn fyr, gyda'r partïon yn gwneud cyflwyniadau cryno. Yr amcangyfrif amser safonol ar gyfer gwrandawriad atgynhyrchu yw 30 munud. Mae hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen ar y barnwr i roi dyfarniad llafar ar ddiwedd y gwrandawriad, lle bo hynny'n briodol.
- 9.5.2. Rhaid cynnwys unrhyw gais am fwy o amser na hyn yn y cais. Os yw unrhyw barti o'r farn bod y cais atgynhyrchu yn debygol o bara mwy na 30 munud, rhaid iddo ef neu hi hysbysu ACO cyn gynted â phosibl. Ym mhob achos, cyn pen 7 diwrnod ar ôl y dyddiad y cafodd y cais ei ffeilio, rhaid i'r partïon ddweud wrth y Llys yr amcangyfrif amser y cytunwyd arno ar gyfer y gwrandawriad.¹²⁶

¹²² [CPR 54.12\(3\)](#).

¹²³ [CPR 54.12\(4\)](#).

¹²⁴ [CPR 54A PD paragraff 7.6](#).

¹²⁵ [CPR 54.12\(5\)](#).

¹²⁶ [CPR 54A PD paragraff 7.7](#).

- 9.5.3. Gallai methu â rhoi gwybod i ACO arwain at orfod gohirio'r gwrandawriad ar ddiwrnod y gwrandawriad oherwydd diffyg amser Llys, ac os felly gallai'r Llys wneud gorchymyn costau yn erbyn y parti neu'r partïon a ddylai fod wedi rhoi gwybod i'r Llys am yr amcan-amser hirach.
- 9.5.4. Hyd yn oed pan fo parti'n rhoi gwybod i'r Llys bod gwrandawriad atgynhyrchu yn debygol o bara mwy na 30 munud, bydd y Llys ond yn dyrannu amser ychwanegol fel y gwêl yn briodol, o gofio'r pwysau ar amser y Llys oherwydd achosion eraill. Beth bynnag, mae dyrannu amcan-amser o dros ddwy awr i wrandawiadau caniatâd yn beth prin.

10.6. Y drefn mewn gwrandawiadau atgynhyrchu

- 9.6.1. Gall y diffynnydd ac / neu unrhyw barti â budd fynychu'r gwrandawriad llafar. Oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo fel arall, nid oes rhaid iddynt fynychu.¹²⁷ Os nad oes Cydnabyddiad Cyflwyno wedi'i ffeilio, ni fydd gan y parti hawl i gael ei wrando, er gallai'r Llys ganiatáu iddo/i wneud sylwadau (gweler [paragraff 8.1.4](#) yn y Canllaw hwn).¹²⁸
- 9.6.2. Pan fydd nifer o achosion wedi eu rhestru gerbron barnwr ar y diwrnod, efallai y rhoddir amser penodol ar gyfer pob achos. Bydd yr amser hwn i'w weld ar restr achosion y dydd neu efallai y bydd clerck y barnwr yn cysylltu â'r partïon a / neu eu cynrychiolwyr. Fel arall, ar ddechrau rhestr y dydd, gall y barnwr ryddhau'r partïon a / neu eu cynrychiolwyr tan amser penodol nes ymlaen yn y dydd.
- 9.6.3. Bydd gan y barnwr ddisgresiwn o ran trefn y gwrandawriad. Yn gyffredinol, ac yn amodol ar ddisgresiwn y barnwr, bydd gwrandawiadau yn dilyn patrwm penodol:
- 9.6.3.1. Yr hawlydd fydd yn siarad gyntaf gan osod allan ei seiliau a pham bod y seiliau hynny yn gredadwy.
- 9.6.3.2. Y diffynnydd neu'r diffynyddion fydd yn siarad wedyn gan osod allan eu rhesymau pam nad yw'r seiliau'n rhai credadwy neu resymau eraill pam na ddylid rhoi caniatâd.
- 9.6.3.3. Yna bydd unrhyw bartïon â budd yn siarad i gefnogi neu herio'r cais am ganiatâd.
- 9.6.3.4. Bydd yr hawlydd yn cael cyfle i ymateb yn fyr.
- 9.6.3.5. Fel arfer cyhoeddir y penderfyniad yn gwrthod neu'n rhoi caniatâd, a lle bo'n briodol, unrhyw gyfarwyddyd neu orchymyn pellach, ar ôl y gwrandawriad.

¹²⁷ [CPR 54A PD paragraff 7.4.](#)

¹²⁸ [CPR 54.9\(1\)\(a\).](#)

- 9.6.4. Mewn gwrandawriad yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru, mae gan unrhyw barti hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.¹²⁹ Mae'r canllaw sydd i'w weld ym [mharagraff 10.3](#) yn y Canllaw hwn hefyd yn berthnasol i wrandawiadau caniatâd.
- 9.6.5. Mae'r prawf ar gyfer rhoi caniatâd mewn gwrandawriad llafar yr un fath â'r prawf sy'n cael ei ddefnyddio gan farnwr sy'n ystyried rhoi caniatâd ar sail y papurau (gweler [paragraff 9.1.3](#) yn y Canllaw hwn).
- 9.6.6. Os gwrthodir rhoi caniatâd yn y gwrandawriad atgynhyrchu, bydd yr hawliad yn dod i ben (ond gyda'r hawl i apelio - gweler [paragraff 26.3](#) yn y Canllaw hwn). Os rhoddir caniatâd ar un neu fwy o'r seiliau, bydd yr achos yn symud ymlaen at y gwrandawriad sylfaenol, i'w gynnal ar ddyddiad yn hwyrach ymlaen (oni bai fod y gwrandawriad yn un "treigl"), ac os felly bydd y gwrandawriad sylfaenol yn dilyn yn syth: gweler [paragraff 9.2.1.5](#) yn y Canllaw hwn). Gall y barnwr bennu dyddiad y gwrandawriad neu gall ACO ei restru (gweler [paragraff 14.2.3](#) yn y Canllaw hwn ar restru).

10.7. Y drefn pan mai'r Uwch Dribiwnlys yw'r diffynnydd

- 9.7.1. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae penderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys yn destun apêl. Ni ddylid herio penderfyniadau sy'n destun apêl mewn achos adolygiad barnwrol oherwydd mae'r apêl yn rhwymedi amgen digonol. Fodd bynnag, pan fydd yr Uwch Dribiwnlys wedi penderfynu gwrthod rhoi caniatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, nid oes hawl i apelio pellach. Yn yr achos hwnnw, yr unig ffordd y gellir herio'r penderfyniad yw drwy adolygiad barnwrol, gan enwi'r Uwch Dribiwnlys fel diffynnydd ac mae trefn arbennig ar gyfer adolygiad barnwrol yn [CPR 54.7A](#).
- 9.7.2. Dylai parti sy'n dymuno herio penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys ystyried p'un a wnaed y penderfyniad cyn neu ar ôl y 14eg o Orffennaf 2022, sef y dyddiad pan ddaeth a.2 [Deddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022](#) i rym:
- 9.7.2.1. Pan wnaed penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys cyn y 14eg o Orffennaf, bydd y Llys ond yn rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol os yw o'r farn:
- 9.7.2.1.1. bod achos credadwy sydd â gobaith rhesymol o lwyddo dros ddadlau bod penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys i wrthod rhoi caniatâd i apelio a'r penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf y mae'r ceisydd yn gofyn am ganiatâd i apelio yn ei erbyn yn groes i'r gyfraith; a

¹²⁹ Rhaid i unrhyw barti, neu eu cynrychiolydd cyfreithiol, sy'n bwriadu defnyddio'r Gymraeg (ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig) hysbysu'r Llys o'r ffaith honno fel y gellir gwneud trefniadau priodol ar gyfer rheoli a rhestru'r achos [Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd sifil neu â chysylltiad â Chymru, paragraff 1.3](#).

9.7.2.1.2. naill ai bod yr hawliad yn codi pwynt pwysig o ran egwyddor neu ymarfer neu fod rheswm arall cymhellol dros wrando'r hawliad.¹³⁰

9.7.2.2. Pan wnaed penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys ar neu ar ôl y 14eg o Orffennaf, dylai'r partïon cadw mewn cof hefyd bod awdurdodaeth adolygiad barnwrol yr Uchel Lys wedi'i ddisodli oni bai "cyn belled bod y penderfyniad yn ymwneud neu'n arwain at unrhyw gwestiwn ynghylch p'un-

(a) a oes gan neu a oedd gan yr Uwch Dribiwnlys gais dilys o dan adran 11(4)(b),

(b) mae neu roedd gan yr Uwch Dribiwnlys gyfansoddiad priodol ar gyfer delio â'r cais, neu

(c) mae'r Uwch Dribiwnlys yn gweithredu neu mae wedi gweithredu—

(i) yn anonest, neu

(ii) mewn modd sy'n ddiffygiol yn weithredol sydd gyfystyr â thoriad hanfodol i egwyddorion cyfiawnder."¹³¹

9.7.3. Bydd y drefn gyffredinol yn [CPR Rhan 54](#) yn berthnasol, gyda'r diwygiadau canlynol:

9.7.3.1. Ni chaiff y cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol gynnwys unrhyw hawliad arall, boed hwnnw yn erbyn yr Uwch Dribiwnlys ai peidio, a rhaid i unrhyw hawliad arall o'r fath fod ar ffurf cais ar wahân.¹³²

9.7.3.2. Rhaid ffeilio'r Ffurflen Hawlio a'r dogfennau ategol cyn pen 16 diwrnod fan bellaf ar ôl y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad o benderfyniad yr Uwch Dribiwnlys at y ceisydd, ac nid y 3 mis arferol.¹³³

9.7.3.3. Os gwrthodir y cais am ganiatâd ar bapur, ni fydd hawl i wrandawriad llafar (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn), er bod hawliau apelio yn berthnasol (gweler [paragraff 26.3](#) yn y Canllaw hwn).¹³⁴

9.7.3.4. Os rhoddir caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol a bod yr Uwch Dribiwnlys neu unrhyw barti â budd eisiau i'r cais sylfaenol

¹³⁰ [CPR 54.7A\(7\)](#).

¹³¹ a. 11A(1)-(4) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, fel y'i mewnosodwyd gan [a. 2 Deddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022](#).

¹³² [CPR 54.7A\(2\)](#).

¹³³ [CPR 54.7A\(3\)](#).

¹³⁴ [CPR 54.7A\(8\)](#).

gael ei wrando mewn gwrandawriad, rhaid iddo wneud cais am hynny cyn pen 14 diwrnod fan bellaf ar ôl cyflwyno'r gorchymyn yn rhoi caniatâd, a bydd ACO yn rhestru gwrandawriad sylfaenol. Os na wneir cais o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y Llys yn gwneud gorchymyn terfynol yn diddymu penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys heb wrandawriad.¹³⁵ Wedyn bydd yr achos yn mynd yn ôl i'r Uwch Dribiwnlys i ystyried caniatâd i apelio eto.

9.7.4. Mewn hawliadau yn erbyn yr Uwch Dribiwnlys, mae [CPR 54.7A\(4\)](#) yn nodi bod rhaid ffeilio rhai dogfennau penodol gyda'r hawliad. Os na chaiff y dogfennau hyn eu darparu gyda'r Ffurflen Hawlio, mae'n annhebygol y bydd y Llys yn caniatáu amser ychwanegol iddynt gael eu cyflwyno a gallai wrthod caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar y sail nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i ystyried yr hawliad yn briodol. Mae'r Llys yn annhebygol iawn o orchymyn amser ychwanegol i gyflwyno'r dogfennau yn niffyg cais am ragor o amser i ffeilio'r dogfennau angenrheidiol. (Er nad yw ceisiadau o'r fath yn cael eu hannog, dylid eu gwneud ar y Ffurflen Hawlio, neu ar ffurf cais ar wahân, gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn am y manylion).

9.7.5. Dyma restr o'r dogfennau sy'n ofynnol o dan [CPR 54.7A](#) :

- 9.7.5.1. penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys y mae'r hawliad am adolygiad barnwrol yn berthnasol iddo ac unrhyw ddogfennau sy'n rhoi rhesymau dros y penderfyniad;
- 9.7.5.2. seiliau'r apêl i'r Uwch Dribiwnlys ac unrhyw ddogfennau a anfonwyd gyda hwy;
- 9.7.5.3. penderfyniad y Tribiwnlys Haen Gyntaf, y cais i'r Tribiwnlys hwnnw am ganiatâd i apelio, a'i resymau dros wrthod rhoi caniatâd i apelio; ynghyd ag
- 9.7.5.4. unrhyw ddogfennau eraill sy'n hanfodol i'r hawliad.

10.8. Gorchymynion Capio Costau Adolygiad Barnwrol: cyffredinol

9.8.1. Gall gorchymyn capio costau adolygiad barnwrol ("CCO")¹³⁶ fod ar sawl ffurf. Fel arfer, bydd y gorchymyn yn nodi terfyn ar y swm y gellir gorchymyn i hawlydd ei dalu mewn perthynas â chostau'r ochr arall os bydd yr hawlydd yn colli (e.e. bydd atebolrwydd yr hawlydd am gostau yn cael ei gapio ar £5,000). Pan roddir CCO, rhaid cyplysu'r gorchymyn â gorchymyn sy'n gosod terfyn ar y swm y gall hawlydd sy'n llwyddiannus ei adennill gan ddiffynnydd os yw'r hawlydd yn ennill yr achos yn y pen draw (a elwir weithiau yn orchymyn capio

¹³⁵ [CPR 54.7A\(9\)](#).

¹³⁶ Wedi'i ddiffinio yn [a.88\(2\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#) "gorchymyn sy'n cyfyngu neu'n dileu atebolrwydd parti mewn achos adolygiad barnwrol i dalu costau parti arall mewn cysylltiad ag unrhyw gam o'r achos". Gweler [R \(Elan-Cane\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2020\] EWCA Civ 363](#).

costau'r ddwy ochr).¹³⁷ Nid oes gofyniad bod y cap dwy ochr yn cael ei osod ar yr un lefel ag atebolwydd costau'r hawlydd.¹³⁸

9.8.2. Dim ond ar ôl rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol y gellir rhoi CCO.¹³⁹

9.8.3. Dim ond hawlydd all wneud cais am CCO; ni all diffynnydd, parti â budd neu ymyrrwr wneud cais amdano.¹⁴⁰

9.8.4. Dim ond pan fydd yn fodlon â'r canlynol y bydd y Llys yn gwneud CCO:¹⁴¹

9.8.4.1. mae'r achos o fudd i'r cyhoedd; ac

9.8.4.2. yn absenoldeb y gorchymyn, byddai'r hawlydd yn gollwng y cais am adolygiad barnwrol neu'n peidio â chymryd rhan yn yr achos; a

9.8.4.3. byddai'n rhesymol gwneud hynny.

9.8.5. Achosion budd y cyhoedd yw'r rhai lle:¹⁴²

9.8.5.1. mae testun yr achos o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol;

9.8.5.2. mae budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r mater gael ei ddatrys; a

9.8.5.3. mae'r achos yn debygol o ddarparu dull priodol o'i ddatrys.

9.8.6. Wrth benderfynu a yw achos yn achos budd y cyhoedd, rhaid i'r llys ystyried:¹⁴³

9.8.6.1. y nifer o bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio'n uniongyrchol os rhoddir rhyddhad;

9.8.6.2. pa mor arwyddocaol y mae'r effaith ar y bobl hynny yn debygol o fod; ac

9.8.6.3. a yw'r achos yn cynnwys ystyried pwynt cyfreithiol sydd o bwys cyffredinol i'r cyhoedd.

¹³⁷ [a.89\(2\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

¹³⁸ [R \(Elan-Cane\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2020\] EWCA Civ 363](#). I weld crynodeb o'r egwyddorion sy'n berthnasol wrth osod y cap dwyochrog, gweler [R \(Western Sahara Campaign UK\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol \[2021\] EWHC 1756 \(Admin\)](#), [43].

¹³⁹ [a.88\(3\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

¹⁴⁰ [a.88\(4\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

¹⁴¹ [a.88\(6\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

¹⁴² [a.88\(7\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

¹⁴³ [a.89\(1\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

9.8.7. Wrth ystyried a ddylid gwneud CCO, rhaid i'r Llys ystyried:¹⁴⁴

- 9.8.7.1. adnoddau ariannol y partïon yn yr achos, gan gynnwys adnoddau ariannol unrhyw unigolyn sy'n darparu, neu a all ddarparu, cymorth ariannol i'r partïon;
- 9.8.7.2. i ba raddau y mae'r hawlydd yn debygol o elwa os rhoddir rhyddhad;
- 9.8.7.3. i ba raddau y mae unrhyw unigolyn sydd wedi darparu, neu a all ddarparu cymorth ariannol i'r ceisydd yn debygol o elwa os rhoddir rhyddhad;
- 9.8.7.4. a yw cynrychiolwyr cyfreithiol y ceisydd ar gyfer y gorchymyn yn gweithredu am ddim; a
- 9.8.7.5. p'un a yw'r hawlydd yn unigolyn priodol i gynrychioli buddiannau unigolion eraill neu fudd y cyhoedd yn gyffredinol.

9.9 CCOs: y broses¹⁴⁵

9.9.1. Gan amlaf, rhaid cynnwys cais am CCO yn Adran 8 y Ffurflen Hawlio neu mewn dogfen ar wahân a anfonir gyda'r Ffurflen Hawlio.¹⁴⁶

9.9.2. Rhaid i'r cais gynnwys tystiolaeth sy'n nodi:¹⁴⁷

- 9.9.2.1. pam y dylid gwneud CCO, gan ystyried yn benodol y materion ym [mharagraff 9.8.4 – 9.8.7](#) uchod;
- 9.9.2.2. crynodeb o adnoddau ariannol yr hawlydd, oni bai bod y llys wedi hepgor y gofyniad hwn;¹⁴⁸
- 9.9.2.3. y costau (a'r taliadau) y mae'r hawlydd o'r farn bod y partïon yn debygol o'u hwynebu wrth gynnal yr achos yn y dyfodol;
- 9.9.2.4. os yw'r hawlydd yn gorff corfforaethol, p'un a yw'n gallu dangos ei bod yn debygol y bydd adnoddau ariannol ar gael i gwrdd â rhwymedigaethau sy'n codi mewn cysylltiad â'r achos. Lle na all wneud hynny, rhaid i'r Llys ystyried rhoi cyfarwyddiadau ar gyfer

¹⁴⁴ [a.88\(8\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#). Nid oes rhaid "glynu wrth y meini prawf" hyn; "meini prawf sydd rhaid eu hystyried" ydynt: *R (Beety) v Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth* [2017] EWHC 3579 (Admin), [8]; *R (Good Law Project Ltd) v Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet* [2021] EWHC 1083 (TCC), [9].

¹⁴⁵ Gallwch ddod o hyd i'r broses berthnasol sydd yn y rhan hon o'r Canllaw yn [Neddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#) ac mae wedi'i ategu lle bo hynny'n briodol gan y cyfarwyddyd ar y broses gorchymyn costau amddiffynol yn *R (Corner House Research) v Yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant* [2005] EWCA civ 192, [2005] 1 WLR 2600 a *R (Buglife) v Thurrock Thames Gateway Development Corp* [2008] EWCA Civ 1209, [2009] CP Rep 8 yn [29]–[31].

¹⁴⁶ *CPR 46 PD* paragraff 10.2 a *R (Corner House Research) v Yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant* [2005] EWCA civ 192, [2005] 1 WLR 2600, [78].

¹⁴⁷ *CPR 46.17(1)(b)*.

¹⁴⁸ *CPR 46.17(3)*.

darparu gwybodaeth am aelodau'r corff a'u gallu i ddarparu cymorth ariannol at ddibenion yr achos.¹⁴⁹

- 9.9.3. Os yw'r diffynnydd yn dymuno gwrthwynebu gwneud y CCO, dylent nodi'r rhesymau yn y Cydnabyddiad Cyflwyno. Yn yr un modd, dylid gwneud unrhyw sylwadau i gefnogi gorchymyn capio costau'r ddwy ochr (capio costau'r ddau barti) yn y Cydnabyddiad Cyflwyno.
- 9.9.4. Gan amlaf, bydd yr hawlydd yn atebol am gostau'r diffynnydd pan fydd wedi gwrthwynebu cais am CCO yn llwyddiannus, ond fel rheol byddai disgwyl y byddai'n gymesur i'r costau beidio â bod yn fwy na £1,000.¹⁵⁰
- 9.9.5. Os rhoddir caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar sail y papurau, bydd y barnwr fel arfer yn ystyried ar yr un pryd a ddylid gwneud y CCO ac os felly, o dan pa delerau. Os na roddir caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ni all y barnwr wneud CCO (gweler [paragraff 9.8.2](#) uchod)
- 9.9.6. Os yw'r barnwr yn rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ond yn gwrthod rhoi CCO, a bod yr hawlydd yn gofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad, dylai'r gwrandawriad hwnnw gael ei gyfyngu i un awr yn gyffredinol a bydd yr hawlydd yn wynebu atebolrwydd am gostau os gwrthodir rhoi CCO unwaith eto.
- 9.9.7. Pan fydd y Llys yn ailystyried mewn gwrandawriad a ddylid gwneud CCO ai peidio, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ailedrych ar y penderfyniad papur.¹⁵¹
- 9.9.8. Fel rheol dylid gwneud cais am CCO yn y Ffurflen Hawlio (gweler [paragraff 9.9.1](#) yn y Canllaw hwn). Os oes angen gwneud y cais ar ryw adeg arall, dylid dilyn y broses a amlinellir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn. Fodd bynnag, rhaid gwneud unrhyw gais am CCO cyn gynted ag y daw'n amlwg bod angen CCO.

¹⁴⁹ [CPR 46.18](#).

¹⁵⁰ [R \(Corner House Research\) v Yr Ysgrifennydd dros Fasnach a Diwydiant \[2005\] EWCA Civ 193](#), [2005] 1 WLR 2600, [78].

¹⁵¹ [R \(Buglife\) v Thurrock Thames Gateway Development Corp \[2008\] EWCA Civ 1209](#), [2009] CP Rep 8, [31].

11. Ar ôl cael Caniatâd

11.1. Cyfarwyddiadau ar gyfer gwrandawriad sylfaenol

- 10.1.1. Pan roddir caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, bydd yr hawliad yn cael ei benderfynu mewn gwrandawriad sylfaenol ar ddyddiad yn ddiweddarach.
- 10.1.2. Oni bai fod y barnwr yn gorchymyn dyddiad penodol ar gyfer y gwrandawriad, bydd ACO yn rhestru'r gwrandawriad sylfaenol cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol (gweler [paragraff 14.2](#) yn y Canllaw hwn ar gyfer rhestru; gweler hefyd [Atodiad 4](#) ar gyfer Polisi Rhestru'r Llys Gweinyddol).
- 10.1.3. Wrth roi caniatâd, bydd barnwr fel arfer yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch sut y bydd yr achos yn symud ymlaen i'r gwrandawriad sylfaenol, gan gynnwys:
 - 10.1.3.1. yr amser sydd gan y diffynnydd neu'r parti/partion â budd i ffeilio seiliau manwl dros wrthwynebu ac unrhyw dystiolaeth y mae'n bwriadu dibynnu arni yn y gwrandawriad;
 - 10.1.3.2. pa fath o farnwr ddylai wrando'r hawliad, ac, yn benodol, a yw'n addas i gael ei wrando gan ddirprwy farnwr neu a ddylai gael ei wrando gan Lys Adrannol (llys gyda dau farnwr neu fwy), ac i'r perwyl hwn gweler [paragraff 14.3](#) yn y Canllaw hwn;
 - 10.1.3.3. cyfarwyddiadau eraill perthnasol i reoli'r achos, gan gynnwys amserlen ar gyfer dadleuon fframwaith, bwndeli treial a bwndeli awdurdodau sydd i'w cofnodi.
- 10.1.4. Bydd cyfarwyddiadau'r barnwr yn disodli unrhyw gyfarwyddiadau safonol. Os nad yw'r barnwr yn gwneud unrhyw gyfarwyddiadau, bydd y cyfarwyddiadau safonol canlynol yn berthnasol:
 - 10.1.4.1. Rhaid i'r hawlydd dalu'r ffi berthnasol i barhau â'r cais am adolygiad barnwrol. Os bydd yn methu â gwneud hyn cyn pen 7 niwrnod ar ôl rhoi caniatâd, bydd ACO yn anfon hysbysiad at yr hawlydd yn mynnu ei fod yn talu o fewn amser penodol (cyn pen 7 niwrnod arall fel arfer). Os bydd methiant pellach, bydd yr hawliad yn cael ei ddileu heb orchymyn pellach.¹⁵²
 - 10.1.4.2. Rhaid i unrhyw barti sy'n dymuno herio neu gefnogi'r hawliad ffeilio a chyflwyno unrhyw seiliau manwl ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig neu ddogfennau nad ydynt wedi'u ffeilio'n barod mewn bwndel gyda mynegai a'r tudalennau wedi'u rhifo (ar ffurf copi caled a chopi electronig)¹⁵³ cyn pen 35 diwrnod ar ôl i'r caniatâd gael ei roi.¹⁵⁴ Dylai'r seiliau manwl fod mor gryno â phosibl ac ni ddylent fod yn hirach na 40 tudalen heb gael

¹⁵² [CPR 3.7\(1\)\(d\), \(2\), \(3\) & \(4\)](#).

¹⁵³ [CPR 54A PD paragraff 9.1\(3\) a 9.2](#).

¹⁵⁴ [CPR 54.14\(1\)](#).

caniatâd y Llys.¹⁵⁵ Nid yw'r ffaith bod Datganiad o Ffeithiau a Seiliau'r hawlydd yn faith o reidrwydd yn rheswm da i Ddatganiad o Ffeithiau a Seiliau'r diffynnydd fod yn hirach na'r terfyn o 40 tudalen.¹⁵⁶

- 10.1.4.3. Os yw'r holl faterion perthnasol eisioes wedi'u datrys yn y Seiliau Cryno gall parti beidio â ffeilio Seiliau Manwl ar wahân ac yn hytrach hysbysu'r llys a'r partïon bod y Seiliau Cryno i'w derbyn fel y Seiliau Manwl.¹⁵⁷ Fodd bynnag, cyn gwneud hynny, dylai'r parti ystyried yn ofalus p'un a yw'r deunydd yn y Seiliau Cryno yn ddigonol i ddiddymu'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r llys. Yn hyn o beth, mae'n bwysig nodi efallai bod yr hyn sydd ei angen i ddiddymu'r ddyletswydd honno yn y cam sylfaenol yn fwy sylweddol na'r hyn sy'n angenrheidiol cyn i ganiatâd gael ei roi (gweler [paragraff 15.3.2](#) yn y Canllaw hwn).
- 10.1.4.4. Mae'n rhaid i'r hawlydd ffeilio a chyflwyno dadl fframwaith o leiaf 21 diwrnod cyn y gwrandawriad sylfaenol (gweler [paragraff 20.2](#) yn y Canllaw hwn ar gyfer cynnwys y ddadl fframwaith).¹⁵⁸
- 10.1.4.5. Mae'n rhaid i'r diffynnydd ag unrhyw barti arall sydd am gyflwyno sylwadau yn y gwrandawriad sylfaenol ffeilio a chyflwyno dadl fframwaith o leiaf 14 diwrnod cyn y gwrandawriad sylfaenol.¹⁵⁹
- 10.1.4.6. Rhaid i'r partïon gytuno ar gynnwys bwndel gyda mynegai a'r tudalennau wedi'u rhifo sy'n cynnwys yr holl ddogfennau perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer gwrandawriad yr adolygiad barnwrol. Rhaid i'r partïon gyflwyno'r bwndel hwn i'r Llys yn electronig ac ar ffurf copi caled dim llai na 21 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad oni bai bod gorchymyn barnwrol yn nodi fel arall.¹⁶⁰
- 10.1.4.7. Rhaid i'r partïon gytuno ar gynnwys bwndel sy'n cynnwys yr awdurdodau y cyfeirir atynt yn y gwrandawriad. Rhaid i'r partïon gyflwyno'r bwndel hwn i'r Llys yn electronig ac ar ffurf copi caled heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad.¹⁶¹
- 10.1.4.8. Mewn achosion Llys Adrannoll, dylid darparu un set o fwndel y gwrandawriad ac un set o fwndel yr awdurdodau ar gyfer pob

¹⁵⁵ [CPR 54A PD paragraff 9.1\(2\)](#).

¹⁵⁶ [R \(SSE Generation Ltd\) v Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd \[2022\] EWHC 865 \(Admin\)](#).

¹⁵⁷ [CPR 54A PD paragraff 9.1\(1\)](#).

¹⁵⁸ Roedd fersiynau blaenorol o'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn nodi bod rhaid ffeilio dadleuon fframwaith 21 diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Yr hyn a ddywedir yn y [CPR 54A PD paragraff 14.5](#) newydd yw "21 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad". Mae hyn yn golygu dyddiau "calendr". gweler [CPR 2.8](#).

¹⁵⁹ [CPR 54A PD paragraff 14.6](#). Mae "14 diwrnod" yn golygu 14 diwrnod calendr.

¹⁶⁰ [CPR 54A PD paragraff 15.1, 15.2 a 15.3](#).

¹⁶¹ [CPR 54A PD paragraff 15.4 a 15.5](#).

barnwr sy'n gwrando ar yr achos. Gweler [paragraff 21.2.4](#) a [22.2.1](#) yn y Canllaw hwn ar fanylion pellach.

11.2. Diwygio'r hawliad

- 10.2.1. Gellir diwygio'r Ffurflen Hawlio a'r Datganiad o'r Seiliau ar unrhyw adeg cyn ei gyflwyno i unrhyw barti arall. Fodd bynnag, unwaith y bydd y Datganiad o'r Seiliau wedi'i gyflwyno, dim ond gyda chaniatâd y Llys y gellir ei ddiwygio yn unol â [CPR Rhan 23](#).¹⁶²
- 10.2.2. Rhaid gwneud y cais i ddiwygio yn brydlon a dylai gynnwys, neu dylid anfon gyda'r cais, drafft o'r seiliau diwygiedig, a rhaid hefyd gynnwys tystiolaeth sy'n esbonio'r angen am y diwygiad arfaethedig ac unrhyw oedi cyn gwneud y cais. Rhaid cyflwyno'r cais, y seiliau ychwanegol arfaethedig ac unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, i'r diffynnydd ac unrhyw barti â budd a enwir yn y Ffurflen Hawlio neu'r Cydnabyddiad Cyflwyno.¹⁶³
- 10.2.3. Gall y Llys ddelio â chais heb wrandawriad os yw'r partiön yn cytuno i delerau'r gorchymyn a geisir, mae'r partiön yn cytuno y dylai'r llys benderfynu'r cais heb wrandawriad neu os nad yw'r Llys yn ystyried y byddai gwrandawriad yn briodol.¹⁶⁴
- 10.2.4. Pan roddir caniatâd i ddibynnu ar seiliau ychwanegol, gall y Llys roi cyfarwyddiadau ynghylch diwygiadau i'w gwneud i Seiliau neu Seiliau Manwl y diffynnydd ac / neu unrhyw gyfarwyddiadau rheoli achos eraill fel sy'n briodol.¹⁶⁵ Gall parti wneud cais i'r llys am orchymyn yn gwrthod diwygiad o fewn 14 diwrnod i gyflwyno copi o ddatganiad achos diwygiedig.¹⁶⁶
 - 10.2.4.1. Os yw'r hawlydd yn dymuno ffeilio tystiolaeth bellach, rhaid iddo ef neu hi ofyn am ganiatâd y Llys i wneud hynny.¹⁶⁷ I ofyn am ganiatâd, rhaid i'r hawlydd wneud cais gan ddilyn y broses ceisiadau interim a drafodir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn.¹⁶⁸
 - 10.2.4.2. Mae'r rheol hon yn berthnasol hefyd i bartiön eraill sy'n ffeilio dogfennau y tu allan i'r terfyn amser o 35 diwrnod (gweler [paragraff 10.1.4.2](#) yn y Canllaw hwn).
 - 10.2.4.3. Trafodir y sefyllfa lle mae'r diffynnydd yn bwriadu ailystyried y penderfyniad gwreiddiol a heriwyd ym [mharagraff 7.11.3](#) yn y Canllaw hwn. Trafodir y sefyllfa lle mae'r diffynnydd wedi gwneud

¹⁶² [CPR 54A PD paragraff 11.1](#).

¹⁶³ [CPR 54A PD paragraff 11.2 ac 11.3](#). Gweler [R \(AB\) v Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#) [112]-[114].

¹⁶⁴ [CPR 23.8](#).

¹⁶⁵ [CPR 54A PD paragraff 11.4](#).

¹⁶⁶ [CPR 17.2\(2\)](#).

¹⁶⁷ [CPR 54.16\(2\)](#).

¹⁶⁸ Gweler [Hickey v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau \[2018\] EWCA CIV 851](#), [73]-[74].

penderfyniad newydd y mae'r hawlydd yn ceisio ei herio ym [mharagraff 7.11.4.](#)

11.3. Beth i'w wneud os oes angen cyfieithydd

- 10.3.1. Os oes angen cyfieithydd ar barti neu dyst, gan amlaf cyfrifoldeb y parti hwnnw neu'r parti sy'n galw'r tyst yw trefnu i gael cyfieithydd a thalu amdano/i.
- 10.3.2. Gall ACO drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol yn ddi-dâl i gynorthwyo'r parti sy'n gofyn am gymorth cyfieithydd yn y sefyllfaoedd canlynol:
 - 10.3.2.1. os yw'r parti'n ymgyfreithiwr drosto'i hun na all annerch y Llys yn Saesneg (neu yn Gymraeg os cynhelir yr achos yng Nghymru) ac ni all y parti fforddio talu am gyfieithydd, nid yw'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol ac nid oes ganddo ffrind neu aelod o'r teulu y mae'r barnwr yn cytuno y gall fod yn gyfieithydd iddo; a
 - 10.3.2.2. mae'r barnwr yn cytuno y dylid trefnu i gael cyfieithydd yn ddi-dâl i'r parti hwnnw; neu
 - 10.3.2.3. mae hyn wedi'i orchymyn gan y Llys.
- 10.3.3. Cyfrifoldeb unrhyw barti sy'n dymuno gofyn am gyfieithydd yn ddi-dâl yw gwneud cais ysgrifenedig cyn gynted ag y daw'n glir y bydd gwrandawriad yn cael ei restru ac y bydd angen cyfieithydd.
- 10.3.4. Rhaid i'r parti sy'n gofyn am gyfieithydd yn ddi-dâl roi gwybod i ACO yn ysgrifenedig bod angen cyfieithydd a chyfieithydd pa iaith sydd ei angen.
- 10.3.5. Os nad yw'r parti'n rhoi gwybod i'r Llys bod angen cyfieithydd ac y mae'n rhaid gohirio gwrandawriad i drefnu bod cyfieithydd yn bresennol ar ddyddiad arall, gall y Llys wneud gorchymyn costau yn erbyn y parti sydd angen cyfieithydd (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn).

11.4. Cyfrifoldeb am ddod a charcharorion ac unigolion a gedwir yn y ddalfa i'r Llys

- 10.4.1. Pan fydd carcharor sydd yn y carchar neu rywun a gedwir yn y ddalfa yn cael ei gynrychioli gan gwnsler, fel arfer ni ddisgwylir i'r carcharor neu'r sawl a gedwir yn y ddalfa ymddangos yn y Llys, oni bai fod y Llys yn gorchymyn fel arall.
- 10.4.2. Rhaid i garcharor neu unigolyn a gedwir yn y ddalfa heb gynrychiolaeth gyfreithiol ofyn i'r carchar neu'r ganolfan gadw ei hebrwng i'r Llys neu drefnu cyswllt fideo rhwng y Llys a'r carchar, neu'r ganolfan gadw. Rhaid i'r carcharor neu'r unigolyn a gedwir yn y ddalfa wneud y cais cyn gynted ag y caiff hysbysiad o'r gwrandawriad. Y carchar neu'r ganolfan gadw sy'n gyfrifol am ystyried ceisiadau i ymddangos, am drefnu bod unigolyn a gedwir yn y ddalfa yn ymddangos yn y Llys, ac am drefnu cysylltiadau fideo.

12. Gwrandawriad sylfaenol

12.1. Fformat y gwrandawriad

- 11.1.1. Y rheol gyffredinol yw y cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus, oni bai bod y Llys yn gwneud cyfarwyddyd penodol o dan [CPR 39.2](#) y dylid cynnal y gwrandawriad yn breifat. Pan wrandewir gwrandawriad yn gyhoeddus, gall unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu ac arsylwi. (Mae rheolau gwahanol yn berthnasol mewn achosion lle ceisir datganiad dan [a. 6 Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013](#) neu lle y mae datganiad wedi'i wneud: gweler [paragraff 19.3 yn y Canllaw hwn](#).)
- 11.1.2. Y Llys sy'n penderfynu trefn y gwrandawriad. Mae'r rhan fwyaf o wrandawiadau yn dilyn y drefn ganlynol:
- 11.1.2.1. Yr hawlydd fydd yn siarad yn gyntaf, gan nodi'r dadleuon o blaid seiliau'r hawliad.
- 11.1.2.2. Yn ail, bydd y diffynnydd yn siarad gan nodi'r dadleuon o blaid seiliau'r amddiffyniad.
- 11.1.2.3. Yn drydydd, bydd unrhyw bartïon â budd ac/neu ymyrwyr yn siarad i ategu, herio neu egluro unrhyw beth sydd wedi cael ei ddweud.
- 11.1.2.4. Bydd gan yr hawlydd hawl i ymateb i gyflwyniadau'r partïon eraill.
- 11.1.3. Pan fydd perygl y penderfynir ar bwynt cyfreithiol pwysig ac anodd heb i'r Llys wrando ar ddadl berthnasol ar un neu fwy o agweddau ar y gyfraith, gall y Llys wahodd y Twrnai Cyffredinol i benodi Eiriolwr i'r Llys (a elwir yn flaenorol yn *amicus curiae*).¹⁶⁹ Mewn achosion lle penodir Eiriolwr i'r Llys, bydd y Llys yn gwrandao ar gyflwyniadau gan yr Eiriolwr ar bwynt priodol yn y gwrandawriad.

12.2. Tystiolaeth

- 11.2.1. Bydd y dystiolaeth gerbron y Llys bron bob amser yn ysgrifenedig.
- 11.2.2. Mae gan y Llys bŵer cynhenid i wrando'n llafar ar dystion.¹⁷⁰ Os yw parti'n gofyn am gael galw neu groesholi tyst, dylid gwneud cais dan ddilyn y drefn ceisiadau interim a eglurir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn. Dim ond mewn achosion eithriadol iawn y caniateir cyflwyno tystiolaeth lafar mewn gwrandawriad adolygiad barnwrol. Rhoddir caniatâd dim ond pan fo angen y dystiolaeth lafar i benderfynu'r hawliad yn deg a chyfiawn.¹⁷¹

¹⁶⁹ [Gweler CPR 3G PD](#).

¹⁷⁰ Gweler sylwadau Munby J yn R (PG) v Bwrdeistref Ealing, Llundain [2002] EWHC 250 (Admin), [20]-[21].

¹⁷¹ [R \(Bancoult\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2012\] EWHC 2115](#), [14]. Enghraifft o ganiatâd yn cael ei roi i groesholi yw [Jedwell v Cyngor Sir Ddinbych v DH a Dr Jones \[2015\] EWCA Civ 1232](#). Erbyn hyn mae'r Llys Apêl wedi cadarnhau mai eithriad y dylai hyn fod: gweler [R \(Talpada\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 841](#), [2] a [54].

12.3. Defnyddio'r iaith Gymraeg

- 11.3.1. O dan [adran 22 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993](#), caiff unrhyw unigolyn sy'n annerch y Llys arfer ei hawl i siarad yn Gymraeg. Mae'r hawl hon yn berthnasol i wrandawiadau yng Nghymru yn unig. Os yw parti yn dymuno arfer yr hawl hon, dylid cychwyn yr hawliad yn yr ACO yng Nghaerdydd neu dylai'r parti ofyn i'r hawliad gael ei drosglwyddo i'r ACO yng Nghaerdydd.
- 11.3.2. O dan y Cyfarwyddyd Ymarfer ar Ddefnyddio'r Gymraeg mewn Achosion yn y Llysoedd Sifil yng Nghymru, gall y Llys wrando ar unrhyw unigolyn yn Gymraeg heb iddynt orfod rhoi rhybudd, ar yr amod bod yr holl bartïon yn cydsynio.¹⁷²
- 11.3.3. Fodd bynnag, dylai'r partiön roi gwybod i'r Llys cyn gynted â phosib, a gorau oll os allant wneud hyn wrth gyflwyno papurau'r hawliad, os yw unrhyw un yn bwriadu siarad yn Gymraeg.
- Bydd hyn yn rhoi amser i'r Llys wneud cyfarwyddiadau priodol ac i'r ACO yng Nghaerdydd wneud y trefniadau ymarferol.
- 11.3.4. Mae yna farnwyr dwyieithog sy'n gallu ystyried hawliadau a chynnal gwrandawiadau yn Gymraeg. Ond, mae'n debyg y gwneir gorchymyn ar gyfer cyfieithu ar y pryd, pan fydd cyfieithydd yn ymddangos yn y Llys i gyfieithu i'r Saesneg a'r Gymraeg.¹⁷³

12.4. Adolygiad barnwrol heb wrandawriad

- 11.4.1. Os yw'r holl bartïon yn cytuno, gellir ystyried yr hawliad heb wrandawriad, a bydd y barnwr yn penderfynu'r hawliad drwy ystyried y papurau'n unig.¹⁷⁴ Dylai'r partiön roi gwybod i ACO yn ysgrifenedig os yw'r holl bartïon wedi cytuno i hyn. Ar ôl ystyried y papurau, gall y barnwr wrthod gwneud penderfyniad ar sail y papurau a gorchymyn gwrandawriad llafar. Mae'r egwyddor cyfiawnder agored yn berthnasol i benderfyniadau a wneir ar sail y papurau ac efallai y bydd rhaid i'r Llys ystyried y cwestiwn p'un a ddylid caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad at y dogfennau.¹⁷⁵

12.5. Y trothwy ar gyfer rhoi rhyddhad

- 11.5.1. I lwyddo gyda'r hawliad, rhaid i'r hawlydd ddangos bod ymddygiad y diffynnydd yn anghyfreithlon.
- 11.5.2. Hyd yn oed os yw hawlydd yn sefydlu bod ymddygiad y diffynnydd yn anghyfreithlon, mae gan y Llys ddisgresiwn i ganiatáu rhwymedi neu beidio: gweler [paragraff 12.9](#) a [pharagraff 12.10](#) isod.

¹⁷² [Paragraff 1.2 o'r Cyfarwyddyd Ymarfer sy'n ymwneud â Defnyddio'r Gymraeg mewn Achosion yn y Llysoedd Sifil yng Nghymru.](#)

¹⁷³ Dyma oedd y fformat a orchmynnwyd yn R (Comisiynydd y Gymraeg) v Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol [2014] PTSR D8.

¹⁷⁴ [CPR 54.18.](#)

¹⁷⁵ [UXA v Merseycare NHS Foundation Trust \[2021\] EWHC 3455, \[2022\] 4 WLR 30.](#)

12.6. Dyfarniadau a gorchmynion

- 11.6.1. Ar ddiwedd y gwrandawriad, bydd y Llys fel arfer yn rhoi dyfarniad naill ai:
- 11.6.1.1. ar lafar, yn y fan a'r lle, neu weithiau ar ôl egwyl fer (gelwir hyn yn ddyfarniad ex tempore); neu
 - 11.6.1.2. yn ysgrifenedig, rhywbryd ar ôl y gwrandawriad (gelwir hyn yn ddyfarniad gohiriedig).
- 11.6.2. Bydd dyfarniad gohiriedig yn cael ei “draddodi” gan y Llys ar ddyddiad hwyrach. Mae'r drefn wedi'i llywodraethu gan [CPR 40E PD](#). Oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo fel arall, o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad traddodi bydd y barnwr yn rhoi copi drafft o'r dyfarniad i'r cynrychiolwyr cyfreithiol yn yr achos.¹⁷⁶ Unig bwrpas gwneud hynny yw galluogi'r partïon wneud awgrymiadau ar gyfer cywiro gwallau, paratoi cyflwyniadau ar faterion canlyniadol ac i'w paratoi ar gyfer adeg cyhoeddi'r dyfarniad.¹⁷⁷
- 11.6.3. Gellir rhoi copi o'r dyfarniad i'r partïon, i'w gadw'n gyfrinachol, ar yr amod (a) na ddatgelir y dyfarniad drafft na'i sylwedd i unrhyw unigolyn arall na'i ddefnyddio'n gyhoeddus; a (b) na chymerir unrhyw gamau gweithredu (oni bai yn fewnol) mewn ymateb i'r dyfarniad drafft, cyn i'r dyfarniad gael ei draddodi.¹⁷⁸
- 11.6.4. Rhaid i gynrychiolwyr cyfreithiol sy'n cael dyfarniad drafft fod yn ymwybodol o'r pwrpasau cyfyngedig y cafodd y drafft ei roi iddynt. Nid yw'n briodol i ddyfarniadau drafft neu grynodedau ohonynt gael eu rhoi i unigolion mewn ystafelloedd clerod neu swyddfeydd siambrau bargyfreithwyr. Nid yw drafftio datganiadau i'r wasg yn rhywbeth y gellir gwneud yn gyfreithlon dan yr embargo. Dylai fod yn ddigonol i un clerc penodol fod yn gyswllt rhwng y llys a'r bargyfreithiwr/bargyfreithwyr. Ni ddylai bod angen i neb arall yn y siambr gael mynediad at y dyfarniad drafft neu unrhyw ddogfen a grëwyd o ganlyniad iddo heb fod yna reswm da yn gysylltiedig ag un o'r pwrpasau a ganiateir. Mae cwnsiliaid a chyfreithwyr yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i gynnal cyfrinachedd y dyfarniad drafft ac am egluro'r cyfrifoldebau o ran cyfrinachedd i'w cleientiaid.¹⁷⁹
- 11.6.5. Os darperir copi o'r dyfarniad drafft i barti sy'n bartneriaeth, yn gwmni, yn adran o'r llywodraeth, yn awdurdod lleol neu'n sefydliad arall o natur debyg, gellir dosbarthu copïau ychwanegol yn gyfrinachol o fewn y sefydliad, ar yr amod y cymerir pob cam rhesymol i gadw ei natur gyfrinachol ac y glynir wrth y gofynion a nodir ym mharagraff [11.6.3](#) uchod.¹⁸⁰ Nid yw hyn yn benrhyddid i

¹⁷⁶ [CPR 40E PD paragraff 2.3](#).

¹⁷⁷ [R \(Cwnsler Cyffredinol Cymru\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \[2022\] EWCA Civ 181](#), [18] & [24].

¹⁷⁸ [CPR 40E PD paragraff 2.4](#).

¹⁷⁹ [R \(Cwnsler Cyffredinol Cymru\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \[2022\] EWCA Civ 181](#), [25]-[28].

¹⁸⁰ [CPR 40E PD paragraff 2.6](#).

ddosbarthu'r dyfarniad drafft y tu hwnt i'r rhai hynny sydd angen ei weld at y dibenion y'i ddosbarthwyd yn ddrafft ar eu cyfer.¹⁸¹

- 11.6.6. Pan fo'r parti sy'n cael y dyfarniad drafft yn Weinidog sy'n gyfrifol am adran o'r llywodraeth, gellir dangos y dyfarniad yn gyfrinachol i Weinidogion a swyddogion eraill yn yr un adran. Os bydd y Gweinidog yn dymuno dangos y dyfarniad drafft i Weinidogion neu swyddogion y tu allan i'r adran, rhaid ceisio caniatâd ysgrifenedig y barnwr, gan nodi (enw fel arfer) y Gweinidogion neu swyddogion y gwneir cais i ddangos y dyfarniad drafft iddynt a'r rheswm pam bod angen i'r unigolion hynny ei weld.
- 11.6.7. Os oes unrhyw amheuan ynghylch a ellir datgelu dyfarniad drafft i unrhyw unigolyn, y cam gweithredu gorau yw ceisio caniatâd y barnwr.¹⁸²
- 11.6.8. Gellir ymdrin â thorri'r rhwymedigaethau cyfrinachedd neu'r cyfyngiadau ym [mharagraff 11.6.3](#) neu fethiant i gymryd camau rhesymol fel sy'n ofynnol ym mharagraff [11.6.4](#) fel achos o ddirmyg llys.¹⁸³ Yn y dyfodol, gall y rhai hynny sy'n torri embargos ddisgwyl fod yn destun achos dirmyg llys.¹⁸⁴
- 11.6.9. Oni ddywedir yn wahanol wrth y partïon neu eu cynrychiolwyr cyfreithiol pan ddosbarthir y dyfarniad drafft, dylid anfon unrhyw gywiriadau arfaethedig i'r dyfarniad drafft at glerc y barnwr a wnaeth baratoi'r drafft ac anfon copi at unrhyw barti arall.¹⁸⁵
- 11.6.10. Ni ddylid cymryd bod dosbarthu dyfarniad drafft yn esgus i ail ddadlau'r achos. Yn gyffredinol, cywiriadau argraffyddol a mân gywiriadau eraill yw'r cywiriadau a all fod yn briodol i'w gwneud. Dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol y dylai partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol fynd y tu hwnt i hyn.¹⁸⁶
- 11.6.11. Mae gan y partïon ddyletswydd i geisio cytuno ar ffurf y gorchymyn terfynol ac unrhyw orchmynion canlyniadol¹⁸⁷ (fel arfer gorchmynion costau a chaniatâd i apelio – gweler [Pennod 25](#) a [26](#) yn y Canllaw hwn). Dylai'r partïon gyflwyno unrhyw orchmyn a gytunwyd, sydd i gynnwys telerau unrhyw orchmynion a wnaed gan y barnwr yn y Llys a thelerau unrhyw orchmynion canlyniadol a gytunwyd, erbyn hanner dydd ar y diwrnod gwaith cyn y dyddiad traddodi.¹⁸⁸
- 11.6.12. Erbyn hyn, fe draddodir y mwyafrif o ddyfarniadau heb gynnal gwrandawriad. Yn hytrach, fe anfonir y dyfarniad a gymeradwywyd at y partïon neu eu cynrychiolwyr drwy e-bost ac fe'i ryddheir i'r Archifau Gwladol. Os bydd y

¹⁸¹ [R \(Cwnsler Cyffredinol Cymru\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \[2022\] EWCA Civ 181](#), [23].

¹⁸² [CPR 40E PD paragraff 2.7](#).

¹⁸³ [CPR 40E PD paragraff 2.8](#).

¹⁸⁴ [R \(Cwnsler Cyffredinol Cymru\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol \[2022\] EWCA Civ 181](#), [31].

¹⁸⁵ [CPR 40E PD paragraff 3.1](#).

¹⁸⁶ [Michael Wilson & Partners Ltd v Sinclair \[2020\] EWHC 1017 \(QB\)](#), [12].

¹⁸⁷ [CPR 40E PD paragraff 4.1](#).

¹⁸⁸ [CPR 40E PD paragraff 4.2](#).

barnwr yn penderfynu y dylid traddodi'r dyfarniad mewn llys agored, fe restrir gwrandawriad byr (a fydd fel arfer yn para tua 5 munud), ac yn y gwrandawriad hwn bydd y barnwr yn datgan bod copi terfynol o'r dyfarniad ar gael a bydd yn ei ardystio. Ni fydd y barnwr yn darllen y dyfarniad air am air. Os bydd y barnwr yn penderfynu cynnal gwrandawriad o'r fath, bydd clerck y barnwr neu ACO yn hysbysu'r partïon neu eu cynrychiolwyr p'un a oes angen iddynt fod yn bresennol ai peidio. Os traddodir y dyfarniad mewn gwrandawriad a bod y partïon yn cytuno i delerau'r gorchymyn, nid oes angen i'r partïon fynychu'r gwrandawriad traddodi.¹⁸⁹

- 11.6.13. Os na ellir cytuno ar faterion canlyniadol, bydd y Llys yn penderfynu arnynt drwy ystyried y sylwadau a gyflwynir. Gellir gwneud hyn:
- 11.6.13.1. drwy wneud sylwadau ysgrifenedig cyn adeg traddodi'r dyfarniad (ac os felly efallai y bydd y Llys yn rhoi rhesymau dros ddatrys y materion canlyniadol yn y dyfarniad traddodi neu yn y dyfarniad a wnaed adeg traddodi);
 - 11.6.13.2. drwy i'r partïon fynychu'r Llys ar ddyddiad traddodi'r dyfarniad a gwneud sylwadau llafar; neu
 - 11.6.13.3. drwy i'r partïon gytuno ar orchymyn terfynol sy'n caniatáu iddynt wneud sylwadau ysgrifenedig ar orchmynion canlyniadol o fewn amser penodedig.
- 11.6.14. Os oes gwrandawriad traddodi, a bod y partïon yn dymuno mynychu i wneud cyflwyniadau llafar, dylent hysbysu'r ACO cyn gynted â phosibl, gan y bydd angen dyrannu amser i'r barnwr wrando'r cyflwyniadau. Fel arfer, byddai gwrandawriad o'r fath yn para 30 munud. Gan amlaf, bydd y barnwr yn gwneud penderfyniad ar faterion canlyniadol yn y fan a'r lle.
- 11.6.15. Os nad oes cyflwyniadau llafar, a bod y partïon yn cyflwyno sylwadau yn ysgrifenedig, bydd y Llys yn ystyried y rhain ar ddyddiad arall, yn penderfynu pa orchmynion i'w gwneud ac yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad.
- 11.6.16. Mae Prif Farnwr y Llys Gweinyddol wedi cymeradwyo'r trefniadau ar gyfer traddodi dyfarniadau yng Nghymru yn [Atodiad 5](#) i'r Canllaw hwn, a dylid eu dilyn.
- 11.6.17. Bydd ACO yn anfon copïau wedi'u selio o unrhyw orchmynion a gymeradwywyd gan y barnwr at y partïon.
- Hyd nes y bydd gorchymyn wedi'i gymeradwyo a'i selio, ni ddylai'r partïon gymryd yn ganiataol bod unrhyw orchmynion a gytunwyd wedi'u cymeradwyo. Y gorchymyn (nid y dyfarniad) sydd â grym cyfreithiol, a'r gorchymyn sydd rhaid ei orfodi os yw parti'n methu â chydymffurfio â'i delerau.

¹⁸⁹ [CPR 40E PD paragraff 5.1.](#)

11.6.18. Mae pob dyfarniad a wnaed yn dilyn gwrandawriad sylfaenol, a rhai dyfarniadau a wnaed yng nghwrs achos ar gael i'r cyhoedd yn <https://caselaw.nationalarchives.gov.uk/>. Mae dyfarniadau hefyd ar gael yn <https://www.bailii.org/>. Nid yw'r gwefannau hyn yn codi tâl.

13. Rhwymedïau

13.1. Rhagarweiniad

12.1.1. Rhaid i hawlydd nodi yn Adran 7 y Ffurflen Hawlio pa rwymedi a geisir os bydd yr hawliad yn llwyddo. Mae'r rhan hon o'r Canllaw yn trafod y rhwymedïau sydd ar gael.

13.2. Gorchymyn gorfodol

12.2.1. Gorchymyn gorfodol yw gorchymyn y gall y Llys ei wneud i gymell corff cyhoeddus i weithredu mewn ffordd benodol.

13.3. Gorchymyn dileu

- 12.3.1. Mewn achosion a gafodd eu cychwyn cyn y 14eg o Orffennaf 2022, dim ond un math o orchymyn dileu sydd ar gael. Mae ei effaith yr un fath â'r hen rwymedi uchelfreiniol o certiorari. Mae yn dileu, neu yn rhoi o'r neilltu, penderfyniad a heriwyd. Canlyniad gorchymyn dileu yw nad oes gan y penderfyniad a heriwyd unrhyw rym cyfreithlon nac effaith gyfreithiol. Bydd hefyd yn cael ei drin fel pe na bai erioed wedi cael grym nac effaith gyfreithiol. Dywedir weithiau bod penderfyniad sydd wedi'i ddileu yn ddi-rym ab initio (h.y. o'r dechrau).
- 12.3.2. Ar ôl gwneud gorchymyn dileu, bydd y Llys fel arfer yn anfon y mater yn ôl i'r corff cyhoeddus a wnaeth y penderfyniad ac yn ei gyfarwyddo i ailystyried y mater a dod i benderfyniad newydd yn unol â dyfarniad y Llys.¹⁹⁰
- 12.3.3. Mae gan y Llys y pŵer i newid ei benderfyniad ei hun am y penderfyniad sydd wedi ei ddileu. Fodd bynnag, gellir ond ymarfer y pŵer hwn pan (a) cafodd y penderfyniad dan sylw ei wneud gan lys neu driwlynlys, (b) mae'r penderfyniad yn cael ei ddileu oherwydd gwall cyfreithiol a (c) heb y gwall, dim ond un penderfyniad y gallai'r llys neu'r triwlynlys fod wedi'i wneud.¹⁹¹
- 12.3.4. Mewn achosion a gafodd eu cychwyn ar neu ar ôl y 14eg o Orffennaf 2022, gall gorchymyn dileu gynnwys darpariaeth (a) i'r gorchymyn dileu beidio â dod i rym hyd nes dyddiad a bennwyd yn y gorchymyn, neu (b) i ddiddymu neu gyfyngu effaith ôl-weithredol y dileu.¹⁹² Yn y naill achos neu'r llall, gall y ddarpariaeth gynnwys amodau.¹⁹³

¹⁹⁰ Gweler [a. 31\(5\)\(a\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) a [CPR 54.19\(2\)\(a\)](#).

¹⁹¹ Gweler [a. 31\(5\)\(b\) a 31\(5A\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) a [CPR 54.19\(2\)\(b\)](#).

¹⁹² [a. 29A\(1\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#), fel y'i mewnosodwyd gan [a.1 Deddf Adolygiad Barnwrol a'r Llysoedd 2022](#).

¹⁹³ [a. 29A\(2\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

- 12.3.5. Pan wneir darpariaeth i'r dileu beidio â dod i rym hyd nes dyddiad penodol, fe gadarnheir y weithred a wrthwynebir (yn amodol ar unrhyw amodau a bennwyd) (h.y. bydd yn cael ei thrin i bob pwrpas fel bod ei dilysrwydd a'i grym heb eu heffeithio erioed gan y diffyg perthnasol) hyd nes daw y dileu i rym.¹⁹⁴ Fodd bynnag, unwaith y daw y gorchymyn dileu i rym, fe ymdrinnir â'r weithred a wrthwynebir fel nad oedd ganddi erioed rym neu effaith.¹⁹⁵
- 12.3.6. Pan wneir darpariaeth i ddiddymu neu gyfyngu unrhyw effaith ôl-weithredol y dileu, fe gadarnheir y weithred a wrthwynebir (yn amodol ar unrhyw amodau a bennwyd) (h.y. bydd yn cael ei thrin i bob pwrpas fel bod ei dilysrwydd a'i grym heb eu heffeithio erioed gan y diffyg perthnasol) ym mhob achos y mae'r ddarpariaeth yn ei hatal rhag cael ei dileu.¹⁹⁶
- 12.3.7. Wrth i'r Llys benderfynu p'un a yw am ymarfer y pŵer i wneud y ddarpariaeth a ddisgrifir ym mharagraff [12.3.4](#) uchod, rhaid iddo ystyried:
- “(a) natur ac amgylchiadau'r diffyg perthnasol;
 - (b) unrhyw niwed i weinyddiaeth dda a fyddai'n deillio o ymarfer neu fethu ag ymarfer y pŵer;
 - (c) buddion neu ddisgwyliadau unigolion a fyddai'n elwa o ddileu'r weithred a wrthwynebir;
 - (ch) buddion neu ddisgwyliadau unigolion sydd wedi dibynnu ar y weithred a wrthwynebir;
 - (d) i'r graddau y mae'n ymddangos i'r llys ei fod yn berthnasol, unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd neu a fwriadwyd eu cymryd, neu ymgysylltiad a roddwyd, gan unigolyn sydd â chyfrifoldeb mewn perthynas â'r weithred a wrthwynebir;
 - (dd) unrhyw fater arall sy'n ymddangos ei fod yn berthnasol i'r llys.”¹⁹⁷

13.4. Gorchymyn gwahardd

- 12.4.1. Mae gorchymyn gwahardd yn gwahardd corff cyhoeddus rhag gwneud rhywbeth y mae wedi awgrymu y byddai efallai yn ei wneud ond nad yw wedi'i wneud eto.

13.5. Datganiad

- 12.5.1. Datganiad ydyw gan y Llys ynghylch sut y mae'r gyfraith yn berthnasol i achos penodol neu gyfres o achosion. Mae'n un ffordd y gall y Llys ddatgan gydag awdurdod bod ymddygiad neu ymddygiad arfaethedig corff cyhoeddus yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon.
- 12.5.2. Nid yw datganiad yn cael unrhyw effaith orfodol. Mae hyn yn golygu na ellir ei orfodi. Nid yw methu â chydymffurfio â'r gyfraith fel y'i nodir mewn datganiad

¹⁹⁴ a. 29A(3) a (5) Deddf Uwchlysoedd 1981.

¹⁹⁵ a. 29A (6) Deddf Uwchlysoedd 1981.

¹⁹⁶ a. 29A(4) a (5) Deddf Uwchlysoedd 1981.

¹⁹⁷ a. 29A(8) Deddf Uwchlysoedd 1981.

yn achos o ddirmyg llys. Fodd bynnag, mae disgwyl i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r gyfraith fel y datganwyd gan y Llys.

- 12.5.3. Gall datganiad fod yn rhwymedi ar ei ben ei hun,¹⁹⁸ neu gellir ei wneud ar y cyd â rhwymedïau eraill.
- 12.5.4. Yn gyffredinol, ni chaniateir datganiad pan fo'r cwestiwn dan sylw yn ddamcaniaethol, na pan nad oes gan yr unigolyn sy'n gofyn am y datganiad unrhyw fudd gwirioneddol ynddo, na pan ofynnir am y datganiad heb ddadl briodol (e.e. yn lle amddiffyniad neu ar sail derbyniadau neu drwy gydsyniad).¹⁹⁹

13.6. Datganiad o anghydnawsedd

- 12.6.1. Os yw'r Llys yn penderfynu bod darpariaeth mewn Deddf Seneddol yn anghydnaws â hawl Confensiwn, h.y. un o'r hawliau o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a restrir yn [Neddf Hawliau Dynol 1998](#), gall wneud datganiad o anghydnawsedd.²⁰⁰
- 12.6.2. Gellir gwneud datganiad o anghydnawsedd yng nghyswllt mathau eraill o ddeddfwriaeth sylfaenol²⁰¹ ac is-ddeddfwriaeth (er enghraifft gorchymyn, rheolau neu reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Seneddol) os yw'r Llys yn fodlon (heb ystyried unrhyw bosibilrwydd o ddiddymu) bod y Ddeddf Seneddol dan sylw yn atal gwneud i ffordd â'r anghydnawsedd.²⁰²
- 12.6.3. Mae'r egwyddorion sydd wrth wraidd datganiadau cyffredin (gweler [paragraff 12.5](#) yn y Canllaw hwn), fel y gofyniad na fydd datganiad yn cael ei wneud mewn amgylchiadau damcaniaethol, yn berthnasol.²⁰³
- 12.6.4. Nid yw datganiad o anghydnawsedd yn effeithio ar ddilysrwydd, parhad gweithredol na gorfodaeth y ddarpariaeth y gwneir y datganiad yn ei chylch ac nid yw'n rhwymo'r partïon yn yr achos lle caiff ei wneud.²⁰⁴ Mae'r datganiad yn hysbysu'r Senedd bod y ddarpariaeth honno'n anghydnaws â hawl yn y Confensiwn.
- 12.6.5. Rhaid i'r hawlydd nodi yn yr adran ar rwymedïau yn y Ffurflen Hawlio (Adran 7) a yw'n gwneud cais am ddatganiad o anghydnawsedd, gan roi union fanylion yr hawl yn y Confensiwn y mae'n honni iddi gael ei thorri, a'r ddarpariaeth mewn cyfraith gwlad y mae'n honni iddi fod yn anghydnaws â'r hawl honno.²⁰⁵

¹⁹⁸ [CPR 40.20](#).

¹⁹⁹ Re F [1990] 2 AC 1.

²⁰⁰ [a.4\(1\) a 4\(2\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#).

²⁰¹ Ceir diffiniad o hyn yn [a.21\(1\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#).

²⁰² [a.4\(3\) a 4\(4\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#).

²⁰³ Gweler, er enghraifft, Taylor v Cyngor Sir Gaerhirfryn [2005] 1 WLR 2668.

²⁰⁴ [a. 4\(6\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#).

²⁰⁵ [CPR 54A PD paragraff 4.7](#); [CPR 16 PD paragraff 15](#).

- 12.6.6. Dylai'r hawlydd hefyd sicrhau bod yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (sy'n cynrychioli'r Goron) yn cael ei enwi fel parti â budd os gofynnir am ddatganiad o anghydnawsedd. Sut bynnag, pan fydd cais am ddatganiad o anghydnawsedd wedi cael ei wneud, gall y Llys orchymyn rhoi rhybudd i'r Goron.²⁰⁶ Os yw'r Llys yn ystyried gwneud datganiad o anghydnawsedd ac nid yw'r Goron eisoes yn barti, rhaid i'r Llys roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol gan roi o leiaf 21 diwrnod²⁰⁷ i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a ddylid ymyrryd a chyflwyno sylwadau.²⁰⁸

13.7. Gwaharddeb

- 12.7.1. Mae gwaharddebau yn opsiwn mewn sawl math gwahanol o achos. Mewn achos adolygiad barnwrol, gorchymyn yw gwaharddeb sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus weithredu mewn ffordd benodol (gwaharddeb gadarnhaol neu "orfodol") neu'n ei wahardd rhag gweithredu mewn ffordd benodol (gwaharddeb negyddol neu "waharddol").

13.8. Iawndal

- 12.8.1. Mae gan y Llys Gweinyddol y pŵer i ddyfarnu iawndal a rhwymedïau ariannol eraill (adfer a dyfarnu arian sy'n ddyledus fel dyled).²⁰⁹ Ond dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y gall ymarfer y pŵer hwn:
- 12.8.1.1. mae'r hawlydd hefyd yn gofyn am rwymedi o fath arall;²¹⁰ a
- 12.8.1.2. mae'r Llys yn fodlon y byddai dyfarniad o'r fath wedi'i wneud petai'r hawliad wedi'i wneud fel rhan o weithred a gychwynnwyd gan y ceisydd adeg gwneud y cais.²¹¹
- 12.8.2. Mae'r amod olaf hwn yn adlewyrchu'r egwyddor nad oes gan neb hawl gyffredinol i rwymedi ariannol o ganlyniad i ymddygiad anghyfreithlon corff cyhoeddus. Rhaid i hawlydd sy'n ceisio rhwymedi ariannol adnabod sail gyfreithiol ar gyfer y rhwymedi hwnnw (a elwir yn "math o weithred") yn ogystal â sefydlu bod yr ymddygiad sy'n cael ei herio yn anghyfreithlon. Mae'r math o weithredoedd y dibynnir arnynt yn aml mewn achosion adolygiad barnwrol yn cynnwys carcharu ar gam, torri dyletswydd statudol, adfer arian a dalwyd mewn perthynas â chais statudol anghyfreithlon ac iawndal o dan [Ddeddf Hawliau Dynol 1998](#).
- 12.8.3. Pan fo'r hawliad yn cynnwys hawliad am iawndal o dan [Ddeddf Hawliau Dynol 1998](#) rhaid ei bledio a'i nodi'n gywir.²¹²

²⁰⁶ [CPR 54A PD paragraff 7.2](#); [CPR 19A PD paragraff 6.1](#).

²⁰⁷ [CPR 19.4A \(1\)](#).

²⁰⁸ [a.5\(1\) Deddf Hawliau Dynol 1998](#).

²⁰⁹ [a.31\(4\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

²¹⁰ [CPR 54.3\(2\)](#).

²¹¹ [a.31\(4\)\(b\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

²¹² [R \(Nazem Fayad\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 54](#), [54]-[56]. Os nad yw hawliadau am iawndal wedi'u nodi'n ddigon manwl, gallai hyn olygu costau i'r hawlydd.

- 12.8.4. Pan fydd asesu a dyfarnu iawndal yn debygol o fod yn broses hir, fel rheol bydd y Llys yn penderfynu'r hawliad am adolygiad barnwrol, yn dyfarnu'r rhwymedi arall y gofynnir amdano (os yw hynny'n briodol), ac yna'n trosglwyddo'r hawliad naill ai i'r Llys Sirol neu i'r Adran briodol yn yr Uchel Lys i benderfynu'r mater o iawndal. Mae'n ddyletswydd ar bob parti i ystyried y posibilrwydd efallai y bydd rhaid trosglwyddo'r hawliad cyn gynted ag y daw'n amlwg bod materion heblaw am iawndal i'w datrys.²¹³

13.9. Caniatáu rhwymedïau

12.9.1. Mae rhwymedïau mewn achosion adolygiad barnwrol yn fater o ddisgresiwn y Llys.

- 12.9.2. Hyd yn oed os bydd hawlydd yn dangos bod diffynnydd wedi gweithredu'n anghyfreithlon, gall y Llys wrthod caniatáu rhwymedi, yn enwedig:²¹⁴

12.9.2.1. pan fo'r hawlydd wedi oedi cyn ffeilio'r cais am adolygiad barnwrol ac y mae'r Llys yn credu y byddai caniatáu'r rhwymedi y gofynnir amdano yn debygol o achosi caledi sylweddol, neu o wneud niwed sylweddol, i hawliau unrhyw berson, neu'n niweidiol i weinyddiaeth dda;²¹⁵

12.9.2.2. roedd y camgymeriad cyfreithiol a wnaed gan y corff cyhoeddus yn anfaterol i'w benderfyniad;

12.9.2.3. ni fyddai unrhyw bwrpas ymarferol i'r rhwymedi; neu

12.9.2.4. nid yw'r hawlydd wedi dioddef unrhyw niwed neu ragfarn.

- 12.9.3. Gall p'un a ddyfernir iawndal neu rwymedïau ariannol eraill arwain at wahanol ystyriaethau.

- 12.9.4. Gall y Llys ganiatáu mwy nag un rhwymedi lle bo hynny'n briodol.

13.10. Rhwymedïau pan na fyddai'r canlyniad wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd amdano wedi digwydd

- 12.10.1. Os yw'r hawlydd yn llwyddiannus mewn achos adolygiad barnwrol, ond y mae'r Llys o'r farn ei bod yn debygol iawn na fyddai'r canlyniad i'r hawlydd wedi bod yn sylweddol wahanol pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd amdano wedi digwydd, yna rhaid i'r Llys wrthod rhoi unrhyw fath o ryddhad, ac ni chaiff ddyfarnu iawndal, oni bai bod y Llys o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny am resymau budd cyhoeddus eithriadol.²¹⁶

²¹³ Gweler e.e. [R \(ZA \(Pakistan\)\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2020\] EWCA Civ 146](#), [72].

²¹⁴ Gweler [R \(Baker\) v Tribiwnlys Apeliadau'r Heddlu \[2013\] EWHC 718 \(Admin\)](#).

²¹⁵ [a.31\(6\)\(b\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

²¹⁶ [a.31\(2A\) a \(2B\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

14. Rheoli Achosion

14.1. Rheoli achosion yn y Llys Gweinyddol

- 13.1.1. Mae pob achos yn y Llys Gweinyddol yn cael ei gynnal yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y prif amcan yn [CPR 1.1](#).
- 13.1.2. Mae'r prif amcan yn ei gwneud yn ofynnol i ddelio â phob achos yn gyfiawn ac am gost gymesur. Mae delio ag achos yn gyfiawn ac am gost gymesur yn cynnwys:²¹⁷
 - 13.1.2.1. sicrhau bod sefyllfa'r partïon yn gyfartal;
 - 13.1.2.2. arbed costau;
 - 13.1.2.3. delio gyda'r achos mewn ffordd sy'n gymesur i faint o arian sydd dan sylw, i bwysigrwydd yr achos, i gymhlethdod y materion dan sylw, ac i sefyllfa ariannol pob parti;
 - 13.1.2.4. delio gyda'r achos yn ddi-oed ac yn deg;
 - 13.1.2.5. dyrannu cyfran briodol o adnoddau'r Llys iddo, a hefyd ystyried yr angen i ddyrannu adnoddau i achosion eraill; a
 - 13.1.2.6. sicrhau y cydymffurfir â rheolau, Cyfarwyddiadau Ymarfer a gorchmynion.
- 13.1.3. Wrth sicrhau y cydymffurfir â'r prif amcan, rhaid i'r Llys reoli achosion mewn ffordd weithredol,²¹⁸ sy'n cynnwys (ond heb ei gyfyngu i) y canlynol:
 - 13.1.3.1. annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd o ran sut y cynhelir yr achos;
 - 13.1.3.2. adnabod yn gynnar unrhyw broblemau neu faterion yn codi;
 - 13.1.3.3. penderfynu'n ddi-oed pa faterion sydd angen ymchwiliad llawn a threial, a rhoi'r lleill o'r naill du yn unol â hynny;
 - 13.1.3.4. penderfynu ym mha drefn y dylid datrys y materion;
 - 13.1.3.5. annog y partïon i ddefnyddio gweithdrefn datrys anghydfod arall os yw'r Llys yn credu y byddai hynny'n briodol, a hwyluso defnyddio'r weithdrefn honno;
 - 13.1.3.6. helpu'r partïon i setlo'r achos neu ran o'r achos;
 - 13.1.3.7. penderfynu ar amserlen, neu reoli cynnydd yr achos fel arall;
 - 13.1.3.8. ystyried a yw manteision tebygol cymryd camau arbennig yn cyfiawnhau'r gost o'u cymryd;

²¹⁷ [CPR 1.1\(2\)](#).

²¹⁸ [CPR 1.4](#).

- 13.1.3.9. delio gyda chymaint o'r agweddau ar yr achos â phosib ar yr un pryd;
 - 13.1.3.10. delio gyda'r achos heb fod angen i'r partïon fynychu'r Llys;
 - 13.1.3.11. defnyddio technoleg; a
 - 13.1.3.12. rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod treial yr achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithlon.
- 13.1.4. Mae'n ofynnol i'r partïon helpu'r Llys i hyrwyddo'r prif amcan.²¹⁹
- 13.1.5. Diben y bennod hon yn y Canllaw yw rhoi mwy o fanylion am beth y disgwylir i'r Llys, ACO a'r partïon ei wneud i hyrwyddo'r prif amcan.

14.2. Dyletswyddau'r partïon

- 13.2.1. Rhaid i'r partïon ymdrechu i setlo'r hawliad heb fod angen i'r Llys ymyrryd. Mae wastad yn well setlo hawliad cyn iddo gychwyn yn y Llys. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl i'r hawliad gychwyn, rhaid i'r partïon barhau i werthuso eu sefyllfa, yn enwedig ar ôl unrhyw arwydd gan y Llys (er enghraifft y bydd yn gwrthod neu'n rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol). Dylai'r partïon ystyried opsiynau datrys anghydfod eraill (er enghraifft, cyfryngu) wrth drin a thrafod sut i setlo'r achos, neu o leiaf i gyfyngu ar faterion perthnasol yn yr achos.
- 13.2.2. Nid yw [CPR Rhan 54](#) yn darparu ar gyfer gwrandawriad rheoli achos ffurfiol mewn achos adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, gall y partïon wneud cais am orchymyn interim neu gallai'r Llys wneud gorchymyn rheoli achos gyda, neu heb, wrandawriad. Nid yw'n anghyffredin i'r tro cyntaf y mae'r partïon yn ymddangos yn y Llys gerbron y barnwr fod yn wrandawriad terfynol yr hawliad. Gan hynny, mae gan y partïon ddyletswydd i sicrhau eu bod yn parhau i gyfathrebu'n effeithiol, yn adeiladol ac yn rheolaidd gyda'i gilydd a gydag ACO.
- 13.2.3. Rhaid i'r partïon gydymffurfio â'r darpariaethau trefniadol yn y CPR, y Cyfarwyddiadau Ymarfer perthnasol a gorchmynion y Llys (gan gynnwys gorchmynion gan gyfreithwyr ACO). Os yw parti'n gwybod na fydd yn gallu cydymffurfio â chyfarwyddiadau neu orchmynion, dylai roi gwybod i ACO ac i'r partïon eraill cyn gynted â phosib. Dylid gwneud cais i ymestyn yr amser ar gyfer cymryd unrhyw gam penodol yn yr achos cyn gynted ag y daw i'r amlwg bod angen estyniad amser. Dylai'r cais gael ei wneud yn unol â'r weithdrefn ceisiadau dros dro ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn.
- 13.2.4. Os yw parti'n ymwybodol y gallai fod angen iddo/i wneud cais am orchymyn interim, yna dylai gael cydsyniad y partïon eraill i'r hawliad. Yn niffyg cydsyniad, dylid hysbysu ACO. Yna dylid gwneud y cais cyn gynted â phosibl. Mae oedi wrth wneud cais, yn enwedig lle mae angen ei ystyried ar frys, yn ffactor a all fynd yn erbyn cais i ganiatáu'r gorchymyn a geisir.

²¹⁹ [CPR 1.3](#).

- 13.2.5. Os yw'r partïon yn gallu cytuno ar ffurf unrhyw orchymyn rheoli achos a/neu ryddhad interim, dylid ffeilio gorchymyn drafft a gytunwyd (a elwir yn gorchymyn cydsynio drafft), a bydd hwn yn amodol ar sêl bendith y Llys. Mae ffi yn daladwy wrth gyflwyno gorchymyn cydsynio drafft a dylid cynnwys y rhesymau dros ofyn am orchymyn mewn rhybudd cyflwyno cais i gyd-fynd â'r gorchymyn (N244). Nid oes gan orchymyn drafft (hyd yn oed os yw'r partïon yn cytuno iddo) statws gorchymyn hyd nes bydd y Llys wedi'i gymeradwyo.
- 13.2.6. Dylai'r partïon hefyd gydymffurfio ag unrhyw geisiadau gan aelodau staff ACO (er enghraifft, ceisiadau am ddogfennau neu wybodaeth). Er nad oes gan y ceisiadau hyn yr un grym â gorchymyn Llys, gallai methu â chydymffurfio â chais o'r fath fod yn ffactor y byddai barnwr neu gyfreithiwr ACO yn ei ystyried yn anffafriol wrth ystyried caniatáu gorchymyn interim, caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ryddhad neu gostau.
- 13.2.7. Os yw'r partïon yn ymwybodol bod achos yn debygol o gael ei setlo heb gynnwys y Llys ymhellach, dylid hysbysu ACO cyn gynted â phosib.

14.3. Rôl staff Swyddfa'r Llys Gweinyddol

- 13.3.1. Staff ACO sy'n delio â'r achosion o ddydd i ddydd.
- 13.3.2. Nid oes gan staff ACO gymwysterau cyfreithiol ac ni allant roi cyngor cyfreithiol ar haeddiant hawliad. Fe allant efallai helpu gyda'r weithdrefn adolygiad barnwrol sylfaenol. Fodd bynnag, ni ddylid cymryd bod unrhyw gyngor ar y weithdrefn gan aelod o staff yn drech nag unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol (boed yn ddarpariaeth mewn statud, cyfraith achosion, y CPR neu orchymyn Llys) na darpariaethau yn y Canllaw hwn. Y partïon a'r Llys sy'n gyfrifol am sut mae achosion yn cael eu cynnal ac ni all y partïon ddibynnu ar gyngor gan ACO fel rheswm dros beidio â chydymffurfio â darpariaethau cyfreithiol.
- 13.3.3. Gall staff ACO gysylltu â'r partïon i ofyn am wybodaeth neu ddogfennau penodol os oes angen yr wybodaeth neu'r ddogfen o dan y CPR, neu os credir y dylai'r Llys ei gweld i'w alluogi i ystyried yr hawliad neu reoli'r achos yn iawn. Dylai'r partïon gydymffurfio ag unrhyw geisiadau oni bai na allant wneud hynny, ac os felly dylid rhoi rhesymau ysgrifenedig pam na ellir gwneud hynny.
- 13.3.4. Mae gan staff ACO ddyletswydd i sicrhau bod achosion yn cael eu cynnal gan y partïon yn unol â'r prif amcan. Os yw'n ymddangos nad yw achos yn cael ei gynnal yn unol â'r prif amcan, mae ganddynt ddyletswydd i naill ai holi'r partïon i sefydlu'r ffordd fwyaf priodol o weithredu a/neu gyfeirio'r achos at gyfreithiwr ACO neu farnwr i ystyried camau rheoli achos pellach.

14.4. Rôl cyfreithwyr Swyddfa'r Llys Gweinyddol

- 13.4.1. Mae'n rhaid i gyfreithiwr ACO fod wedi cymhwyso'n gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr neu fod yn Gymrawd Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol.

- 13.4.2. Mae cyfreithwyr ACO yn annibynnol ar y partïon. Nid ydynt yn rhoi cyngor ar rinweddau'r hawliad. Gall cyfreithiwr ACO dynnu sylw'r partïon at ddarpariaethau neu gynseiliau a allai effeithio ar yr hawliad. Os gwneir hyn, dylai'r partïon ystyried beth sy'n cael ei ddweud, ond ni ddylid ei ystyried yn gyngor cyfreithiol ffurfiol nac yn benderfyniad ar y gyfraith. Y partïon sy'n gyfrifol am gynnal eu hawliad eu hunain a gwaith y barnwr sy'n ystyried yr hawliad yw'r penderfyniad ar y gyfraith.
- 13.4.3. Rôl cyfreithiwr ACO yw rhoi cyngor ar arferion a gweithdrefnau yn y Llys Gweinyddol i bwy bynnag sydd ei angen; boed yn farnwyr, staff ACO, ymarferwyr neu ymglyfreithwyr; ymgymryd ag ymchwil gyfreithiol i farnwyr y Llys Gweinyddol; ac i gyfathrebu â'r partïon ac arfer pwerau barnwrol dirprwyedig i sicrhau bod achosion yn y Llys Gweinyddol yn cael eu rheoli'n iawn.
- 13.4.4. Mae gan gyfreithiwr ACO ddyletswydd i sicrhau bod yr achos yn cael ei reoli yn unol â'r prif amcan a gall gynnal trafodaethau â'r partïon neu wneud gorchmynion rheoli achos (pan wneir cais am orchymyn o'r fath, pan fydd aelod o staff ACO yn cyfeirio achos atynt, neu o'u dewis eu hunain) i hyrwyddo'r prif amcan a rheoli'r achos yn briodol. Bydd unrhyw orchymyn a wneir gan gyfreithiwr ACO bob amser yn cael ei wneud ar ôl ystyried y papurau heb wrandawriad.
- 13.4.5. Caiff y pwerau penodol y gall cyfreithiwr ACO eu hymarfer eu dirprwyo gan Lywydd Adran Mainc y Frenhines²²⁰ ac maent yn cynnwys:
- 13.4.5.1. penderfynu pryd y dylid cyfeirio cais brys at farnwr;
 - 13.4.5.2. ychwanegu, tynnu neu gywiro partïon heblaw ymyrwyr;
 - 13.4.5.3. ymestyn neu leihau'r amser ar gyfer ffeilio unrhyw ddogfen sy'n ofynnol o dan y CPR, Cyfarwyddyd Ymarfer neu orchymyn llys;
 - 13.4.5.4. rhoi estyniad amser yng nghyswllt unrhyw gam gweithredu sy'n ofynnol gan barti;
 - 13.4.5.5. rhoi cyfarwyddyd ar ffeilio unrhyw ddogfen sy'n ofynnol i ddod i benderfyniad priodol ynghylch yr achos;
 - 13.4.5.6. gwrthod hawliad neu gais pan fydd parti wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw orchymyn, rheol neu Gyfarwyddyd Ymarfer;
 - 13.4.5.7. penderfynu ar geisiadau am ryddhad o sancsiynau;
 - 13.4.5.8. penderfynu ar geisiadau i atal achos drwy gydsyniad neu fel arall;
 - 13.4.5.9. trosglwyddo hawliadau yn orfodol i'r Uwch Dribiwnlys;

²²⁰ [CPR 54.1A\(1\)](#).

- 13.4.5.10. gorchymyn bod y Llys o blaid trosglwyddo'r hawliad i ardal wahanol. Bydd gorchymyn o'r fath yn arwain at drosglwyddo os na ddaw gwrthwynebiad i law;²²¹
- 13.4.5.11. penderfynu ar geisiadau gan gyfreithwyr i ddod oddi ar gofnod y llys;
- 13.4.5.12. penderfynu ar geisiadau i ganslo neu i ohirio gwrandawiadau;
- 13.4.5.13. penderfynu ar gais i gael gorchymyn neu ddyfarniad wedi'i gytuno at ddibenion penderfynu ar achos.²²²
- 13.4.6. Os nad yw parti yn fodlon â gorchymyn y cyfreithiwr ACO, gall y parti wneud cais bod y gorchymyn yn cael ei adolygu gan farnwr.²²³ Gellir cynnal yr adolygiad ar sail y papurau neu, os yw'r parti sy'n gofyn am yr adolygiad yn gwneud cais am wrandawriad, drwy gyfrwng gwrandawriad llafar yn y Llys.²²⁴ Rhaid gwneud y cais am adolygiad drwy ffeilio cais ysgrifenedig (gellir ysgrifennu llythyr neu gyflwyno rhybudd cyflwyno cais) cyn pen 7 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd gorchymyn cyfreithiwr ACO i'r parti.²²⁵ Cyn belled bod y cais yn cael ei ffeilio ar amser, ni chodir ffi. Os ddim, rhaid ffeilio rhybudd cyflwyno cais (N244) a chynnwys y ffi berthnasol.

14.5. Meistr y Llys Gweinyddol

- 13.5.1. Mae gan y Meistr y pŵer i wneud unrhyw orchymyn oni bai fod y [CPR](#) yn nodi fel arall. Mewn achos adolygiad barnwrol mae hyn yn golygu bod y Meistr yn gallu delio â cheisiadau interim nad ydynt o fewn y pwerau a ddirprwywyd i gyfreithwyr ACO. Mae hyn yn cynnwys pennu atebolrwydd am gostau a gwneud asesiadau cryno o gostau (gweler [Pennod 25](#) yn y Canllaw hwn). Gall y Meistr wneud gorchymynion mewn gwrandawriad neu heb wrandawriad.²²⁶
- 13.5.2. I herio telerau gorchymyn a wnaed gan y Meistr heb wrandawriad, rhaid gwneud cais am ailystyried y gorchymyn mewn gwrandawriad llafar.²²⁷ Rhaid gwneud y cais ar ffurflen N244 ac mae'r ffi berthnasol yn daladwy. Caiff y gwrandawriad ei restru gerbron barnwr.
- 13.5.3. I herio gorchymyn a wnaed gan y Meistr mewn gwrandawriad llafar, rhaid apelio i farnwr yn yr Uchel Lys (gweler [paragraff 26.5](#) yn y Canllaw hwn).²²⁸

²²¹ Os daw gwrthwynebiad i law yna bydd y penderfyniad terfynol ynghylch trosglwyddo hawliad yn cael ei wneud gan farnwr.

²²² Dim ond os rhoddwyd caniatâd yn barod y bydd cyfreithwyr ACO yn gallu cymeradwyo'r cais gan bod rhaid iddynt gydymffurfio â'r cyfyngiad yn [CPR 54.1A\(3\)\(a\)](#).

²²³ [CPR 54.1A\(5\)](#).

²²⁴ [CPR 54.1A\(5\)-\(6\)](#).

²²⁵ [CPR 54.1A\(7\)](#).

²²⁶ [CPR 23.8](#).

²²⁷ [R \(MD \(Affganistan\)\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2012\] EWCA Civ 194](#), 1 WLR 2422.

²²⁸ [CPR 52A PD paragraff 4.3](#).

14.6. Rôl y Farnwriaeth

- 13.6.1. Mae gan Farnwyr y Llys Gweinyddol yr un pwerau â'r Uchel Lys dan statud, y CPR, ac awdurdodaeth gynhenid y Llys.
- 13.6.2. Gellir ailystyried gorchmynion rheoli achos a wneir heb wrandawriad (ar gais parti) mewn gwrandawiadau llafar (gweler [paragraff 16.7](#) yn y Canllaw hwn). Os yw parti yn dymuno herio gorchymyn a wneir yn dilyn gwrandawriad llafar, gwneir yr her trwy apel i'r Llys Apêl (gweler [paragraff 26.4](#) yn y Canllaw hwn).

14.7. Ceisiadau unwaith y mae hawliad wedi cychwyn

- 13.7.1. Gellir gwneud cais am gyfarwyddiadau neu am orchymyn interim unrhyw bryd ar ôl cychwyn yr hawliad.²²⁹ Ar gyfer ceisiadau cyn cychwyn, gweler [paragraff 16.2](#) yn y Canllaw hwn. Ar gyfer ceisiadau am ryddhad interim, gweler [Pennod 16](#) yn y Canllaw hwn.
- 13.7.2. I wneud cais o'r fath:
 - 13.7.2.1. rhaid ffeilio'r cais gydag ACO ar ffurf rhybudd cyflwyno cais. Os oes angen penderfynu'r cais ymhen saith diwrnod, dylid defnyddio Ffurflen N463. Dylid defnyddio Ffurflen N244 ar gyfer unrhyw gais arall;
 - 13.7.2.2. rhaid cynnwys y ffi berthnasol gyda'r cais;
 - 13.7.2.3. rhaid cynnwys tystiolaeth gyda'r cais yn nodi pam y gofynnir am y cyfarwyddyd neu'r gorchymyn; a
 - 13.7.2.4. dylid cynnwys gorchymyn drafft gyda'r cais.
- 13.7.3. Dylid anfon copi o'r cais, y dystiolaeth a'r gorchymyn drafft perthnasol at y partïon eraill i'r hawliad i'w hysbysu fod y cais yn cael ei wneud. Pan fydd y cais wedi'i wneud heb roi rhybudd i'r partïon eraill, dylai'r dystiolaeth sy'n ategu'r cais egluro pam.
- 13.7.4. Yn y rhybudd cyflwyno cais, gall y ceisydd ofyn am i'r cais gael ei ystyried mewn gwrandawriad neu gan farnwr ar sail y papurau. Yn y naill achos neu'r llall, bydd ACO yn anfon y papurau at farnwr, Meistr neu gyfreithiwr ACO i'w hystyried yn y lle cyntaf. Gellir gwneud gorchymyn ar sail y papurau'n unig os na fyddai gwrandawriad yn briodol. Fel arall, rhestrir gwrandawriad i wrando'r cais, fel arfer ar fyr rhybudd (gweler [paragraff 14.2.2](#) yn y Canllaw hwn).
- 13.7.5. Mae yna gyfrifoldeb ar bob parti i ddatgan faint mae unrhyw wrandawriad i benderfynu ar y cais yn debygol o bara. Dylai hyd y gwrandawriad gynnwys amser i roi'r dyfarniad.
- 13.7.6. Dylai'r partïon gytuno ar unrhyw orchymyn rheoli achos os yn bosibl. Os felly, gellir gwneud y cais trwy gydsyniad, er bod gan y Llys ddisgresiwn i ganiatáu neu wrthod neu amrywio'r gorchymyn y cytunwyd arno. Gwneir ceisiadau a wneir trwy gydsyniad fel hyn yn unol â'r weithdrefn a amlinellir ym [mharagraff](#)

²²⁹ [CPR Rhan 23](#).

[24.4](#) yn y Canllaw hwn. (Mae'n trafod gorchmynion cydsynio i ddod â'r hawliad i ben, ond mae'r weithdrefn yn union yr un fath.)

- 13.7.7. Pan fydd rheol neu orchymyn llys yn nodi'n benodol y gall y partïon wneud "cais" (e.e. "gall yr hawlydd wneud cais am ganiatâd i ddangos tystiolaeth bellach o fewn 21 niwrnod"), yna bydd y drefn sydd wedi'i nodi yn y paragraff hwn yn berthnasol:
- 13.7.7.1. Os gwneir y cais o fewn terfyn amser perthnasol, yna ni fydd yr egwyddorion rhyddhad o sancsiynau (gweler [paragraff 13.9](#) yn y Canllaw hwn) yn berthnasol.
- 13.7.7.2. Pan fydd rheol neu orchymyn llys yn caniatáu "sylwadau" (er enghraifft, "gall yr hawlydd gyflwyno sylwadau ar gostau o fewn 7 diwrnod"), caniateir ffeilio'r sylwadau ysgrifenedig heb orfod dilyn proses ffurfiol.
- 13.7.7.3. Os mai dros e-bost y gwneir sylwadau o'r fath, yna dylent fod ar ffurf dogfen Word wedi'i hatodi i'r e-bost.
- 13.7.7.4. Os na ddaw y sylwadau i law o fewn y terfyn amser perthnasol, yna rhaid gwneud cais, yn unol â'r paragraff hwn a [pharagraff 13.9](#), i ymestyn y terfyn amser.
- 13.7.7.5. Gall y Llys wneud gorchymyn ar ei fenter ei hun, heb wrando ar y partïon neu roi cyfle iddynt wneud sylwadau.²³⁰ Pan fydd y Llys yn gwneud gorchymyn o'r fath, caiff parti wneud cais i'w roi o'r neilltu, ei amrywio neu ei atal.²³¹

14.8. Ceisiadau i atal hawliad

- 13.8.1. Os yw unrhyw barti yn dymuno atal hawliad (h.y. gohirio neu rewi cynnydd yr hawliad), rhaid gwneud cais i'r Llys (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn am ragor o wybodaeth). Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, dylai'r parti geisio cytundeb y partïon eraill i atal hawliad a dylid gwneud y cais ar ôl eu hysbysu amdano.
- 13.8.2. Rhaid nodi'n glir yn y rhybudd cyflwyno cais am ba hyd y bwriedir atal yr hawliad. Fel arfer, gwneir gais i atal hawliad wrth aros am ganlyniad digwyddiad penodol (er enghraifft, canlyniad apêl Tribiwnlys cysylltiedig neu achos arweiniol yn y Llys Apêl) neu am gyfnod penodol o amser (heb fod dim hwy nag ychydig wythnosau neu fisoedd fel arfer).
- 13.8.3. Fel rheol, ni chaniateir atal er mwyn i'r diffynnydd allu ailystyried y penderfyniad yn yr hawliad sy'n cael ei herio. Pan fydd y diffynnydd yn cytuno i ailystyried, fel arfer dylid tynnu'r hawliad am adolygiad barnwrol yn ôl. Gellir wedyn cychwyn hawliad newydd os yw'r hawlydd yn dymuno herio'r

²³⁰ [CPR 3.3\(4\)](#).

²³¹ [CPR 3.3\(5\)](#).

penderfyniad i ailystyried.²³² Beth bynnag, bydd rhaid cael caniatâd y Llys i ddiwygio'r Ffurflen Hawlio yng ngoleuni unrhyw benderfyniad dilynol: gweler [paragraff 7.11](#) (cyn cael caniatâd) a [10.2](#) (ar ôl cael caniatâd) yn y Canllaw hwn am gyfarwyddyd pellach ar yr egwyddor hon).

14.9. Rhyddhad o sancsiynau

- 13.9.1. Pan fydd parti wedi methu â chydymffurfio â darpariaeth o dan y CPR, Cyfarwyddyd Ymarfer neu orchymyn Llys sy'n cynnwys sancsiwn am beidio â chydymffurfio neu bod sancsiwn yn berthnasol mewn rhyw ffordd arall, ac y mae'r parti yn dymuno rhoi'r sancsiwn o'r naill du, rhaid i'r parti hwnnw wneud cais am ryddhad o'r sancsiwn.²³³ Os nad yw'n gwneud hynny, gall y Llys wrthod ystyried achos y parti hwnnw²³⁴ a/neu wneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y parti.²³⁵ Mae sancsiwn goblygedig yn sancsiwn nad yw'n cael ei roi'n benodol ar gyfer rheol neu gyfarwyddyd ond yr un fyddai'r canlyniad pe bai'r parti yn methu â chydymffurfio a phe bai'r rheol neu'r cyfarwyddyd yn rhoi sancsiwn yn benodol am beidio â chydymffurfio (er enghraifft, os bydd parti yn methu â ffeilio hysbysiad o apêl neu hysbysiad atgynhyrchu o fewn y terfyn amser perthnasol, ac os nad yw'n cael estyniad amser gan y Llys, ni fydd yr hawliad yn mynd rhagddo; y sancsiwn goblygiedig felly yw dileu).²³⁶
- 13.9.2. Rhaid gwneud cais am ryddhad o sancsiwn gan ddilyn y drefn ar gyfer ceisiadau interim (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn). Gall cyfreithiwr ACO, y Meistr neu farnwr ystyried cais am ryddhad o sancsiwn.
- 13.9.3. Wrth ystyried a ddylid caniatáu cais am ryddhad o sancsiwn, mae'n rhaid i gyfreithiwr ACO, y Meistr neu farnwr ystyried yr egwyddorion sydd wedi'u nodi yn [Denton v T.H. White Ltd \[2014\] EWCA Civ 906](#), [2014] 1 WLR 3926. Dylid ystyried y tri cham a nodwyd yn [Denton](#) yn [25]-[38] os gwneir cais o'r fath.

²³² Gweler [R \(Bhatti\) v Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Bury \[2013\] EWHC 3093](#), a [R \(Yousuf\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2016\] EWHC 663 \(Admin\)](#).

²³³ [CPR 3.8\(1\)](#) a [R \(Hysaj\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2014\] EWCA Civ 1633](#). Yng nghyswllt Hysaj roedd methiant i ffeilio hysbysiad apelydd mewn pryd yn golygu y bu'n rhaid gwneud cais am estyniad amser ar gyfer ffeilio'r hysbysiad yn ôl-weithredol neu ni fyddai'r apêl wedi gallu mynd rhagddi. Penderfynodd y Llys Apêl fod y darpariaethau ar gyfer rhyddhad o sancsiynau yn berthnasol gan fod y diffyg o ran y gallu i apelio, oni bai fod estyniad amser yn cael ei ganiatáu, yn sancsiwn goblygiedig. Yn [R \(Fayad\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 54](#) pan gadarnhaodd y Llys Apêl yn [22] mai'r dull gweithredu i'w fabwysiadu yng nghyswllt ceisiadau am estyniad amser mewn achosion adolygiad barnwrol oedd yr hyn a nodwyd yn [Denton v T.H. White Ltd \[2014\] EWCA Civ 906](#), gan gyfeirio at Hysaj. Gweler hefyd [R \(Liberty\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \(Materion Gweithredol\) \[2018\] EWHC 976 \(Admin\)](#), [3].

²³⁴ [CPR 3.4\(2\)\(c\)](#).

²³⁵ [CPR 44.2\(4\)\(a\)](#), [CPR 44.2\(5\)\(c\)](#) a [CPR 44.4\(3\)\(a\)\(i\)](#).

²³⁶ Gweler [Sayers v Clarke Walker \[2002\] EWCA Civ 645](#) a [Altomart Ltd v Salford Estates \(No.2\) Ltd \[2014\] EWCA Civ 1408](#).

14.10. Camddefnyddio prosesau'r Llys

- 13.10.1. Bydd y Llys yn sicrhau na chaiff prosesau'r Llys eu camddefnyddio. Os bydd parti, cynrychiolydd cyfreithiol, neu unrhyw unigolyn arall yn ymddwyn mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn amhriodol gall y Llys:
- 13.10.1.1. ddileu datganiad achos;²³⁷
 - 13.10.1.2. gwneud gorchymyn costau niweidiol yn mynnu bod yr unigolyn perthnasol yn talu costau parti (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn);²³⁸
 - 13.10.1.3. gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd yn mynnu bod cynrychiolydd cyfreithiol yn talu costau parti (gweler [paragraff 25.13](#) yn y Canllaw hwn);²³⁹
 - 13.10.1.4. cyfeirio cynrychiolydd cyfreithiol at y corff sy'n ei reoleiddio i ystyried sancsiynau pellach (gweler [Pennod 18](#) yn y Canllaw hwn);²⁴⁰
 - 13.10.1.5. gwneud gorchymyn atal sifil (gweler [Pennod 5](#) yn y Canllaw hwn).²⁴¹
- 13.10.2. Cyn gwneud unrhyw rai o'r gorchmynion hyn, bydd y Llys fel arfer yn rhoi cyfle i'r parti, y cynrychiolydd cyfreithiol neu'r trydydd parti perthnasol wneud sylwadau.
- 13.10.3. Mae camddefnyddio proses yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) weithredu yn annidwyll neu gyda phwrpas amhriodol, ceisio ail-gyfreitha mater a benderfynwyd a / neu fethiant parhaus i gydymffurfio â rheolau neu orchmynion y Llys.²⁴²

14.11. Cyfathrebiadau sy'n ddifriol neu sy'n amhriodol mewn rhyw ffordd arall

- 13.11.1. Yn gyffredinol, mae ACO yn gallu cyfathrebu â'r partïon wyneb yn wyneb wrth y cownter cyhoeddus, dros y ffôn, e-bost neu drwy'r post (gweler [Atodiad 1](#) ac [Atodiad 8](#) am fanylion) a bydd yn ymateb i gyfathrebiadau lle mae angen gwneud hynny. Yr eithriad yw pan fo unigolyn yn destun hysbysiad cyfyngu cyfathrebu.
- 13.11.2. Bydd rheolwr ACO yn anfon hysbysiad o'r fath os ystyrir bod yr unigolyn dan sylw wedi bod yn cyfathrebu ag ACO mewn ffordd sydd yn:
- 13.11.2.1. ymosodol, yn fygythiol neu'n boenydiol; neu'n

²³⁷ [CPR 3.4\(2\)](#).

²³⁸ [CPR 44.2\(4\)\(a\)](#), [CPR 44.2\(5\)](#) a [CPR 44.4\(3\)\(a\)\(i\)](#).

²³⁹ [a. 51\(6\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) a [CPR 46.8](#).

²⁴⁰ [R \(Hamid\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2012\] EWHC 3070 \(Admin\)](#).

²⁴¹ [CPR 3.11](#), [CPR 3C PD](#), a [CPR 23.12](#).

²⁴² Enghreifftiau a gymerwyd o Halsbury's Laws of England, Vol.11 Civil Procedure (2015), Part 19, §1044, ac o [R \(Ashraf\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2013\] EWHC 4028 \(Admin\)](#).

13.11.2.2. barhaus, yn cymryd amser a heb bwrpas priodol.

- 13.11.3. Ei bwrpas yw rhoi gwybod i'r unigolyn bod y ffordd y caniateir cyfathrebu ag ACO wedi'i gyfyngu i'r modd a amlinellir yn yr hysbysiad, y bydd pob math arall o gyfathrebu yn cael ei anwybyddu ac y bydd ACO ond yn ymateb i'r cyfathrebiad a ganiateir os yw'n codi mater newydd sy'n gofyn am ymateb gan ACO.
- 13.11.4. Anfonir hysbysiadau o gyfyngu cyfathrebu'n ysgrifenedig i'r cyfeiriad hysbys diwethaf ar gyfer yr unigolyn sy'n destun yr hysbysiad.
- 13.11.5. Gall yr unigolyn sy'n destun yr hysbysiad wneud cais ysgrifenedig ar unrhyw adeg i reolwr ACO ddiddymu'r hysbysiad yn ôl ei ddisgresiwn ef neu hi. Dylai cais o'r fath gynnwys rhesymau dros y cais a bydd yr ymateb yn un ysgrifenedig.
- 13.11.6. Bydd hysbysiad o gyfyngu cyfathrebu'n cael ei wneud gan reolwr ACO fel un o weithwyr GLITEM. Rhaid dilyn polisi cwynion GLITEM os am wneud unrhyw gŵyn yn erbyn hysbysiad o'r fath.
- 13.11.7. Hefyd, o dan ei awdurdodaeth gynhenid i reoli ei achosion ei hun, gall y Llys wneud, dadwneud, neu amrywio hysbysiad o gyfyngu cyfathrebu.
- 13.11.8. Rhaid anfon copi o unrhyw gyfathrebiadau â'r Llys sy'n cynnwys ynddo sylwadau ar fater o sylwedd neu weithdrefn - ac nad yw'n arferol, yn annadleuol neu'n weinyddol yn unig - oni bai bod rheswm cymhellol wedi'i roi dros beidio â gwneud hynny, at bob parti arall a'u cynrychiolwyr.²⁴³

15. Rhestru

15.1. Polisi rhestru

- 14.1.1. Mae Polisi Rhestru'r Llys Gweinyddol i'w weld yn [Atodiad 4](#) i'r Canllaw hwn. Bydd y rhan hon o'r Canllaw'n crynhoi'r weithdrefn yn y polisi, ond dylid cyfeirio at y polisi ei hun am y manylion llawn.
- 14.1.2. Lluniwyd y polisi i gael ei gymhwyso'n hyblyg. Pan fydd yn ei ystyried yn briodol gwneud hynny, gall ACO restru achosion mewn modd nad yw'n unol â'r polisi.
- 14.1.3. Gellir rhestru achos penodol mewn ffordd arbennig oherwydd adolygiad barnwrol.

15.2. Y drefn restru

- 14.2.1. Fel arfer, rhestrir gwrandawiadau caniatâd ar ddyddiad penodol heb ofyn barn y cynrychiolwyr. Fel arfer rhoddir rhybudd o sawl wythnos cyn y gwrandawiad.
- 14.2.2. Fel arfer, rhestrir gwrandawiadau rhyddhad interim yn yr un ffordd â gwrandawiadau caniatâd, ond pan fo angen rhyddhad interim ar frys, gellir rhestru'r gwrandawiad ar fyr rybudd heb fawr ddim o ymgynghori neu heb ymgynghori o gwbl ynghylch pryd mae'r partïon ar gael. Fel arfer, bydd y cais yn cael ei bennu ar y sail na fydd y gwrandawiad yn cymryd dim mwy na 30 munud i'w wrando, oni bai fod y barnwr, y meistr neu gyfreithiwr ACO angen amcan-amser gwahanol. Os yw parti'n credu y bydd angen gwrandawiad hirach ar gyfer y cais, rhaid cadarnhau'r amcan-amser a awgrymir cyn gynted â phosib, yn ysgrifenedig a chan roi rhesymau, a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Llys.
- 14.2.3. Ar gyfer gwrandawiadau sylfaenol, bydd ACO fel arfer yn ceisio trefnu dyddiad addas ar gyfer y gwrandawiad. Mewn achosion sy'n cynnwys cwnsel, bydd hyn fel arfer yn digwydd mewn un o ddwy ffordd:
 - 14.2.3.1. Yn yr ACO yn Llundain, bydd ACO yn ffonio neu'n anfon e-bost at glerc y cwnsleriaid a / neu'r cyfreithwyr i drefnu apwyntiad i gytuno ar ddyddiad. Rhoddir rhybudd o bum diwrnod cyn yr apwyntiad. Yn yr apwyntiad, os nad yw'r partïon yn gallu cytuno ar ddyddiad sydd hefyd yn dderbyniol i'r Llys, bydd ACO yn rhestru'r mater ar y dyddiad cyntaf sy'n gyfleus i'r Llys.
 - 14.2.3.2. Yn ACOs y tu allan i Lundain, bydd ACO naill ai yn anfon e-bost neu'n ffonio cler cod cwnsleriaid neu gyfreithwyr pob ochr i ofyn am y dyddiadau pan fydd y cwnsler ar gael yng nghofnod y Llys (hynny yw, pan fo'r Llys wedi cael ei hysbysu bod cwnsler/cwnsleriaid yn cynrychioli). Oni cheir y dyddiadau dros y ffôn adeg y cyswllt cyntaf, rhoddir gwybod i'r clerc bod rhaid darparu'r dyddiadau cyn pen 48 awr neu, fel arall, bydd ACO yn rhestru'r mater ar gyfer y dyddiad cyntaf sy'n gyfleus i'r Llys. Os bydd pob cwnsler yn cytuno ar ddyddiad, bydd ACO yn gwirio argaeledd y farnwriaeth ac yn rhestru'r achos yn unol â hynny; fel arall, os nad yw'r partïon yn

gallu cytuno ar ddyddiad sydd hefyd yn dderbyniol i'r Llys, bydd ACO yn rhestru'r mater ar y dyddiad cyntaf sy'n gyfleus i'r Llys.

- 14.2.4. Gyda rhai achosion cynllunio, efallai y bydd angen pennu dyddiadau fel bod gwrandawiadau'n cael eu gwrandawr o fewn amserlen briodol.²⁴⁴
- 14.2.5. Oherwydd y cyfyngiadau sydd ar amser barnwyr, ni all ACO ystyried pa bryd mae cyfreithwyr cyfarwyddo ar gael fel mater o drefn.
- 14.2.6. Os oes rhesymau da pam na all ymgyfreithiwr drosto'i hun fod yn bresennol ar ddyddiadau penodol, yna bydd ACO yn cymryd hyn i ystyriaeth wrth restru.
- 14.2.7. Bydd ACO neu'r barnwr sy'n rhoi caniatâd yn dyrannu amcan-amser ar gyfer gwrandawriad sylfaenol. Os yw parti'n credu y bydd angen gwrandawriad hirach ar gyfer y cais, rhaid cadarnhau'r amcan-amser a awgrymir cyn gynted â phosib, yn ysgrifenedig a chan roi rhesymau, a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Llys.
- 14.2.8. Cyn gynted ag y bydd y gwrandawriad wedi cael ei restru, bydd ACO yn anfon rhybudd rhestru at bob parti, gan gadarnhau dyddiad, lleoliad ac amcan-amser ar gyfer y gwrandawriad. Ni fydd amser cychwyn y gwrandawriad wedi'i nodi yn y rhybudd rhestru. Yn gyffredinol, mae gwrandawiadau'r Llys Gweinyddol yn cychwyn am 10.30am ond gellir newid hyn hyd at 2pm ar y diwrnod cyn y gwrandawriad. Dylai'r parti'on gadarnhau beth yw amser cychwyn y gwrandawriad ar y diwrnod cyn y gwrandawriad drwy ffonio ACO neu fynd ar-lein i <https://www.gov.uk/government/collections/royal-courts-of-justice-and-rolls-building-daily-court-lists>.

15.3. Llysoedd Adrannol

- 14.3.1. Mewn Llys Adrannol mae dau farnwr neu fwy'n eistedd gyda'i gilydd.
- 14.3.2. Gellir cynnull Llysoedd Adrannol ar gyfer unrhyw achos yn yr Uchel Lys.²⁴⁵ Yn gyffredinol fe'u cynhelir ar gyfer achosion sy'n codi materion o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol neu achosion troseddol lle nad oes hawl i apelio i'r Llys Apêl²⁴⁶ sydd ddim yn syml neu sy'n debygol o osod cynsail. Gall y barnwr sy'n rhoi'r caniatâd²⁴⁷ roi cyfarwyddyd y bydd y gwrandawriad sylfaenol gerbron Llys Adrannol neu ar unrhyw adeg ar ôl hynny.
- 14.3.3. Os yw hawliad am adolygiad barnwrol yn cael ei ddyrannu i'r Llys Adrannol, efallai y bydd y trefniadau rhestru'n wahanol, yn enwedig os yw'r achos yn un brys. Ni fydd ACO yn gallu cynnig cymaint o ddyddiadau addas ar gyfer gwrandawriad ac ni fydd fel arfer yn ystyried argaeledd cwmsler bob parti wrth restru'r gwrandawriad.

²⁴⁴ [Cyngor Dinas San Steffan v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol \[2020\] EWHC 1472 \(Admin\)](#), [61].

²⁴⁵ [a. 66 Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

²⁴⁶ Gweler [paragraff 25.7](#) yn y Canllaw hwn.

²⁴⁷ [CPR 54.10\(2\)\(b\)](#).

15.4. Gwneud cais i ohirio gwrandawriad a restrwyd

14.4.1. Os yw parti'n dymuno gwneud cais i ohirio gwrandawriad a restrwyd, rhaid gwneud hynny yn un o'r ffyrdd canlynol:

14.4.1.1. Drwy gytuno â'r holl bartïon eraill y dylid gohirio'r gwrandawriad a ffeilio gorchymyn cydsynio drafft i'w gymeradwyo gan y Llys.²⁴⁸ Rhaid i'r holl bartïon lofnodi'r gorchymyn hwn a rhaid cynnwys y ffi berthnasol (er gweler [paragraff 14.4.1.2](#) isod). Gall y parti'ion hefyd gynnwys cyfarwyddiadau pellach a ofynnir amdanynt mewn gorchymyn drafft o'r fath. Ni ddylai'r parti'ion gymryd bod gwrandawriad wedi'i ohirio oni bai bod ACO wedi'u hysbysu bod y gorchymyn cydsynio wedi cael ei gymeradwyo. Dylid rhoi rhesymau dros ohirio'r gwrandawriad.

14.4.1.2. Os yw'r parti'ion yn cytuno ar orchymyn cydsynio i ohirio'r gwrandawriad, sydd ddim yn gofyn am gyfarwyddiadau eraill, a'u bod yn ffeilio'r gorchymyn cydsynio drafft gydag ACO fwy 14 diwrnod cyn y gwrandawriad, nid oes raid talu ffi. Dylid gwneud y cais ar ffurflen AC001. Bydd y darpariaethau eraill sydd wedi'u nodi ym [mharagraff 14.4.1.1](#) a [24.4](#) yn y Canllaw hwn dal yn berthnasol.

14.4.1.3. Os nad yw'r parti'ion yn gallu cytuno ar orchymyn cydsynio, gall parti wneud cais i ohirio'r gwrandawriad (gweler y weithdrefn ceisiadau interim ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn). Rhaid gwneud cais o'r fath ar Ffurflen N244 a chynnwys y ffi berthnasol. Dylai'r rhybudd cyflwyno cais gynnwys y rhesymau dros y cais, unrhyw ymdrechion a wnaed i gytuno i'r cais gyda'r parti'ion eraill ac unrhyw ymatebion gan y parti'ion eraill i'r cais hwnnw. Dylid hefyd cynnwys drafft o'r gorchymyn y gofynnir amdano gyda'r cais.

14.4.2. Barnwr, ac nid ACO, fydd yn gwneud y penderfyniad i ohirio gwrandawriad sydd wedi'i restru. Hyd yn oed os bydd yr holl bartïon yn cytuno, ni roddir caniatâd i ohirio gwrandawriad heb reswm da. Pan fo'r unig reswm yw nad yw cwnsler/cwnsleriaid ar gael, pur anaml y caniateir gohirio gwrandawriad.

²⁴⁸ Gweler [paragraff 24.4](#) yn y Canllaw hwn am wybodaeth ynghylch y broses ar gyfer ffeilio gorchymyn cydsynio yng nghyswllt dod â hawliad i ben – mae'r broses yr un fath.

RHAN C: PWYNTIAU YMARFER PENODOL

16. Dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r Llys

16.1. Y ddyletswydd

- 15.1.1. Yn y mwyafrif o hawliadau sifil, mae'n ofynnol i'r partïon wneud datgeliad safonol yn unol â [CPR Rhan 31](#). Mewn hawliadau am adolygiad barnwrol, nid oes angen gwneud datgeliad oni bai bod y llys yn gorchymyn fel arall.²⁴⁹
- 15.1.2. Fodd bynnag, mewn achosion adolygiad barnwrol mae dyletswydd arbennig sy'n berthnasol i bob parti: "dyletswydd i fod yn ddidwyll". Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r partïon gynorthwyo'r Llys trwy sicrhau bod gwybodaeth sy'n berthnasol i'r materion yn yr hawliad yn cael ei dwyn at sylw'r Llys, p'un a yw'n cefnogi neu'n tanseilio eu hachos.
- 15.1.3. Pan fydd parti yn dibynnu ar ddogfen, bydd yn arfer da datgelu'r ddogfen yn hytrach na'i chrynhai yn unig, oherwydd cynnwys y ddogfen yw'r dystiolaeth orau o'r hyn y mae'n ei ddweud.²⁵⁰ Bydd yr un peth yn wir mewn sefyllfaoedd eraill lle mae union delerau dogfen yn berthnasol i fater yn yr achos. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, gall fod yn anodd yn ymarferol cydymffurfio â'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll heb ddatgelu'r ddogfen.
- 15.1.4. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ddigonol. Efallai y bydd y ddyletswydd i fod yn ddidwyll hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r parti yn ei ddatganiadau achos nodi ac egluro arwyddocâd gwybodaeth a / neu ddogfennau sy'n niweidiol i achos y parti hwnnw.²⁵¹

16.2. Y ddyletswydd fel y mae'n berthnasol i hawlwr a'u cynrychiolwyr

- 15.2.1. Mae gan hawlwr ddyletswydd i ddatgelu i'r Llys yn llawn ffeithiau perthnasol a rhwystrau hysbys sy'n ymwneud â'r hawliad (e.e. rhwymedi amgen, oedi, cyfraith achosion anffafriol, wster statudol, newid mewn amgylchiadau).²⁵² Mae'r ddyletswydd hon yn un barhaus: mae'n berthnasol trwy gydol y broses adolygiad barnwrol.
- 15.2.2. Nid yw'r ffaith bod gan ddiffynnydd hawl i ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno a seiliau cryno yr amddiffyniad yn cyfiawnhau y gall hawlwr gymryd agwedd fwy hamddenol tuag at y ddyletswydd i fod yn ddidwyll.²⁵³

²⁴⁹ [CPR 54A PD paragraff 10.2](#).

²⁵⁰ [Tweed v Parades Commission for Northern Ireland \[2006\] UKHL 53](#), [2007] 1 AC, 650, [4] a [39].

²⁵¹ Gweler e.e. [R \(Hoareau\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2018\] EWHC 1508 \(Admin\)](#), [19]-[20]; [R \(Citizens UK\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 1812](#), [2018] 4 WLR 123, [105]-[106].

²⁵² Gweler Syr Michael Fordham, *Judicial Review Handbook* (7^{fed} argraffiad., 2020), §10.3. Cafodd y rhan hon mewn argraffiad blaenorol ei chymeradwyo gan Sedley LJ yn [R \(Khan\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2008\] EWHC 1367 \(Admin\)](#), [12].

²⁵³ [R \(Khan\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2016\] EWCA Civ 416](#), [35]-[36].

- 15.2.3. Mae'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll yn berthnasol i bob hawliad a chais. Fodd bynnag, mae'n berthnasol gyda grym penodol i geisiadau a wneir mewn amgylchiadau lle na fydd gan y parti neu'r partion eraill gyfle i ymateb (megis ceisiadau brys). Yn y cyd-destun hwn, rhaid i'r hawlydd:²⁵⁴
- 15.2.3.1. datgelu unrhyw ffaith (p'un a yw'n cefnogi neu'n tanseilio'r cais) y mae'n bwysig i'r Llys ei gwybod wrth ddelio â'r cais, gan gynnwys (er enghraifft) unrhyw ffaith sy'n berthnasol i ba mor frys yw'r cais;
 - 15.2.3.2. sicrhau bod y Llys yn ymwybodol o'r materion sy'n debygol o godi a'r anawsterau posibl yn y cais neu'r hawliad sylfaenol; a
 - 15.2.3.3. cyflwyno'r wybodaeth mewn ffordd deg a diduedd, ac mewn ffordd sy'n golygu nad yw wedi'i chynllunio i hyrwyddo ei achos ei hun yn unig.
- 15.2.4. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu â'r Llys yn golygu bod rhaid i hawlwy'r a'u cynrychiolwyr ailasesu hyfywedd a phriodoldeb her, ac adolygu cydymffurfiad parhaus yr hawlydd â'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll, wrth i'r hawliad fynd rhagddo ac yn benodol:
- 15.2.4.1. yng ngoleuni Cydnabyddiad Cyflwyno'r diffynnydd a seiliau cryno yr amddiffyniad;²⁵⁵
 - 15.2.4.2. yng ngoleuni seiliau manwl yr amddiffyniad a'r dystiolaeth;²⁵⁶ ac
 - 15.2.4.3. yng ngoleuni unrhyw newid sylweddol mewn amgylchiadau.²⁵⁷

16.3. Y ddyletswydd fel y mae'n berthnasol i ddiffynnyddion sy'n awdurdodau cyhoeddus a'u cynrychiolwyr

- 15.3.1. Dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r Llys awdurdod cyhoeddus yw "human-blismona". Mae yna rwymedigaeth benodol ar gyfreithwyr a bargyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran awdurdodau cyhoeddus i sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni. Mae'r ddyletswydd yn bodoli oherwydd bod awdurdodau cyhoeddus yn cymryd rhan mewn menter gyffredin gyda'r Llys i sicrhau budd y cyhoedd wrth gynnal rheolaeth y gyfraith. Yn unol â hynny, mae'n ofynnol

²⁵⁴ [R \(DVP\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#), [8]-[9], yn cymerdwyo argraffiad 2020 o'r rhan hon o'r Canllaw.

²⁵⁵ [R \(Ben Hoare Bell Solicitors\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2015\] EWHC 523 \(Admin\)](#), [43].

²⁵⁶ [R \(Bateman\) v Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol \[2001\] EWHC 797 \(Admin\)](#), [21].

²⁵⁷ [R v Llys Ynadon Horseferry Road ex p. Prophet \[1995\] Env LR 104, 112](#); [R \(Ben Hoare Bell Solicitors\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2015\] EWHC 523 \(Admin\)](#), [43].

iddynt gynorthwyo'r Llys drwy roi esboniadau llawn a chywir o'r holl ffeithiau sy'n berthnasol i'r materion y mae'n rhaid i'r Llys benderfynu arnynt.²⁵⁸

- 15.3.2. Cydnabuwyd bod y ddyletswydd i fod yn ddidwyll yn berthnasol yn y cam caniatâd, neu hyd yn oed cyn hynny, yn ogystal ag yn y cam sylfaenol. Fodd bynnag, bydd yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r ddyletswydd yn y cam sylfaenol yn fwy helaeth na'r hyn sy'n ofynnol cyn y rhoddir caniatâd.²⁵⁹
- 15.3.3. Yn y cam caniatâd, dylai'r Seiliau Cryno nodi unrhyw ffeithiau materol, tynnu sylw at unrhyw faterion perthnasol o anghydfod ffeithiol a chynnwys crynodeb byr o'r rhesymeg sy'n sail i'r rhesymau paham y gofynnir am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol (oni bai bod y diffynnydd yn rhoi rhesymau pam y gellir penderfynu ar y cais am ganiatâd heb yr wybodaeth honno).²⁶⁰
- 15.3.4. Ar y cam sylfaenol, mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiffynnydd, yn seiliau manwl yr amddiffyniad neu'r dystiolaeth, nodi unrhyw ffeithiau perthnasol a'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad a wnaed i ganiatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol.²⁶¹ Mae'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll yn un barhaus²⁶² ac mae'n berthnasol ar ôl i'r seiliau manwl a'r dystiolaeth gael eu ffeilio a'u cyflwyno.
- 15.3.5. Mae'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll yn golygu:
- 15.3.5.1. rhaid cynnal y broses o baratoi datganiadau achos a thystiolaeth "gyda'r holl gardiau'n wynebu i fyny ar y bwrdd";²⁶³ rhaid i awdurdodau cyhoeddus beidio â dethol a dewis wrth ddatgelu;²⁶⁴
- 15.3.5.2. rhaid drafftio pledion a thystiolaeth mewn iaith glir a ddiamwys, ni ddylent guddio materion o berthnasedd yn fwriadol neu'n

²⁵⁸ [R \(Hoareau\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2018\] EWHC 1508 \(Admin\)](#), [18]-[20]; [R \(Citizens UK\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 1812](#), [2018] 4 WLR 123, [105]-[106].

²⁵⁹ [R \(Terra Services Ltd\) v Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol \[2019\] EWHC 1933 \(Admin\)](#), [9], [14].

²⁶⁰ [CPR 54A PD, paragraff 6.2\(2\)](#).

²⁶¹ [CPR 54A PD paragraff 10.1](#).

²⁶² [R \(Legard\) v Bwrdeistref Brenhinol Kensington a Chelsea, Llundain \[2018\] EWHC 32 \(Admin\)](#), [174].

²⁶³ [R v Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn ex p. Huddleston \[1986\] 2 All ER 941, 945](#); [R \(Hoareau\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2018\] EWHC 1508 \(Admin\)](#), [16].

²⁶⁴ [Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn v Taylor \[2005\] 1 WLR 2668](#), [60]; [R \(National Association of Health Stores\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd \[2005\] EWCA Civ 154](#), [47]; [R \(Hoareau\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2018\] EWHC 1508 \(Admin\)](#), [21].

anfwriadol ac ni ddylent fod yn amwys nac yn economaidd gyda'r gwir na cheisio gogwyddo'r gwir;²⁶⁵ a

15.3.5.3. rhaid i bledion a thystiolaeth beidio â chamarwain trwy hepgor, er enghraifft trwy beidio â datgelu dogfen neu ffaith berthnasol neu drwy fethu â nodi arwyddocâd dogfen neu ffaith.²⁶⁶

15.3.6. Mae'r ddyletswydd i gydweithredu â'r llys yn golygu bod dyletswydd barhaus ar ddiffynyddion a'u cynrychiolwyr i ystyried a yw eu hamddiffyniad yn parhau i fod yn hyfyw, yn enwedig ar ôl i ganiatâd gael ei roi.²⁶⁷

16.4. Partïon â budd

15.4.1. Mae'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll yn berthnasol i bartïon â budd.²⁶⁸ Mae'r un peth yn wir am y ddyletswydd i gydweithredu â'r llys.

16.5. Golygu

15.5.1. Gellir golygu rhannau o ddogfen sydd rhaid fel arall eu datgelu o dan y ddyletswydd i fod yn ddidwyll os yw'r rhannau hynny:

15.5.1.1. yn gyfrinachol **ac** yn amherthnasol i faterion yr achos; neu

15.5.1.2. yn denu braint broffesiynol gyfreithiol; neu

15.5.1.3. yn destun cyfyngiad statudol os cânt eu datgelu; neu

15.5.1.4. yn destun imiwnedd lles y cyhoedd (Gweler [Pennod 19](#) yn y Canllaw hwn).

15.5.2. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod gwybodaeth mewn dogfen wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan [Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000](#) ynddo'i hun, yn golygu bod yr wybodaeth yn destun cyfyngiad statudol os caiff ei datgelu neu y gellir ei dal yn ôl rhag ei datgelu mewn achos gyfreithiol. Pan fydd dogfen sydd wedi'i golygu neu ei haddasu wedi'i chynnwys mewn tystiolaeth, dylid nodi'n glir bod yr wybodaeth wedi'i golygu, ar rhesymau dros wneud hynny, yn ddelfrydol ar dudalen flaen y ddogfen sydd wedi'i golygu. Ni ddylid byth ffeilio na chyflwyno dogfennau sydd wedi'u golygu heb nodi'n glir eu bod wedi'u golygu.²⁶⁹

15.5.3. Fe drafodir achosion deunydd caeedig ar wahân ym [Mhennod 19.E](#)

²⁶⁵ [Ym Mater Cais gan Brenda Downes am Adolygiad Barnwrol \[2006\] NIQB 77](#), [31]; [R \(Hoareau\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad \[2018\] EWHC 1508 \(Admin\)](#), [22]; [R \(Citizens UK\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 1812](#), [2018] 4 WLR 123, [106(4)].

²⁶⁶ [R \(Citizens UK\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 1812](#), [2018] 4 WLR 123, [106(5)].

²⁶⁷ Gweler yr arsylwadau am y ddyletswydd gyfatebol ar bartïon i apelio yn erbyn achos yn [R \(N\) v Cyngor Bwrdeistref Gogledd Tyneside \[2010\] EWCA Civ 135](#), [2010] ELR 312, [18].

²⁶⁸ [Belize Alliance of Conservation Non-Governmental Organisations v Adran yr Amgylchedd \[2004\] UKPC 6](#), [87]; [R \(Qualter\) v Llys y Goron Preston \[2019\] EWHC 906 \(Admin\)](#), [32].

²⁶⁹ [R \(GA\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 868 \(Admin\)](#), [19].

17. Rhyddhad interim

17.1. Pryd y mae rhyddhad interim yn briodol?

- 16.1.1. Gall parti (yr hawlydd fel arfer) ofyn am rwymedi interim. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:
 - 16.1.1.1. gwaharddeb dros dro sy'n gwahardd y diffynnydd rhag cymryd camau y mae'n bwriadu eu cymryd (e.e. atal Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref rhag anfon hawlydd o'r DU);²⁷⁰ a
 - 16.1.1.2. gwaharddeb dros dro sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd weithredu mewn ffordd benodol (e.e. ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu llety i'r hawlydd).
- 16.1.2. Fel arfer gofynnir am ryddhad interim yn y Ffurflen Hawlio, ond gellir gwneud cais am gymorth ar unrhyw bwynt yn yr achos.
- 16.1.3. Mewn achosion eithriadol, gellir gwneud cais am ryddhad interim cyn cychwyn achos adolygiad barnwrol: gweler [paragraff 16.2](#) isod. Dim ond pan fydd y mater yn un brys y bydd y Llys yn rhoi gorchymyn interim cyn i'r hawliad gychwyn, neu pan fydd o fudd cyfiawnder i wneud hynny.²⁷¹

17.2. Gwneud cais am ryddhad interim cyn cychwyn hawliad

- 16.2.1. Dylid ystyried yn ofalus a yw'n briodol gwneud cais am ryddhad interim cyn cychwyn hawliad. Gan amlaf, mae'n well gwneud cais am ryddhad interim ar yr un pryd â chyflwyno'r papurau'r hawliad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r Llys ddeall y materion ac mae'n debygol o arbed costau.
- 16.2.2. Os oes angen gwneud cais am gymorth interim cyn cychwyn yr hawliad, ac na ellir dod i gyfaddawd tymor byr, dylai'r ceisydd ffeilio rhybudd cyflwyno cais gydag ACO (gan ddefnyddio Ffurflen N244 neu, os oes angen penderfynu'r cais o fewn 7 diwrnod, Ffurflen N463).²⁷² Rhaid cynnwys y ffi berthnasol a

²⁷⁰ Sylwch, lle mae gan UTIAC awdurdodaeth, hwn yw'r fforwm priodol ar gyfer cais o'r fath: gweler [paragraff 6.5](#) yn y Canllaw hwn.

²⁷¹ [CPR 25.2\(2\)\(b\)](#).

²⁷² [CPR 23.3\(1\)](#).

thystiolaeth sy'n dangos pam bod angen y gorchymyn²⁷³ a dylid hefyd amgáu copi o'r gorchymyn drafft.

- 16.2.3. Lle bo modd, dylid anfon copi o'r cais, y dystiolaeth a'r gorchymyn drafft at y diffynnyddion arfaethedig a'r partïon â budd i roi rhybudd iddynt fod y cais yn cael ei wneud.²⁷⁴ Pan fydd cais wedi'i wneud heb roi rhybudd i'r partïon eraill, yna dylai'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r cais egluro pam y gwnaed y cais heb roi rhybudd iddynt.²⁷⁵
- 16.2.4. Gan amlaf, bydd rhaid i'r hawlydd ymrwymo i ffeilio Ffurflen Hawlio a seiliau'r hawliad o fewn cyfnod byr, neu os na fydd yn ymrwymo i wneud hynny, bydd y Llys yn ei gyfarwyddo i wneud hynny.

17.3. Ceisiadau am gymorth interim a wneir ar yr un pryd â ffeilio hawliad

- 16.3.1. Fel arfer, gwneir cais am ryddhad interim ar yr un pryd â ffeilio hawliad. Yn yr amgylchiadau hyn, dylid nodi'r manylion yn Adran 8 yn y Ffurflen Hawlio (Ffurflen N461).
- 16.3.2. Bydd y barnwr yn ystyried y cais am ryddhad interim ar sail y papurau, fel arfer ar yr un pryd â'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol. Os caiff y cais ei ystyried ar yr un pryd, ni fydd angen talu ffi ychwanegol. Gall y barnwr sy'n ystyried y cais am ryddhad interim ochr yn ochr â'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol naill ai wneud gorchymyn ar sail y papurau'n unig neu orchymyn delio â'r cais am ryddhad interim ar ffurf gwrandawriad yn y Llys: gweler [paragraff 14.2.2](#) yn y Canllaw hwn.

17.4. Ceisiadau am ryddhad interim a wneir ar ôl i hawliad gychwyn

- 16.4.1. Os bydd angen gwneud cais am ryddhad interim ar ôl i hawliad gychwyn, dylai'r ceisydd wneud cais am hyn. Os oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais erbyn dyddiad penodol ond nad oes rhaid gwneud y penderfyniad o fewn saith diwrnod, dylai'r parti nodi hynny'n glir yn y Rhybudd Cyflwyno Cais (Ffurflen N244) ac mewn unrhyw lythyr eglurhaol a nodi'r cyfnod ar gyfer gofyn i'r Llys ystyried y cais. Rhaid cyflwyno'r cais i'r holl bartïon eraill. Anaml y bydd y Llys yn ystyried y cais oni bai bod y parti sy'n gwrthwynebu wedi cael cyfle i ymateb yn ysgrifenedig i'r cais. Os oes angen penderfynu'r cais ymhen saith diwrnod, dylid defnyddio Ffurflen N463.

17.5. Y broses ar gyfer penderfynu ceisiadau am ryddhad interim

- 16.5.1. Anaml iawn y bydd y Llys yn caniatáu unrhyw fath o ryddhad interim heb wybod beth yw barn y partïon eraill yn yr hawliad mewn perthynas â'r cais. Bydd y Llys fel arfer yn rhoi cyfle i'r partïon eraill ymateb i'r cais. Gydag achos brys, gall yr amser a ganiateir ar gyfer ymateb fod yn fyr.
- 16.5.2. Os nad oes amser i wrando ar y diffynnydd, yna bydd y Llys yn ystyried rhoi rhyddhad interim heb wrandawriad am gyfnod byr iawn nes bydd y partïon

²⁷³ [CPR 25.3\(2\)](#).

²⁷⁴ [CPR 23.4\(1\)](#).

²⁷⁵ [CPR 25.3\(3\)](#).

eraill wedi gallu gwneud cyflwyniadau (naill ai'n ysgrifenedig neu mewn gwrandawriad).

17.6. Y meini prawf ar gyfer penderfynu ceisiadau am ryddhad interim

- 16.6.1. Wrth ystyried a ddylid rhoi rhyddhad interim tra bo hawliad am adolygiad barnwrol yn yr arfaeth, bydd y barnwr yn ystyried a oes mater go iawn i'w roi ar brawf ac a yw cydbwysedd cyfleustra o blaid caniatáu'r gorchymyn interim.²⁷⁶ Mae hyn yn golygu cydbwysu'r niwed i'r hawlydd a fyddai'n cael ei achosi pe na roddir rhyddhad interim a bod yr hawliad yn llwyddo'n ddiweddarach yn erbyn y niwed i'r diffynnydd, unrhyw drydydd parti a'r budd cyhoeddus a fyddai'n cael ei achosi pe rhoddir rhyddhad interim a'r hawliad yn ddiweddarach yn methu.
- 16.6.2. Bydd cryfder y budd cyhoeddus mewn caniatáu i benderfyniad awdurdod cyhoeddus aros mewn grym yn dibynnu ar yr holl amgylchiadau. Pan geisir rhyddhad interim i atal gorfodi deddfwriaeth sylfaenol, mae budd cyhoeddus cryf mewn caniatáu i'r awdurdod cyhoeddus barhau i orfodi deddf sy'n ymddangos yn ddilys hyd nes y penderfynir ar yr her.²⁷⁷ Pan fydd is-ddeddfwriaeth²⁷⁸ neu bolisi yn cael ei herio,²⁷⁹ gall budd y cyhoedd sy'n pwysu yn erbyn y rhyddhad interim hefyd fod yn gryf, er yn llai na phetai'r targed yn ddeddfwriaeth sylfaenol.
- 16.6.3. Pan fydd hawlydd yn ceisio atal cyhoeddi gwybodaeth gan awdurdod cyhoeddus y mae'n ofynnol iddo neu mae wedi'i rymuso i wneud hynny, rhaid i'r llys ystyried hawliau'r rhai a fyddai fel arall â hawl i gael yr wybodaeth. Diogelir yr hawliau hyn gan [Erthygl 10 ECHR](#) ac [a. 12 Deddf Hawliau Dynol 1998](#). Mae hyn yn golygu mai dim ond am "y rhesymau mwyaf cymhellol" neu mewn "amgylchiadau eithriadol" y rhoddir rhyddhad interim.²⁸⁰
- 16.6.4. Ym mhob achos bydd y broses ar gyfer delio â cheisiadau am ryddhad interim yn cael ei rheoli gan y Llys, a bydd fel y mae'r Llys yn barnu ei bod yn briodol i sicrhau penderfyniad teg ar y materion. Er enghraifft, weithiau, gall y Llys ymateb i gais am ryddhad interim trwy orchymyn bod yr hawliad sylfaenol yn cael ei flaenoriaethu yn lle gwrando'r cais am ryddhad interim ar wahân.

17.7. Herio penderfyniad a wnaed ynghylch cais am ryddhad interim

- 16.7.1. Os penderfynwyd ar gais am orchymyn interim heb wrandawriad (ac na chydsyniodd y partion i'r cais gael ei benderfynu heb wrandawriad), mae gan y

²⁷⁶ [R \(Medical Justice\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2010\] EWHC 1425 \(Admin\)](#), [6]-[13], sy'n berthnasol i *American Cyanamid Company v Ethicon Limited* [1975] AC 396.

²⁷⁷ *R v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ex p. Factortame* [1991] 1 AC 603, 674C-D; [R \(Medical Justice\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2010\] EWHC 1425 \(Admin\)](#), [12]-[13].

²⁷⁸ *R v Trysorlys EM ex p. British Telecommunications plc* [1994] 1 CMLR 621, [41].

²⁷⁹ [R \(Medical Justice\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2010\] EWHC 1425 \(Admin\)](#), [13].

²⁸⁰ [R \(Coleg Barking & Dagenham\) v Y Swyddfa Fyfyrrwyr \[2019\] EWHC 2667 \(Admin\)](#), [30]-[39]; [R \(Corff Llywodraethu Ysgol X\) v Y Swyddfa Safonau mewn Addysg \[2020\] EWCA Civ 594](#), [2020] EMLR 22, [77]-[79].

naill barti neu'r llall hawl i wneud cais i'r gorchymyn a wnaed gan y llys gael ei roi o'r neilltu, ei amrywio neu ei atal.²⁸¹

- 16.7.2. Rhaid gwneud y cais ar ffurf Rhybudd Cyflwyno Cais (Ffurflen N244) a rhaid cyflwyno'r cais cyn pen 7 diwrnod ar ôl cyflwyno'r gorchymyn sy'n cael ei herio (oni bai bod y gorchymyn yn nodi amserlen wahanol).²⁸²
- 16.7.3. Os oes angen gwrando'r cais mewn gwrandawriad o fewn amserlen benodol, rhaid i'r cais nodi hynny'n glir. Dylid gwneud y pwynt hwn hefyd mewn unrhyw lythyr eglurhaol. Rhaid cyflwyno'r cais i bob parti arall.
- 16.7.4. Bydd y cais yn cael ei benderfynu mewn gwrandawriad. Pan fydd angen cynnal gwrandawriad ar frys, ac ni all y mater aros tan oriau eistedd y Llys, yna gall cynrychiolydd cyfreithiol parti wneud y cais i'r barnwr y tu allan i oriau yn unol â [pharagraff 17.8](#) yn y Canllaw hwn. Mewn amgylchiadau o'r fath gofynnir i'r ymarferydd ymrwymo i dalu'r ffi berthnasol ar y diwrnod gwaith nesaf.
- 16.7.5. Os yw'r parti'n wedi cydsynio i benderfyniad gael ei wneud ar ryddhad interim ar sail y papurau, neu os gwnaed gorchymyn yn dilyn gwrandawriad, yna bydd y gorchymyn yn derfynol (yn amodol ar unrhyw apêl). Rhaid i barti sy'n dymuno herio penderfyniad a wnaed heb wrandawriad wneud cais i'w roi o'r neilltu, ei amrywio neu ei atal yn y Llys Gweinyddol cyn y gellir ffeilio apêl. Rhaid cychwyn unrhyw apêl cyn pen 21 diwrnod o'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn sy'n sail yr apêl.²⁸³ Gweler [Pennod 26](#) yn y Canllaw hwn am ragor o wybodaeth am apelio.

17.8. Achosion symud ymaith

- 16.8.1. Mae yna reolau penodol yn berthnasol pan fydd penderfyniad gan Fisâu a Mewnfudo'r DU ("UKVI") i symud person o'r awdurdodaeth yn cael ei herio cyn i'r symud ymaith ddigwydd. Nodir y rhain yn [Adran II CPR 54A PD](#). Yn gyffredinol, mae heriau o'r fath yn dod o fewn awdurdodaeth UTIAC: gweler [paragraff 6.5](#) yn y Canllaw hwn.
- 16.8.2. Rhaid i unigolyn sy'n gwneud cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniad o'r fath:
 - 16.8.2.1. ffeilio Ffurflen Hawlio a chopi ohoni yn y Llys;²⁸⁴ a
 - 16.8.2.2. nodi ar flaen y Ffurflen Hawlio bod [Adran II CPR 54A PD](#) yn berthnasol (gellir gwneud hyn drwy roi tic yn y blwch perthnasol yn Adran 4 yn y Ffurflen Hawlio).²⁸⁵
- 16.8.3. Rhaid i'r ffurflen Hawlio:

²⁸¹ [CPR 3.3\(5\)](#).

²⁸² [CPR 3.3\(6\)](#).

²⁸³ [R \(Nolson\) v Cyngor Bwrdeistref Stevenage \[2020\] EWCA Civ 379](#), [2021] HLR 2, [18].

²⁸⁴ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)](#).

²⁸⁵ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)\(a\)](#).

- 16.8.3.1. gael ei ffeilio gyda chopi o'r cyfarwyddiadau symud ymaith, y penderfyniad y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo ac unrhyw ddogfen a gyflwynwyd gyda'r cyfarwyddiadau symud ymaith (gan gynnwys unrhyw ddogfen sy'n cynnwys crynodeb ffeithiol o'r achos gan Fisâu a Mewnfudo'r DU ("UKVI"));²⁸⁶
- 16.8.3.2. gynnwys neu gael ei ffeilio gyda datganiad manwl a chlir o seiliau'r hawlydd dros ddwyn hawliad am adolygiad barnwrol;²⁸⁷
- 16.8.3.3. gynnwys cyfeirnod Swyddfa Gartref yr hawlydd.²⁸⁸
- 16.8.4. Os na all yr hawlydd gydymffurfio ag unrhyw un o'r gofynion ym mharagraff [16.8.3](#), rhaid i'r Ffurflen Hawlio gynnwys datganiad o'r rhesymau pam neu rhaid atodi'r rhesymau fel dogfen ar wahân.²⁸⁹
- 16.8.5. Yn syth ar ôl eu paratoi, rhaid anfon copïau o'r Ffurflen Hawlio a'r dogfennau cysylltiedig i'r cyfeiriad a nodwyd gan UKVI.²⁹⁰ Rhaid eu cyflwyno i'r diffynnydd hefyd cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad cychwyn.²⁹¹
- 16.8.6. Mae'r Llys wedi nodi rhai egwyddorion penodol i'w dilyn wrth wneud ceisiadau o'r fath.²⁹² Yn benodol:
 - 16.8.6.1. dylid cymryd camau i herio penderfyniad symud ymaith cyn gynted â phosibl, a dylid gwneud hyn yn brydlon ar ôl cael y rhybudd i symud ymaith; a
 - 16.8.6.2. dylid gwneud ceisiadau i'r llys am ryddhad interim cyn gynted â phosibl i roi cymaint o rybudd ag sy'n ymarferol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

²⁸⁶ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)\(b\)](#).

²⁸⁷ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)\(c\)](#).

²⁸⁸ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)\(d\)](#).

²⁸⁹ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(1\)](#).

²⁹⁰ [CPR 54A PD paragraff 17.2\(2\)](#).

²⁹¹ [CPR 54.7](#).

²⁹² [R \(Madan\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \(Nodyn Ymarfer\) \[2007\] EWCA Civ 770](#), [2007] 1 WLR 2891, ardystiwyd yn [R \(SB \(Affganistan\)\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 215](#), [2018] 1 WLR 4457, [55]-[56].

18. Achosion brys

18.1. Cyffredinol

- 17.1.1. Mae gan y Llys brosesau mewn lle i ddelio ag achosion y mae'n rhaid eu hystyried ar frys. Mae hon yn rhan bwysig o waith y Llys i sicrhau budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae rhai ymgyfreithwyr ac ymarferwyr wedi camddefnyddio neu gam-drin y prosesau hyn. Gall hyn olygu bod hawlwyd ag achosion gwirioneddol frys yn aros yn hwy nag y dylent. Mae'r Llys Adrannol wedi mynd i'r afael â'r mater hwn ac wedi rhyddhau cyfarwyddyd ar geisiadau i'w hystyried ar frys.²⁹³ Mae'r adran hon o'r Canllaw hwn yn adlewyrchu'r cyfarwyddyd hwnnw.

18.2. Asesu a yw achos yn un brys ac, os felly, pa mor frys

- 17.2.1. Yn aml iawn bydd yn bosib adnabod rheswm pam byddai budd yr hawlydd yn cael ei wasanaethu yn well pe bai cais am ryddhad interim neu ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol yn cael eu penderfynu yn gyflym. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ddigon i gyfiawnhau defnyddio prosesau'r llys ar gyfer achosion brys. Dylid defnyddio'r prosesau hynny **dim ond** ar gyfer achosion brys lle mae yna **wir angen** i'r cais gael ei ystyried ar frys.
- 17.2.2. Gall angen o'r fath godi:
- 17.2.2.1. pan fo'r hawlydd yn ceisio gorchymyn interim i atal diffynnydd rhag gwneud rhywbeth â chanlyniadau anadferadwy y mae'n bwriadu ei wneud ar unwaith neu ei gwneud yn ofynnol i'r diffynnydd wneud rhywbeth ar unwaith neu o fewn cyfnod byr iawn (gweler [Pennod 16](#) yn y Canllaw hwn); neu
- 17.2.2.2. ni cheisir rhyddhad interim, ond mae rhesymau cymhellol dros wneud cais am grynhoi'r amser ar gyfer cyflwyno'r Cydnabyddiad Cyflwyno neu gyfarwyddiadau gweithdrefnol eraill ac, os yw'r cyfarwyddiadau i fod yn effeithiol, mae'n angenrheidiol i'r cais gael ei ystyried ar frys.

²⁹³ [R \(DVP ac Eraill\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#).

- 17.2.3. Dylai ymgyfreithwyr a'u cynrychiolwyr ystyried yn ofalus y cyfnod y mae angen ystyried eu cais. Nid yw'n dderbyniol gofyn i gais gael ei ystyried mewn cyfnod sy'n fyrrach na'r hyn sy'n wirioneddol ofynnol: gweler [paragraff 16.1.1](#) yn y Canllaw hwn.
- 17.2.4. Mewn achosion lle mae gwir angen i'r cais gael ei ystyried ar frys o fewn 7 diwrnod iddo gael ei ffeilio, dylid defnyddio Ffurflen N463 (Adolygiad Barnwrol: Cais am Ystyriaeth Frys).
- 17.2.5. Mewn achosion lle mae angen ystyried y cais yn gyflym, ond heb fod mewn llai na 7 diwrnod ar ôl ei ffeilio, dylid defnyddio Ffurflen N244 a chynnwys llythyr eglurhaol yn egluro'r amserlen ar gyfer ystyried y cais trwy gyfeirio at Bolisi Rhestru'r Llys Gweinyddol yn [Atodiad 4](#).

18.3. Y cais am ystyriaeth frys

- 17.3.1. Rhaid i unrhyw gais am ystyriaeth frys a wneir gan ddefnyddio Ffurflen N463 nodi'n glir:²⁹⁴
- 17.3.1.1. yr amgylchiadau ar gyfer yr angen am ystyriaeth frys. Os cafodd y cynrychiolydd ei gyfarwyddo yn hwyr, neu os yw'r ffurflen yn cael ei ffeilio ychydig cyn diwedd y diwrnod gwaith yn unig, mae angen egluro pam;
 - 17.3.1.2. yr amserlen a geisir ar gyfer ystyried y cais;
 - 17.3.1.3. y dyddiad erbyn pryd y dylid cynnal unrhyw wrandawriad sylfaenol;
 - 17.3.1.4. bod y diffynnydd ac unrhyw bartïon â budd wedi cael rhybudd o'r cais am ystyriaeth frys (neu os ddim, pam, a'r ymdrechion a wnaed i roi rhybudd iddynt).
- 17.3.2. Rhaid nodi'r wybodaeth hon ar flaen y ffurflen. Nid yw'n ddigonol croesgyfeirio at ddogfennau eraill.²⁹⁵ Rhaid llenwi pob blwch. Rhaid cynnwys yr holl ffeithiau perthnasol. Rhaid nodi manylion buddiolwr (neu fuddiolwyr) y rhyddhad a fwriadwyd a thelerau unrhyw waharddeb arfaethedig yn glir.²⁹⁶
- 17.3.3. Rhaid i bob parti mewn achos adolygiad barnwrol gydymffurfio â'u dyletswydd i fod yn ddidwyll a chydweithredu â'r llys. Mae'r ddyletswydd yn berthnasol gyda grym penodol i geiswyr am ystyriaeth frys, oherwydd bydd eu ceisiadau yn debygol o gael eu gwneud heb roi llawer o rybudd i'r diffynnydd ac efallai y bydd rhaid eu penderfynu heb roi cyfle i'r atebdydd ymateb: gweler [paragraff 15.2.3](#) yn y Canllaw hwn.
- 17.3.4. Rhaid i eiriolwr yr Hawlydd lofnodi Ffurflen N463 a rhaid iddi gael ei chefnogi gan Ddatganiad Gwirionedd. Os yw amser mor brin fel ei bod yn amhosibl cael cyfarwyddiadau llawn, rhaid i'r cynrychiolwyr cyfreithiol dynnu sylw'r Llys

²⁹⁴ [CPR 54B PD paragraff 1.2](#).

²⁹⁵ [R \(DVP ac Eraill\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#), [15]-[17], [59]-[64].

²⁹⁶ [R \(KMI\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 477 \(Admin\)](#), [39].

at unrhyw gyfyngiadau yn y dystiolaeth er mwyn caniatáu asesiad cywir o'i werth profiannol.

18.4. Y dogfennau sydd raid eu cynnwys gyda'r cais

- 17.4.1. Ym mron pob achos, dylid ffeilio Ffurflen N463 gyda'r Ffurflen Hawlio a holl bapurau'r hawliad (gan gynnwys dogfennaeth ategol).²⁹⁷ Os gwneir cais brys ar ôl i achos gychwyn a bod Ffurflen N461 eisoes wedi'i chyflwyno ar y partïon eraill, nid oes angen cyflwyno Ffurflen N461 gyda Ffurflen N463.
- 17.4.2. Fodd bynnag, gyda rhai achosion sy'n eithriadol o frys, gellir ei ffeilio gyda Rhybudd Cyflwyno Cais (Ffurflen N244) cyn cyflwyno'r Ffurflen Hawlio: gweler [paragraff 16.2](#) yn y Canllaw hwn.
- 17.4.3. Rhaid i'r cais am ystyriaeth frys gynnwys bwndel sy'n cynnwys mynegai a thudalennau wedi'u rhifo ("bwndel y cais") sy'n cynnwys:
 - 17.4.3.1. os yw'r cais yn cael ei ffeilio gyda'r Ffurflen Hawlio, y Ffurflen Hawlio a holl bapurau'r hawliad;
 - 17.4.3.2. os yw'r cais yn cael ei ffeilio cyn cychwyn yr hawliad, y Rhybudd Cyflwyno Cais ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig;
 - 17.4.3.3. gyda phob achos, y cyfathrebiadau cyn gweithredu ynghylch yr hawliad a phob cyfathrebiad â'r diffynnydd ynghylch y cais am ystyriaeth frys;²⁹⁸ a
 - 17.4.3.4. drafft o'r gorchymyn a geisir.

18.5. Sut i ffeilio'r cais a bwndel y cais

- 17.5.1. Yn Llundain, gellir gwneud ceisiadau am ystyriaeth frys yn y Llys Gweinyddol ar unrhyw ddiwrnod gwaith rhwng 10am a 4.30pm. Yn ystod yr amseroedd hyn:
 - 17.5.1.1. mae Barnwr Uchel Lys sydd wedi'i awdurdodi i eistedd yn y Llys Gweinyddol ("y barnwr materion brys") ar gael i ddelio â cheisiadau ar bapur;
 - 17.5.1.2. yn unol â hynny, yn gyffredinol ni ddylid gwneud ceisiadau am orchmynion interim i farnwr ceisiadau interim Adran Mainc y Frenhines (sy'n eistedd yn Llys 37), nac i unrhyw ran arall o'r Uchel Lys.
- 17.5.2. Os dygir mater gerbron Llys 37 (neu unrhyw lys amhriodol) rhwng 10am a 4.30pm ar ddiwrnod gwaith, caiff y barnwr wrthod delio â'r cais a chyfarwyddo bod y cais neu'r achos yn cael ei ffeilio yn ACO.

²⁹⁷ Datganiad Ymarfer (Y Llys Gweinyddol: Rhestru ac Achosion Brys) [2002] 1 WLR 810.

²⁹⁸ [CPR 54B PD paragraff 1.3](#).

- 17.5.3. Tu allan i 10am a 4.30pm ar ddiwrnodau gwaith, ac ar ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith, dylid cyfeirio ceisiadau am orchmynion interim at farnwr y tu allan i oriau Adran Mainc y Frenhines:²⁹⁹ gweler [paragraff 17.8](#) yn y Canllaw hwn.
- 17.5.4. Gellir ffeilio ceisiadau brys gyda'r Llys yn Llundain trwy anfon e-bost i immediates@administrativecourtoffice.justice.gov.uk. Mae cyfyngiad maint o 20 MB ar unrhyw neges e-bost. Gellir eu ffeilio hefyd trwy eu hanfon i Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Strand, Llundain WC2A 2LL.³⁰⁰
- 17.5.5. Pan fydd angen gwneud cais brys i'r Llys Gweinyddol y tu allan i Lundain, rhaid gwneud y cais i'r Swyddfa berthnasol a defnyddio'r cyfeiriad e-bost perthnasol: gweler [CPR 54C PD](#) ac [Atodiad 1](#).³⁰¹

18.6. Cyflwyno'r cais

- 17.6.1. Rhaid cyflwyno'r cais am ystyriaeth frys, ynghyd â bwndel y cais, i'r diffynnydd a'r partïon â budd, gan ddweud wrthynt bod y cais wedi'i wneud a'u hysbysu am eu hawl i wneud sylwadau. Rhaid gwneud hyn naill ai (a) cyn i'r cais gael ei ffeilio gyda'r Llys, neu os nad yw hynny'n bosibl (b) pan fydd y cais yn cael ei ffeilio gyda'r Llys.³⁰²

18.7. Y Llys yn ystyried y cais

- 17.7.1. Ar ôl i'r cais gael ei ffeilio, bydd yn cael ei gyfeirio at y barnwr materion brys neu farnwr arall. Bydd y Llys yn ystyried y cais o fewn yr amser y nodwyd yn y cais pryd bynnag y bo modd.³⁰³
- 17.7.2. Os yn bosibl, bydd y Llys yn rhoi cyfle i'r diffynnydd ac unrhyw barti â budd gyflwyno sylwadau cyn y bydd yn gwneud unrhyw orchymyn. Efallai y bydd angen pennu dyddiad cau tynn iawn ar gyfer gwneud sylwadau. Pan na fydd yn bosibl i ddiffynnydd ymateb erbyn y dyddiad cau, mae'r Llys yn debygol o barhau ac ystyried y cais heb sylwadau gan y diffynnydd.
- 17.7.3. Bydd y Llys fel arfer yn delio â'r cais ar sail y papurau. Gall wneud cyfarwyddiadau gweithdrefnol yn unig (e.e. gorchymyn yn cwtogi'r amser sydd gan y diffynnydd i ffeilio Cydnabyddiad Cyflwyno), ond dylai diffynnyddion fod yn ymwybodol y gall y gorchymyn fel arall (neu yn ychwanegol) gynnwys gwaharddeb gwahardd neu waharddeb gorfodi.
- 17.7.4. Yn gyffredinol nid yw gwaharddebau gwahardd neu waharddebau gorfodi a roddir ar sail y papurau yn erbyn awdurdod cyhoeddus yn cynnwys rhybudd o gosb. Fodd bynnag, nid yw hynny'n tynnu oddi ar eu heffaith rwyinol. Gall torri

²⁹⁹ [CPR 54B PD paragraff 1.1.](#)

³⁰⁰ [CPR 54B PD paragraff 1.4.](#)

³⁰¹ [CPR 54B PD paragraff 1.5.](#)

³⁰² [CPR 54B PD paragraff 1.7.](#)

³⁰³ [CPR 54B PD paragraff 1.8.](#)

gwaharddeb o'r fath arwain at achos dirmyg llys.³⁰⁴ Dylai awdurdodau cyhoeddus sicrhau bod ganddynt drefniadau priodol mewn lle i nodi'n brydlon a gweithredu ar orchmynion gwaharddebau a wneir ar bapur gan y Llys Gweinyddol.

- 17.7.5. Mewn rhai achosion, gall y Llys benderfynu y dylid gwrandao ar y cais ar lafar o fewn amser penodol. Os felly, bydd ACO yn cysylltu â'r partïon i bennu dyddiad ar gyfer y gwrandawriad. Efallai na fydd yn bosibl pennu dyddiad sy'n addas i bob cwnsler.
- 17.7.6. Gall y barnwr sy'n delio â'r cais ddod i'r casgliad nad oedd y cais yn un brys a'i fod yn addas i'w benderfynu yn unol â gweithdrefnau arferol y Llys. Os felly, bydd y barnwr yn gwrthod delio â'r mater ar frys, a gall:
 - 17.7.6.1. wneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y ceisydd neu ei gynrychiolwyr cyfreithiol (gweler [paragraff 25.1](#) am ragor o wybodaeth am gostau); a/neu
 - 17.7.6.2. cyfeirio'r papurau at y barnwr Hamid i ystyried a ddylid cyfeirio unrhyw gynrychiolydd cyfreithiol at y rheolydd proffesiynol perthnasol: gweler [Pennod 18](#) yn y Canllaw hwn.
- 17.7.7. Os gwrthodir cais brys ar sail y papurau, gall y ceisydd ofyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar (gweler [paragraff 16.7](#) yn y Canllaw hwn am y manylion). Rhaid gwneud y cais hwn drwy ei ffeilio gydag ACO, nid trwy wneud cais i farnwr ceisiadau interim Adran Mainc y Frenhines, neu unrhyw Lys arall.

18.8. Ceisiadau y tu allan i oriau

- 17.8.1. Nid yw'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain.
- 17.8.2. Rhaid i gynrychiolwyr cyfreithiol ystyried yn ofalus a oes angen gwneud cais y tu allan i oriau. Dylent wneud cais o'r fath dim ond os na all y mater aros tan y diwrnod gwaith nesaf.
- 17.8.3. Os oes angen gwneud cais y tu allan i oriau, dylid gwneud y cais i farnwr y tu allan i oriau Adran Mainc y Frenhines. Dylai'r bargyfreithiwr neu'r cyfreithiwr sy'n cynrychioli ffonio 020 7947 6000³⁰⁵ a siarad â chlerc y tu allan i oriau Adran Mainc y Frenhines.
- 17.8.4. Bydd y clerc y tu allan i oriau sydd ar ddyletswydd yn gofyn i'r ymarferydd lenwi'r ffurflen y tu allan i oriau sydd ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Llywodraeth <https://www.gov.uk/government/publications/form-qbd-oha-out-of-hours-application-queens-bench-division> a'i hanfon ar e-bost i DutyClerkQB@justice.gov.uk. (Peidiwch ag anfon negeseuon e-bost i'r

³⁰⁴ R (JM) v Cyngor Bwrdeistref Croydon, Llundain (Nodyn Ymarfer) [2009] EWHC 2474 (Admin); [R \(Mohammad\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 240 \(Admin\)](#), [23] a [26]; [R \(KMI\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 477 \(Admin\)](#), [39].

³⁰⁵ Fel sy'n ofynnol yn ôl [CPR 54B PD paragraff 1.1](#) a [CPR 25A PD paragraff 4.5](#).

cyfeiriad hwn oni bai bod y clerc y tu allan i oriau wedi dweud wrthyh am wneud hynny.)

- 17.8.5. Gall y barnwr ddelio â'r cais ar sail y papurau. Fel arall, gellir gwneud trefniadau i wrando'r cais dros y ffôn neu o bell. Efallai y bydd y barnwr yn ffonio unrhyw barti arall yn y cais os byddai gwneud hynny'n briodol. (Gwneir hyn yn aml mewn achosion mewnfudo ar gyfer ceisiadau atal anfon ymaith.)
- 17.8.6. Mae gan y ddyletswydd i fod yn ddidwyll arwyddocâd ychwanegol pan ofynnir i farnwr wneud gorchymyn mewn cyfnod byr o amser a heb unrhyw gyfle (neu unrhyw gyfle sylweddol) i'r diffynnydd wneud sylwadau: gweler [paragraff 15.2.3](#) yn y Canllaw hwn.

19. Cymryd camau gweithredu yn erbyn cynrychiolwyr proffesiynol am gamddefnyddio prosesau'r Llys

19.1. Awdurdodaeth *Hamid*: cyffredinol

- 18.1.1. Mae pwerau'r Llys i atal unigolion rhag camddefnyddio ei brosesau wedi'u nodi ym [mharagraff 13.10](#) yn y Canllaw hwn.
- 18.1.2. Mae awdurdodaeth *Hamid* yn rhan o awdurdodaeth y Llys i reoleiddio ei brosesau ei hun ac i orfodi dyletswyddau gweithwyr proffesiynol cyfreithiol. Er bod yr achos lle adnabuwyd yr awdurdodaeth am y tro cyntaf³⁰⁶ yn achos mewnfudo, nid yw wedi'i chyfyngu i achosion mewnfudo na hyd yn oed i achosion cyfraith gyhoeddus.³⁰⁷
- 18.1.3. Pan fydd y Llys yn adnabod achos posibl o gamddefnyddio ei bwerau mewn achos lle mae cynrychiolwyr cyfreithiol yn gysylltiedig, gall gyfeirio'r mater at farnwr dynodedig ("barnwr *Hamid*"), Mrs Ustus Tipples ar hyn o bryd.
- 18.1.4. Efallai y bydd y barnwr *Hamid* yn anfon llythyr at y cynrychiolydd/cynrychiolwyr cyfreithiol yn eu gwahodd i gyflwyno rhesymau pam na ddylid eu cyfeirio at y rheolydd proffesiynol perthnasol (llythyr "rhoi rhesymau").
- 18.1.5. Ar ôl ystyried ymateb y cynrychiolydd cyfreithiol, gall y Llys godi gwês i'r cynrychiolydd/cynrychiolwyr egluro eu gweithredoedd mewn gwrandawriad mewn llys agored.
- 18.1.6. Os daw'r Llys i'r casgliad bod ei brosesau wedi'u camddefnyddio, gall benderfynu cyfeirio'r cynrychiolydd / cynrychiolwyr cyfreithiol dan sylw at y rheolydd(ion) proffesiynol perthnasol i ystyried achos disgyblu. Gall hefyd, neu

³⁰⁶ [R \(Hamid\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2012\] EWHC 3070 \(Admin\)](#).

³⁰⁷ [R \(DVP\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\)](#), [2].

yn lle hynny, ystyried gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn y cynrychiolydd / cynrychiolwyr cyfreithiol.

- 18.1.7. Gellir cyhoeddi unrhyw orchmynion a wneir yn gyhoeddus. Bydd unrhyw gyhoeddiad o'r fath yn cynnwys yr esboniad a gafwyd gan y cynrychiolydd cyfreithiol.

19.2. Awdurdodaeth *Hamid*: camddefnyddio'r broses ystyriaeth frys

- 18.2.1. Mae achosion o gamddefnyddio'r broses ystyriaeth frys wedi achosi i'r Llys ddefnyddio awdurdodaeth *Hamid* ar sawl achlysur. Dylai ymarferwyr sicrhau eu bod yn darllen yn ofalus ac yn cydymffurfio'n llwyr â'u cyfrifoldebau i'r Llys wrth ddefnyddio'r broses ystyriaeth frys (gweler [Pennod 16](#) ac [17](#) yn y Canllaw hwn).
- 18.2.2. Dyma rai enghreifftiau o ymddygiad lle'r roedd rhaid defnyddio proses *Hamid*:
- 18.2.2.1. Roedd cyfreithiwr yr hawlydd wedi oedi ac aros tan y funud olaf i wneud y cais brys a heb ddatgelu ffeithiau llawn yr achos mewn ymgais i ddefnyddio'r broses frys i atal symud ei gleient ymaith o'r DU.³⁰⁸
- 18.2.2.2. Roedd cyfreithiwr yr hawlydd wedi gofyn am ryddhad interim brys yn erbyn penderfyniad a wnaed 3 blynedd ynghynt.³⁰⁹
- 18.2.2.3. Roedd ymarferydd wedi cyflwyno dadleuon bod ei gleient yn bygwth lladd ei hun ac yn seicotig pan oedd yn gwybod, neu y dylai wybod eu bod yn ffug a / neu'n anghyson â'u tystiolaeth feddygol eu hunain.³¹⁰
- 18.2.2.4. Roedd ymarferydd wedi cyflwyno cais gyda seiliau a oedd yn aneglur a byr gan fethu â gosod allan hanes troseddol yr hawlydd.³¹¹
- 18.2.2.5. Mi wnaeth tîm cyfreithiol yr hawlwr gais am ryddhad interim i atal defnyddio llety penodol i gartrefu ceiswyr lloches mewn amgylchiadau lle'r oedd y diffynnydd eisoes wedi symud yr hawlwr unigol i lety arall; ac ni wnaeth Ffurflen N463 hyn yn glir.³¹²
- 18.2.2.6. Defnyddiwyd ffurflen N463 i ofyn am gyfarwyddiadau rheoli achos i gael ymateb ac ar gyfer ystyriaeth gyflym o ganiatâd ar sail y

³⁰⁸ [R \(Hamid\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2012\] EWHC 3070 \(Admin\).](#)

³⁰⁹ [R \(Butt\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2014\] EWHC 264 \(Admin\).](#)

³¹⁰ [R \(Okondu\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \(costau a wastraffwyd; atgyfeiriadau SRA; Hamid\) IJR \[2014\] UKUT 377 \(IAC\).](#)

³¹¹ [R \(Okondu\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \(costau a wastraffwyd; atgyfeiriadau SRA; Hamid\) IJR \[2014\] UKUT 377 \(IAC\).](#)

³¹² [R \(DVP ac Eraill\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2021\] EWHC 606 \(Admin\).](#)

papurau; a gwahoddwyd y Llys i wneud y cyfarwyddiadau hyn cyn pen 48 awr.³¹³

- 18.2.3. Dylai ymarferwyr hefyd gadw mewn cof y cyfarwyddyd ym [mharagraff 16.8.6](#) yn y Canllaw hwn. Gellir defnyddio awdurdodaeth *Hamid* mewn achosion lle na chydymffurfir â'r cyfarwyddyd hwnnw.³¹⁴

19.3. Camau gweithredu rheolyddion proffesiynol

- 18.3.1. Gall gwneud ceisiadau twyllodrus mewn hawliadau am adolygiad barnwrol arwain at sancsiynau disgyblu difrifol, gan gynnwys cael eich diarddel.³¹⁵

³¹³ Ym mater ymarferiad y Llys yng nghyswllt awdurdodaeth Hamid [2021] EWHC 1895 (Admin).

³¹⁴ Gweler hefyd [R \(SB \(Afganistan\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 215](#) yn [54]-[56].

³¹⁵ Gweler e.e. [Vay Sui IP v Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr \[2018\] EWHC 957 \(Admin\)](#), ble mae Llys Adrannol wedi cadarnhau'r sancsiwn i ddiarddel cyfreithiwr am wneud nifer o geisiadau difrifol am waharddebau neu i atal gweithredu i osgoi dileu hawlwy.

19. Deunydd CAEEDIG

19.1. Rhagymadrodd

- 19.1.1. Deunydd CAEEDIG yw deunydd sy'n berthnasol i fater gerbron y Llys y mae un parti yn honni bod ganddo'r hawl i'w gelu oddi wrth barti neu bartion eraill oherwydd y byddai ei ddatgelu yn groes i fudd y cyhoedd.
- 19.1.2. Nid yw'r ffaith fod deunydd yn gyfrinachol, ar ei ben ei hun, yn darparu sail i beidio â'i ddatgelu. Fodd bynnag, gellir golygu rhannau o ddogfen y dylid fel arall ei datgelu os ydynt yn gyfrinachol **ac** yn amherthnasol i unrhyw fater (gweler [paragraff 15.5](#) yn y Canllaw hwn).
- 19.1.3. Mae tair sefyllfa lle gallai'r Llys Gweinyddol orfod ystyried deunydd CAEEDIG:
- 19.1.3.1. Gellir dal deunydd yn ôl rhag ei ddatgelu os yw'n destun imiwnedd budd y cyhoedd (PII). Mater i'r Llys yw penderfynu a ddylid caniatáu cais am PII. Os felly, mae'r deunydd a gwmpesir gan yr hawliad yn annerbyniadwy yn gyffredinol (yn amodol ar baragraff [19.1.3.3](#) isod). Mae [paragraff 19.2](#) yn y Canllaw hwn yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud hawliad PII yn y Llys Gweinyddol.
- 19.1.3.2. O dan [Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013](#) (JSA), mae gan y Llys rym i gynnal gweithdrefn ddeunydd gaeedig (CMP) lle bydd wedi gwneud datganiad o dan adran 6 y gellir gwneud cais deunydd caeedig. Dim ond os oes deunydd perthnasol y byddai ei ddatgelu'n niweidiol i fuddiannau diogelwch cenedlaethol y gellir gwneud hyn. Mae'r rheolau ar gyfer achosion o dan y [JSA](#) yn [CPR Rhan 82](#). Mae [paragraff 19.3](#) isod yn crynhoi'r gyfraith a'r weithdrefn yn y Llys Gweinyddol.
- 19.1.3.3. Yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys yn [Haralambous v Llys y Goron St Albans \[2018\] UKSC 1](#), [2018] AC 236, lle mae hawliad adolygiad barnwrol yn herio codi gwarant chwilio a roddwyd ex parte ar sail deunydd CAEEDIG, gall yr Uchel Lys ystyried y deunydd CAEEDIG a'i ystyried wrth benderfynu ar yr hawliad. Mae [paragraff 19.4](#) isod yn nodi'r weithdrefn ar gyfer hawliadau yn y Llys Gweinyddol sy'n herio gwarantau chwilio o dan awdurdodaeth *Haralambous*.

19.2. Imiwnedd er budd y cyhoedd

- 19.2.1. Os yw'r cais am PII yn cael ei wneud gan un o Adrannau'r Llywodraeth, dylai gynnwys tystysgrif a wnaed yn bersonol gan Weinidog neu uwch swyddog.³¹⁶

³¹⁶ Yn [R \(Charles\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad \[2020\] EWHC 3010 \(Admin\)](#), gwrthododd y Llys Adrannol y sylwadau bod tystysgrif PII a wnaed gan Is-ysgrifennydd Parhaol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (y gwas sifil mwyaf blaenllaw yn yr adran honno) yn cario llai o bwysau nag un a roddwyd gan Weinidog. Fodd bynnag, yn yr achos hwnnw, rhoddwyd y dystysgrif gan uwch swyddog (yn hytrach na Gweinidog) oherwydd bod y dogfennau yr oedd yn ymwneud â hwy wedi eu cynhyrchu o dan weinyddiaeth flaenorol: [18(1)-(2)].

Pan fo'r heddlu yn gwneud yr hawliad, dylai'r dystysgrif gael ei rhoi gan y prif gwnstabl neu uwch swyddog arall.

19.2.2. Mae'r dull priodol o ymdrin â PII yn cynnwys prawf tri cham:³¹⁷

19.2.2.1. Rhaid i'r un sy'n rhoi dystysgrif PII (neu ei gyfreithwyr) benderfynu a yw'r deunydd dogfennol dan sylw yn berthnasol i'r achos dan sylw h.y., y dylai'r deunydd, yn absenoldeb ystyriaethau PII, gael ei ddatgelu yn y ffordd arferol.

19.2.2.2. Rhaid i'r un sy'n rhoi'r dystysgrif ystyried a oes perygl gwirioneddol y byddai'n niweidio budd y cyhoedd pe bai'r deunydd yn ymddangos yn y parth cyhoeddus.

19.2.2.3. Rhaid i'r un sy'n rhoi'r dystysgrif gloriannu'r budd i'r cyhoedd o ddatgelu neu beidio â datgelu (h.y. ystyried a fyddai'r niwed i fudd y cyhoedd o ganlyniad i ddatgelu yn drech na'r niwed i fudd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder o beidio â datgelu). Os try'r fantol yn erbyn datgelu, yna rhaid i'r dystysgrif PII ddatgan, ym marn yr awdur, fod dal y deunydd yn ôl heb ei ddatgelu er budd y cyhoedd.

19.2.3. Wrth ateb yr ail gwestiwn, dylai'r un sy'n rhoi'r dystysgrif ystyried a ellir atal unrhyw niwed i fudd y cyhoedd drwy ddatgelu rhan o ddogfen neu grynodedd ohoni neu ei datgelu ar sail gyfyngedig.³¹⁸ Dim ond mewn perthynas â'r rhannau hynny o'r deunydd y mae angen ei ddal yn ôl er budd y cyhoedd y dylid gwneud cais am PII.³¹⁹

19.2.4. Pan dry'r fantol yn erbyn datgelu, mae hawlio imiwnedd er budd y cyhoedd yn ddyletswydd, yn hytrach na mater o arfer disgresiwn gweinyddol.³²⁰

19.2.5. Dylid ystyried cais am PII cyn gynted ag y daw'n amlwg bod gan barti ddeunydd yn ei feddiant sydd neu fydd gyfryw i'w ddatgelu, ond y byddai ei ddatgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd.

19.2.6. Gall yr hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r ddyletswydd i fod yn ddidwyll ar y cam sylfaenol fod yn helaethach na'r hyn sy'n ofynnol cyn rhoi caniatâd (gweler [paragraff 15.3.2](#) yn y Canllaw hwn). Felly:

19.2.6.1. Mewn rhai amgylchiadau, gall diffynnydd ddod i'r casgliad cywir (hyd yn oed a gadael unrhyw niwed i fudd y cyhoedd, y byddai ei ddatgelu yn ei achosi, o'r neilltu) na fyddai gofyn datgelu deunydd

³¹⁷ [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2010\] EWCA Civ 482](#), [2012] 1 AC 531, [24] (Lord Neuberger MR yn y Llys Apêl).

³¹⁸ *R v Prif Gwnstabl Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ex p. Wiley* [1995] 1 AC 274, 306-7.

³¹⁹ [R \(Charles\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad \[2020\] EWHC 3010 \(Admin\)](#), [10(4)].

³²⁰ *R v Prif Gwnstabl Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ex p. Wiley* [1995] 1 AC 274, 295G-H; *Rawlinson & Hunter Trustees SA v Cyfarwyddwr y Swyddfa Dwyll Difrifol* (No. 2) [2015] 1 WLR 797, [30].

Pll ar y cam caniatáu. Os felly, gellir gadael cais am Pll nes bod caniatâd yn cael ei roi.

19.2.6.2. Fodd bynnag, os (gan adael unrhyw niwed i fudd y cyhoedd o'r neilltu) byddai dyletswydd i fod yn ddiwyll yn gofyn am ddatgelu'r deunydd Pll ar y cam caniatáu, rhaid i'r parti wneud cais am Pll ar y cam hwnnw.

19.2.7. Lle, ar ba bynnag gam yn yr achos, y mae parti yn gwneud cais am Pll:

19.2.7.1. Dylai'r ffaith bod hawliad o'r fath yn cael ei wneud gael ei nodi'n glir mewn llythyr at yr ACO, gyda'r teitl "HAWLIAD IMIWNEDD BUDD Y CYHOEDD". Dylai'r llythyr egluro a oes modd ystyried yr hawliad yn iawn, ym marn y parti, heb gymorth cwnsler arbennig neu eiriolwr arbennig.

19.2.7.2. Yna bydd y Llys yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer penderfynu ar yr hawliad am Pll (gan gynnwys ystyried a ddylid gwahodd y Twrnai Cyffredinol i benodi cwnsler arbennig neu eiriolwr arbennig).³²¹

19.2.8. Mater i'r Llys yw penderfynu a ddylid cadarnhau cais am Pll. Rhaid i'r Llys benderfynu drosto'i hun a fyddai budd y cyhoedd yn cael ei niweidio trwy ddatgelu'r deunydd y mae'r hawliad yn ymwneud ag ef ac, os felly, a yw'r niwed hwnnw yn drech nag unrhyw niwed i fudd y cyhoedd wrth weinyddu cyfiawnder a achosid o beidio â datgelu.³²²

19.2.9. Os caiff y cais am Pll ei gadarnhau, ni ellir derbyn y deunydd mewn unrhyw amgylchiadau; nid yw'n agored i'r naill barti nac i'r Llys wneud hynny. Os nad yw'r hawliad am Pll yn cael ei gadarnhau, rhaid datgelu'r deunydd os yw'n dal yn berthnasol i fater mewn anghydfod.³²³

19.2.10. Ym mron pob achos, canlyniad penderfyniad i ganiatáu cais am Pll yw bod yr achos yn parhau heb ystyried y deunydd annerbyniol a gwmpeisir gan yr hawliad. Fodd bynnag, lle mae'r deunydd mor ganolog i'r materion na fyddai'n deg i'r achos barhau, gall y Llys ddileu'r hawliad.³²⁴

19.3. Achosion deunydd caeedig o dan Ddeddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013

19.3.1. Mae [Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013](#) (JSA) yn awdurdodi'r Uchel Lys i gynnal gweithdrefn ddeunydd caeedig (CMP). Mae CMP yn wahanol yn sylfaenol i achosion lle mae cais am Pll wedi'i gadarnhau. Mewn CMP, mae gan un parti hawl i ddibynnu ar ddeunydd na ddatgelwyd i'r parti neu'r partion

³²¹ [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2010\] EWCA Civ 482](#), [2012] 1 AC 531, [26] (Lord Neuberger MR yn y Llys Apêl).

³²² R v Prif Gwnstabl Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ex p. Wiley [1995] 1 AC 274, 295-6; [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2010\] EWCA Civ 482](#), [2012] 1 AC 531, [25] (Yr Arglwydd Neuberger MR yn y Llys Apêl).

³²³ R v Lewes Justice ex p. Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref [1973] AC 388, 407; [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2011\] UKSC 34](#), [2012] 1 AC 531, [41] (Yr Arglwydd Dyson yn y Goruchaf Lys).

³²⁴ Carnduff v Rock [2001] 1 WLR 1786, [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2011\] UKSC 34](#), [2012] 1 AC 531, [15] (Yr Arglwydd Dyson yn y Goruchaf Lys).

eraill (deunydd CAEEDIG) a gall y Llys seilio ei benderfyniad ar ddeunydd o'r fath.³²⁵

- 19.3.2. Mae CMP ar gael o dan y [JSA](#) neu lle mae'r Llys yn gwneud datganiad o dan [a. 6\(2\)](#) y Ddeddf honno. Gellir gwneud hyn ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol (p'un a yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn barti i'r achos ai peidio) neu unrhyw barti i'r achos, neu gan y Llys ohono'i hun.
- 19.3.3. Dim ond os yw dau amod yn cael eu bodloni y caiff y Llys wneud datganiad.
- 19.3.4. Yr amod cyntaf yw:³²⁶
- “(a) byddai'n ofynnol i barti yn yr achos ddatgelu deunydd sensitif yn ystod yr achos i rywun arall (p'un a yw'n barti arall i'r achos ai peidio), neu
- (b) byddai'n ofynnol i barti yn yr achos wneud datgeliad o'r fath oni bai am un neu fwy o'r canlynol—
- (i) y posibilrwydd o hawliad imiwnedd budd y cyhoedd mewn perthynas â'r deunydd,
- (ii) y ffaith na fyddai gofyn datgelu pe bai'r parti yn dewis peidio â dibynnu ar y deunydd,
- (iii) [adran 17\(1\) Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000](#) (eithriad ar gyfer deunydd wedi ei ryng-gipio),
- (iv) unrhyw ddeddfiad arall a fyddai'n atal y parti rhag datgelu'r deunydd ond na fyddai'n gwneud hynny pe bai'r achos yn achos a fyddai'n destun datganiad o dan yr adran hon.”
- 19.3.5. Yr ail amod yw bod gwneud datganiad "er budd gweinyddu cyfiawnder yn deg ac effeithiol yn yr achos".³²⁷
- 19.3.6. Rhaid i'r Llys beidio ag ystyried cais gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan [a. 6\(2\)](#) oni bai ei fod yn fodlon bod yr Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud y cais, wedi ystyried gwneud, neu gynghori rywun arall i wneud, hawliad am PII mewn perthynas â'r deunydd y mae'r cais yn seiliedig arno (gweler [a. 6\(7\)](#)).
- 19.3.7. At y dibenion hyn ystyr “deunydd sensitif” yw “deunydd y byddai ei ddatgelu yn niweidiol i fudd diogelwch cenedlaethol”.³²⁸ Felly, nid yw CMP o dan y [JSA](#) ar gael o ran deunydd y byddai ei ddatgelu yn niweidiol i fudd y cyhoedd fel arall (megis cysylltiadau rhwngwladol y DU neu atal a datrys trosedd).
- 19.3.8. Pan nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn barti yn yr achos ac mae'n ymddangos i barti, neu i'r Llys, y gallai fod yn ofynnol i'r parti ddatgelu deunydd y byddai ei ddatgelu yn niweidiol i fuddiannau diogelwch

³²⁵ [Al Rawi v Y Gwasanaeth Diogelwch \[2011\] UKSC 34](#), [2012] 1 AC 531, [41] (Yr Arglwydd Dyson yn y Goruchaf Lys).

³²⁶ [Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013, a. 6\(4\)](#).

³²⁷ [Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013, a. 6\(5\)](#).

³²⁸ [Deddf Cyfiawnder a Diogelwch 2013, a. 6\(11\)](#)

enedlaethol, mae gofyniad i hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol ac ni ddylid datgelu'r deunydd tra arhosir am ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol.³²⁹

- 19.3.9. Rhaid i rywun sy'n bwriadu gwneud cais am ddatganiad o dan [a. 6](#) gyflwyno, o leiaf 14 diwrnod cyn gwneud y cais, hysbysiad ysgrifenedig o'r bwriad hwnnw i'r Llys a phob parti arall yn yr achos a'r Ysgrifennydd Gwladol (os nad yw'n barti); a chaiff wneud cais i'r Llys i'r achos gael ei ohirio tra arhosir am y cais neu tra bydd yn ystyried gwneud y cais.³³⁰ Gall y Llys ohirio'r achos a gall ohirio yn ddarostyngedig i amodau.³³¹
- 19.3.10. Mae cais am ddatganiad o dan [a. 6](#) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd ffeilio'r canlynol gyda'r Llys: (a) datganiad o resymau i gefnogi'r cais ac unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig ychwanegol; (b) y deunydd perthnasol y gofynnir i'r Llys ganfod bod yr amod cyntaf yn [a. 6](#) yn cael ei fodloni; ac (c) manylion unrhyw eiriolwr arbennig a benodwyd eisoes.³³² Rhaid i'r datganiad o resymau gynnwys rhesymau'r Ysgrifennydd Gwladol dros beidio â gwneud, neu beidio â chynghori rhywun arall i wneud, cais am PII.³³³
- 19.3.10. Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu gwneud cais am ddatganiad o dan [a. 6](#) neu'n cael hysbysiad bod parti arall yn bwriadu gwneud cais o'r fath, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi hysbysiad o'r achos i'r Twrnai Cyffredinol ar unwaith (sydd â phŵer o dan [a. 9 o'r JSA](#) i benodi eiriolwr arbennig).³³⁴ Oni bai bod eiriolwr arbennig yn cael ei benodi ni all unigolyn perthnasol (h.y. rhywun y byddai'n ofynnol iddo ddatgelu deunydd sensitif fel arall) ddibynnu ar ddeunydd sensitif mewn gwrandawriad drwy hysbysiad.³³⁵
- 19.3.11. Swyddogaethau'r eiriolwr arbennig yw cynrychioli buddiannau'r "parti a gynrychiolir yn arbennig" (h.y. parti y mae deunydd sensitif yn cael ei gadw oddi wrtho) drwy: (a) gyflwyno sylwadau i'r Llys mewn unrhyw wrandawriad neu ran o wrandawriad y mae'r parti a gynrychiolir yn arbennig a'i gynrychiolwyr cyfreithiol yn cael eu heithrio ohono; (b) dyfynnu tystiolaeth a chroesholi tystion mewn unrhyw wrandawriad o'r fath neu ran o wrandawriad; (c) gwneud ceisiadau i'r Llys neu geisio cyfarwyddiadau gan y Llys; (ch) cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r Llys.³³⁶
- 19.3.12. Cyfyngir yr eiriolwr arbennig rhag cyfathrebu ag unrhyw unigolyn ynghylch unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r achos unwaith y bydd deunydd sensitif yn cael ei gyflwyno iddo.³³⁷
- 19.3.13. Unwaith y bydd cais am ddatganiad o dan [a. 6](#) wedi'i wneud, bydd y Llys yn cyflwyno hysbysiad o'r cais i bob parti arall, yr Ysgrifennydd Gwladol (os nad yw'n barti), cynrychiolwyr cyfreithiol yr holl bartïon a'r eiriolwr arbennig. Bydd

³²⁹ [CPR 82.20.](#)

³³⁰ [CPR 82.21\(1\).](#)

³³¹ [CPR 82.21\(2\) a \(3\).](#)

³³² [CPR 82.22\(1\).](#)

³³³ [CPR 82.22\(2\).](#)

³³⁴ [CPR 82.9.](#)

³³⁵ [CPR 82.13\(1\)\(b\).](#)

³³⁶ [CPR 82.10.](#)

³³⁷ [CPR 82.11.](#)

y Llys yn pennu gwrandawriad i roi cyfarwyddiadau oni bai ei fod o'r farn bod modd penderfynu ar y cais ar sail y papurau.³³⁸ Bydd unrhyw wrandawriad i roi cyfarwyddiadau yn cynnwys y parti sy'n gwneud cais am y datganiad, yr Ysgrifennydd Gwladol (os nad ef wnaeth y cais) a'r eiriolwr arbennig, ond nid y parti a gynrychiolir yn arbennig a'i gynrychiolwyr.³³⁹

19.3.14. Os yw'r Llys yn gwneud datganiad o dan [a. 6](#) rhaid iddo wedyn roi cyfarwyddiadau (neu bennu gwrandawriad lle mae cyfarwyddiadau o'r fath i'w rhoi) am wrandawriad i wrando cais deunydd caeedig.³⁴⁰

19.3.15. Mae'r drefn ar gyfer gwneud a phenderfynu ar gais deunydd caeedig wedi'i nodi yn [CPR 82.13 - 82.14](#). Yn ei hanfod:

19.3.15.1. Mae'r unigolyn perthnasol (yr un y byddai'n ofynnol iddo ddatgelu'r deunydd sensitif) yn gwneud cais i ddal y deunydd sensitif yn ôl heb ei ddatgelu, gan ffeilio'r canlynol gyda'r Llys: (a) y deunydd sensitif; (b) datganiad o'r rhesymau dros ei ddal yn ôl heb ei ddatgelu.³⁴¹

19.3.15.2. Mae'r Llys yn pennu gwrandawriad, oni bai bod yr amodau yn [CPR 82.14\(2\)](#) yn cael eu bodloni. Un sefyllfa lle nad oes angen gwrandawriad yw pan fo'r eiriolwr arbennig yn rhoi hysbysiad nad yw'r cais yn cael ei herio a bod y Llys yn fodlon y byddai'n gyfiawn rhoi caniatâd heb wrandawriad.

19.3.15.3. Mae'r unigolyn perthnasol a'r eiriolwr arbennig yn ffeilio gyda'r Llys amserlen o'r materion na allant gytuno arnynt, gan roi rhesymau byr dros eu cynnwys a nodi unrhyw gynigion i'r Llys eu datrys.³⁴²

19.3.15.4. Mae'r gwrandawriad yn cael ei gynnal yn absenoldeb y parti sydd wedi'i gynrychioli'n arbennig a'i gynrychiolwyr.³⁴³

19.3.15.5. Pan fo'r Llys yn rhoi caniatâd i'r unigolyn perthnasol ddibynnu ar ddeunydd sensitif, rhaid iddo ystyried a ddylid cyfarwyddo'r unigolyn perthnasol i gyflwyno crynodeb o'r deunydd hwnnw i'r parti a gynrychiolir yn arbennig a'i gynrychiolydd, ond rhaid iddo sicrhau nad yw'r crynodeb yn cynnwys deunydd y byddai ei ddatgelu yn niweidiol i ddiogelwch cenedlaethol.³⁴⁴

19.3.15.6. Pan nad yw'r Llys wedi rhoi caniatâd i'r unigolyn perthnasol gadw deunydd sensitif yn ôl, neu os yw wedi rhoi cyfarwyddyd i gyflwyno crynodeb, gall yr unigolyn perthnasol ddewis peidio â chyflwyno'r deunydd neu'r crynodeb. Yn yr achos hwnnw, gall y Llys wneud un o ddau beth. Os yw'n ystyried y gallai'r deunydd sensitif effeithio'n

³³⁸ [CPR 82.23\(1\)](#)

³³⁹ [CPR 82.23\(2\) a \(4\)](#).

³⁴⁰ [CPR 82.26](#).

³⁴¹ [CPR 82.13](#).

³⁴² [CPR 82.14\(4\)](#).

³⁴³ [CPR 82.14\(5\)](#).

³⁴⁴ [CPR 82.14\(7\)](#).

andwyol ar achos yr unigolyn perthnasol neu gefnogi achos parti arall, gall gyfarwyddo'r unigolyn perthnasol i beidio â dibynnu ar bwyntiau penodol, neu wneud consesiynau penodol neu gymryd camau penodol. Mewn unrhyw achos arall, gall y Llys gyfarwyddo'r unigolyn perthnasol i beidio â dibynnu ar y deunydd nac ar yr hyn y mae'n ofynnol ei grynhoi.³⁴⁵

19.3.15.7. Mae [CPR 82.14\(10\)](#) yn gosod dyletswydd absoliwt ar y Llys i roi caniatâd i'r unigolyn perthnasol gadw deunydd sensitif yn ôl lle mae o'r farn y byddai datgelu'r deunydd yn groes i fuddiannau diogelwch cenedlaethol. Fodd bynnag, gellir dadlau y dylid, mewn rhai amgylchiadau, ddarllen y ddyletswydd hon i gydymffurfio ag [Erthygl 6 ECHR](#).³⁴⁶

19.3.16. Bydd gwrandawiadau sylfaenol mewn achosion lle mae datganiad o dan [a. 6](#) wedi'i wneud fel arfer yn cynnwys rhannau AGORED a CHAEEDIG. Gall y partïon, eu cynrychiolwyr cyfreithiol a'u hadfocadau arbennig fynychu'r rhan AGORED. Dim ond yr Ysgrifennydd Gwladol a'r unigolyn perthnasol (a'i gynrychiolwyr cyfreithiol) a'r eiriolwr arbennig all fynychu'r rhan GAEEDIG.

19.3.17. Mae rhagdybiaeth y bydd pob gwrandawriad AGORED yn cael ei gynnal yn gyhoeddus. Ni ellir cynnal gwrandawriad AGORED yn breifat, hyd yn oed os yw'r partïon yn cydsynio, oni bai bod y Llys, ac i'r graddau y mae'r Llys, yn penderfynu bod rhaid ei gynnal yn breifat.³⁴⁷ Fe'i cynhelir yn breifat os bydd, a dim ond i'r graddau y bydd, y Llys yn fodlon ar un neu ragor o restr o faterion penodol a bod angen eistedd yn breifat i sicrhau gweinyddu cyfiawnder yn briodol. Mae'r materion penodol yn cynnwys (a) y byddai cyhoeddusrwydd yn groes i fwriad y gwrandawriad, (b) mae'n cynnwys materion yn ymwneud â diogelwch cenedlaethol neu (c) mae'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a chyhoeddusrwydd fyddai'n niweidio'r cyfrinachedd hwnnw.³⁴⁸ Hyd yn oed lle dibynnir ar (b) rhaid cael tystiolaeth glir ac argyhoeddiadol i ddadleoli'r rhagdybiaeth fod gwrandawiadau AGORED yn digwydd yn gyhoeddus.³⁴⁹

19.3.18. Mewn achos lle mae datganiad o dan [a. 6](#) wedi'i wneud, gall y Llys roi, a bydd bron bob amser yn rhoi, dau ddyfarniad – un dyfarniad AGORED, fydd yn gyffredinol yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn y ffordd arferol ac un dyfarniad CAEEDIG, a ddarperir i'r unigolyn perthnasol yn unig, yr Ysgrifennydd Gwladol a'r eiriolwr arbennig.³⁵⁰

19.3.19. Cyn darparu'r dyfarniad AGORED drafft i'r parti a gynrychiolir yn arbennig, anfonir y dyfarniad drafft ar gyfer gwirio diogelwch i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r unigolyn perthnasol.³⁵¹ Gall yr Ysgrifennydd Gwladol neu unigolyn

³⁴⁵ [CPR 82.14\(9\)](#).

³⁴⁶ Gweler e.e. [R \(K\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn \[2016\] EWCA Civ 1149](#), [2017] 1 WLR 1671, [21]; gweler hefyd [R \(Reprieve\) v Y Prif Weinidog \[2021\] EWCA Civ 972](#), [2022] 2 WLR 1.

³⁴⁷ [CPR 39.2\(1\)](#).

³⁴⁸ [CPR 39.2\(3\)](#).

³⁴⁹ [Y Twrnai Cyffredinol v Y Gorfforaeth Ddarlleu Brydeinig \[2022\] EWHC 380 \(QB\)](#).

³⁵⁰ [CPR 82.16](#).

³⁵¹ [CPR 82.17\(1\)](#).

perthnasol, o fewn 5 niwrnod iddynt gael yr hysbysiad, wneud cais i'r Llys i delerau'r dyfarniad gael eu hailystyried.³⁵² Pan wneir cais o'r fath, rhaid anfon copi o'r dyfarniad a'r cais at yr eiriolwr arbennig.³⁵³ Yna bydd weithdrefn yn [CPR 82.14](#) (ac eithrio paragraff (6)-(8)) yn berthnasol.³⁵⁴

- 19.3.20. Oni bai bod y Llys yn rhoi cyfarwyddyd fel arall, nid yw [CPR 5.4](#) (cofrestr gyhoeddus o hawliadau), [5.4B](#) (gallu parti i gael cofnodion llys) a [5.4C](#) (gallu rhywun nad yw'n barti i gael cofnodion llys) yn berthnasol i achos lle mae datganiad o dan [a. 6](#) wedi'i wneud.³⁵⁵

19.4. Awdurdodaeth Haralambous

- 19.4.1. Yn [R \(Haralambous\) v Llys y Goron St Albans Crown Court](#),³⁵⁶ ystyriodd y Goruchaf Lys a yw CMP ar gael yn yr Uchel Lys yn achos hawliad am adolygiad barnwrol o benderfyniad i godi gwarant chwilio, lle codwyd y warant ar gais *ex parte* yn dibynnu ar ddeunydd CAEEDIG. Penderfynodd y Goruchaf Lys fod CMP mewn egwyddor ar gael. Mae hyn yn galluogi'r Llys i ystyried yr holl ddeunydd oedd gerbron yr awdurdod barnwrol a ganiataodd y warant a dibynnu ar y deunydd hwnnw wrth ddod i'w benderfyniad.
- 19.4.2. Yn [R \(Jordan\) v Prif Gwnstabl Heddlu Glannau Mersi](#), dywedwyd bod y weithdrefn i'w mabwysiadu mewn hawliad sy'n apelio at awdurdodaeth *Haralambous* fel a ganlyn:³⁵⁷
- 19.4.2.1. Pan ddry'r Llys ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol mewn her i warant, a'i bod yn amlwg bod y diffynnydd neu'r parti sydd â budd wedi hawlio neu y bydd yn hawlio PII gyda golwg ar ddeunydd sy'n berthnasol i'r her, dylai hefyd roi cyfarwyddiadau ar gyfer: (i) gwrandawriad i benderfynu a ddylid caniatáu'r hawliad PII; a (ii) gwrandawriad sylfaenol i benderfynu ar y cais am adolygiad barnwrol.
- 19.4.2.2. Os yw'n bosibl, dylid rhestru'r ddau wrandawriad yma gerbron yr un barnwr. Efallai y bydd hi'n synhwyrol gadael rhestru'r ail wrandawriad i'w benderfynu yn y gwrandawriad cyntaf.
- 19.4.2.3. Yn y gwrandawriad cyntaf, os yw'r hawliad PII yn cael ei gadarnhau yn llwyr neu'n rhannol, dylai'r Llys roi cyfarwyddiadau sy'n ymdrin: (i) â'r amser a ganiateir i'r diffynnydd ddatgelu ac i'r hawlydd ymateb i unrhyw ddeunydd newydd; (ii) a yw'r achos yn ddigon eithriadol fel bod angen gwahodd y Twrnai Cyffredinol i benodi eiriolwr arbennig i gynrychioli buddiannau'r hawlydd yn y CMP;³⁵⁸

³⁵² [CPR 82.17\(2\)](#).

³⁵³ [CPR 82.17\(3\)](#).

³⁵⁴ [CPR 82.17\(4\)](#).

³⁵⁵ [CPR 82.18](#).

³⁵⁶ [\[2018\] UKSC 1](#), [\[2018\] AC 236](#).

³⁵⁷ [\[2020\] EWHC 2274 \(Admin\)](#), [\[35\]](#).

³⁵⁸ [Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd v Concordia International RX \(UK\) \[2018\] EWCA Civ 1881](#), [\[2018\] Bus LR 2452](#), [\[75\]](#).

ac (iii) yng ngoleuni'r materion hyn, rhestru'r gwrandawriad sylfaenol.

- 19.4.2.4. Yn y gwrandawriad sylfaenol, dylai'r gwrandawriad AGORED ddigwydd yn gyntaf, gyda'r gwrandawriad CAEEDIG yn dilyn wedyn. Dylai cynrychiolwyr yr hawlydd fod ar gael i ddychwelyd ar gyfer gwrandawriad agored pellach byr rhag ofn y bydd unrhyw beth yn dod i'r amlwg o'r gwrandawriad CAEEDIG y mae angen gwahodd rhagor o sylwadau AGORED yn ei gylch.
- 19.4.2.5. Yn enwedig, fel yn y rhan fwyaf o achosion, lle nad oes eiriolwr arbennig i gynrychioli buddiannau'r hawlydd, mae gan gwnsler yr awdurdod cyhoeddus rwymedigaeth arbennig i gynorthwyo'r Llys drwy nodi unrhyw bwyntiau sy'n deillio o'r deunydd CAEEDIG y gellid dadlau eu bod yn cefnogi'r hawlydd neu danseilio'r amddiffyniad. Mae'r rhwymedigaeth yn debyg i'r hyn sy'n codi wrth geisio gorchymyn *ex parte*. Mae'n rhaid i gwnsler sy'n ceisio gorchymyn o'r fath "roi het yr amddiffyniad ar ei ben a gofyn iddo'i hun beth, pe bai'n cynrychioli'r diffynnydd neu drydydd parti gyda'r budd perthnasol, fyddai'n ei ddweud wrth y barnwr, ac, ar ôl ateb y cwestiwn hwnnw, dyna ddylai ei ddweud wrth y barnwr".³⁵⁹ Mae'r un peth yn wir, *mutatis mutandis*, yn achos cwnsler sy'n cynrychioli diffynnydd mewn unrhyw CMP a ganiateir mewn hawliad adolygiad barnwrol yn herio gwarant.
- 19.4.2.6. Ar ôl y gwrandawriad sylfaenol, dylid paratoi dyfarniadau AGORED a CHAEEDIG. I'r graddau y bo modd, dylid gofalu nodi yn y dyfarniad AGORED bob casgliad sydd wedi ei gyrraedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar sail tystiolaeth y cyfeirir ati yn y dyfarniad CAEEDIG.³⁶⁰

³⁵⁹ Yn re Stanford International Bank Ltd [2011] Ch 33, [191].

³⁶⁰ Bank Mellat v Trysorlys EM (Rhif 2) [2013] UKSC 39, [2014] AC 700, [68].

20. Dadleuon fframwaith a dogfennau angenrheidiol eraill

20.1. Cyffredinol

- 20.1.1. Pwrpas dadl fframwaith yw cynorthwyo'r Llys trwy nodi, mor gryno ag sy'n ymarferol, y dadleuon y mae parti yn bwriadu dibynnu arnynt.³⁶¹
- 20.1.2. Rhaid i'r hawlydd, y diffynnydd ac unrhyw barti sy'n dymuno cyflwyno sylwadau baratoi dadl fframwaith cyn unrhyw wrandawriad sylfaenol.³⁶²
- 20.1.3. Dylai partïon hefyd baratoi dadl fframwaith cyn unrhyw wrandawriad yng nghwrs achos (er enghraifft, unrhyw ganiatâd newydd neu wrandawriad am ryddhad interim neu gyfarwyddiadau), hyd yn oed os nad yw'r mater yn un cymhleth.

20.2. Cynnwys dadleuon fframwaith

- 20.2.1. Rhaid i ddadl fframwaith fod mor gryno â phosibl.³⁶³
- 20.2.2. Dylai dadl fframwaith ddiffinio a chyfyngu'r meysydd dadleuol; dylid ei groesgyfeirio ag unrhyw ddogfen berthnasol yn y bwnel; dylai fod yn hunangynhwysol a ni ddylai gynnwys deunydd o ddadleuon fframwaith neu bledion blaenorol; ac ni ddylai gynnwys dyfyniadau helaeth o ddogfennau neu awdurdodau.³⁶⁴
- 20.2.3. Ni ddylid gadael i bartïon eraill gasglu o hepgoriadau mewn dadleuon fframwaith pa seiliau o hawliad y rhoddwyd gorau iddynt. Os nad yw parti bellach yn ymlid sail hawliad, dylid gwneud hynny'n glir i'r Llys ac i'r partïon eraill.³⁶⁵
- 20.2.4. Lle bo angen cyfeirio at awdurdod, rhaid i'r ddadl fframwaith nodi'r gyfraith sy'n berthnasol ac adnabod y rhannau o'r awdurdod sy'n berthnasol i'r cynnig. Pan fydd gan yr awdurdod rifau paragraffau, dylid nodi'r rhain. Fel arall, dylid nodi cyfeiriadau at rifau tudalennau'r adroddiad. Os cyfeirir at fwy nag un awdurdod i gefnogi cynnig, rhaid i'r ddadl fframwaith egluro pam yn glir.³⁶⁶
- 20.2.5. Mae'n bwysig:
 - 20.2.5.1. bod y penderfyniad neu ymddygiad arall a heriwyd wedi'i nodi'n glir;

³⁶¹ [CPR 54A PD paragraff 14.1.](#)

³⁶² [CPR 54A PD paragraff 14.5 a 14.6.](#)

³⁶³ [R \(Dolan\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2020\] EWCA Civ 1605](#), [119]-[120].

³⁶⁴ [CPR 54A PD paragraff 14.2\(1\).](#)

³⁶⁵ [R \(Pob Dinesydd\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon \[2022\] EWHC 960 \(Admin\)](#), [17].

³⁶⁶ [CPR 54A PD paragraff 4.2\(2\).](#)

- 20.2.5.2. bod y ffeithiau perthnasol, gan gynnwys unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau ers cyflwyno'r Ffurflen Hawlio a'r ddogfennaeth ategol, wedi'u nodi;
- 20.2.5.3. bod y seiliau dros geisio adolygiad barnwrol (neu ryddhad interim, neu unrhyw orchymyn arall) wedi'u nodi o dan benawdau wedi eu rhifo. Rhaid nodi'r seiliau'n gryno a'u rhifo mewn trefn. Dylai pob sail godi mater ar wahân yng nghyswllt y penderfyniad sy'n cael ei herio;³⁶⁷
- 20.2.5.4. bod y dadleuon a'r cyflwyniadau i gefnogi'r seiliau wedi'u nodi ar wahân mewn perthynas â phob sail;
- 20.2.5.5. bod yr egwyddorion cyfreithiol perthnasol wedi'u nodi. Dylid osgoi detholion hir o ddeunyddiau statudol neu ryngwladol, cyfraith achosion a ffynonellau eraill oni bai yr ystyrir y byddai hynny yn cyflymu gwaith darllen y Llys, y broses o gyflwyno'r ddadl lafar neu'n cynorthwyo i baratoi'r dyfarniad;
- 20.2.5.6. bod y rhwymedi a geisir yn cael ei nodi;
- 20.2.5.7. bod unrhyw frys neu fater arall sy'n berthnasol i amseriad yr achos yn cael ei egluro;
- 20.2.5.8. bod unrhyw bwynt perthnasol arall, megis oedi, rhwymedi amgen neu unrhyw rwystr arall i ryddhad, yn cael ei nodi a'i drin.

20.3. Hyd a fformat dadleuon fframwaith

- 20.3.1. Ni ddylai dadl fframwaith fod yn hirach na 25 tudalen. Gall y Llys roi caniatâd i fynd y tu hwnt i'r terfyn hwn o 25 tudalen.³⁶⁸ Dylid cyflwyno cais am ganiatâd o'r fath i farnwr cyn gynted ag y rhagwelir y bydd angen i'r ddadl fframwaith fod yn hirach na 25 tudalen Rhagwelir y bydd hyn ychydig ar ôl i Seiliau Cryno yr Amddiffyniad gael eu cyflwyno.³⁶⁹
- 20.3.2. Dylai dadleuon fframwaith fod mor fyr â phosibl. Gan amlaf, ni ddylai fod angen i'r ddadl fframwaith fod yn hirach nag 20 tudalen.
- 20.3.3. Dylid teipio dadl fframwaith yn glir a'i gosod allan yn briodol. Dylid defnyddio maint ffont o ddim llai na 12. Dylid gadael bylchau rhesymol rhwng y llinellau (mae 1.5 neu fwllch dwbl yn ddelfrydol).
- 20.3.4. Dylid rhifo'r paragraffau. Dylid hefyd rhifo'r tudalennau.

³⁶⁷ Mi wnaeth y Llys bwysleisio'r angen am ddatganiad clir a chryno o'r seiliau, yng nghyd-destun apeliadau: [R \(Talpada\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 841](#), [68]. Gweler hefyd [Hickey v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau \[2018\] EWCA Civ 851](#), [74].

³⁶⁸ [CPR 54A PD paragraff 14.3](#).

³⁶⁹ [R \(Palmer\) v Llys Ynadon Gogledd Swydd Derby \[2021\] EWHC 3013 \(Admin\)](#), [11].

- 20.3.5. Dylid anfon dadleuon fframwaith sy'n cael eu ffeilio a'u cyflwyno trwy e-bost fel dogfennau Word, nid PDF neu unrhyw fformat arall ac ni ddylid eu cynnwys yng nghorff yr e-bost.
- 20.3.6. Mae'n bosib y bydd ACO yn anfon unrhyw ddadl fframwaith nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion ym [mharagraff 20.2.2](#), [20.2.3](#) neu [20.3.1](#) yn y Canllaw hwn yn ôl at yr awdur ac ni chaniateir ei hail-ffeilio oni bai a hyd nes ei bod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny. Gall y Llys wrthod cost paratoi dadl fframwaith nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn.³⁷⁰

20.4. Ffeilio a chyflwyno dadleuon fframwaith

- 20.4.1. Yn absenoldeb cyfarwyddyd barnwrol penodol, y terfynau amser ar gyfer ffeilio a chyflwyno dadleuon fframwaith cyn gwrandawriad sylfaenol yw:
- 20.4.1.1. ar gyfer yr hawlydd, dim llai na 21 diwrnod calendr cyn y gwrandawriad neu'r dyddiad rhybudd;³⁷¹ ac
- 20.4.1.2. ar gyfer y diffynnydd neu unrhyw barti arall sy'n dymuno cyflwyno sylwadau yn y gwrandawriad, dim llai na 14 diwrnod calendr cyn y gwrandawriad neu'r dyddiad rhybudd.³⁷²
- 20.4.2. Dylid bob amser gyflwyno dadleuon fframwaith i'r parti neu'r partïon eraill yn yr achos, p'un a yw'r parti hwnnw mewn sefyllfa i ddarparu dadl fframwaith eu hun ai pheidio.
- 20.4.3. Ar gyfer pob gwrandawriad arall (er enghraifft, gwrandawriad am ganiatâd newydd), a heb unrhyw gyfarwyddyd penodol, dylid cyflwyno dadleuon fframwaith o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn rhestru'r gwrandawriad. Os oes, neu os gallai fod problem gyda chydymffurfio â'r terfyn amser hwnnw, dylid rhoi gwybod i ACO cyn gynted â phosib.
- 20.4.4. Ni ddylid cyflwyno dadleuon fframwaith i'r Llys ar ddiwrnod y gwrandawriad.
- 20.4.5. Os nad yw'r ddadl fframwaith yn cydymffurfio â'r canllaw hwn, neu os caiff ei chyflwyno'n hwyr, gallai'r Llys wrthod gadael i'r esgeuluswr ddibynnu arni; neu gallai'r Llys wneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y parti (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn).³⁷³

20.5. Dogfennau angenrheidiol eraill

- 20.5.1. Yn ychwanegol at y dadleuon fframwaith, dim llai na 7 diwrnod cyn gwrandawriad sylfaenol, rhaid i'r partïon ffeilio:³⁷⁴

³⁷⁰ [CPR 54A PD paragraff 14.4](#). Dylai eiriolwyr ddisgwyl y bydd yr arfer hwn yn cael ei ddilyn: [R \(SSE Generation Ltd\) v Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd \[2022\] EWHC 865 \(Admin\)](#).

³⁷¹ [CPR 54A PD paragraff 14.5](#).

³⁷² [CPR 54A PD paragraff 14.6](#).

³⁷³ Gweler e.e. [R \(Cyngor Cenedlaethol Hawliau Sifil\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \(Materion Gweithdrefnol\) \[2018\] EWHC 976 \(Admin\)](#), [17].

³⁷⁴ [CPR 54A PD paragraff 14.7](#).

- 20.5.1.1. rhestr **gytûn** o'r materion;
- 20.5.1.2. cronoleg **gytûn** o'r digwyddiadau (gyda chyfeiriadau at dudalennau ym mwndel y gwrandawriad); a
- 20.5.1.3. rhestr **gytûn** o ddogfennau hanfodol i'r Llys eu darllen cyn y gwrandawriad (gyda chyfeiriadau at dudalennau y darnau ym mwndel y gwrandawriad y dibynnir arnynt) a faint y bydd, ar gyfartaledd, yn cymryd i'w darllen.
- 20.5.2. Mae'r rhain yn ddogfennau pwysig sydd wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r llys i baratoi ar gyfer yr achos a deall cwmpas yr anghydfod a dyddiadau'r digwyddiadau materol allweddol.
- 20.5.3. Oherwydd bod rhaid i bob parti gytuno ar y dogfennau hyn, dylai'r partïon gysylltu â'i gilydd mewn da bryd cyn y dyddiad cau i benderfynu pwy fydd yn cynhyrchu'r drafftiau cyntaf; y dyddiad erbyn y bydd hyn yn cael ei wneud; a'r dyddiad erbyn pryd fydd y parti neu'r partïon eraill yn anfon eu sylwadau ar y drafftiau. Disgwylir i'r partïon fynd i'r afael â'r dasg hon gydag ysbryd o gydweithredu. Dylid rhoi disgrifiad niwtral o'r materion a'r digwyddiadau yn y gronoleg. Dylid osgoi disgrifiadau unochrog.

21. Dogfennau

21.1. Bwndeli: cyffredinol

- 21.1.1. Disgrifir bwndel fel set o ddogfennau (neu ddarnau ohonynt) sy'n cynnwys mynegai ac sydd wedi cael eu rhifo, y mae'r partïon yn credu ei bod yn angenrheidiol i'r barnwr eu hystyried mewn gwrandawriad penodol. Yn gyffredinol dylid cyflwyno'r dogfennau yn y bwndel yn nhrefn amser (h.y. gan ddechrau gyda'r ddogfen hynaf a gorffen gyda'r ddogfen ddiweddaraf). Dylid ond cynnwys gohebiaeth rhwng y partïon yn y bwndel os yw'n cyflawni pwrpas penodol sy'n berthnasol i'r materion sy'n destun anghydfod sy'n sail i'r gwrandawriad y mae'r bwndel yn cael ei baratoi ar ei gyfer.

21.2. Bwndel y gwrandawriad

- 21.2.1. Gelwir y bwndel a baratoir ar gyfer gwrandawriad sylfaenol yn fwndel y gwrandawriad. Rhaid i'r partïon gytuno ar ei gynnwys. Os yw bwndel y gwrandawriad dros 400 tudalen, rhaid paratoi bwndel craidd hefyd. Mae hwn yn fwndel sy'n cynnwys mynegai a'r tudalennau wedi'u rhifo sy'n cynnwys y pledion, copi o'r penderfyniad a / neu'r hyn a heriwyd yn yr achos a dogfennau cyffelyb eraill (neu rannau ohonynt) fel y mae'r partïon yn eu hystyried yn hanfodol at ddibenion y gwrandawriad. Mae'n rhaid i bob parti (neu gyfreithiwr y parti) ardystio bod bwndel y gwrandawriad ac unrhyw fwndel craidd yn bodloni'r gofynion hyn.³⁷⁵
- 21.2.2. Ni fydd y Llys yn dyfarnu anghydfodau ynghylch pa ddogfennau ddylai fod ym mwndel y gwrandawriad neu'r bwndel craidd. Dylai'r partïon fynd i'r afael â'r dasg o gytuno ar eu cynnwys mewn ysbryd o gydweithredu. Os yw un parti o'r farn y dylid cynnwys dogfen a pharti arall yn anghytuno ar y sail bod y ddogfen yn amherthnasol neu'n annerbyniol, dylid cynnwys y ddogfen, ond nodi'r anghydfod ynghylch ei pherthnasedd neu ei derbynioldeb yn y mynegai.
- 21.2.3. Rhaid paratoi fersiwn electronig o fwndel y gwrandawriad ac unrhyw fwndel craidd yn unol â'r canllawiau yn [Atodiad 7](#).³⁷⁶
- 21.2.4. Weithiau bydd y gorchymyn sy'n rhoi caniatâd, neu orchymyn arall, yn cynnwys cyfarwyddyd ynghylch pryd y dylid cyflwyno bwndeli'r gwrandawriad. Yn absenoldeb cyfarwyddyd o'r fath, rhaid cyflwyno bwndel y gwrandawriad ac unrhyw fwndel craidd, yn electronig ac ar ffurf copi caled, ddim llai na 21 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad neu'r dyddiad rhybudd. Ar gyfer achosion y Llys Adrannol, rhaid cyflwyno un copi caled o'r bwndel ar gyfer pob barnwr sy'n gwrandawro ar yr achos.³⁷⁷
- 21.2.5. Os bydd angen cyflwyno bwndel yn hwyr, dylid anfon llythyr gyda'r bwndel yn egluro ei fod yn ymwneud â gwrandawriad sydd ar ddod ac yn esbonio'r

³⁷⁵ [CPR 54A PD paragraff 15.1.](#)

³⁷⁶ [CPR 54A PD paragraff 15.2.](#)

³⁷⁷ [CPR 54A PD paragraff 15.3.](#)

rhesymau pam nad oedd yn bosibl ei gyflwyno ar amser. Os na wneir hyn, mae'n bosib na fydd y bwndel yn cael ei roi gerbron y barnwr sy'n gwrando'r achos.

- 21.2.6. Nid yw'r Llys yn disgwyl i ddogfennau gael eu cyflwyno yn ystod y gwrandawriad, er gall roi caniatâd i gyflwyno tystiolaeth neu gyflwyno dogfennau yn y modd hwnnw mewn amgylchiadau eithriadol.

21.3. Gwrandawiadau Eraill

- 21.3.1. Weithiau (er enghraifft, pan wneir cais yng nghwrs achos brys), efallai na fydd unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer bwndeli. Rhaid i'r parti sy'n gwneud y cais dal sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r cais yn cael eu cyflwyno gerbron y Llys trwy baratoi bwndel cais, ar ffurf copi caled ac yn electronig, sy'n cynnwys y dogfennau hyn. Rhaid ffeilio'r bwndel yn y Llys a'i gyflwyno i'r partïon eraill mewn da bryd cyn y gwrandawriad.
- 21.3.2. Mae hyn yn golygu bod rhaid cyflwyno'r bwndel cais o leiaf 3 diwrnod clir cyn y gwrandawriad neu, mewn achosion lle mae'n amhosib gwneud hyn oherwydd natur brys y cais, erbyn 1pm fan bellaf ar y diwrnod cyn y gwrandawriad.

21.4. Fformat bwndeli

- 21.4.1. Mae'r Llys bob amser yn mynnu bod rhaid darparu copi caled a chopi electronig o fwndel, yn amodol ar unrhyw orchymyn sy'n nodi i'r gwrthwyneb.
- 21.4.2. Dylai fersiynau papur o fwndeli fod mewn ffeiliau modrwy neu ffeiliau lifer neu ffeiliau o fath arall a all gynnwys y dogfennau sydd ynddynt yn gyffyrddus. Rhaid i'r ffeiliau agor a chau yn iawn. Rhaid nodi cyfeirnod yr achos ac enwau'r partïon yn glir ar feingefn y bwndel. Dylid defnyddio dwy ochr dalennau o papur a dylai'r bwndel fod ar ffurf ar i fyny (nid ar draws). Rhaid i'r copïau fod yn ddarllenadwy.
- 21.4.3. Rhaid paratoi bwndeli electronig (neu e-fwndeli) fel a ganlyn:
 - 21.4.3.1. Rhaid i bob bwndel sy'n cael ei ffeilio i gefnogi cais brys fod mewn **un** ffeil PDF nad yw'n fwy na 20MB o ran maint, sy'n addas i'w ddefnyddio gydag Adobe Acrobat Reader, PDF Expert a PDF Xchange Editor. Os yw'r papurau sy'n cefnogi unrhyw hawliad neu gais nad yw'n frys yn fwy na 20MB dylid ffeilio bwndel craidd heb fod yn fwy na 20MB mewn ffeil PDF gyda bwndel ffeil PDF ychwanegol sy'n cynnwys y dogfennau eraill.
 - 21.4.3.2. Dylid paratoi mynegai neu dabl cynnwys o'r dogfennau. Rhaid i'r mynegai gynnwys dolenni i'r tudalennau neu'r ddogfen y mae'n cyfeirio ati. Rhaid nodi pob dogfen sydd yn y bwndel yn rhestr bar ochr y rhestr gynnwys / nodau tudalen, yn ôl dyddiad a disgrifiad (e.e., "e-bost 11.9.21 gan [x] i [y]"). Rhaid i'r rhestr bar ochr hefyd ddangos rhif tudalen y ddogfen yn y bwndel.

- 21.4.3.3. Rhaid rhifo pob tudalen o'r ddogfen (gan gynnwys tudalennau mynegai), yn ddelfrydol gan ddefnyddio swyddogaeth cyfrifiadurol, neu o leiaf ei deipio, ac nid â llaw. Ni ddylai rhifau'r tudalennau guddio manylion perthnasol ar y ddogfen wreiddiol. Bydd y Llys yn disgwyl i gyfeiriadau gael eu gwneud at rifau tudalennau'r bwndel, nid rhifau gwreiddiol (neu fewnol) y dudalen ar y dogfennau.
- 21.4.3.4. Rhaid i faint gweld pob tudalen fod yn 100%.
- 21.4.3.5. Dylai pob dogfen fod ar i fyny. Os yw dogfen wreiddiol yn gorwedd ar draws, dylid ei mewnosod fel y gellir ei chylchdroi yn glocwedd 90 gradd. Ni ddylai unrhyw ddogfen ymddangos wyneb i waered.
- 21.4.3.6. Rhaid i bob bwndel gynnwys testun; ni ddylai fod yn sgan o gopi caled o fwndel. Os yw dogfennau o fewn bwndel wedi'u sganio, dylid sicrhau fod modd chwilio am eiriau penodol yn y testun ac y gellir ychwanegu sylwadau ac amlygu'r testun.
- 21.4.3.7. Rhaid rhoi nod tudalen ar bob dogfen arwyddocaol a phob adran mewn bwndel er hwylustod. Rhaid labelu nodau tudalen gan nodi pa ddogfennau y maent yn cyfeirio atynt (mae'n well defnyddio'r un enw neu deitl â'r ddogfen wreiddiol) a dangos rhifau'r tudalennau perthnasol hefyd.
- 21.4.3.8. Rhaid lleihau eglurder y ddogfen i tua 200-300 DPI i atal oedi wrth sgrolio o un dudalen i'r llall.
- 21.4.3.9. Rhaid i bob ffeil PDF gynnwys fersiwn fer o enw'r achos ac arwydd o rif / llythyren y bwndel, a gorffen gyda dyddiad y gwrandawriad. Er enghraifft: "R (Joe Bloggs) v Yr Ysgrifennydd Gwladol, Bwndel B, 1-1-21" neu "R (Joe Bloggs) v Yr Ysgrifennydd Gwladol, Gohebiaeth, 1-1-21". Ni ddylid eu labelu â dim ond "Gohebiaeth" neu "Bwndel B".
- 21.4.4. Os bydd angen paratoi bwndel electronig wedi'i ddiweddarau ar ôl i'r bwndel gwreiddiol gael ei anfon at y barnwr, ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd y barnwr yn ei dderbyn fel copi newydd yn llwyr. Efallai y bydd y barnwr eisoes wedi dechrau marcio'r gwreiddiol. Dylid holi'r barnwr am hyn. Yn absenoldeb cyfarwyddyd penodol, dylid sicrhau bod bwndel newydd ar gael, ond dylid hefyd ddarparu unrhyw dudalennau ychwanegol mewn bwndel atodol ar wahân gyda'r tudalennau hynny wedi'u rhifo'n briodol (143.1, 143.2 ac ati).
- 21.4.5. Gall y barnwr wrthod darllen bwndel nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion hyn, neu gyfarwyddo bod bwndel diwygiedig yn cael ei gyflwyno sy'n cydymffurfio, ac os felly gall y barnwr wrthod y costau neu wneud gorchymyn costau niweidiol arall.

21.5. Sut i gyflwyno bwndeli electronig

- 21.5.1. Dylid cyflwyno e-fwndeli ar gyfer hawliadau am adolygiad barnwrol nad ydynt yn rhai brys a cheisiadau yng nghwrs achos ar e-bost fel a ganlyn:
 - 21.5.1.1. Anfonwch gais trwy e-bost i'r cyfeiriadau hyn:

- Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Llundain:
DUC@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
- Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Birmingham:
Birmingham@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
- Ar gyfer achosion yng Nghymru a Chylchdaith Gorllewin Lloegr:
Cardiff@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
- Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Leeds:
Leeds@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
- Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys ym Manceinion:
Manchester@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

21.5.1.2. Bydd yr e-bost yn cael ei ateb gyda gwahoddiad gan gyfeiriad e-bost ejudiciary.net i uwchlwytho'r dogfennau.

21.5.1.3. Mae yna uchafswm ar gyfer maint y ffeiliau atodol y gellir eu derbyn gan gyfeiriad justice.gov (cyfanswm o 36MB) a chyfeiriad ejudiciary.net (cyfanswm o 150MB). Pan fydd y terfynau hynny'n achosi problem, efallai mai'r ateb fydd anfon bwndeli mewn negeseuon e-bost ar wahân. Dylid osgoi'r demtasiwn i dorri dogfennau sydd wedi'u bwndelu'n synhwyrol yn fwndeli bach at ddibenion eu trosglwyddo, oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol. Nid yw'r terfynau hyn yn berthnasol wrth uwchlwytho dogfennau i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau (Document Upload Centre).

21.5.1.4. Dylai llinell pwnc y neges e-bost gynnwys y manylion canlynol: (a) rhif yr achos (ar ôl ei gychwyn); (b) enw'r achos (fersiwn ddealladwy fyrraf); (c) dyddiad y gwrandawriad (unwaith y bydd wedi'i restru); a (ch) enw'r barnwr (os yw'n hysbys).

21.5.2. Rhaid ffeilio e-fwndeli cais sy'n ymwneud â cheisiadau am ystyriaeth frys fel y nodir ym [mharagraff 17.5.4](#) yn y Canllaw hwn.

21.5.3. **Dim ond** y cyfeiriadau a nodir uchod neu gyfeiriad e-bost arall a gafwyd gan y Llys y dylai partïon a'u cynrychiolwyr cyfreithiol eu defnyddio. Os anfonir yr un ddogfen i sawl cyfeiriad e-bost mae perygl y bydd yn cael ei hanwybyddu neu ei gadael heb ei darllen.

21.5.4. Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain nad oes ganddynt fynediad at gyfrif e-bost gysylltu ag ACO dros y ffôn (**i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn unig**) fel y gellir gwneud trefniadau amgen os caniateir hynny gan yr Uwch Reolwyr Cyfreithiol neu farnwr. Defnyddiwch y rhifau ffôn canlynol:

Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Llundain: 020 7947 6158.

Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Birmingham: 0121 681 4441.

Ar gyfer achosion yng Nghymru neu Gylchdaith Gorllewin Lloegr: 02920 376460.

Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys yn Leeds: 0113 306 2578.

Ar gyfer achosion yn yr Uchel Lys ym Manceinion: 0161 240 5313.

- 21.5.5. I gael mwy o wybodaeth am ffeilio electronig a thalu ffioedd gweler [Y Llys Gweinyddol: Gwybodaeth i Ddefnyddwyr y Llys, 27 Mehefin 2022](#) ([Atodiad 7](#) i'r Canllaw hwn).

21.6. Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain

- 21.6.1. Y rheol gyffredinol yw bod rhaid i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain gydymffurfio â'r gofynion sydd yn y Canllaw hwn. Os nad yw'n bosibl i ymglyfreithiwr drosto'i hun gydymffurfio â'r rheolau ar fwndeli electronig, rhaid rhoi esboniad byr i'r Llys o'r rhesymau dros hyn gymaint ymlaen llaw ag y bo modd cyn dyddiad y gwrandawriad. Lle bo hynny'n bosibl, dylid adnabod ffordd ymarferol o oresgyn y broblem. Pan mai'r ymglyfreithiwr drosto'i hun yw'r hawlydd neu'r ceisydd a bod gan barti arall gynrychiolaeth gyfreithiol, dylai cynrychiolwyr cyfreithiol y parti hwnnw ystyried cynnig paratoi'r e-fwndel.

21.7. Sancsiynau am beidio â chydymffurfio

- 21.7.1. Os nad yw bwndel y gwrandawriad neu fwndel y cais yn cydymffurfio â'r canllaw hwn, neu os caiff ei gyflwyno'n hwyr, gall y Llys wrthod gadael i'r esgeuluswr ddibynnu ar y bwndel; neu gallai wneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y parti a fu'n esgeulus (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn).

22. Awdurdodau

22.1. Cyffredinol

- 22.1.1. Awdurdodau yw'r ffynonellau y mae'r Llys yn dibynnu arnynt i adnabod, dehongli a chymhwyso'r gyfraith. Maent yn cynnwys darpariaethau deddfwriaethol, adroddiadau neu drawsgrifiadau o achosion y penderfynwyd arnynt, deunyddiau cyfreithiol rhyngwladol, detholiadau o werslyfrau cyfreithiol ac erthyglau cyfnodolion cyfreithiol.
- 22.1.2. Mae bwndel awdurdod yn set wedi'i fynegeo o'r awdurdodau y mae'r partïon yn ystyried y bydd angen i'r Llys eu darllen mewn gwrandawriad penodol. Dylai gynnwys dim ond yr awdurdodau hynny y mae'n angenrheidiol cyfeirio atynt i benderfynu yn deg ar y materion yn y gwrandawriad. Nid oes angen iddo gynnwys pob awdurdod y cyfeirir ato yn y datganiadau achos neu'r dadleuon fframwaith. Ni ddylai gynnwys awdurdodau ar gyfer cynigion nad oes anghydfod yn eu cylch. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes angen cyfeirio at fwy na 10 awdurdod. Mewn rhai achosion, bydd angen llai na hynny (neu ddim o gwbl).
- 22.1.3. Pan gyfeirir at nifer fawr o awdurdodau, mae'n well cytuno ar fwndel craidd o awdurdodau, nad yw'n fwy na 10 awdurdod.
- 22.1.4. Pan fydd achos y penderfynwyd arno yn cael ei adrodd mewn set o adroddiadau cyfraith, dylid defnyddio'r adroddiad (yn hytrach na thrawsgrifiad o'r dyfarniad). Pan fydd achos yn cael ei riportio yn yr Adroddiadau Cyfraith Swyddogol (AC, QB, Ch, Fam), dylid defnyddio'r fersiwn honno yn hytrach nag unrhyw fersiwn arall.³⁷⁸ Dylai copïau o awdurdodau yr adroddwyd amdanynt sydd wedi'u hargraffu o wefannau neu gronfeydd data fod yn yr un fformat â'r fersiwn copi caled argraffedig o'r adroddiad lle bo hynny'n bosibl.

22.2. Gwrandawiadau sylfaenol

- 22.2.1. Ar gyfer gwrandawiadau sylfaenol, mae'n ofynnol i'r partïon gyflwyno'r bwndel awdurdod cytunedig dim llai na 7 diwrnod cyn dyddiad y gwrandawriad neu'r dyddiad rhybudd. Ar gyfer achosion yn y Llys Adrannol, bydd angen un set copi caled o'r bwndel ar gyfer pob barnwr sy'n gwrandao ar yr achos.³⁷⁹ Os yw un parti o'r farn y dylid cynnwys awdurdod, yna yn gyffredinol dylid ei gynnwys.
- 22.2.2. Efallai bod rhai o'r awdurdodau y mae'n angenrheidiol i'r Llys eu gweld yn y gwrandawriad eisoes wedi'u ffeilio yn y Llys gyda'r Ffurflen Hawlio, y Cydnabyddiad Cyflwyno neu'r Seiliau Manwl.

³⁷⁸ [Cyfarwyddyd Ymarfer - Enwi Awdurdodau \[2012\] 1 WLR 780.](#)

³⁷⁹ [CPR 54A PD paragraff 15.5](#)

Dylid dal gynnwys y rhain yn y bwndel awdurdod, gan na fydd gan y Llys o reidrwydd y bwndeli a ffeiliwyd yn gynharach o'i flaen.

22.3. Gwrandawiadau Eraill

- 22.3.1. Ar gyfer gwrandawiadau eraill (gan gynnwys gwrandawiadau caniatâd llafar, gwrandawiadau rhyddhad interim a gwrandawiadau eraill yng nghwrs achos), efallai na fydd cyfarwyddiadau ynghylch bwndeli. Er hynny, rhaid dal paratoi bwndeli awdurdod os bydd angen i'r Llys weld awdurdodau. Dylai'r bwndeli gael eu cytuno yn yr un modd ag ar gyfer gwrandawiadau sylfaenol (gweler [paragraff 22.2](#) yn y Canllaw hwn).
- 22.3.2. Fel gyda'r bwndeli cais, rhaid ffeilio bwndeli awdurdodau yn y Llys a'u cyflwyno ar y partïon eraill mewn da bryd cyn y gwrandawiad.
- 22.3.3. Mae hyn yn golygu bod rhaid ffeilio'r bwndeli awdurdodau o leiaf 3 diwrnod clir cyn y gwrandawiad neu, gydag achosion brys lle byddai gwneud hyn yn amhosibl, erbyn fan bellaf 1pm y diwrnod cyn y gwrandawiad.

22.4. Fformat bwndeli awdurdodau

- 22.4.1. Pryd bynnag y mae eu hangen, dylid darparu bwndeli awdurdodau yn electronig ac ar ffurf copi caled, yn amodol ar unrhyw orchymyn i'r gwrthwyneb.
- 22.4.2. Dylai copïau caled o fwndeli gynnwys mynegai a bod wedi'u labelu. Rhaid i'r tudalennau fod wedi'u rhifo hefyd. Rhaid i'r dogfennau fod mewn ffeiliau modrwy neu ffeiliau lifer neu ffeiliau o fath arall a all gynnwys y dogfennau sydd ynddynt yn gyffyrddus. Rhaid i'r ffeiliau agor a chau yn iawn. Rhaid nodi cyfeirnod yr achos ac enwau'r partïon yn glir ar feingefn y bwndel. Dylid defnyddio dwy ochr dalennau o papur a dylai'r bwndel fod ar ffurf ar i fyny (nid ar draws). Rhaid i'r copïau fod yn ddarllenadwy.
- 22.4.3. Rhaid paratoi bwndeli awdurdodau electronig yn yr un ffordd â bwndeli gwrandawiadau a bwndeli cais electronig (gweler [paragraff 21.4.3](#) yn y Canllaw hwn).

22.5. Ymglyfreithwyr drostynt eu hunain

- 22.5.1. Y rheol gyffredinol yw bod rhaid i ymglyfreithwyr drostynt eu hunain gydymffurfio â'r gofynion sydd yn y Canllaw hwn. Fodd bynnag, pan mai'r ymglyfreithiwr drosto'i hun yw'r hawlydd neu'r ceisydd a bod gan barti arall gynrychiolaeth gyfreithiol, yn gyffredinol dylai cynrychiolwyr cyfreithiol y parti hwnnw baratoi'r bwndel awdurdodau.

22.6. Sanctsiynau

- 22.6.1. Os nad yw'r bwndel awdurdodau yn cydymffurfio â'r canllaw hwn, neu os caiff ei gyflwyno'n hwyr, gallai'r Llys wrthod gadael i'r esgeuluswr ddibynnu ar yr awdurdodau hynny; gallai gyfarwyddo bod y bwndel yn cael ei ddiwygio fel ei fod yn bodloni gofynion y Llys, a/neu gall wneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y parti a fu'n esgeulus (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn).

23. Tystiolaeth

23.1. Tystiolaeth tystion

- 23.1.1. Rhaid nodi teitl yr achos ar frig datganiad tyst.³⁸⁰
- 23.1.2. Yng nghornel dde uchaf y dudalen gyntaf, dylid ysgrifennu'n glir:³⁸¹
 - 23.1.2.1. enw'r parti y gwneir y datganiad ar ei ran;
 - 23.1.2.2. blaenlythrennau a chyfenw'r tyst;
 - 23.1.2.3. rhif y datganiad yng nghyswllt y tyst hwnnw;
 - 23.1.2.4. blaenlythrennau a rhif pob arddangosyn y cyfeirir ato;
 - 23.1.2.5. dyddiad cynhyrchu'r datganiad; a
 - 23.1.2.6. dyddiad unrhyw gyfieithiad.
- 23.1.3. Rhaid i ddatganiad tyst, os yw'n ymarferol, fod yng ngeiriau'r tyst ei hun a rhaid iddo bob amser gael ei ddrafftio yn iaith y tyst ei hun, wedi'i ysgrifennu yn y person cyntaf a dylai hefyd gynnwys:³⁸²
 - 23.1.3.1. enw llawn y tyst;
 - 23.1.3.2. ei gyfeiriad neu, os yw'n gwneud y datganiad yn rhinwedd ei swydd broffesiynol, busnes neu alwedigaeth arall, cyfeiriad ei leoliad gwaith, ei deitl swydd ac enw ei gwmni neu ei gyflogwr;
 - 23.1.3.3. ei alwedigaeth, neu os nad oes ganddo un, disgrifiad ohono;
 - 23.1.3.4. y ffaith ei fod yn barti i'r achos neu'n gweithio i barti (os yw hynny'n berthnasol); a
 - 23.1.3.5. sut cafodd y datganiad ei baratoi, er enghraifft, wyneb yn wyneb, dros y ffôn, a/neu trwy gyfieithydd.

³⁸⁰ [CPR 32 PD paragraff. 17.1.](#)

³⁸¹ [CPR 32 PD paragraff 17.2.](#)

³⁸² [CPR 32 PD paragraff 18.1.](#)

- 23.1.4. Rhaid i ddatganiad tyst nodi pa rai o'r datganiadau sydd ynddo sy'n seiliedig ar wybodaeth y tyst ei hun, a pha rai sy'n seiliedig ar wybodaeth gyffredin neu gred; ac o ble y cafwyd yr wybodaeth gyffredin neu gred.³⁸³ Pan fydd y sawl a wnaeth datganiad tyst yn dibynnu ar dystiolaeth a ddarparwyd gan endid corfforedig, a ffynhonnell yr wybodaeth yw swyddog neu gyflogai i'r endid hwnnw (yn hytrach na dogfennau a welwyd gan y tyst ei hun), rhaid nodi pwy yw'r unigolyn.³⁸⁴ Mae hyn hefyd yn berthnasol pan fo'r endid dan sylw yn adran y llywodraeth.³⁸⁵ Efallai na fydd cydymffurfio'n llwyr â'r gofyniad hwn yn golygu na fydd tystiolaeth yn dderbyniol, ond gall effeithio i ba raddau y gellir dibynnu arni.³⁸⁶
- 24.1.5 Dylai pob arddangosyn gael ei wirio a'i nodi gan y tyst a bod ar wahân i'r datganiad tyst.³⁸⁷ Dylai tudalennau'r datganiad fod wedi'u rhifo yn olynol a dylai hefyd gynnwys paragraffau wedi'u rhifo.³⁸⁸ Fel rheol mae'n gyfleus dilyn dilyniant cronolegol y digwyddiadau neu'r materion yr ymdriniwyd â hwy.³⁸⁹
- 23.1.6. Rhaid i ddatganiad tyst gynnwys datganiad gwirionedd fel a ganlyn:³⁹⁰
- “Credaf fod y ffeithiau a roddir yn y datganiad tyst hwn yn wir. Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.”*
- 23.1.7. Ni ddylai'r tyst lofnodi'r datganiad gwirionedd oni bai ei fod ef neu hi'n credu'n onest yng ngwirionedd y datganiadau a wneir yn y datganiad tyst. Gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unigolyn os ydyw ef neu hi, heb gredu'n onest yn ei wirionedd, yn gwneud neu'n peri i ddatganiad ffug gael ei wneud mewn dogfen sydd wedi'i dilysu gan ddatganiad gwirionedd.³⁹¹
- 23.1.8. Pur anaml y gelwir ar dyst i roi tystiolaeth lafar mewn achos adolygiad barnwrol: gweler [paragraff 11.2](#) yn y Canllaw hwn.

23.2. Tystiolaeth arbenigol

- 23.2.1. Mae'n rhaid i barti sy'n dymuno dibynnu ar dystiolaeth arbenigol gael caniatâd y llys i wneud hynny.³⁹² Ni roddir caniatâd oni bai ei fod yn rhesymol i gredu bod angen tystiolaeth arbenigol i ddatrys yr achos.³⁹³ Nid oes esemptiad rhag

³⁸³ [CPR 32 PD paragraff 18.2.](#)

³⁸⁴ [Punjab National Bank \(International\) Ltd v Techtrek India Ltd \[2020\] EWHC 539 \(Ch\)](#), [20] (Chief Master Marsh).

³⁸⁵ [Y Twrnai Cyffredinol v Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig \[2022\] EWHC 380 \(QB\)](#), [30].

³⁸⁶ [R \(Gardner\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol \[2022\] EWHC 967 \(Admin\)](#), [258].

³⁸⁷ [CPR 32 PD paragraff 18.3.](#)

³⁸⁸ [CPR 32 PD paragraff 19.1.](#)

³⁸⁹ [CPR 32 PD paragraff 19.2.](#)

³⁹⁰ [CPR 32 PD paragraff 20.2.](#)

³⁹¹ [CPR 32.14.](#)

³⁹² [CPR 35.4.](#)

³⁹³ [CPR 35.1.](#)

gorfod cydymffurfio â'r rheolau hyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Rhaid cadw at y rheolau.³⁹⁴

- 23.2.2. Mewn achos adolygiad barnwrol, swyddogaeth y Llys yw penderfynu a oedd y penderfyniad neu'r ymddygiad sy'n cael ei herio yn arfer cyfreithlon o swyddogaeth gyhoeddus, nid asesu rhinweddau'r penderfyniad neu'r ymddygiad sy'n cael ei herio. Felly anaml y mae'n angenrheidiol neu'n briodol ystyried unrhyw dystiolaeth ar wahân i'r hyn a oedd gerbron y penderfynwr a thystiolaeth am y broses a ddefnyddiwyd wrth wneud y penderfyniad - heb sôn am unrhyw dystiolaeth arbenigol.³⁹⁵
- 23.2.3. Prin iawn yw'r sefyllfaoedd lle mae tystiolaeth heblaw am y dystiolaeth a ddefnyddiodd y penderfynwr i wneud y penderfyniad sy'n cael ei herio yn dderbyniol mewn achos adolygiad barnwrol. Maent yn cynnwys (a) tystiolaeth yn dangos pa ddeunydd a oedd gerbron neu ar gael i'r penderfynwr; (b) tystiolaeth sy'n berthnasol i benderfynu ar gwestiwn o ffaith yr oedd awdurdodaeth y penderfynwr yn dibynnu arno; (c) tystiolaeth a oedd yn berthnasol wrth benderfynu a ddilynwyd y broses yn gywir; a (ch) tystiolaeth a ddibynnwyd arni i brofi honiad o ragfarn neu gamymddwyn arall ar ran y penderfynwr.³⁹⁶
- 23.2.4. Anaml y gellir derbyn tystiolaeth arbenigol nad yw o fewn y categorïau hyn. Fodd bynnag, gall fod yn dderbyniol:
- 23.2.4.1. i egluro materion technegol, lle mae dealltwriaeth o faterion o'r fath yn angenrheidiol i alluogi'r llys i ddeall y rhesymau y dibynnwyd arnynt wrth wneud y penderfyniad yng nghyd-destun herio ei resymoledd;³⁹⁷
- 23.2.4.2. lle honnir y daethpwyd i'r penderfyniad sy'n cael ei herio ar ôl dilyn proses a oedd yn cynnwys gwall technegol ddifrifol ac anadferadwy nad yw'n amlwg i berson llewg ond a all fod yn amlwg i berson sydd â'r arbenigedd technegol perthnasol;³⁹⁸ a
- 23.2.4.3. lle honnir bod proses yn annheg oherwydd methiant i ddatgelu gwybodaeth, gallai tystiolaeth arbenigol gynorthwyo wrth ddangos pwysigrwydd yr wybodaeth na ddatgelwyd, y cyflwyniadau y byddai

³⁹⁴ [R \(AB\) v Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#), [118].

³⁹⁵ [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 WLR 1649, [36]; [R \(AB\) v Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#), [117].

³⁹⁶ [R v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd ex p. Powis \[1981\] 1 WLR 584, 595](#); [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 LR 1649, [37].

³⁹⁷ [R \(Lynch\) v Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol \[2003\] EWHC 2987 \(Admin\)](#), [2004] 1 All ER 1159, [22]; [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 WLR 1649, [38].

³⁹⁸ [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 WLR 1649, [39]-[41]. Rhaid i'r gwall fod yn ddiamheuol, unwaith y bydd y mater wedi'i egluro gan yr arbenigwr. Os bydd barn arbenigwr cymwys arall yn gwrdd-ddweud yr hyn a ddywed yn nhystiolaeth yr arbenigwr, bydd y cyfiawnhad dros ei gydnabod yn peidio â bod.

wedi'u gwneud mewn ymateb i hynny ac felly, perthnasedd y methiant.³⁹⁹

23.2.5. Rhaid i hawlydd feddwl yn ofalus cyn gwneud cais am ganiatâd i ddefnyddio tystiolaeth arbenigol. Rhaid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio tystiolaeth arbenigwr, ac am gyfarwyddiadau canlyniadol priodol, cyn gynted â phosibl.⁴⁰⁰ Yn ddelfrydol, dylid gwneud hyn yn y Ffurflen Hawlio neu, os yn hwyrach, cyn gynted ag y bydd yr angen yn codi.

³⁹⁹ [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 WLR 1649, [42].

⁴⁰⁰ [R \(Cymdeithas y Gyfraith\) v Yr Arglwydd Ganghellor \[2018\] EWHC 2094 \(Admin\)](#), [2019] 1 WLR 1649, [44]; [R \(AB\) v Prif Gwnstabl Heddlu Hampshire \[2019\] EWHC 3461 \(Admin\)](#), [118].

RHAN D: DOD Â HAWLIAD I BEN

24. Dod â Hawliad i Ben

24.1. Rhagarweiniad

- 24.1.1. Gall achosion ddod i ben naill ai trwy orchymyn a wneir gan y Llys (lle mae'r achos yn cael ei benderfynu gan y Llys neu'n cael ei setlo trwy gydsyniad) neu drwy rybudd dirwyn i ben.

24.2. Y Llys yn penderfynu

- 24.2.1. Pan fydd y Llys yn gwneud penderfyniad terfynol, ac yn cynhyrchu gorchymyn Llys, bydd yr achos wedi gorffen yn y Llys Gweinyddol (yn amodol yn unig ar apêl i'r Llys Apêl (gweler [CPR Rhan 52](#) a [Phennod 26](#) yn y Canllaw hwn).
- 24.2.2. Fe wneir penderfyniad terfynol:
- 24.2.2.1. pan wrthodir cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar sail y papurau ac fe ystyrir yr hawliad yn un heb unrhyw haeddiant;
 - 24.2.2.2. pan wrthodir cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar sail y papurau a ni wnaed cais am ailystyriaeth cyn pen 7 diwrnod;
 - 24.2.2.3. pan wrthodir cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ar ôl gwrandawriad llafar;
 - 24.2.2.4. pan wrthodir yr hawliad sylfaenol; neu
 - 24.2.2.5. pan fydd yr hawliad sylfaenol yn llwyddiannus a phan wneir gorchymyn terfynol.

24.3. Dirwyn i ben

- 24.3.1. Gellir dod ag achos i ben drwy beidio â pharhau â'r hawliad, a gellir gwneud hyn ar unrhyw bwynt yn yr achos.⁴⁰¹
- 24.3.2. I ddirwyn achos i ben, mae'n rhaid i'r hawlydd ffeilio rhybudd dirwyn achos i ben (Ffurflen N279) a'i gyflwyno i'r holl bartïon.⁴⁰² Nid oes ffi yn daladwy i'r Llys am ddirwyn achos i ben.
- 24.3.3. Gall yr hawlydd beidio â pharhau â'r hawliad yng nghyswllt pob un neu rai o'r partïon.⁴⁰³

⁴⁰¹ [CPR 38.2\(1\)](#).

⁴⁰² [CPR 38.3\(1\)](#).

⁴⁰³ [CPR 38.2\(3\)](#).

- 24.3.4. Mae angen caniatâd y Llys i beidio â pharhau os yw'r hawlydd wedi cael gwaharddeb interim⁴⁰⁴ neu os gwnaeth unrhyw barti ymrwymiad i'r Llys.⁴⁰⁵ Gellir gwneud hyn drwy ffeilio rhybudd dirwyn achos i ben, gan gyfeirio at y ffaith bod angen caniatâd, a bydd ACO yn anfon yr hysbysiad ymlaen at farnwr i roi caniatâd heb wrandawriad (oni bai fod y barnwr yn gorchymyn gwrandawriad a sylwadau). Mewn achosion eraill, nid oes angen caniatâd.
- 24.3.5. Daw'r rhybudd dirwyn i ben i rym ar y dyddiad y cyflwynir y rhybudd dirwyn achos i ben i'r diffynnydd neu'r diffynyddion.⁴⁰⁶
- 24.3.6. Drwy ffeilio rhybudd dirwyn achos i ben, mae'r hawlydd yn derbyn ei fod ef neu hi yn atebol am gostau'r diffynnydd hyd at y dyddiad hwnnw⁴⁰⁷ (oni bai fod y partïon wedi cytuno ar orchymyn costau gwahanol) a chymerir y bydd gorchymyn costau wedi cael ei wneud ar y sail arferol⁴⁰⁸ (gweler [paragraff 25.2.3](#) yn y Canllaw hwn). Gall yr hawlydd wneud cais i wrthdroi'r rheol gyffredinol ei fod ef neu ei bod hi yn atebol am gostau. Rhaid i gais o'r fath ddangos rheswm da am ymadael o'r rheol gyffredinol. Gall rheswm da fodoli os yw'r diffynnydd wedi ymddwyn yn afresymol. Rhaid gwneud unrhyw gais o'r fath yn unol â'r weithdrefn ceisiadau interim (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).

24.4. Gorchmynion cydsynio ac achosion diwrthwynebiad

- 24.4.1. Os bydd y partïon yn cytuno i ddod â hawliad i ben, rhaid iddynt gael sêl bendith y Llys. Rhaid i'r partïon ffeilio 3 chopi o orchymyn drafft a gytunwyd gydag ACO, ynghyd â (a) datganiad byr o'r materion y dibynnir arnynt fel rhai sy'n cyfiawnhau'r gorchymyn cytunedig arfaethedig, a (b) copïau o unrhyw awdurdodau neu ddarpariaethau a ddibynnwyd arnynt. Rhaid i'r holl bartïon (gan gynnwys y partïon â budd) lofnodi'r gorchymyn drafft a'r datganiad a gytunwyd arno. Rhaid hefyd talu'r ffi berthnasol.⁴⁰⁹ Dim ond os yw'n fodlon y dylid gwneud y gorchymyn y bydd y Llys yn cymeradwyo'r gorchymyn; fel arall efallai y trefnir dyddiad ar gyfer gwrandawriad. Mae'r egwyddor cyfiawnder agored yn berthnasol i benderfyniadau a wneir ar sail y papurau ac efallai y bydd rhaid i'r Llys ystyried y cwestiwn p'un a ddylid caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad at y dogfennau.⁴¹⁰
- 24.4.2. Gall telerau'r gorchymyn gynnwys unrhyw beth y mae'r partïon eisiau i'r Llys ei gymeradwyo, ond fel arfer bydd yn cynnwys y canlynol:

⁴⁰⁴ [CPR 38.2\(2\)\(i\)](#).

⁴⁰⁵ [CPR 38.2\(2\)\(ii\)](#).

⁴⁰⁶ [CPR 38.5\(1\)](#).

⁴⁰⁷ [CPR 38.6\(1\)](#).

⁴⁰⁸ [CPR 44.9\(1\)\(c\)](#).

⁴⁰⁹ [CPR 54A PD paragraff 16](#). Gweler [Atodiad 2](#) i'r Canllaw hwn am ragor o wybodaeth ynghylch y ffi.

⁴¹⁰ Gweler [UXA v Merseycare NHS Foundation Trust \[2021\] EWHC 3455, \[2022\] 4 WLR 30](#).

- 24.4.2.1. arwydd (yn aml ym mhennawd y gorchymyn ac yn y cronicladau) y gwneir y gorchymyn “Drwy Gydsyniad”;⁴¹¹
- 24.4.2.2. llofnod cynrychiolydd cyfreithiol pob parti yn yr hawliad, neu y parti ei hun pan fydd ef neu hi yn ymgysylltu drosto'i hun;⁴¹²
- 24.4.2.3. pan fydd y gorchymyn yn penderfynu'r hawliad yn derfynol, y rheswm (e.e. mae'r hawliad wedi cael ei dynnu'n ôl neu mae'r penderfyniad a heriwyd wedi cael ei ddiddymu).
- 24.4.3. Pan fydd yr hawliad wedi'i dynnu'n ôl, bydd y penderfyniad a heriwyd yn parhau i fodoli (oni bai fod y diffynnydd wedi tynnu'r penderfyniad yn ôl yn wirfoddol gan olygu felly nad oes angen i'r hawlydd gael rhyddhad gan y Llys). Pan fydd y penderfyniad wedi'i ddiddymu, ni fydd unrhyw effaith gyfreithiol i hyn.
- 24.4.4. Dylai'r gorchymyn cydsynio ddarparu ar gyfer penderfynu costau, neu fel arall fe wneir gorchymyn costau tybiedig (gweler [paragraff 25.8](#) yn y Canllaw hwn ar orchmynion tybiedig). Gwneir hyn fel arfer mewn un o 3 ffordd:
 - 24.4.4.1. drwy ddarparu ar gyfer talu swm penodol cytunedig rhwng y partïon;
 - 24.4.4.2. drwy ganiatáu i'r partïon gytuno ar swm y costau ar ôl penderfynu'n derfynol ar y gorchymyn cydsynio, gyda'r opsiwn o wneud cais am asesiad manwl o'r costau. Er enghraifft: yr hawlydd i dalu costau rhesymol y diffynnydd, ac asesiad manwl i gael ei wneud os oes anghytundeb (gweler [paragraff 25.3.4](#) yn y Canllaw hwn ar asesiad manwl);
 - 24.4.4.3. drwy ddarparu ar gyfer asesiad diannod o'r costau ar sail y papurau. Dylai darpariaeth o'r fath ddilyn Canllawiau Costau ACO.
 - 24.4.4.4. pan fo'r cytundeb yn ymwneud â gorchymyn am gostau yn unig, dim ond dogfen sydd wedi'i llofnodi gan yr holl bartïon sy'n nodi telerau'r gorchymyn arfaethedig (mae ffi yn daladwy) sydd angen i'r partïon ei ffeilio.

24.5. Setliadau ar ran plant a phartïon a warchodir

- 24.5.1. Pan wneir hawliad gan neu ar ran, neu yn erbyn, plentyn neu barti a warchodir⁴¹³ ni fydd unrhyw setliad, cyfaddawd na thaliad yn ddilys, ac ni fydd derbyn unrhyw arian a delir i'r Llys yn ddilys, heb gymeradwyaeth y Llys.⁴¹⁴
- 24.5.2. I gael cymeradwyaeth y Llys, rhaid gwneud cais yn unol â'r weithdrefn a ddisgrifir ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn.

⁴¹¹ [CPR 40.6\(7\)\(b\)](#).

⁴¹² [CPR 54A PD paragraff 16\(1\)](#). Yn hyn o beth, mae “parti” yn cynnwys parti â budd.

⁴¹³ [CPR 21.1](#).

⁴¹⁴ [CPR 21.10](#).

24.6. Pwyntiau ymarfer eraill

- 24.6.1. Mae gan y partïon ddyletswydd i hysbysu'r Llys os ydynt yn credu bod achos yn debygol o gael ei setlo, cyn gynted â'u bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd hwn.⁴¹⁵ Bydd yr wybodaeth hon yn caniatáu i farnwyr a staff ddyrannu amser paratoi ac amser gwrandawriad yn unol â hynny. Gallai methu â gwneud hyn olygu bod y Llys yn gwneud gorchymyn costau niweidiol yn erbyn y partïon (gweler [paragraff 25.1](#) yn y Canllaw hwn ar gostau).
- 24.6.2. Pan fydd achos yn cael ei gau gan ACO, gellir lleihau maint (neu "docio") y ffeil yn syth ar gyfer ei storio. Bydd manylion yr hawliad a datganiadau tystion yn aros ar y ffeil a gaewyd ond bydd eitemau arddangos, tystiolaeth ysgrifenedig ac awdurdodau'n cael eu dinistrio. Bydd y ffeil a dociwyd yn cael ei chadw am 3 blynedd ar ôl cau'r achos. Bydd wedyn yn cael ei dinistrio.

⁴¹⁵ [Yell Ltd v Garton \[2004\] EWCA Civ 87](#), [6].

25. Costau

25.1. Atebolrwydd am gostau

- 25.1.1. Mae gan y Llys ddisgresiwn i orchymyn bod un parti yn talu costau cyfreithiol parti arall.⁴¹⁶ Mae'r disgresiwn yn cael ei lywodraethu gan [CPR Rhan 44](#).
- 25.1.2. Pan fo'r Llys yn penderfynu gwneud gorchymyn costau, y rheol gyffredinol yw mai'r parti aflwyddiannus fydd yn cael gorchymyn i dalu costau'r parti llwyddiannus.⁴¹⁷
- 25.1.3. Wrth benderfynu p'un a ddylid gwneud gorchymyn gwahanol, rhaid i'r Llys ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys ymddygiad y partïon.
- 25.1.4. Mae ymddygiad y partïon yn cynnwys (ond heb ei gyfyngu i):⁴¹⁸
 - 25.1.4.1. ymddygiad cyn yn ogystal ag yn ystod yr achos, ac yn enwedig i ba raddau y dilynodd y partïon y Protocol Cyn-achos (gweler [paragraff 6.2](#) yn y Canllaw hwn);
 - 25.1.4.2. a oedd yn rhesymol i'r parti godi, herio neu fwrw ymlaen â honiad neu fater penodol;
 - 25.1.4.3. sut mae'r parti wedi amddiffyn neu fwrw ymlaen â'i achos neu honiad neu fater penodol; a
 - 25.1.4.4. p'un a yw hawlydd sydd wedi llwyddo yn yr hawliad, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, wedi gorliwio eu hawliad.
- 25.1.5. Os bydd parti wedi methu â chydymffurfio â gorchymynion y Llys neu â rheolau gweithdrefnol eraill (fel y rhai a ddisgrifir yn y Canllaw hwn), gall y Llys:
 - 25.1.5.1. mew'n achos pan fo'r parti a wnaeth fethu â chydymffurfio yw'r parti llwyddiannus, lleihau faint o gostau y byddai ganddo ef neu ganddi hi hawl iddo fel arfer; a

⁴¹⁶ [a.51\(1\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) a [CPR 44.2\(1\)](#).

⁴¹⁷ [CPR 44.2\(2\)\(a\)](#) a [R \(M\) v Cyngor Bwrdesitref Croydon, Llundain \[2012\] EWCA Civ 595](#), [58]-[65]. Nid yw'r ffaith bod un parti yn cael ei ariannu gan arian cyhoeddus "o angenrheidrwydd yn amherthnasol" wrth ystyried arfer disgresiwn ar y costau: [ZN \(Affganistan\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2018\] EWCA Civ 1059](#), [91]-[92] a [106].

⁴¹⁸ [CPR 44.2\(5\)](#).

25.1.5.2. mewn achos pan fo'r parti a wnaeth fethu â chydymffurfio yw'r parti aflwyddiannus, mynnu bod y parti hwnnw yn talu mwy na fyddai fel arall wedi'i ystyried yn rhesymol.

25.1.6. Pan fydd dim ond rhan o achos parti wedi bod yn llwyddiannus, fel arfer bydd y barnwr yn dyfarnu bod y parti aflwyddiannus yn talu costau y rhan o'r hawliad sydd wedi bod yn llwyddiannus yn unig, neu dalu dim ond canran o gostau'r parti llwyddiannus.

25.2. Costau rhesymol a sail yr asesiad

25.2.1. Ni fydd y Llys yn ei gwneud yn ofynnol i dalu costau a gyfyd yn afresymol neu sy'n afresymol o ran swm.⁴¹⁹ Wrth benderfynu a yw costau'n rhesymol, bydd y Llys yn ystyried holl amgylchiadau'r achos.⁴²⁰

25.2.2. Caiff y swm sy'n daladwy ei asesu (h.y. ei benderfynu) naill ai ar y sail asesu arferol neu ar y sail indemniad.

25.2.3. Gwneir y rhan fwyaf o orchmynion costau ar y sail asesu arferol. Pan na fydd gorchymyn Llys yn nodi ar ba sail aseswyd y costau, y rhagdybiaeth yw bod yr asesiad wedi'i wneud ar y sail arferol.⁴²¹

25.2.4. Pan fydd swm y costau wedi'i asesu ar y sail arferol, bydd y Llys ond yn caniatáu costau sy'n gymesur â'r materion cynhennus. Os oes amheuaeth a oedd costau'n rhesymol a chymesur o ran swm, bydd y Llys yn penderfynu o blaid y parti a dalodd.⁴²² Mae'r costau a gafwyd yn gymesur os oedd ganddynt berthynas resymol â:⁴²³

25.2.4.1. symiau cynhennus yr achos;

25.2.4.2. gwerth unrhyw gymorth anariannol sy'n gynhennus yn yr achos;

25.2.4.3. cymhlethdod yr ymglyfreithiad;

25.2.4.4. unrhyw waith ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i ymddygiad y parti a dalodd; ac

25.2.4.5. unrhyw ffactorau ehangach sy'n rhan o'r achos, fel enw da neu bwysigrwydd cyhoeddus.

25.2.5. Bydd y Llys yn asesu costau ar y sail indemniad mewn achosion lle mae'r parti aflwyddiannus wedi ymddwyn yn afresymol wrth ddod â'r hawliad neu wrth barhau neu amddiffyn yr hawliad, neu mewn unrhyw ffordd arall.

⁴¹⁹ [CPR 44.3\(1\)](#).

⁴²⁰ [CPR 44.4\(1\)](#).

⁴²¹ [CPR 44.3\(4\)\(a\)](#).

⁴²² [CPR 44.3\(2\)](#).

⁴²³ [CPR 44.3\(5\)](#).

- 25.2.6. Os yw swm y costau i'w asesu ar sail indemniad, bydd y Llys yn datrys unrhyw amheuaeth sydd efallai ganddo ynghylch a oedd y costau'n rhesymol, neu a oeddent yn rhesymol o ran swm, o blaid y parti sy'n derbyn y costau. Nid yw'n ofynnol i'r costau fod wedi'u cyfyd yn gymesur neu fod yn gymesur o ran swm.⁴²⁴

25.3. Asesiad diannod ac asesiad manwl

- 25.3.1. Pan fydd y Llys yn gorchymyn bod parti yn talu costau i barti arall, gall naill ai asesu'r costau hynny ei hun ar fyrder (h.y. cynnal asesiad diannod), neu orchymyn bod asesiad manwl yn cael ei wneud gan Farnwr Costau.⁴²⁵
- 25.3.2. Os nad yw'r Llys yn gwneud asesiad diannod, ac nid yw'n sôn am ddull yr asesiad mewn gorchymyn costau, rhagdybir bod y gorchymyn costau'n seiliedig ar asesiad manwl.⁴²⁶
- 25.3.3. Y rheol gyffredinol yw y dylai'r Llys wneud asesiad diannod ar ddiwedd unrhyw wrandawriad nad yw wedi para mwy nag un diwrnod, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Gall y llys benderfynu peidio â gwneud asesiad diannod os oes gan y parti sy'n talu seiliau sylweddol dros ddadlau'r swm a hawliwyd ac nad yw'r anghydfod yn addas i'w benderfynu yn ddiannod. Y costau a gwmpeisir gan yr asesiad diannod fydd costau'r cais neu'r mater yr oedd y gwrandawriad yn gysylltiedig ag ef. Os yw'r gwrandawriad yn gwaredu'r hawliad cyfan, gall y gorchymyn ddelio â chostau'r hawliad cyfan.⁴²⁷
- 25.3.4. Dyma fanylion y broses ar gyfer asesiad diannod:
- 25.3.4.1. Ar gyfer unrhyw wrandawriad a restrir i bara am ddiwrnod neu lai, rhaid i bob parti sy'n bwriadu hawlio costau ffeilio a chyflwyno datganiad costau ar y parti'on eraill. Rhaid gwneud hyn dim llai na 24 awr cyn yr amser a bennir ar gyfer y gwrandawriad (oni bai fod barnwr wedi gorchymyn amserlen wahanol).⁴²⁸
- 25.3.4.2. Dylai'r datganiad ddilyn Ffurflen N260 mor agos â phosibl a rhaid iddo gael ei lofnodi gan y parti neu gynrychiolydd cyfreithiol y parti.⁴²⁹
- 25.3.4.3. Pan fydd cais i gael ei benderfynu heb wrandawriad, dylid ffeilio a chyflwyno'r datganiad costau gyda phapurau'r cais.
- 25.3.4.4. Ni fydd y Llys yn gwneud asesiad diannod o gostau parti sy'n derbyn pan fydd yn unigolyn sy'n cael cymorth neu'n unigolyn y darperir gwasanaethau cyfreithiol sifil iddo (o fewn ystyr [Rhan 1](#)

⁴²⁴ [CPR 44.3\(3\)](#).

⁴²⁵ [CPR 44.6\(1\)](#).

⁴²⁶ [CPR 44 PD paragraff 8.2](#).

⁴²⁷ [CPR 44 PD paragraff 9.2](#).

⁴²⁸ [CPR 44 PD paragraff 9.5\(2\) a \(4\)\(b\)](#).

⁴²⁹ [CPR 44 PD paragraff 9.5\(3\)](#).

[Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012](#)) o dan drefniadau a wneir at ddibenion y Rhan honno o'r Ddeddf honno.⁴³⁰

25.3.4.5. Ni fydd y Llys yn gwneud asesiad diannod o gostau parti sy'n derbyn sy'n blentyn neu'n barti gwarchodedig o dan [CPR Rhan 21](#) oni bai bod y cynrychiolydd cyfreithiol sy'n gweithredu ar ran y plentyn neu'r parti gwarchodedig wedi ildio'r hawl i gostau pellach. Fodd bynnag, gall y Llys wneud asesiad diannod o'r costau sy'n daladwy gan blentyn neu barti gwarchodedig.⁴³¹

25.3.4.6. Oni bai fod barnwr yn gorchymyn fel arall, rhaid cydymffurfio ag unrhyw orchymyn costau o fewn 14 diwrnod i'r gorchymyn,⁴³² er gall y partion amrywio'r terfyn amser hwn a chytuno ar eu telerau talu eu hunain heb ofyn am ganiatâd y Llys.

25.3.5. Dyma fanylion y broses ar gyfer asesiad manwl:

25.3.5.1. Gallwch ddod o hyd i ganllawiau manwl ar y broses ar gyfer asesiad manwl yng Nghanol Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd, sydd ar gael ar-lein ar y wefan hon:

www.gov.uk/government/publications/senior-courts-costs-office-guide.

25.3.5.2. Pan fydd asesiad manwl wedi'i orchymyn gan y Llys Gweinyddol yn Llundain, rhaid cychwyn y cais am asesiad manwl o'r costau yn Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd yn Llundain.

25.3.5.3. Pan fydd asesiad manwl wedi'i orchymyn gan y Llys Gweinyddol sy'n eistedd y tu allan i Lundain, rhaid cychwyn y cais am asesiad manwl o'r costau yn y Gofrestrfa Ddosbarth sy'n gysylltiedig â'r swyddfa ACO berthnasol. Er enghraifft, ar gyfer hawliad am adolygiad barnwrol a benderfynwyd gan y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, dylid cychwyn yr asesiad costau manwl yn y Gofrestrfa Ddosbarth yng Nghaerdydd, ac yn y blaen. Mae yna un eithriad i hyn: os yw'n achos Cylchdaith Gorllewin Lloegr a weinyddir gan ACO yng Nghaerdydd, ond a wrandewir yng Nghylchdaith Gorllewin Lloegr, rhaid ffeilio unrhyw asesiad costau manwl yn y Gofrestrfa Ddosbarth ym Mryste.

25.3.5.4. Dylid nodi nad yw achosion asesiad manwl yn achosion Llys Gweinyddol ac y bydd rhif achos newydd yn cael ei ddyrannu i'r achos. Ni fydd gan ACO unrhyw ran bellach yn yr achos.

⁴³⁰ [CPR 44 PD paragraff 9.8.](#)

⁴³¹ [CPR 44 PD paragraff 9.9.](#)

⁴³² [CPR 44.7\(1\).](#)

25.4. Gorchmynion costau ar y cam caniatâd

- 25.4.1. Os rhoddir caniatâd, naill ai ar sail y papurau neu mewn gwrandawriad llafar, costau'r hawlydd fydd "costau'r achos" (oni bai bod y llys yn gwneud gorchymyn gwahanol). Mae hyn yn golygu y bydd gallu hawlydd i adfer costau'r cais am ganiatâd yn dibynnu ar ganlyniad y gwrandawriad sylfaenol.
- 25.4.2. Os yw diffynnydd neu barti â budd yn dymuno gwneud cais i adennill y costau a gafwyd wrth ymateb i'r cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, yna dylid cynnwys y cais yn y Cydnabyddiad Cyflwyno, a dylai gynnwys manylion y swm a hawlir (wedi'i gyfyngu i'r costau a gafwyd wrth baratoi'r Cydnabyddiad Cyflwyno a Seiliau Cryno'r Amddiffyniad).⁴³³ Os gwrthodir rhoi caniatâd ar sail y papurau, bydd y barnwr yn penderfynu a ddylid dyfarnu costau, ac os felly, fel rheol bydd yn gwneud asesiad diannod. Hwn fydd y gorchymyn terfynol oni bai bod yr hawlydd yn cyflwyno sylwadau ar sail y cyfarwyddiadau a gynhwysir yng ngorchymyn y barnwr.⁴³⁴
- 25.4.3. Os yw'r partïon yn ffeilio sylwadau ar y costau y tu allan i'r amser a ganiateir gan y barnwr (14 diwrnod fel arfer) rhaid iddynt wneud cais am estyniad amser i ffeilio'r sylwadau yn unol â'r weithdrefn ym [mharagraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn.
- 25.4.4. Os yw'r hawlydd hefyd yn gofyn i'r penderfyniad i wrthod caniatâd gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar, bydd modd ystyried unrhyw wrthwynebiad i gostau a orchmynnwyd yn flaenorol yn y gwrandawriad atgynhyrchu. Gall y Llys naill ai gadarnhau neu amrywio'r gorchymyn costau blaenorol.
- 25.4.5. Os gwrthodir caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol mewn gwrandawriad, mae yna egwyddorion ychwanegol y bydd y Llys fel rheol yn eu dilyn:⁴³⁵
- 25.4.5.1. Bydd diffynnydd neu barti arall a fu'n llwyddiannus ar y cam caniatâd, ac a ffeiliodd Gydnabyddiad Cyflwyno, fel arfer yn gallu adennill eu costau gan yr hawlydd, p'un ai a wnaeth ef neu hi fynychu unrhyw wrandawriad caniatâd ai peidio.
- 25.4.5.2. Ni fydd diffynnydd neu barti arall sy'n mynychu ac yn gwrthwynebu rhoi caniatâd yn llwyddiannus mewn gwrandawriad atgynhyrchu, fel arfer yn adennill ei gostau mynychu'r gwrandawriad gan yr hawlydd.⁴³⁶
- 25.4.5.3. Wrth ystyried dyfarnu costau yn erbyn hawlydd aflwyddiannus mewn gwrandawriad caniatâd, dylai'r Llys ond wyro oddi wrth yr egwyddorion cyffredinol uchod os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol dros wneud hynny.

⁴³³ [R \(Ewing\) v Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog \[2005\] EWCA Civ 1583](#), [2006] 1 WLR 1260, [47].

⁴³⁴ [R \(Jones\) v Cyngor Dinas Nottingham \[2009\] EWHC 271 \(Admin\)](#).

⁴³⁵ [R \(Mount Cook Ltd\) v Cyngor Dinas San Steffan \[2003\] EWCA Civ 1346](#), [2004] CP Rep 12, [76].

⁴³⁶ [CPR 54A PD paragraff 7.5](#).

- 25.4.5.4. Dylid caniatáu llawer o ddisgresiwn i Lys sy'n ystyried costau yn y cam caniatâd o ran a oes, ar sail ffeithiau'r achos, amgylchiadau eithriadol dros gyfiawnhau dyfarnu costau yn erbyn hawlydd aflwyddiannus.
- 25.4.5.5. Gall amgylchiadau eithriadol fodoli pan fo un neu fwy o'r nodweddion yn y rhestr ganlynol, nad yw'n gynhwysfawr, yn bresennol: (a) nid oedd gobaith i'r hawliad; (b) roedd yr hawlydd wedi dal ati gyda'r hawliad ar ôl cael gwybod am ffeithiau a / neu gyfraith yn dangos nad oedd gobaith i'r hawliad; (c) i ba raddau y mae'r Llys yn ystyried bod yr hawlydd, wrth fwrw ymlaen â'i gais, wedi ceisio camddefnyddio'r broses ar gyfer adolygiad barnwrol; (ch) yn dilyn defnyddio dadleuon llawn a thystiolaeth ddogfennol gan y ddwy ochr yn y gwrandawriad, a oedd gan yr hawlydd aflwyddiannus mewn gwirionedd fantais yn dilyn cynnal gwrandawriad sylfaenol cynnar o'r hawliad; (d) a oes gan yr hawlydd aflwyddiannus adnoddau sylweddol a ddefnyddiodd i fwrw ymlaen â'r hawliad di-sail ac sydd ar gael i dalu gorchymyn costau; (dd) a wrthodwyd caniatâd mewn gwrandawriad treigl, ac os felly gellir dyfarnu costau i'r diffynnydd oedd wedi paratoi ar gyfer gwrandawriad sylfaenol.

25.5. Costau ar ôl i hawliad gael ei setlo

- 25.5.1. Pan fydd achos wedi'i setlo, dylai'r partïon geisio cytuno ar gostau drwy negodi'n rhesymol, gan ystyried y prif amcan a swm y costau perthnasol. Dim ond os na allant gytuno y dylent wneud cais i'r Llys am orchymyn.
- 25.5.2. Wrth drafod y costau, dylai'r partïon gofio efallai y bydd y Llys eisoes wedi penderfynu ar fater costau'r cais am ganiatâd. Pan fydd y penderfyniad hwn yn orchymyn terfynol (gweler [paragraff 24.4.2](#) yn y Canllaw hwn), ni ddylid gofyn i'r Llys ailedrych ar y penderfyniad mewn unrhyw gyflwyniadau perthnasol ar gostau.
- 25.5.3. Pan fydd hawliad wedi'i setlo (gweler [paragraff 24.4](#) ond nad yw'r partïon wedi gallu cytuno ar gostau, dylai'r partïon ddilyn [Canllawiau Costau ACO dyddiedig Ebrill 2016](#).
- 25.5.4. Bydd y Llys yn ystyried pa orchymyn costau i'w wneud ar sail yr egwyddorion yn [M v Cyngor Bwrdeistref Croydon, Llundain \[2012\] EWCA Civ 595](#), [2012] 1 WLR 2607 a [R \(Tesfay\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2016\] EWCA Civ 415](#), [2016] 1 WLR 4853.

25.6. Partïon â budd a chostau

- 25.6.1. Mewn achosion lle mae'r hawlydd yn aflwyddiannus ar y cam sylfaenol, yn gyffredinol ni fydd y Llys yn gorchymyn i hawlydd aflwyddiannus dalu dwy set o gostau. Fodd bynnag, gall wneud hynny pan fydd gan y diffynnydd a'r parti â budd wahanol fuddiannau sy'n gofyn am gynrychiolaeth ar wahân.⁴³⁷ Os yw'r hawlydd yn gweithredu er budd y cyhoedd yn hytrach nag er budd

⁴³⁷ Bolton MDC v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd [1995] 1 WLR 1176.

personol, yna mae'n llai tebygol y bydd y Llys yn gorchymyn talu'r ail set o gostau.⁴³⁸

- 25.6.2. Fodd bynnag gall, ac yn aml iawn mae'r Llys yn gorchymyn bod hawlydd aflwyddiannus yn talu dwy set o gostau ar gyfer paratoi Cydnabyddiadau Cyflwyno yn y cam caniatâd.⁴³⁹

25.7. Gorchmynion costau o blaid ac yn erbyn ymyrrwyr

- 25.7.1. Gall unigolyn wneud cais i ffeilio tystiolaeth neu wneud sylwadau mewn gwrandawriad⁴⁴⁰ (gweler [paragraff 3.2.4](#) yn y Canllaw hwn). Fel arfer, gelwir unigolyn o'r fath yn ymyrrwr ac mae yna reolau penodol ar hawliau ymyrrwr i adennill eu costau neu gael eu gorchymyn i dalu costau neu beidio, a grynhoir isod.⁴⁴¹
- 25.7.2. Ni ellir gorchymyn bod hawlydd neu ddiffynnydd mewn achos adolygiad barnwrol sylfaenol neu achos caniatâd am adolygiad barnwrol,⁴⁴² yn talu costau ymyrrwr⁴⁴³ oni bai fod amgylchiadau eithriadol sy'n gwneud gorchymyn costau o'r fath yn briodol.⁴⁴⁴
- 25.7.3. Mae [Adran 87 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#) yn nodi'r amodau pan fydd rhaid i'r Llys orchymyn bod yr ymyrrwr yn talu unrhyw gostau a nodir mewn cais gan hawlydd neu ddiffynnydd a gafodd eu hachosi o ganlyniad i ran yr ymyrrwr yn y rhan hwnnw o'r achos. Mae hyn yn berthnasol pan fydd:⁴⁴⁵
- 25.7.3.1. yr ymyrrwr wedi gweithredu, yn y bôn, fel yr unig neu'r prif geisydd neu ddiffynnydd; neu
 - 25.7.3.2. nid yw tystiolaeth a sylwadau'r ymyrrwr, gyda'i gilydd, wedi bod o gymorth mawr i'r Llys; neu
 - 25.7.3.3. mae rhan helaeth o dystiolaeth a sylwadau'r ymyrrwr yn ymwneud â materion nad oes angen i'r Llys eu hystyried i ddatrys y materion sydd gerbron yn y cam hwnnw yn yr achos; neu
 - 25.7.3.4. mae'r ymyrrwr wedi ymddwyn yn afresymol.

⁴³⁸ R (John Smeaton ar ran Cymdeithas Amddiffyn Plant heb eu Geni) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd [2002] EWHC 886 (Admin), [32]-[42]. Gweler hefyd [Campaign to Protect Rural England \(Kent Branch\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol](#) [2019] EWCA Civ 1230.

⁴³⁹ [R \(Cyngor Bwrdeistref Luton\) v Cyngor Canol Swydd Bedford](#) [2014] EWHC 4325 (Admin), [221] – [226].

⁴⁴⁰ [CPR 54.17](#).

⁴⁴¹ [a.87 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

⁴⁴² [a.87\(9\) a \(10\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

⁴⁴³ [a.87\(3\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

⁴⁴⁴ [a.87\(4\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

⁴⁴⁵ [a.87\(5\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

- 25.7.4. Os yw'r ymyrrwr yn dod yn barti, ni fydd y darpariaethau costau uchod mwyach yn berthnasol a chymerir nad oeddent erioed yn berthnasol.⁴⁴⁶

25.8. Gorchmynion nad ydynt yn sôn am gostau

- 25.8.1. Os nad yw gorchymyn a wnaed gan y Llys Gweinyddol yn sôn am gostau:
- 25.8.1.1. gan amlaf, cymerir nad yw'r Llys wedi gwneud gorchymyn costau;⁴⁴⁷ ond
- 25.8.1.2. yn achos gorchymyn yn rhoi caniatâd i apelio, gorchymyn yn rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, neu unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd arall y gofynnir amdano gan barti mewn cais heb rybudd, cymerir ei fod yn cynnwys gorchymyn bod costau'r ceisydd yn rhan o'r achos (h.y. byddant yn dibynnu ar ganlyniad yr hawliad).⁴⁴⁸
- 25.8.2. Gall unrhyw barti wneud cais i amrywio gorchymyn costau tybiedig yn unol â [paragraff 25.8.1.2](#) (ond nid [paragraff 25.8.1.1](#)) yn y Canllaw hwn.⁴⁴⁹ Rhaid gwneud gorchymyn o'r fath yn unol â'r weithdrefn gorchmynion interim (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).

25.9. Ceisiadau i roi gorchmynion costau o'r neilltu

- 25.9.1. Ar wahân i orchmynion costau tybiedig (gweler [paragraff 25.8](#) uchod) mae unrhyw orchymyn costau lle cafodd y partïon gyfle i wneud sylwadau cyn gwneud y gorchymyn, os cafodd ei wneud ar sail y papurau neu mewn gwrandawriad llafar, yn orchymyn costau terfynol.⁴⁵⁰ Ni all y Llys Gweinyddol ei roi o'r neilltu nac ailystyried y gorchymyn mewn gwrandawriad. Os caiff ei herio, rhaid apelio yn erbyn y gorchymyn (gweler [Pennod 26](#) yn y Canllaw hwn).

25.10. Gorchmynion costau pan fydd y parti sy'n talu yn cael Cymorth Cyfreithiol

- 25.10.1. Gellir gwneud gorchmynion costau yn erbyn unigolion sy'n cael cymorth cyfreithiol (yn unol â'r egwyddorion a drafodir yn gynharach yn y rhan hon o'r Canllaw). Pan fydd y Llys yn gwneud gorchymyn o'r fath, bydd yn gorchymyn bod yr unigolyn sy'n cael cymorth cyfreithiol yn talu costau'r parti sy'n gofyn, a gall y Llys bennu faint sydd i'w dalu, ond bydd y Llys yn nodi bod gan yr unigolyn sy'n cael cymorth cyfreithiol warchodaeth costau yn unol ag [a. 26 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012](#).
- 25.10.2. Mae gwarchodaeth costau yn golygu nad yw'r unigolyn sy'n cael cymorth cyfreithiol yn atebol am y costau yn awtomatig. Os yw'r unigolyn y dyfarnwyd costau iddo yn dymuno i'r unigolyn sy'n cael cymorth cyfreithiol dalu'r costau

⁴⁴⁶ [a.87\(11\) Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd 2015](#).

⁴⁴⁷ [CPR 44.10\(1\)\(a\)\(i\)](#).

⁴⁴⁸ [CPR 44.10\(2\)](#).

⁴⁴⁹ [CPR 44.10\(3\)](#).

⁴⁵⁰ [R \(Jones\) v Cyngor Dinas Nottingham \[2009\] EWHC 271 \(Admin\)](#), [2009] ACD 42; [R \(Bahta\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2011\] EWCA Civ 895](#), [2011] CP Rep 43.

hynny, rhaid iddo/i wneud cais am orchymyn gan Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd neu, lle gwnaed y gorchymyn costau gan Lys Gweinyddol y tu allan i Lundain, i'r Gofrestrfa Ddosbarth gysylltiedig berthnasol.

25.11. Gorchmynion bod costau i'w talu o Gronfeydd Canolog (achosion troseddol yn unig)

- 25.11.1. Pan fydd hawliad adolygiad barnwrol yn ymwneud ag achos neu fater troseddol yn llwyddiannus, ac yr oedd yr hawlydd yn ddiffynnydd mewn llys troseddol, gall Llys Adrannol wneud gorchymyn costau a fydd yn cael ei dalu allan o gronfeydd canolog. Mewn achos trosedd diannod sydd gerbron Llys Adrannol, gall y llys orchymyn bod swm y mae'n ystyried i fod yn rhesymol ddigonol yn cael ei dalu o gronfeydd canolog i ddigolledu erlynydd preifat am unrhyw wariant a gafwyd yn ystod yr achos.⁴⁵¹ Pan wneir gorchymyn o'r fath, boed hynny o blaid diffynnydd neu erlynydd preifat, telir y swm gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- 25.11.2. Bydd y gorchymyn costau am swm y mae'r Llys yn ystyried i fod yn rhesymol ddigonol i ddigolledu am unrhyw wariant a gafwyd yn yr achos, oni bai bod y Llys yn credu bod amgylchiadau lle na fyddai'n briodol i'r ceisydd adennill y swm cyfan, ac felly gallai'r Llys orchymyn talu swm llai sydd, ym marn y Llys, yn gyfiawn a rhesymol.
- 25.11.3. Nid oes raid i'r gorchymyn costau ofyn i swm sy'n cynnwys costau cyfreithiol gael ei dalu allan o'r cronfeydd canolog, oni bai y cafwyd y costau hynny mewn achos mewn Llys is (Llys Ynadon neu Lys y Goron ar apel yn erbyn euogfarn neu ddedfryd).⁴⁵²
- 25.11.4. Nid oes gan un barnwr bŵer i orchymyn talu costau allan o'r cronfeydd canolog. Pan fydd hawlydd yn gofyn am orchymyn i dalu costau allan o'r cronfeydd canolog pan fydd yn ymddangos gerbron un barnwr, bydd y barnwr yn gohirio'r mater i'w ystyried ar sail y papurau gan Lys Adrannol, yn cynnwys y barnwr a fu'n gwrandao'r achos, a barnwr arall.
- 25.11.5. Wrth wneud y gorchymyn costau, bydd y Llys yn nodi yn y gorchymyn pa swm sydd i'w dalu allan o'r cronfeydd canolog os yw'n ystyried y byddai'n briodol gwneud hynny.⁴⁵³ Os nad yw'r Llys yn nodi swm penodol yn y gorchymyn i'w dalu allan o'r cronfeydd canolog, rhaid disgrifio yn y gorchymyn unrhyw leihad y gofynnir amdano a rhaid penderfynu'r swm ar sail penderfyniad i'w wneud gan neu ar ran y Llys gan Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd.⁴⁵⁴
- 25.11.6. Os oes gan yr hawlydd fantais gorchymyn cynrychiolaeth gyfreithiol neu dystysgrif cymorth cyfreithiol, yna ni all hawlio costau allan o'r cronfeydd canolog.⁴⁵⁵

⁴⁵¹ [a.16\(6\)](#) ac [17 Deddf Erlyn Troseddau 1985](#). Gweler [Yr Arglwydd Howard o Lympe v Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus \[2018\] EWHC 100 \(Admin\)](#).

⁴⁵² [a.16A\(1\) a \(4\) Deddf Erlyn Troseddau 1985](#).

⁴⁵³ [a.16\(6C\) Deddf Erlyn Troseddau 1985](#).

⁴⁵⁴ [a.16\(6D\) Deddf Erlyn Troseddau 1985](#).

⁴⁵⁵ [a.21\(4A\) Deddf Erlyn Troseddau 1985](#).

- 25.11.7. Pan fydd gorchymyn am gostau allan o'r cronfeydd canolog wedi'i wneud, rhaid i'r hawlydd anfon y gorchymyn ymlaen i Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd fydd yn trefnu i dalu'r swm penodedig.

25.12. Gorchmynion costau yn erbyn llysoedd, tribiwnlysoedd neu grwneriaid

- 25.12.1. Pan ddygir achos adolygiad barnwrol yn erbyn llys, tribiwnlys neu grwner fel diffynnydd, a bod y diffynnydd yn mabwysiadu safiad niwtral neu'n mynychu i wneud cyflwyniadau ar weithdrefn neu gyfraith, yn gyffredinol ni fydd y Llys Gweinyddol yn gwneud gorchymyn costau yn ei erbyn.
- 25.12.2. Mewn achosion o'r fath, gallai fod yn briodol i'r Llys wneud gorchymyn costau yn erbyn y parti â budd a wnaeth y penderfyniad gweinyddol sylfaenol a arweiniodd at ddwyn achos gerbron y llys neu'r tribiwnlys. Er enghraifft, mewn achos adolygiad barnwrol yn erbyn yr Uwch Dribiwnlys mewn achos mewnfudo, gall y Llys wneud gorchymyn costau yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, a fydd fel rheol yn cael ei enwi fel parti â budd.⁴⁵⁶
- 25.12.3. Pan fydd llys, tribiwnlys neu grwner yn herio'r hawliad, daw (neu ef neu hi) yn atebol am gostau, yn amodol ar yr egwyddorion a drafodir yn yr adran hon o'r Canllaw.

25.13. Gorchmynion costau a wastraffwyd

- 25.13.1. Mewn achosion priodol, mae gan y Llys bŵer i orchymyn bod cynrychiolydd cyfreithiol yn talu costau'r ochr arall neu i beidio â chaniatáu swm costau penodedig.⁴⁵⁷ Cyfeirir at y gorchmynion hyn fel gorchmynion costau a wastraffwyd
- 25.13.2. Gellir gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd yn erbyn cynrychiolwyr cyfreithiol y parti sy'n derbyn, neu yn erbyn cynrychiolwyr y parti sy'n talu.⁴⁵⁸
- 25.13.3. Gall y parti a gafodd y costau a wastraffwyd wneud cais am orchymyn costau a wastraffwyd neu gall y Llys orchymyn costau o'r fath o'i wirfodd.
- 25.13.4. Wrth ystyried a ddylid gwneud gorchymyn costau a wastraffwyd, bydd y Llys yn ystyried 3 chwestiwn:⁴⁵⁹
- 25.13.4.1. A wnaeth y cynrychiolydd cyfreithiol (neu unrhyw un o'i staff) ymddwyn yn amhriodol, yn afresymol neu'n esgeulus?
- 25.13.4.2. Os felly, a wnaeth yr ymddygiad achosi costau diangen i'r sawl a gafodd y costau neu a wnaeth yr ymddygiad achosi i gostau a gafodd y parti cyn yr ymddygiad gael eu gwastraffu?

⁴⁵⁶ [R \(Faqiri\) v Yr Uwch Dribiwnlys \(Siambwr Mewnfudo a Lloches\) v Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref \[2019\] EWCA Civ 151](#), [2019] 1 WLR 4497, [51].

⁴⁵⁷ [a.51\(6\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#) a [CPR 46.8](#).

⁴⁵⁸ *Brown v Bennett* [2002] 1 WLR 713.

⁴⁵⁹ [CPR 46 PD paragraff 5.5](#) ac *In Re A Barrister (Gorchymyn Costau a Wastraffwyd)* (Rhif 1 o 1991) [1993] QB 293.

- 25.13.4.3. Os felly, a yw'n gyfiawn o dan yr holl amgylchiadau gorchymyn bod y cynrychiolydd cyfreithiol yn digolledu'r sawl sy'n destun y costau a wastraffwyd am ran o'r costau neu am y costau i gyd?
- 25.13.5. Bydd y Llys yn rhoi cyfle rhesymol i'r cynrychiolydd cyfreithiol wneud sylwadau ysgrifenedig neu, os yw'n well gan y cynrychiolydd cyfreithiol, fynychu gwrandawriad cyn i'r Llys wneud gorchymyn o'r fath.⁴⁶⁰
- 25.13.6. Fel arfer dylai ceisiadau costau a wastraffwyd gael eu hystyried gan y Llys ar ddiwedd yr achos, oni bai fod rheswm da i'w hystyried ar ryw adeg arall.⁴⁶¹

25.14. Gorchmynion costau pan gynrychiolir parti ar sail *pro bono*

- 25.14.1. Mae [Adran 194 Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007](#) yn darparu ar gyfer adennill costau pan fydd cynrychiolaeth wedi'i darparu ar sail pro bono (yn ddi-dâl i'r parti a gynrychiolir).⁴⁶² Lle gwneir gorchymyn o'r fath, ni fydd y costau a ddyfarnwyd o blaid y parti hwnnw'n cael eu talu i gynrychiolwyr cyfreithiol y parti ond i elusen Access to Justice Foundation.

25.15. Hawliadau cyfraith amgylcheddol

- 25.15.1. Cyfyngir ar faint o gostau y gellir gorchymyn parti i'w talu mewn "hawliadau Confensiwn Aarhus" (hynny yw, hawliadau penodol yn ymwneud â materion amgylcheddol). Nid yw'r capiau costau yn effeithio ar gymhwyso'r egwyddorion arferol ar gyfer archebu neu asesu costau a chânt eu cymhwyso unwaith y bydd y penderfyniadau hynny'n cael eu gwneud.⁴⁶³
- 25.15.2. Dim ond pan fo'r hawlydd yn aelod o'r cyhoedd y mae'r capiau'n berthnasol.⁴⁶⁴ Mae hyn yn cynnwys unigolion, corfforaethau a chymdeithasau anghorfforedig,⁴⁶⁵ ond nid yw'n cynnwys cyrff cyhoeddus.
- 25.15.3. Mae hawliad Confensiwn Aarhus yn hawliad am adolygiad barnwrol neu adolygiad statudol⁴⁶⁶ sy'n delio â mater sydd o fewn cwmpas Erthygl 9(1), 9(2), neu 9(3) y [Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol](#) (Confensiwn Aarhus).⁴⁶⁷
- 25.15.4. Mae'n rhaid i hawlydd sy'n credu bod ei hawliad yn hawliad Confensiwn Aarhus ac sy'n dymuno gwneud cais am gapio costau o dan y darpariaethau

⁴⁶⁰ [CPR 46.8\(2\)](#).

⁴⁶¹ *Filmlab Systems International Ltd v Pennington* [1995] 1 WLR 673.

⁴⁶² [CPR 46.7](#).

⁴⁶³ [R \(Campaign to Protect Rural England \(Kent Branch\) v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol](#) [2019] EWCA Civ 1230, [2020] 1 WLR 352.

⁴⁶⁴ [CPR 45.41\(2\)\(a\)](#).

⁴⁶⁵ [CPR 45.41\(2\)\(a\) & \(b\)](#) ac Erthygl 2.4 o Gonfensiwn Aarhus

⁴⁶⁶ Mae adolygiad statudol yn cynnwys apêl o dan [a.289 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990](#) neu [a. 65 Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth\) 1990](#): gweler [CPR 45.41\(3\)](#).

⁴⁶⁷ [CPR 45.41\(2\)\(a\)](#).

hyn nodi'r ffaith honno yn Rhan 7 y Ffurflen Hawlio⁴⁶⁸ a ffeilio a chyflwyno atodlen o'u hadnoddau ariannol gyda'r Ffurflen Hawlio sydd wedi'i dilysu gan ddatganiad gwirionedd ac sy'n cynnwys manylion am:⁴⁶⁹

- 24.15.4.1. brif asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant yr hawlydd; a
- 25.15.4.2. mewn perthynas ag unrhyw gefnogaeth ariannol y mae unrhyw unigolyn wedi, neu'n debygol o roi i'r hawlydd, y cyfanswm sydd wedi'i ddarparu neu sy'n debygol o gael ei ddarparu.
- 25.15.5. Os nad yw'r hawlydd yn cydymffurfio â [pharagraff 25.15.4](#), yna ni fydd y cap costau yn berthnasol.⁴⁷⁰
- 25.15.6. Pan fydd yr hawlydd yn cydymffurfio â [pharagraff 25.15.4](#), yna bydd y trothwy costau yn weithredol yn awtomatig.⁴⁷¹ Y trothwy costau presennol yw £5,000 pan fydd yr hawlydd yn hawlio fel unigolyn yn unig ac nid fel, neu ar ran, busnes neu unigolyn cyfreithiol arall. Ym mhob achos arall y trothwy yw £10,000. Pan gaiff y diffynnydd ei orchymyn i dalu costau, y trothwy yw £35,000.⁴⁷²
- 25.15.7. Gall y Llys amrywio neu ddileu'r trothwyon a amlinellir ym [mharagraff 25.15.6](#),⁴⁷³ ond dim ond os gwneir cais am hynny⁴⁷⁴ a dim ond os yw'n fodlon:
 - 25.15.7.1. na fyddai hynny'n gwneud cost yr achos yn rhy ddrud i'r hawlydd; ac
 - 25.15.7.2. yn achos amrywiad a fyddai'n lleihau uchafswm atebolrwydd costau'r hawlydd neu'n cynyddu uchafswm atebolrwydd costau'r diffynnydd, na fyddai amrywio cost yr achos yn rhy ddrud i'r hawlydd.
- 25.15.8. Mae achosion yn rhy ddrud os yw'r costau tebygol (gan gynnwys unrhyw ffioedd llys sydd i'w talu) naill ai:⁴⁷⁵ yn fwy nag adnoddau ariannol yr hawlydd; neu'n wrthrychol afresymol ar ôl ystyried y chwe ffactor a restrir yn [CPR 45.44\(3\)](#), sef:
 - 25.15.8.1. sefyllfa'r partïon;
 - 25.15.8.2. a oes gan yr hawlydd obaith rhesymol o lwyddo;
 - 25.15.8.3. pa mor bwysig yw'r hyn sydd yn y fantol i'r hawlydd;

⁴⁶⁸ [CPR 45.42\(1\)\(a\)](#).

⁴⁶⁹ [CPR 45.42\(1\)\(b\)](#).

⁴⁷⁰ [CPR 45.42\(1\)-\(2\)](#).

⁴⁷¹ [CPR 45.42\(1\)](#).

⁴⁷² [CPR 45.43\(2\)-\(3\)](#).

⁴⁷³ [CPR 45.44\(1\)](#).

⁴⁷⁴ Rhaid i'r cais gydymffurfio â [CPR 45.44\(5\)-\(7\)](#).

⁴⁷⁵ [CPR 45.44\(2\)](#).

- 25.15.8.4. pa mor bwysig yw'r hyn sydd yn y fantol i'r amgylchedd;
- 25.15.8.5. cymhlethdod y gyfraith a'r weithdrefn berthnasol; ac
- 25.15.8.6. a yw'r hawliad yn un gwamal.
- 25.15.9. Wrth ystyried yr adnoddau ariannol sydd gan yr hawlydd i'r pwrpas hwn, rhaid i'r llys ystyried unrhyw gymorth ariannol y mae unrhyw un wedi'i roi, neu'n debygol o'i roi, i'r hawlydd.⁴⁷⁶
- 25.15.10. Os yw'r diffynnydd yn bwriadu herio'r honiad fod Confensiwn Aarhus yn berthnasol ac felly nad yw'r trothwy costau'n berthnasol, dylid nodi hyn yn y Cydnabyddiad Cyflwyno.⁴⁷⁷ Yna bydd y Llys yn penderfynu ar y mater cyn gynted â phosibl.⁴⁷⁸
- 25.15.11. Mewn unrhyw achos i benderfynu a yw hawliad yn hawliad Confensiwn Aarhus:⁴⁷⁹
- 25.15.11.1. os yw'r Llys yn penderfynu nad yw'r hawliad yn hawliad Confensiwn Aarhus, ni fydd fel arfer yn gwneud gorchymyn costau;
- 25.15.11.2. os yw'r Llys yn penderfynu bod yr hawliad yn hawliad Confensiwn Aarhus, bydd fel arfer yn gorchymyn bod y diffynnydd yn talu costau'r hawlydd, a bydd y costau hynny'n cael eu hasesu gan ddefnyddio'r sail arferol. Gellir gorfodi'r gorchymyn hwnnw hyd yn oed pe bai'r costau sydd i'w talu gan y diffynnydd yn cynyddu i fod yn fwy na'r swm a nodir ym [mharagraff 25.15.6](#) uchod neu amrywiad o'r swm hwnnw.

⁴⁷⁶ [CPR 45.44\(3\)](#).

⁴⁷⁷ [CPR 45.45\(1\)](#).

⁴⁷⁸ [CPR 45.45\(2\)](#).

⁴⁷⁹ [CPR 45.45\(3\)](#).

26. Apeliadau

26.1. Apeliadau mewn achosion sifil

- 26.1.1. Mewn achosion sifil, gallai partïon fod eisiau apelio i'r Llys Apêl. Mae angen caniatâd i apelio. Trafodir y broses hon ym [mharagraff 26.2](#) - [26.6](#) yn y Canllaw hwn.

26.2. Herio penderfyniad i ganiatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol

- 26.2.1. Os rhoddwyd caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ni all y diffynnydd, nac unrhyw unigolyn arall y cyflwynwyd y Ffurflen Hawlio iddynt, wneud cais i roi'r gorchymyn yn rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol o'r neilltu.⁴⁸⁰
- 26.2.2. Os na chyflwynwyd y Ffurflen Hawlio i'r diffynnydd neu i barti â budd arall, gallant wneud cais i'r Llys Gweinyddol roi'r caniatâd o'r neilltu, ond pur anaml y defnyddir yr hawl i roi caniatâd o'r neilltu a dim ond mewn achos rhwydd iawn.⁴⁸¹

26.3. Apeliadau yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol

- 26.3.1. Os gwrthodwyd caniatáu gwneud cais am adolygiad barnwrol ar ôl cynnal gwrandawriad yn y Llys Gweinyddol, gall yr hawlydd wneud cais am ganiatâd i apelio, ond rhaid gwneud y cais hwnnw yn uniongyrchol i'r Llys Apêl.⁴⁸²
- 26.3.2. Pan fydd yr hawliad yn herio penderfyniad yr Uwch Dribiwnlys, neu pan fydd y cais am ganiatâd i apelio am adolygiad barnwrol wedi'i ardystio fel cais anheilwng, ni all y penderfyniad hwnnw i wrthod y cais gael ei ailystyried mewn gwrandawriad llafar yn y Llys Gweinyddol. Yn yr achosion hyn, gall y ceisydd wneud cais i'r Llys Apêl yn uniongyrchol am ganiatâd i apelio.⁴⁸³

⁴⁸⁰ [CPR 54.13](#).

⁴⁸¹ Gweler R v Yr Ysgrifennydd Gwladol ex p. Chinoy (1992) 4 Admin L Rep 457.

⁴⁸² [CPR 52.8\(1\)](#); [Glencore Energy UK Ltd v Comisiynwyr Cyllid a Thollau EM \[2017\] EWHC 1587 \(Admin\)](#).

⁴⁸³ [CPR 52.8\(2\)](#).

- 26.3.3. Rhaid ffeilio unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol yn y Llys Apêl, o fewn 7 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, oni bai bod y Llys Gweinyddol yn pennu amserlen wahanol.⁴⁸⁴ Mewn achos lle cafodd y penderfyniad ei wneud ar sail y papurau ac nid oes hawl i ofyn iddo gael ei ailystyriedl ([paragraff 26.3.2](#) yn y Canllaw hwn), bydd y 7 diwrnod yn dechrau o ddyddiad cyflwyno'r gorchymyn, nid dyddiad y penderfyniad.⁴⁸⁵
- 26.3.4. Yn lle rhoi caniatâd i apelio, gall y Llys Apêl yn hytrach roi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol ac felly bydd yr achos yn digwydd yn y Llys Gweinyddol oni bai fod y Llys Apêl yn gorchymyn fel arall.⁴⁸⁶

26.4. Apelio yn erbyn gorchmynion rheoli achosion

- 26.4.1. Cyn ystyried apelio yn erbyn gorchymyn rheoli achos, dylai'r partïon ystyried a oes ganddynt hawl i wneud cais i'r gorchymyn gael ei ailystyried yn y Llys Gweinyddol (gweler [paragraff 9.4](#) yn y Canllaw hwn).
- 26.4.2. Pan na fydd hyn yn opsiwn, a bod y gorchymyn yn derfynol, 21 diwrnod yw'r terfyn amser o hyd ar gyfer apelio mewn achosion sifil, ond ni fydd yr achos yn y Llys Gweinyddol o reidrwydd yn aros am benderfyniad y Llys Apêl. Os yw'r partïon yn dymuno i'r achos yn y Llys Gweinyddol gael ei atal, rhaid iddynt wneud cais am hynny (gweler [paragraff 13.7](#) yn y Canllaw hwn).
- 26.4.3. Fel rheol ni roddir caniatâd cyn amled i apelio yn erbyn gorchmynion rheoli achosion. Nid yn unig y bydd y Llys Apêl yn ystyried a fyddai gan yr apêl siawns wirioneddol o lwyddo neu a oes rheswm cryf arall dros wrando'r apêl, ond hefyd pa mor arwyddocaol fyddai'r penderfyniad, y costau sy'n gysylltiedig ag apelio, yr oedi neu'r aflonyddwch sy'n debygol o gael ei achosi i achosion yn y Llys Gweinyddol, ac a fyddai'n well delio gyda'r pwynt ar yr un pryd neu ar ôl y gwrandawriad sylfaenol.

26.5. Apelio yn erbyn gorchymyn interim a wnaed gan Feistr

- 26.5.1. Gellir apelio i Farnwr Uchel Lys yn erbyn gorchymyn y mae Meistr wedi'i wneud mewn gwrandawriad llafar.
- 26.5.2. Rhaid defnyddio Ffurflen N161 i wneud cais am ganiatâd i apelio a'i chyflwyno i ACO. Dylai'r partïon hefyd ystyried y canllawiau uchod, sydd, ac eithrio unrhyw gyfeiriadau at y Llys Apêl, yr un mor berthnasol i apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Meistr.

⁴⁸⁴ [CPR 52.8\(3\)](#).

⁴⁸⁵ [CPR 52.8\(4\)](#).

⁴⁸⁶ [CPR 52.8\(5\)](#).

26.6. Apelio yn erbyn penderfyniadau a wnaed yng ngwrandawriad sylfaenol cais am adolygiad barnwrol

- 26.6.1. Pan fydd parti yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad y Llys yn dilyn gwrandawriad sylfaenol, rhaid cael caniatâd i apelio. Gall y Llys Gweinyddol neu'r Llys Apêl roi'r caniatâd hwn.
- 26.6.2. Rhaid gwneud ceisiadau am ganiatâd i'r Llys Apêl yn y gwrandawriad lle gwnaed y penderfyniad y bwriedir apelio yn ei erbyn oni bai fod y Llys yn cyfarwyddo bod y cais i'w wneud yn nes ymlaen.⁴⁸⁷ Gall y Llys ohirio'r penderfyniad i roi caniatâd i apelio tan ddyddiad arall neu gyfarwyddo y bydd yn cael ei ystyried ar sail sylwadau ysgrifenedig, ond rhaid iddo wneud gorchymyn i'r perwyl hwnnw pan gynhelir y gwrandawriad.
- 26.6.3. Os yw'r Llys Gweinyddol yn gwrthod rhoi caniatâd i apelio, gellir gwneud ail gais i'r Llys Apêl ei hun drwy ffeilio Hysbysiad Apelydd (Ffurflen N161).⁴⁸⁸
- 26.6.4. Fel arall, gellir gwneud y cais cyntaf am ganiatâd i apelio yn uniongyrchol i'r Llys Apêl. Dylai unrhyw barti sy'n ceisio apelio, gyflwyno rhesymau apêl sy'n gadarn, yn glir ac yn gryno.⁴⁸⁹ Dylai partïon ddilyn darpariaethau perthnasol y CPR a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ar apeliadau.
- 26.6.5. Gydag apeliadau yn erbyn penderfyniadau sylfaenol y Llys Gweinyddol, rhaid ffeilio'r Hysbysiad Apelydd gyda'r Llys Apêl o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad neu o fewn y terfyn amser sy'n wedi'i orchymyn gan y Llys Gweinyddol.⁴⁹⁰
- 26.6.6. Bydd caniatâd i apelio ond yn cael ei roi os yw'r Llys Apêl yn barnu bod gan yr apêl siawns wirioneddol o lwyddo neu os oes rheswm cryf arall dros wrando'r apêl.⁴⁹¹
- 26.6.7. Mae mwy o wybodaeth am apelio i'r Llys Apêl ar gael gan y Swyddfa Apeliadau Sifil (gweler [Atodiad 1](#) am y manylion cyswllt).

26.7. Apelio mewn achosion neu faterion troseddol

- 26.7.1. Nid oes hawl i apelio o'r Llys Gweinyddol i'r Llys Apêl mewn achosion sy'n ymwneud ag unrhyw fater neu achos troseddol.⁴⁹² Mae p'un a yw cais am adolygiad barnwrol yn ymwneud ag achos neu fater troseddol yn dibynnu ar natur a chymeriad yr ymgyfreitha sylfaenol. Y cwestiwn yw ai canlyniad

⁴⁸⁷ [CPR 52.3\(2\)\(a\)](#).

⁴⁸⁸ [CPR 52.3\(3\)](#) a [CPR 52.12\(1\)](#).

⁴⁸⁹ [Hickey v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau \[2018\] EWCA Civ 851](#), [2018] 4 WLR 71.

⁴⁹⁰ [CPR 52.12\(2\)](#).

⁴⁹¹ [CPR 52.6\(1\)](#).

⁴⁹² [a.18\(1\)\(a\) Deddf Uwchlysoedd 1981](#).

uniongyrchol yr achos sy'n tanseilio'r achos yn yr Uchel Lys oedd bod rhywun wedi'i roi yn y fantol o dreial troseddol a chosb am drosedd honedig.⁴⁹³

- 26.7.2. Mewn achosion o'r fath, yr unig lwybr apêl o'r Llys Gweinyddol yw i'r Goruchaf Lys. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y bydd posib apelio i'r Goruchaf Lys:
- 26.7.2.1. mae'r Llys Gweinyddol wedi ardystio bod yr achos yn codi pwynt cyfreithiol sydd o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol;⁴⁹⁴ a
- 26.7.2.2. rhoddir caniatâd i apelio (nall ai gan y Llys Gweinyddol neu gan Y Goruchaf Lys).
- 26.7.3. Rhaid gwneud cais am ganiatâd i apelio i'r Goruchaf Lys, ac am dystysgrif fod yr achos yn codi pwynt cyfreithiol sydd o bwysigrwydd cyhoeddus cyffredinol i'r Llys Gweinyddol o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad sy'n cael ei herio gael ei wneud neu i'r dyddiad pryd y rhoddir rhesymau am y penderfyniad.⁴⁹⁵
- 26.7.4. Gellir gwneud y cais am dystysgrif pwynt cyfreithiol, ac am ganiatâd i apelio, yn yr un cais. Mae'r weithdrefn yr un fath â'r weithdrefn ceisiadau interim (gweler [paragraff 13.7](#) uchod). Gall y Llys benderfynu rhoi'r dystysgrif hyd yn oed os yw'n penderfynu gwrthod caniatâd i apelio. Defnyddir y dystysgrif mewn unrhyw gais i'r Goruchaf Lys ei hun am ganiatâd i apelio.
- 26.7.5. Dim ond yn erbyn penderfyniadau sylfaenol y gellir apelio i'r Goruchaf Lys (h.y. nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi caniatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol).⁴⁹⁶
- 26.7.6. Mae mwy o wybodaeth am apelio i'r Goruchaf Lys ar gael gan y Goruchaf Lys (gweler [Atodiad 1](#) am y manylion cyswllt).

⁴⁹³ Am gwmpas yr hyn sy'n cyfateb i achos troseddol, dylid cyfeirio at [Re McGuinness \(Twrnai Cyffredinol Gogledd Iwerddon ac eraill\) \[2020\] UKSC 6](#) a wnaeth gadarnhau'r meini prawf yn Amand v Ysgrifennydd Gwladol Materion Cartref [1943] AC 147. Gweler [hefyd R \(Cleeland\) v Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol \[2022\] EWCA Civ 5](#) lle penderfynwyd nad yw heriau i benderfyniadau'r Comisiwn Adolygu Achosion Troseddol yn ymwneud ag achos neu fater troseddol.

⁴⁹⁴ [a.1\(2\) Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960](#).

⁴⁹⁵ [a.2\(1\) Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1960](#).

⁴⁹⁶ Re Poh [1983] 1 All ER 287.

Atodiad 1 – Manylion Cyswilt

SWYDDFEYDD Y LLYS GWEINYDDOL

Gwefan

www.gov.uk/courts-tribunals/administrative-court

Birmingham

Swyddfa'r Llys Gweinyddol Canolfan Wrandawiadau Cyfiawnder Sifil a Theulu
Birmingham Priory Courts
33 Bull Street
Birmingham
West Midlands B4 6DS
DX 01987 Birmingham 7 Rhif ffôn: 0121 250 6733
E-bost Cyffredinol: Birmingham@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Dadleuon Fframwaith:
Birmingham.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Leeds

Swyddfa'r Llys Gweinyddol Canolfan Llysoedd Cyfun Leeds
The Courthouse
Oxford Row
Leeds
West Yorkshire LS1 3BG
DX: 703016 Leeds 6 Rhif ffôn: 0113 306 2578
E-bost Cyffredinol: Leeds@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Dadleuon Fframwaith:
Leeds.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Llundain

Swyddfa'r Llys Gweinyddol Y Llysoedd Barn Brenhinol
The Strand
Llundain WC2A 2LL
DX 44457 Strand Rhif ffôn: 020 7947 6655
Mae cownter cyhoeddus y Llys Gweinyddol ar agor rhwng 10am a 4:30pm. Gellir ond delio â cheisiadau brys ar ôl 3pm.
E-bost Cyffredinol: generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Dadleuon Fframwaith:
london.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost y Swyddfa Rhestru Achosion: listoffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Hwyluso Achosion: caseprogression@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Hwyluso Achosion (Trosedd ac Estraddodi yn unig):
crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Manceinion

Swyddfa'r Llys Gweinyddol Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion
1 Bridge Street West
Manceinion M60 9DJ
DX 724783 Manchester 44 Rhif ffôn: 0161 240 5313
E-bost Cyffredinol: Manchester@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Dadleuon Fframwaith:
Manchester.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Cylchdaith Cymru a Gorllewin Lloegr

Swyddfa'r Llys Gweinyddol Canolfan Llysoedd Sifil Caerdydd
Stryd y Parc
Caerdydd CF10 1ET
DX 99500 Cardiff 6 Rhif ffôn: 02920 376460
E-bost Cyffredinol: Cardiff@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
E-bost Dadleuon Fframwaith:
Cardiff.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

UWCH DRIBIWNLYS (SIAMBR APELIADAU GWEINYDDOL)

Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol)
5th Floor, 7 Rolls Buildings
Fetter Lane
Llundain EC4A 1NL
DX 160042 STRAND 4 Rhif ffôn: 020 7071 5662
E-bost: adminappeals@Justice.gov.uk

UWCH DRIBIWNLYS (SIAMBR MEWNFUDO A LLOCHES)

Ar gyfer UTIAC – Adolygiadau Barnwrol yn unig:

Ar gyfer Llundain:
Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches)
IA Field House, 15 Brems Buildings
Llundain EC4A 1DZ
Ar gyfer adolygiadau barnwrol UT(IAC) ym Mirningham, Caerdydd, Leeds neu Manceinion,
gweler y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn yr ardal honno uchod.

Ar gyfer UTIAC – Pob achos sydd ddim yn adolygiad barnwrol:

Cyflwyno Apeliadau:
Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches)
IA Field House, 15 Brems Buildings,
Llundain EC4A 1DZ
Oni hysbysir yn wahanol, dylid anfon pob gohebiaeth arall i:
Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches)
Arnhem Support Centre, PO Box 6987
Caerlŷr LE1 6ZX
Ffacs: 0116 249 4130
Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid (Uned Ymholiadau) Rhif ffôn: 0300 123 171

SWYDDFA COSTAU'R UWCHLYSOEDD

Swyddfa Costau'r Uwchlysoedd

Thomas More Building

Y Llysoedd Barn Brenhinol

The Strand

Llundain WC2A 2LL

DX 44454 Strand

Rhif ffôn: 020 7947 6469/ 6404 / 7818

E-bost: SCCO@justice.gov.uk

Gwefan: www.gov.uk/courts-tribunals/senior-courts-costs-office

LLYS APÊL (ADRAN SIFIL)

Civil Appeals Office, Room E307

Y Llysoedd Barn Brenhinol

The Strand

Llundain WC2A 2LL

DX: 44450 Strand

Rhif ffôn: 020 7947 7121/6533

GORUCHAF LYS

Y Goruchaf Lys

Parliament Square

Llundain SW1P 3BD

DX 157230 Parliament Sq 4

Rhif ffôn: 020 7960 1500 neu 1900

Atodiad 2 - Ffurflenni a Ffioedd

Gweithred / Cais	Ffurflen*	Ffi**	Cyf**
Cais am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol	N461 (Ffurflen Hawlio Adolygiad Barnwrol)	£154.00	1.9(a)
Ailystyried caniatâd mewn gwrandawriad llafar	86b	£385.00	1.9(b)
Parhau gyda'r adolygiad barnwrol ar ôl cael caniatâd Bydd unrhyw ffi sy'n daladwy o dan 1.9(aa) yn cael ei thynnu o'r swm		£770.00	1.9(c)
Cydnabyddiad Cyflwyno	N462 (Cydnabyddiad Cyflwyno Adolygiad Barnwrol)	£0.00	-
Cais Interim	N244 (Rhybudd Cyflwyno Cais)	£275.00	2.4
Gorchmynion Cydsynio	N244 (Rhybudd Cyflwyno Cais) a Gorchymyn Cydsynio	£108.00	2.5
Dirwyn i ben	N279 (Rhybudd Dirwyn Achos i Ben)	£0.00	-
Ystyriaeth Frys (o fewn 48 awr i gyflwyno hawliad)	N463 (Adolygiad Barnwrol - Cais am Ystyriaeth Frys)	£275.00 (oni bai y gwneir y cais wrth gyflwyno, a'r ffi wedyn yw £0.00)	2.4

* Gallwch ddod o hyd i'r ffurflenni cyfredol yma:

<https://www.gov.uk/government/collections/administrative-court-forms>

** Atodlen 1, Gorchymyn Ffioedd Achosion Sifil 2008 (fel y'i diwygiwyd). Roedd y ffioedd uchod yn gywir ar y 4ydd o Orffennaf 2022.

27. Atodiad 3 – Cyfeiriadau ar gyfer Cyflwyno i Adrannau Llywodraeth Ganolog⁴⁹⁷

Adran o'r Llywodraeth	Cyfreithiwr ar gyfer Cyflwyno
• Y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu • Swyddfa'r Cabinet • Comisiynwyr dros Leihau Dyled y Wlad • Gwasanaeth Erlyn y Goron • Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol • Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon • Yr Adran Addysg • Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig • Yr Adran Addysg a Gofal Cymdeithasol • Yr Adran Masnach Ryngwladol • Yr Adran Drafnidiaeth • Adran Gwarantu Credydau Allforio (Cyllid Allforio'r DU) • Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu • Adran Actiwari'r Llywodraeth • Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch • Trysorlys Ei Mawrhydi • Y Swyddfa Gartref • Y Weinyddiaeth Amddiffyn • Y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol • Y Weinyddiaeth Gyfiawnder • Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol (NS&I) • Swyddfa Gogledd Iwerddon • Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol • Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru (Swyddfa Cymru) • Swyddfa'r Cyfrin Gyngor • Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus • Y Swyddfa Twyll Difrifol • Y Bwrdd Ystadegau (Awdurdod Ystadau'r DU) • Yr Archifau Gwladol	Cyfreithiwr y Trysorlys Adran Gyfreithiol y Llywodraeth 102 Petty France San Steffan Llundain SW1H 9GL

Adran o'r Llywodraeth	Cyfreithiwr ar gyfer Cyflwyno
Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd	Cyfarwyddwr Ymglyfreitha Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd 25 Cabot Square

⁴⁹⁷ Cafwyd y cyfeiriadau heblaw cyfeiriad Adran Gyfreithiol y Llywodraeth o'r rhestr a gyhoeddwyd gan Penny Mordaunt, Tâl-feistr Cyffredinol ar 18 Mawrth 2021.

	Canary Wharf Llundain E14 4QZ
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	Swyddfa'r Cyfarwyddwr Cyfreithiol Yr Adran Gwaith a Phensiynau Caxton House Tothill Street Llundain SW1H 9NA
Yr Asiantaeth Safonau Bwyd	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Yr Asiantaeth Safonau Bwyd Floors 6 & 7 Clive House 70 Petty House Llundain SW1H 9EX
Y Comisiwn Coedwigaeth	Cyfarwyddwr Ystadau Y Comisiwn Coedwigaeth 620 Bristol Business Park Coldharbour Lane Bryste GL16 1EJ
Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)	Swyddfa Cwnsler Cyffredinol y Marchnadoedd Nwy a Thrydan Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol 10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Cwnsler a Chyfreithiwr Cyffredinol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi Cyllid a Thollau EM 14 Westfield Avenue South West Wing Stratford Llundain E20 1HZ

Adran o'r Llywodraeth	Cyfreithiwr ar gyfer Cyflwyno
Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol	Cynghorydd Cyfreithiol Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol Units 1-6 Citadel Place Tinworth Street Llundain SE11 5EF
Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)	Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol Ofsted Clive House 70 Petty France San Steffan Llundain SW1H 9EX
Swyddfa Rheoleiddio Cymwysterau ac Arholiadau (Ofqual)	Cyfarwyddwr Cyfreithiol Ofqual Earlsdon Park 53-55 Butts Road Coventry CV1 3BH
Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd (ORR)	Cwnsler Cyffredinol Y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd 25 Cabot Square Canary Wharf Llundain E14 4QZ
Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)	Cwnsler Cyffredinol Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) Centre City Tower 7 Hill Street Birmingham B5 4UA
Llywodraeth Cymru	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ
Awdurdod Cyllid Cymru	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol Awdurdod Cyllid Cymru Canolfan QED Main Avenue Stad Ddiwydiannol

	Trefforest Pontypridd CF37 9EH
--	-----------------------------------

Atodiad 4 - Polisi Rhestru'r Llys Gweinyddol

POLISI RHESTRU'R LLYS GWEINYDDOL
(POB BUSNES AC EITHRIO APELIADAU ESTRADDODI)

Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn disodli'r polisi rhestru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018.

Mae'n rhoi arweiniad i swyddogion wrth restru achosion yn y Llys Gweinyddol. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Barn Brenhinol, Llundain ("ACO Llundain") a gan bob un o Swyddfeydd y Llys Gweinyddol yn y cylchdeithiau unigol ("ACOs y cylchdeithiau unigol" - h.y. Swyddfeydd y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, Birmingham, Leeds a Manceinion). Bwriad y polisi hwn yw rhoi arweiniad i swyddogion rhestru.

Mae'r polisi'n rhoi cyfarwyddyd ar restru'r holl wrandawiadau ar gyfer hawliadau ac apeliadau yn y Llys Gweinyddol, heblaw am apeliadau estraddodi. (Mae'r drefn i'w dilyn wrth restru gwrandawiadau mewn apeliadau estraddodi, gan gynnwys apeliadau ar fyrder wedi'i nodi yng Nghyfarwyddyd Ymarfer Troseddol 50.)

Yr Anrhydeddus Mr Ustus Swift
Prif Farnwr y Llys Gweinyddol
30 Mehefin 2021

RHAN A: CYFFREDINOL

Ceisiadau interim brys

- 1) Mae'r canlynol yn berthnasol i geisiadau brys sy'n cael eu ffeilio o fewn oriau gwaith (h.y. dydd Llun i ddydd Gwener, Llundain 9am i 4.30pm, tu allan i Lundain 9am i 4pm). Dylid cyfeirio unrhyw gais brys y tu allan i oriau at glerc y tu allan i oriau Adran Mainc y Frenhines (020 7947 6000).
- 2) Rhaid llenwi Ffurflen N463 i wneud unrhyw gais brys i'r Llys Gweinyddol o fewn oriau gwaith.
- 3) Dylid gwneud ceisiadau brys trwy ffeilio (a) Ffurflen N463 (wedi'i llenwi'n gywir, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54B yn §1.2); ynghyd â (b) y bwndel cais gofynnol (gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54B yn §1.3). Pryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio ceisiadau brys a dogfennau ategol trwy e-bost. Gellir hefyd eu ffeilio trwy'r post a DX. Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain nad oes ganddynt fynediad at e-bost gysylltu â swyddfa berthnasol y Llys Gweinyddol i drafod trefniadau amgen posibl.
- 4) Rhaid talu'r ffi briodol. Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr y Llys sy'n dymuno cyflwyno cais brys heb dalu ffi'r Llys ddilyn y broses a nodir yn [Atodiad 1](#).
- 5) Bydd pob cais brys yn cael ei adolygu gan gyfreithiwr ACO i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r gofynion sydd wedi'u nodi yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 54B fel sy'n briodol - h.y. Cyfarwyddyd Ymarfer 54B yn §§1.2 - 1.3 ac 1.7 (pob cais); §§2.2 - 2.4 (ceisiadau am ryddhad interim); a §§3.1 - 3.2 (ceisiadau estraddodi). Os yw'r cais yn cwrdd â'r gofynion sydd wedi'u nodi yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 54B ac angen sylw ar unwaith, bydd yn cael ei anfon at farnwr yr un diwrnod.
- 6) Wrth ystyried y cais, bydd y barnwr yn ystyried y materion sydd wedi'u nodi yn §1.8 o Gyfarwyddyd Ymarfer 54B.
- 7) Os oes angen gwrandawriad llafar, bydd yn cael ei restru yn unol â'r cyfarwyddiadau a roddir gan y barnwr. Hysbysir y partïon am unrhyw gyfarwyddiadau a roddir trwy e-bost. Mae'n debygol y bydd unrhyw wrandawriad yn cael ei restru heb ystyried argaeledd y partïon neu eu cynrychiolwyr.
- 8) Os nad oes angen rhoi sylw brys i gais a wneir ar Ffurflen N463 gellir ei wrthod, neu ei ddyrannu i'w ystyried gan farnwr fel cais interim nad yw'n fater brys - gweler [paragraff 13](#) isod.

Gwrandawiadau caniatâd: hawliadau am adolygiad barnwrol ac apeliadau statudol.

- 9) Rhestrir gwrandawriad caniatâd ar ôl derbyn Hysbysiad Atgynhyrchu (Ffurflen 86B) a'r ffi berthnasol neu orchymyn gan Farnwr yn gohirio cais am ganiatâd i'r llys.
- 10) Y disgwyliad cyffredinol ar gyfer achosion yn Llundain yw y bydd y partïon yn cael eu hysbysu am ddyddiad y gwrandawriad i wrando'r cais atgynhyrchu o fewn pythefnos, a bod gwrandawriad y cais yn digwydd rhwng 3 ac 8 wythnos o'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Atgynhyrchu ei ffeilio. Gall yr arfer ar gyfer rhestru gwrandawiadau

atgynhyrchu gan yr ACOs eraill fod yn wahanol. Fel rheol, rhestrir gwrandawiadau yn ôl hwylustod y Llys; ni fydd argaeledd cwnsler yn cael ei ystyried.

- 11) Rhestrir gwrandawiadau gydag amcangyfrif amser o 30 munud. Os yw unrhyw barti o'r farn bod angen amcangyfrif amser gwahanol, rhaid hysbysu'r llys ar unwaith - gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54A yn §7.7.

Ceisiadau interim nad ydynt yn rhai brys

- 12) Rhaid defnyddio Ffurflen N244 i wneud ceisiadau interim nad ydynt yn rhai brys. Rhaid cynnwys yr amser ar gyfer penderfynu ar y cais (neu unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i'r amser y mae'n rhaid penderfynu ar y cais) yn Ffurflen N244 ac mewn llythyr eglurhaol. Rhaid i'r cais gynnwys gorchymyn drafft. Os ceisir cyfarwyddiadau penodol at ddibenion penderfynu ar y cais, rhaid nodi'r cyfarwyddiadau hynny ar Ffurflen N244.
- 13) Fel rheol, bydd ceisiadau'n cael eu hystyried ar sail y papurau yn y lle cyntaf. Bydd y llys yn rhoi unrhyw gyfarwyddiadau sy'n angenrheidiol i benderfynu ar gais. Bydd unrhyw wrandawriad sydd angen ei gynnal yn cael ei restru yn unol â'r cyfarwyddiadau hynny.

Gwrandawiadau terfynol (gan gynnwys gwrandawiadau treigl): adolygiad barnwrol, apeliadau/ceisiadau statudol ac apeliadau achosion datganedig

- 14) Ac eithrio y darperir yn wahanol (gweler [Rhan D](#) isod), bydd gwrandawiadau terfynol mewn hawliadau am adolygiad barnwrol ac apeliadau statudol yn cael eu rhestru cyn pen 9 mis o ddyddiad eu cychwyn.
- 15) Unwaith y rhoddir caniatâd, rhaid i'r hawlydd dalu'r ffi berthnasol i barhau â'r achos o fewn y terfyn amser statudol. Os na thelir y ffi o fewn yr amser a ganiateir, bydd yr achos yn cael ei gau ac ni chaiff ei restru. Pan fydd gwrandawriad treigl wedi'i orchymyn, rhaid i'r hawlydd roi ymrwymiad i dalu'r ffi barhad os rhoddir caniatâd yn y pen draw. Os na roddir yr ymgymeriad, bydd yr achos yn cael ei gau ac ni chaiff ei restru.
- 16) Bydd achos yn cael ei ychwanegu at y Rhestr Rybudd ar y diwrnod cyntaf ar ôl yr amser a ganiateir gan y CPR (neu orchymyn barnwrol) ar gyfer ffeilio a chyflwyno dogfennau (e.e. mewn cais am adolygiad barnwrol, y dyddiad ar gyfer ffeilio a chyflwyno Seiliau Manwl yr Amddiffyniad a thystiolaeth). Unwaith y bydd yr achos ar y Rhestr Rybudd, bydd fel arfer, ac yn amodol bob amser ar unrhyw orchymyn sy'n nodi i'r gwrthwyneb, yn cael ei wrando cyn pen 3 mis ("y cyfnod rhestru").
- 17) Pan fydd achos wedi'r roi ar y rhestr rybudd, bydd y swyddfa restru yn e-bostio'r partïon (os oes ganddynt gynrychiolaeth, y cynrychiolydd) gyda manylion y cyfnod rhestru. Dywedir wrth bartïon y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid iddynt ddarparu rhestr o ddyddiadau i'w hosgoi. Anogir partïon i geisio cytuno ar ddyddiadau sy'n gyfleus i bawb ar gyfer y gwrandawriad (gweler [paragraff 20](#) isod).
- 18) Rhestrir achosion i'w gwrandao yn unol â'r arfer a'r egwyddorion canlynol.
- 19) Gan amlaf, dim ond rhwng dydd Mawrth a dydd Iau bob wythnos yn ystod y tymor y bydd gwrandawiadau terfynol yn cael eu restru.
- 20) Os yw'r partïon yn cynnig dyddiadau (a) sydd yn cyfateb; a (b) o fewn y cyfnod rhestru, gwneir pob ymdrech i restru'r achos ar gyfer ei wrando ar y dyddiadau hynny.

- 21) Os nad yw'r dyddiadau a roddwyd gan y partïon yn cyfateb, neu os yw'r dyddiadau a roddwyd (hyd yn oed os ydynt yn cyfateb) yn anaddas i'r Llys, bydd yr achos yn cael ei restru i'w wrando er hwylustod y Llys.
- 22) Pan fydd cwnsler neu gyfreithiwr eiriolwr wedi'i gyfarwyddo, ni fydd y cyfnod rhestru fel arfer yn cael ei ymestyn dim ond oherwydd nad ydynt ar gael.
- 23) Bydd achos a ddyrennir i swyddfa unrhyw un o'r cylchdeithiau unigol yn cael ei restru i'w wrando yn y gylchdaith honno yn y ganolfan wrandawiadau sydd fwyaf addas yn ddaearyddol, yn amodol ar argaeledd barnwrol.

RHAN B: LLYSOEDD ADRANNOL

- 24) Os yw parti o'r farn y dylid ymdrin â hawliad neu gais mewn Llys Adrannol, yna dylai'r parti hwnnw hysbysu ACO yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd, h.y. fel arfer yn y Ffurflen Hawlio neu'r cais, neu'r Cydnabyddiad Cyflwyno neu'r ymateb i gais, neu gyda'r rhain.
- 25) Er gall partïon gyflwyno sylwadau ynghylch pa mor addas yw gwrando ar achos gerbron y Llys Adrannol, y Llys sy'n penderfynu a ddylid rhestru achos gerbron y Llys Adrannol ac, os felly, beth fydd cyfansoddiad y Llys hwnnw.
- 26) Ni fydd ACO yn gallu cynnig gymaint o ddyddiadau addas ar gyfer y gwrandawriad ac, fel rheol, ni fydd yn ystyried argaeledd cwnsler/cyfreithiwr eiriolwr bob parti wrth restru'r gwrandawriad.
- 27)

RHAN C: GOHIRIO/DAD-RESTRU GWRANDAWIADAU

- 28) Os daw gwrandawriad yn ddiangen oherwydd bod hawliad wedi'i dynnu'n ôl neu ei gyfaddawdu, rhaid i'r partïon hysbysu'r Llys cyn gynted â phosibl.
- 29) Yn gyffredinol, ni fydd gwrandawriad yn cael ei ohirio na'i ddad-restru oni bai bod rhesymau da dros wneud hynny, hyd yn oed pan fydd yr holl bartïon yn cytuno y dylid gohirio'r gwrandawriad. Anaml y caniateir gohirio gwrandawriad os mai'r unig reswm dros y cais yw nad yw'r cwnsler ar gael.
- 30) Rhaid defnyddio naill ai Ffurflen AC001 neu Ffurflen N244 (gweler y dolenni ar wefan y Llys Gweinyddol) i wneud unrhyw gais i ohirio neu ddad-restru gwrandawriad. Dylid ffeilio'r rhybudd cyflwyno cais gyda'r Llys o leiaf 3 diwrnod cyn y gwrandawriad (oni ddarperir rheswm da dros ffeilio'r cais yn hwyr). Mae ffi yn daladwy ac eithrio pan wneir y cais trwy gydsyniad a'i wneud fwy na 14 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawriad.
- 31) Rhaid i'r cais nodi'r rhesymau dros gefnogi'r cais. Hyd yn oed pan wneir cais trwy gydsyniad, rhaid i'r cais nodi'r rhesymau pam y dylid gohirio / dad-restru'r gwrandawriad. Rhaid hefyd darparu gorchymyn drafft.

- 32) Er gwaetha'r ffaith bod cais i ohirio neu ddad-restru gwrandawriad wedi'i ffeilio, dylai'r partïon dybio bod y gwrandawriad yn parhau i fod wedi'i restru nes bydd y Llys yn eu hysbysu fel arall.
- 33) Dim ond trwy orchymyn barnwrol y gellir gohirio neu ddad-restru gwrandawriad. Gall cyfreithiwr ACO wneud penderfyniad p'un ai i ganiatáu neu wrthod cais i ohirio o dan bwerau dirprwyedig. Os nad yw parti yn fodlon â gorchymyn gan gyfreithiwr yr ACO, caiff ofyn i farnwr adolygu'r gorchymyn. Bydd y barnwr yn cynnal yr adolygiad ar sail y papurau'n unig neu mewn gwrandawriad. Rhaid gwneud y cais am adolygiad yn ysgrifenedig (cyn pen 7 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd gorchymyn cyfreithiwr ACO i'r parti). Rhaid i'r cais gynnwys y cais gwreiddiol; dylai gynnwys y rhesymau a roddwyd gan gyfreithiwr ACO wrth wrthod y cais; a nodi unrhyw faterion pellach y dibynnir arnynt. Cyn belled bod y cais yn cael ei ffeilio cyn pen 7 diwrnod (neu unrhyw amser a ganiateir gan y gorchymyn) nid oes unrhyw ffi bellach yn daladwy.

RHAN D: Y LLYS CYNLLUNIO

- 34) Mae rhestr y Llys Cynllunio yn rhestr arbenigol y mae'r Barnwr Cyswllt Cynllunio yn gyfrifol amdani. Diffinnir y gwaith y mae'r Llys Cynllunio yn ymdrin ag ef yn CPR 54.21. Mae hawliadau yn y Llys Cynllunio yn cael eu gwrandao gan farnwyr sydd wedi eu henwebu gan Lywydd Adran Mainc y Frenhines i fod yn farnwyr cynllunio arbenigol, ac y mae rhai ohonynt hefyd wedi'u henwebu i wrando ar achosion "arwyddocaol": gweler CPR 54.22.
- 35) Fel arfer, gellir rhannu achosion yn y Llys Cynllunio yn bedwar categori bras:-

28. Hawliadau am Adolygiad Statudol Cynllunio o dan PD8C.⁴⁹⁸ Mae angen caniatâd i wneud cais a rhaid anfon Cydnabyddiad Cyflwyno gyda chrynodeb o seiliau'r amddiffyniad;

- (a) *Apeliadau Statudol Cynllunio (neu Geisiadau)* o dan PD8A paragraff 222. Nid oes angen caniatâd i wneud cais. Nid yw'n ofynnol i barti sy'n bwriadu herio'r hawliad ffeilio seiliau cryno yr amddiffyniad oni bai bod y Llys wedi gorchymyn hynny (o dan CPR PD 54D 3.5);
- (b) *Apeliadau o dan adran 289 o TCPA 1990* yn erbyn penderfyniadau ar apeliadau rhybudd gorfodi a gorchmynion amnewid coed (o dan adran 208) ac apeliadau o dan adran 65 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ar benderfyniadau yn erbyn apeliadau rhybudd gorfodi, pan fo caniatâd yn ofynnol (gweler PD 52D paragraff 26);
- (c) *Adolygiadau barnwrol cynllunio* pan fo angen caniatâd i wneud cais a Chydnabod Cyflwyno (gweler CPR 54.4 a 54.8). Mae'r rhain yn cynnwys heriau i benderfyniadau awdurdodau cynllunio lleol, gorchmynion caniatâd datblygu (o dan a.118 Deddf Cynllunio 2008) a chynlluniau cymdogaeth (o dan a.61N o TCPA 1990).

⁴⁹⁸ Hawliadau dan adran 287 neu 288 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, adran 63 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 22 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 ac adran 113 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

- 2) Bydd y Barnwr Cyswllt Cynllunio yn dynodi bod rhai achosion yn rhai “arwyddocaol” gan ddilyn y meini prawf ym mharagraff 3.2 o Gyfarwyddyd Ymarfer 54D. Mae paragraff 3.4 o Gyfarwyddyd Ymarfer 54D yn gosod yr amserlenni targed canlynol ar gyfer achosion arwyddocaol a fydd yn berthnasol, ac eithrio lle mae buddion cyfiawnder yn mynnu fel arall.
- (a) Mae ceisiadau am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol neu adolygiad statudol cynllunio i'w penderfynu cyn pen tair wythnos ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben ar gyfer ffeilio cydnabyddiad cyflwyno.
 - (b) Mae atgynhyrchiadau llafar o geisiadau am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol neu adolygiad statudol cynllunio i'w gwrandao cyn pen mis ar ôl derbyn cais atgynhyrchu.
 - (c) Mae ceisiadau am ganiatâd o dan adran 289 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i'w penderfynu o fewn mis i'w cychwyn.
 - (d) Mae adolygiadau statudol cynllunio i'w gwrandao cyn pen chwe mis ar ôl eu cychwyn.

Dylid gwrandao ar adolygiadau barnwrol cyn pen deg wythnos ar ôl y cyfnod dod i ben a bennwyd ar gyfer cyflwyno seiliau manwl gan y diffynnydd neu unrhyw barti arall fel y darperir yn CPR 54.14.

Cyffredinol

- 3) Yn amodol ar y pwyntiau isod, mae'r polisi rhestru ym mharagraffau 1 i 32 uchod yr un mor berthnasol i achosion yn y Llys Cynllunio.

Achosion nad ydynt yn rhai arwyddocaol

- 4) Ymdrinnir ag achosion nad ydynt wedi'u dynodi'n “arwyddocaol” o fewn yr amserlenni cyffredinol a nodir uchod ar gyfer hawliadau yn y Llys Gweinyddol.

Achosion arwyddocaol

Gwrandawiadau caniatâd

- 38) Fel arfer, bydd gwrandawiadau atgynhyrchu ceisiadau am ganiatâd yn cael eu rhestru yn ôl hwylustod y Llys; gan amlaf ni fydd argaeledd cwnsler yn cael ei ystyried. Rhestrir gwrandawiadau gydag amcangyfrif amser o 30 munud. Os yw unrhyw barti o'r farn bod angen amcangyfrif amser gwahanol, rhaid hysbysu'r llys ar unwaith - gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54A yn §7.7; gweler hefyd y llythyr rhestru, sy'n nodi fel a ganlyn

*“Mae'r cais hwn wedi'i restru yn unol â'n polisi rhestru ac ar y sail na fydd yn cymryd mwy na 30 munud i'w wrando. Os ydych eisoes wedi datgan bod y cais hwn angen gwrandawriad sy'n hwy na 30 munud, byddwn yn ddiolchgar pe baech yn gallu cadarnhau hyn, **yn ysgrifenedig**, gyda'r Swyddfa Restru. Fel arall pan gewch y llythyr hwn, mae'n rhaid ichi gadarnhau eich amcangyfrif amser cyfredol. Mae hwn yn ofyniad gorfodol. Os bydd rhaid gohirio'r gwrandawriad oherwydd amcangyfrif amser cynyddol hwyr, yn gwbl ar wahân i unrhyw sancsiwn costau, efallai y bydd rhaid i'r cyfreithwyr a'r cwnsler dan sylw ymddangos gerbron y Llys i esbonio'r methiant i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd uchod. Hefyd, bydd yr achos yn cael ei ail-restru ar y cyfle cynharaf posibl yn unol ag argaeledd y Barnwr ac **nid** argaeledd unrhyw gwnsler.”*

Gwrandawiadau terfynol (gan gynnwys gwrandawiadau treigl)

- 39) Rhestrir gwrandawiadau terfynol yn unol â'r arferion a'r egwyddorion uchod ym mharagraffau 19 - 23, a'r materion ychwanegol canlynol.
- 40) I achosion gael eu gwrandao yn Llundain, cyn gynted ag y bydd ffi'r Llys sydd raid ei thalu i barhau â'r achos wedi'i thalu, bydd y Swyddfa Restru yn hysbysu'r partïon trwy e-bost am ffenestr o ddyddiadau addas, ac yn eu hannog i gytuno ar ddyddiad sy'n gyfleus i'r ddwy ochr ar gyfer y gwrandawiad.
- 41) Bydd y Swyddfa Restru yn ceisio cynnig 3 dyddiad i'r partïon sydd o fewn yr amserlen berthnasol a nodir yng Nghyfarwyddyd Ymarfer 54D. Mae dyddiadau gwrandawiadau ar gyfer achosion arwyddocaol yn ddibynnol ar argaeledd barnwr sydd wedi'i awdurdodi i wrando ar achosion o'r fath. Os na all y partïon gytuno ar un o'r dyddiadau hyn, bydd yr achos yn cael ei restru i'w wrando heb gyfathrebu ymhellach â'r partïon. Dim ond pan fydd hynny'n angenrheidiol y defnyddir y broses pennu dyddiad.
- 42) Gan amlaf, bydd swyddfeydd y cylchdeithiau unigol yn dilyn yr un polisi.

Atodiad 1

Ceisiadau brys: Ymgymeriad i dalu'r ffi sy'n ofynnol

43) Anogir ymgyfreithwyr i ddefnyddio cyfleuster cyfrif ffioedd GLITEM i osgoi gorfod dilyn prosesau diangen ac oedi wrth barhau â'r achos llys.

I greu cyfrif, anfonwch neges e-bost i: MiddleOffice.DDServices@liberata.gse.gov.uk

44) Gallwch ddefnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i dalu unrhyw ffi.

- Ar gyfer ceisiadau a gafodd eu cychwyn yn Llundain, ffoniwch 0203 936 8957 (10:00am - 16:00pm, dydd Llun - dydd Gwener, dim Gwyliau Banc) neu anfonwch neges e-bost i RCJfeespayers@justice.gov.uk.
- Ar gyfer ceisiadau a gafodd eu cychwyn y tu allan i Lundain, rhowch eich rhif ffôn i swyddfa ACO y gylchdaith berthnasol a bydd rhywun o'r swyddfa honno yn eich ffonio i gymryd y taliad.

45) Dylai ymgyfreithwyr sydd angen cyflwyno cais brys ond sy'n methu â thalu'r ffi naill ai gan ddefnyddio cyfrif neu gyda cherdyn credyd neu ddebyd, ddilyn y broses a nodir isod. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir defnyddio'r broses hon o ganlyniad i argyfwng na ellir ei osgoi, a dim ond gan gyfreithwyr / bargyfreithwyr sydd â hawl i gymryd rhan mewn cyfreitha. Ni ellir defnyddio'r broses hon ar ôl 4.30pm ar gyfer ceisiadau a gychwynnwyd yn Llundain, 4pm ar gyfer ceisiadau a gychwynnwyd y tu allan i Lundain.

Cam 1

E-bostio'r dogfennau angenrheidiol (a nodir isod) i:

- Llundain generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
Ffôn: 020 7947 6655
- Caerdydd cardiff@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
Ffôn: 02920 376 460
- Birmingham birmingham@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
Ffôn: 0121 681 4441
- Leeds leeds@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
Ffôn: 0113 306 2578
- Manceinion manchester@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
Ffôn: 0161 240 5313

Cam 2

Arhoswch i'r Llys brosesu eich cais ac e-bostio ffurflen hawlio wedi'i selio atoch i'w chyflwyno. Sylwch os gwelwch yn dda: os nad ydych yn darparu'r holl ddogfennau sydd wedi'u nodi isod (gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54B) ynghyd ag (a) y ffurflen ymgymeriad EX160B3;⁴⁹⁹ a (b) llythyr eglurhaol yn egluro'r argyfwng yn llawn a pham na ellir talu'r ffi ofynnol, ni fydd eich cais yn cael ei brosesu.

Cam 3

Postiwch y ffi ofynnol i'r Llys. Mae'r ymgymeriad yn mynnu bod rhaid i'r ffi gyrraedd y llys o fewn 5 diwrnod. Rhaid nodi cyfeirnod y Llys yn glir ar y llythyr eglurhaol.

⁴⁹⁹ Mae'r ffurflen ar gael yn <http://formfinder.hmctsformfinder.justice.gov.uk/ex160b-eng.pdf>

Atodiad 5 – Traddodi Dyfarniadau'r Llys Gweinyddol yng Nghymru

- 1) Yn unol â CPR 7.1A rhaid gwrando achosion lle mae penderfyniadau cyrff cyhoeddus Cymru yn cael eu herio yng Nghymru (oni bai bod unrhyw ddeddfiad, rheol neu gyfarwyddyd ymarfer yn mynnu fel arall). Hefyd, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn CPR PD 54C, bydd hawliadau cyfraith gyhoeddus eraill sydd â chysylltiad agos â Chymru fel arfer yn cael eu gwrando yng Nghymru.
- 2) Pan fydd achos wedi'i wrando yng Nghymru a'r dyfarniad wedi'i ohirio, bydd y dyfarniad yn cael ei draddodi mewn llys agored yn y ffordd arferol os yw'r barnwr yn dal i eistedd yng Nghymru pan fydd y dyfarniad yn barod i'w draddodi.
- 3) Os na fydd y barnwr yn eistedd yng Nghymru mwyach pan fydd y dyfarniad gohiriedig yn barod i'w draddodi, dyma fydd y broses.
 - (a) Os na chytunir ar faterion canlyniadol, a bod angen gwrandawriad i'w penderfynu, yna bydd y barnwr yn dychwelyd i Gymru ar gyfer y gwrandawriad hwnnw.
 - (b) Os cytunir ar yr holl faterion canlyniadol, neu os bydd y partïon yn cydsynio i benderfynu ar y materion canlyniadol ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig (fel bod modd traddodi dyfarniad heb i'r partïon orfod bod yn bresennol), gellir traddodi'r dyfarniad (i) gan unrhyw farnwr sy'n eistedd mewn llys yng Nghymru, ar ran y barnwr a wnaeth gynnal y gwrandawriad; neu (ii) trwy restru'r achos ar y Rhestr Achosion ("Dyfarniad i'w draddodi") ac yna cyhoeddi'r dyfarniad ar *Bailii* ar yr amser penodedig.
- 4) Ar ôl i'r dyfarniad gael ei draddodi, bydd copïau ohono ar gael gan ACO yng Nghaerdydd.
- 5) Rhaid i'r barnwr neu glerc y barnwr anfon copïau o'r dyfarniad terfynol i ACO yng Nghymru cyn iddo gael ei draddodi i sicrhau bod copïau ar gael i unrhyw un sy'n bresennol pan fydd y dyfarniad yn cael ei draddodi. Rhaid i ACO yng Nghymru sicrhau bod yr embargo yn cael ei barchu cyn belled ag y bo modd, ac nad yw'r dyfarniad ar gael nes bod y dyfarniad wedi'i draddodi'n ffurfiol.

Atodiad 6 – Adolygiad Barnwrol yn yr Uwch Dribiwnlys

A6.1 Awdurdodaeth Adolygiad Barnwrol yr Uwch Dribiwnlys

- A6.1.1 Rhoddir awdurdodaeth adolygiad barnwrol i'r Uwch Dribiwnlys dan adran 15 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ("TCEA"). Mae bodolaeth yr awdurdodaeth yn dibynnu ar fodloni rhai amodau penodol, fel yr eglurir yn adran 18 o'r TCEA.
- A6.1.2 Mae gan yr Uwch Dribiwnlys y pŵer i roi, gwahardd neu ddileu gorchymyn gorfodol, datganiad a gwaharddeb. Mae gan ryddhad a roddir gan yr Uwch Dribiwnlys yr un pŵer â rhyddhad cyfatebol a roddir gan yr Uchel Lys ac y mae'n orfodadwy fel petai'n rhyddhad a roddwyd gan y Llys hwnnw. Wrth benderfynu a ddylid rhoi rhyddhad, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys lynu wrth yr un egwyddorion ag y byddai'r Uchel Lys yn ei wneud wrth benderfynu a ddylid rhoi rhyddhad ar gais am adolygiad barnwrol.
- A6.1.3 Yn yr un modd â'r sefyllfa yn yr Uchel Lys, mae adran 16 TCEA yn nodi y gellir gwneud cais am adolygiad barnwrol dim ond os yw'r ceisydd wedi cael caniatâd. Mae adran 16 hefyd yn cynnwys darpariaethau dan yr un telerau ag adran 31 (2A) Deddf Uwchlysoedd 1981, gan gyfyngu ar y gallu i roi rhyddhad pan fydd yr Uwch Dribiwnlys o'r farn ei bod yn debygol iawn na fyddai'r canlyniad wedi bod yn sylweddol wahanol hyd yn oed pe na bai'r ymddygiad y cwynwyd amdano wedi digwydd.⁵⁰⁰

A6.2 Trosglwyddo Ceisiadau Adolygiad Barnwrol

- A6.2.1 Fel yr eglurwyd ym [mharagraff 6.5](#) yn y Canllaw hwn, effaith Cyfarwyddyd yr Arglwydd Brif Ustus yw bod y mwyafrif o geisiadau am adolygiad barnwrol o benderfyniadau mewnfudo (a lloches) yn cael eu ffeilio yn yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Mewnfudo a Lloches) ("UT(IAC)") ac, os caiff ei ffeilio yn yr Uchel Lys, rhaid ei drosglwyddo i'r Uwch Dribiwnlys (IAC). Os gwneir cais i'r Uwch Dribiwnlys (IAC) am adolygiad barnwrol o benderfyniad nad yw'n dod o dan y Cyfarwyddyd, neu sydd wedi'i eithrio'n benodol ganddo (gweler [6.5.3](#)), yna, yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir yn y paragraff a ganlyn, rhaid i'r Uwch Dribiwnlys (IAC) drosglwyddo'r cais i'r Uchel Lys.⁵⁰¹
- A6.2.2 Os bodlonir rhai amodau penodol a bennir yn adran 31A(4) a (5) Deddf Uwchlysoedd 1981, caiff yr Uchel Lys, trwy orchymyn, drosglwyddo [cais am adolygiad barnwrol] i'r Uwch Dribiwnlys os yw'n ymddangos i'r Uchel Lys ei fod "yn gyfiawn ac yn gyfleus i wneud hynny".⁵⁰² Mae'r pŵer hwn yn cael ei arfer yn rheolaidd er mwyn trosglwyddo i'r Uwch Dribiwnlys (IAC) adolygiad barnwrol a wneir gan unigolyn sy'n honni ei fod yn unigolyn dan oed o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig, gan herio asesiad awdurdod lleol o oedran yr unigolyn hwnnw.

⁵⁰⁰ Gweler paragraff 12.10 yn y Canllaw hwn.

⁵⁰¹ TCEA a. 18(3).

⁵⁰² Adran 31A(3) Deddf Uwchlysoedd 1981.

- A6.2.3 Mae gan yr Uwch Dribiwnlys y pŵer i ganiatáu neu ofyn am ddiwygiad a fyddai, pe bai'n cael ei wneud, yn arwain at rwymedigaeth i drosglwyddo'r achos i'r Uchel Lys. Ac eithrio gyda chaniatâd yr Uwch Dribiwnlys, efallai na fydd seiliau ychwanegol yn cael eu rhoi pe byddent yn arwain at rwymedigaeth i drosglwyddo.

Felly mae gan yr Uwch Dribiwnlys y pŵer i benderfynu a ddylid cadw awdurdodaeth dros y cais am adolygiad barnwrol. Os trosglwyddwyd y cais am adolygiad barnwrol i'r Uwch Dribiwnlys gan yr Uchel Lys o dan bŵer trosglwyddo'r Llys hwnnw, ac ni fyddai'r diwygiad neu'r seiliau ychwanegol wedi atal yr Uchel Lys rhag arfer y pŵer hwnnw, pe bai'r diwygiad neu'r seiliau wedi bod mewn lle cyn y trosglwyddiad, yna bydd yr Uwch Dribiwnlys yn trosglwyddo'r cais yn ôl i'r Uchel Lys dim ond os yw'r Uwch Dribiwnlys yn ei ystyried yn gyfiawn ac yn gyfleus i wneud hynny.⁵⁰³

A6.3 Ceisiadau y Tu Allan i Orlau

- A6.3.1 Mae'r broses y tu allan i oriau a ddisgrifir ym [mharagraff 17.1](#) yn y Canllaw hwn yn berthnasol i geisiadau brys mewn achos adolygiad barnwrol mewnfudo na allant aros tan y diwrnod gwaith nesaf. At y diben hwn, bydd y barnwr Uchel Lys y tu allan i oriau yn eistedd fel barnwr yr Uwch Dribiwnlys.

⁵⁰³ UT r 33A

29. Atodiad 7 - Y Llys Gweinyddol: Gwybodaeth i Ddefnyddwyr y Llys

Dyddiad dod i rym: 27 Mehefin 2022

Bydd y mesurau ymarferol canlynol yn parhau i fod mewn lle hyd nes y rhoddir rhybudd pellach, i gynorthwyo'r Llys i ddelio â'i fusnes mor effeithlon â phosibl.

Mae Adran A a B yn berthnasol i bob hawliad a wneir yn y Llys Gweinyddol. Mae Cyfarwyddiadau Ymarfer 54A a 54B yn mynnu bod rhaid cydymffurfio ag Adran A.

Mae adrannau C i H hefyd yn berthnasol i hawliadau, apeliadau a cheisiadau a weinyddir gan y Llys Gweinyddol; ond fe eglurir pryd fydd y trefniadau'n wahanol, gan ddibynnu ar ba swyddfa Llys Gweinyddol sy'n delio â'r mater, yn y testun isod.

Trefniadau ar gyfer gweithio'n electronig

A. BWNDELI ELECTRONIG

(Cyfarwyddyd Ymarfer 54A, §§ 4.5 a 15; Cyfarwyddyd Ymarfer 54B, §1.3)

Rhaid dilyn y broses ganlynol wrth baratoi bwndeli electronig a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer eu defnyddio â phob fersiwn o Adobe Acrobat Reader, PDF Expert a PDF Xchange Editor.

1. Rhaid i fwndel fod yn un ddogfen PDF.
2. Os caiff y bwndel ei ffeilio i gefnogi cais brys (h.y., cais a wnaed gan ddefnyddio Ffurflen N463) rhaid iddo beidio â bod yn fwy na 20mb, a (oni bai bod y llys yn gofyn yn wahanol) dylid ei ffeilio trwy e-bost
3. Os yw'r papurau sy'n cefnogi unrhyw hawliad neu apêl neu gais nad yw'n fater brys yn fwy na 20mb, dylai'r parti ffeilio:

- a. bwndel craidd (heb fod yn fwy na 20mb) gan gynnwys, o leiaf, y Ffurflen Hawlio a'r Seiliau neu'r Hysbysiad o Apêl a'r Seiliau, neu'r Rhybudd Cyflwyno Cais a'r Seiliau; dogfennau a ystyrir yn hanfodol i'r hawliad, yr apêl neu'r cais (er enghraifft y penderfyniad a heriwyd, y llythyr a anfonwyd cyn yr hawliad a'r ymateb, ac ati); unrhyw ddatganiadau tyst (neu ddatganiad tyst sylfaenol) y dibynnir arnynt i gefnogi'r hawliad, yr apêl neu'r cais; a drafft o'r gorchymyn y gofynnir i'r llys ei wneud; a
- b. bwndel arall sy'n cynnwys yr holl ddogfennau eraill.

Dylid ffeilio bwndeli o'r fath gan ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau.

- 4. Rhaid rhifo tudalennau pob bwndel o'r dechrau i'r diwedd. Dylid rhifo tudalen gyntaf y PDF yn "1", ac yn y blaen. (Rhaid anwybyddu unrhyw rifau tudalen gwreiddiol sydd ar ddogfennau sydd yn y bwndel.) Rhaid rhifo'r tudalennau mynegai fel rhan o'r ddogfen PDF, ni ddylid eu hepgor; maent yn rhan o'r PDF a rhaid eu rhifo. Os cynhyrchir copi caled o'r bwndel, rhaid i rifau tudalennau'r copi caled gyfateb yn union a rhifau tudalennau'r PDF.
- 5. Pryd bynnag y bo modd, dylid defnyddio swyddogaeth gyfrifiadurol i rifo'r tudalennau; os nad yw hyn yn bosibl, rhaid teipio'r rhifau.
- 6. Rhaid i'r dudalen fynegai gynnwys dolenni i'r tudalennau neu'r dogfennau y mae'n cyfeirio atynt.
- 7. Rhaid nodi enw pob dogfen sydd yn y bwndel yn rhestr bar ochr y rhestr gynnwys / nodau tudalen, yn ôl dyddiad a disgrifiad (e.e., "e-bost 11.9.21 gan [x] i [y]"). Rhaid i'r rhestr bar ochr hefyd ddangos rhif tudalen y ddogfen yn y bwndel.
- 8. Rhaid i bob bwndel gynnwys testun, ni ddylai fod yn sgan o gopi caled o fwndel. Os yw dogfennau o fewn bwndel wedi'u sganio, dylid sicrhau fod modd chwilio am eiriau penodol yn y testun cyn ei ffeilio. (Dyma'r broses sy'n trosi'r ddogfen o fod yn llun o ddogfen i fod yn un lle gellir darllen y testun fel testun fel bod modd chwilio am eiriau penodol yn y testun ac fel y gellir amlygu geiriau yn y ddogfen wrth eu marcio. Rhaid felly gallu dethol y testun sydd yn y bwndel er mwyn gallu ei amlygu a'i gopïo.

9. Rhaid troi unrhyw ddogfen sydd ar draws fel ei bod ar i fyny er mwyn gallu ei darllen o'r chwith i'r dde.
10. Rhaid i faint y testun ar bob tudalen fod yn 100% bob amser.
11. Rhaid lleihau eglurder y dogfennau sydd yn y bwndel electronig i tua 200-300 dpi i atal oedi wrth sgrollo o un dudalen i'r llall.
12. Os bydd angen ychwanegu at fwndel ar ôl i'r ddogfen gael ei ffeilio, ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd y barnwr yn derbyn bwndel newydd oherwydd efallai y bydd eisoes wedi dechrau marcio'r gwreiddiol. Dylid holi'r barnwr ynghylch yr hyn yr hoffai wneud yn ei gylch. Yn absenoldeb cyfarwyddyd penodol, dylid darparu unrhyw dudalennau sydd i'w hychwanegu at y bwndel sydd eisoes wedi'i ffeilio ar wahân, mewn dogfen ar wahân, gyda'r tudalennau wedi'u his-rifo'n briodol.

Am arweiniad ynghylch sut i baratoi bwndel electronig, gweler (fel enghraifft) y fideo hwn a baratowyd gan St Philips Chambers, sy'n esbonio sut i greu bwndel gan ddefnyddio Adobe Acrobat Pro <https://st-philips.com/creating-and-using-electronic-hearing-bundles/>

Efallai na fydd Barnwr yn ystyried unrhyw gais sy'n cael ei ffeilio gan gynrychiolydd cyfreithiol nad yw'n cydymffurfio â'r rheolau uchod ar fwndeli electronig. Os yw'r cais yn cael ei ffeilio gan ymgyfreithiwr drosto'i hun rhaid i'r bwndel electronig, os yn bosibl, gydymffurfio â'r rheolau uchod. Os nad yw'n bosibl i ymgyfreithiwr drosto'i hun gydymffurfio â'r rheolau ar fwndeli electronig, rhaid i'r cais gynnwys esboniad byr o'r rhesymau pam.

B. Y GANOLFAN LLWYTHO DOGFENNAU

Pryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio dogfennau'n electronig. Mae hyn yn cynnwys hawliadau, ymatebion, ceisiadau yng nghwrs achos a bwndeli gwrandawladau. Oni nodir yn wahanol, dylech ffeilio dogfennau gan ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau (DUC).

Dylid anfon ceisiadau i uwchlwytho dogfennau i'r DUC i'r cyfeiriadau e-bost y cyfeirir atynt isod yn Adran D, E a F. Ar ôl uwchlwytho dogfen, mae'n rhaid i chi anfon e-bost i swyddfa'r llys perthnasol i gadarnhau eich bod wedi gwneud hyn.

I gael cyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio'r DUC, gweler "Canllaw i Ddefnyddwyr Proffesiynol" GLITEM i gael manylion manwl am y Ganolfan Llwytho Dogfennau ⁵⁰⁴, a'r fideo am DUC ar YouTube⁵⁰⁵.

Trefniadau ar ffeilio ac ymateb i hawliadau, apeliadau a cheisiadau

C. CEISIADAU I'W HYSTYRIED AR FRYS

Y Llys Gweinyddol, Llundain (Llysoedd Barn Brenhinol)

Dylid ffeilio ceisiadau brys (h.y. ceisiadau sy'n dod o fewn cwrdd Cyfarwyddyd Ymarfer 54B) naill ai'n electronig (dyma'r dull a ffafir lle bynnag y bo hynny'n bosibl), neu trwy'r post neu DX. Hyd nes y rhoddir rhybudd pellach, ni chaniateir ffeilio ceisiadau brys dros y cownter yn y Llysoedd Barn Brenhinol.

Dylid defnyddio'r broses a eglurir isod ar gyfer unrhyw gais brys yng nghwrs achos sy'n cael ei ffeilio'n electronig.

1. Rhaid ffeilio ceisiadau trwy anfon e-bost i:
immediates@administrativecourtoffice.justice.gov.uk a chynnwys naill ai rhif PBA, derbynneb am y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd / credyd neu dystysgrif dileu ffioedd (gweler isod, Adran G).
2. Bydd y mewnlwch hwn yn cael ei fonitro o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9:30am a 4:30pm. Y tu allan i'r oriau hyn dylid defnyddio proses tu allan i oriau arferol Adran Mainc y Frenhines.
3. Rhaid i'ch cais gynnwys bwndel electronig sy'n cynnwys dim ond y dogfennau hynny y bydd angen i'r llys eu darllen at ddibenion penderfynu ar y cais - gweler Cyfarwyddyd Ymarfer 54B yn §§1.3, a 2.2 - 2.3. Rhaid paratoi'r bwndel yn unol â'r canllawiau yn Adran A; rhaid iddo beidio â bod yn fwy na 20mb.
4. Dylid anfon unrhyw ymholiadau brys eraill trwy e-bost i
generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk, gan eu marcio'n flaenoriaeth uchel a chyda 'BRYIS/URGENT' yn y llinell pwnc. Ymdrinnir ag unrhyw negeseuon e-bost o'r fath cyn gynted â phosibl.

Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol drwy ffonio 020 7947 6655 (opsiwn 6) fel y gellir cymryd manylion eich cais dros y ffôn a gwneud trefniadau amgen os caniateir hynny gan yr uwch reolwr cyfreithiol neu'r barnwr ar ddyletswydd.

⁵⁰⁴

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/887109/Document_Upload_Centre_-_Professional_User.pdf

⁵⁰⁵ <https://www.youtube.com/watch?v=rbYBhdPNr5E>

Swyddfeydd Llys Gweinyddol eraill

Y tu allan i Lundain, gellir ffeilio ceisiadau brys rhwng 10am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir ffeilio ceisiadau brys yn bersonol hefyd. Os ydych chi'n dymuno ffeilio'ch cais yn bersonol, dylech ffonio'r swyddfa berthnasol i drefnu amser i chi fynd i'r cownter cyhoeddus. Dyma'r rhifau ffôn perthnasol:-

Birmingham 0121 681 4441 – dewiswch opsiwn 2 ac yna opsiwn 5.

Caerdydd 02920 376460

Leeds 0113 306 2578

Manceinion 0161 240 5313

Os ydych chi'n ffeilio cais brys trwy e-bost, mae'r trefniadau yn 1 - 4 uchod yn berthnasol, ac eithrio: (a) gweler Adran H isod am sut i dalu'r ffi gwneud cais; a (b) defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost canlynol.

Birmingham:

birmingham@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Caerdydd:

cardiff@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Leeds:

leeds@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Manceinion:

manchester@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

D. GWAITH NAD YW'N FRYS: HAWLIADAU AC APELIADAU SIFIL

Dylid ffeilio pob gwaith sifil arall (h.y. hawliadau, apeliadau a cheisiadau nad ydynt yn rhai brys) yn electronig (dyma'r dull a ffeirir lle bynnag y bo hynny'n bosibl) neu trwy'r post neu DX. Efallai y bydd ychydig o oedi cyn i hawliadau / ceisiadau gael eu cychwyn, ond bydd y dyddiad y bydd y Ffurflen Hawlio neu'r Hysbysiad o Apêl yn cyrraedd swyddfa'r Llys Gweinyddol yn cael ei gofnodi fel y dyddiad ffeilio. Cyfrifoldeb y parti sy'n gwneud cais neu hawliad o hyd yw sicrhau ei fod yn cael ei ffeilio o fewn y terfyn amser perthnasol.

Os oes angen gwneud penderfyniad ar gais yng nghwrs achos o fewn cyfnod penodol, nodwch (yn y Rhybudd Cyflwyno Cais ac mewn llythyr eglurhaol) y dyddiad erbyn pryd y mae angen penderfynu ar y cais.

Ffeilio hawliadau, apeliadau a cheisiadau nad ydynt yn rhai brys

1. Pa bryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio hawliadau am adolygiad barnwrol, apeliadau statudol, materion cynllunio a cheisiadau yng nghwrs achos nad ydynt yn rhai brys yn electronig gan ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau.
2. Dylid anfon ceisiadau i lwytho dogfennau ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn Llundain i:
DUC@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

Fe gewch wahoddiad drwy e-bost i lwytho eich dogfennau. Dylech wedyn lwytho'r hawliad/apêl/bwndel cais (a baratowyd yn unol â'r canllawiau a roddwyd yn Adran A).

3. Os ydych yn cychwyn hawliad neu apêl yna dylech lwytho dogfen PDF arall sy'n cynnwys copi ychwanegol o'r Ffurflen Hawlio neu'r Hysbysiad o Apêl a'r ddogfen penderfyniad yr ydych yn ei herio. Os ydych yn ffeilio'r dogfennau yn Llundain dylech gynnwys rhif PBA neu dderbynnwch ar gyfer y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd neu gredyd neu dystysgrif dileu ffioedd (gweler Adran H); os ydych yn ffeilio'r hawliad mewn swyddfa y tu allan i Lundain, dylech hefyd gyfeirio at Adran H.

4. Rhaid i'r dogfennau sy'n cael eu llwytho fod ar ffurf PDF, ni fydd y system yn derbyn unrhyw fformat arall. Os yw'r papurau sy'n cefnogi cais am adolygiad barnwrol neu apêl neu gais yn fwy na 20mb, yna dylai'r hawlydd / apelydd / ceisydd ffeilio:

- a. bwndel craidd (heb fod yn fwy na 20mb) gan gynnwys, o leiaf, y Ffurflen Hawlio a'r Seiliau neu'r Hysbysiad o Apêl a'r Seiliau, neu'r Rhybudd Cyflwyno Cais a'r Seiliau; dogfennau a ystyrir yn hanfodol i'r hawliad, yr apêl neu'r cais (er enghraifft y penderfyniad a heriwyd, y llythyr a anfonwyd cyn yr hawliad a'r ymateb, ac ati); unrhyw ddatganiadau tyst (neu ddatganiad tyst sylfaenol) y dibynnir arnynt i gefnogi'r hawliad, yr apêl neu'r cais; a drafft o'r gorchymyn y gofynnir i'r llys ei wneud; a
- b. bwndel arall sy'n cynnwys yr holl ddogfennau eraill.

5. Rhaid paratoi / fformatio pob bwndel electronig yn unol â'r canllawiau yn Adran A.

6. Ar ôl i hawliad neu apêl gael ei gychwyn, bydd staff y Llys Gweinyddol yn anfon cyfeirnod yr achos at y partïon trwy e-bost.

7. Dylid anfon ceisiadau yng nghwrs achos trwy e-bost

ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn Llundain i:

generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

Os ydych chi'n ffeilio eich cais yn Llundain, dylech gynnwys rhif PBA neu dderbynnwch ar gyfer y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd / credyd (gweler Adran H); os yn ffeilio mewn swyddfa y tu allan i Lundain, dylech hefyd gyfeirio at Adran H.

8. Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech ffonio Swyddfa'r Llys Gweinyddol fel y gellir gwneud trefniadau amgen. Ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn yn Llundain, y rhif ffôn yw 020 7947 6655 (optiwn 6). Ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill defnyddiwch y rhif ffôn priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

Ymateb i hawliadau, apeliadau neu rybuddion cyflwyno cais

1. Pryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio unrhyw ymateb i hawliad neu apêl neu rybudd cyflwyno cais yn electronig. Bydd hyn yn cynnwys Cydnabyddiaethau Cyflwyno, Hysbysiadau i Atebwyr, ymatebion i geisiadau yng nghwrs achos, ac unrhyw fwndeli ategol.

2. Dylech ffeilio dogfennau llai (llai na 50 tudalen neu lai na 10mb) trwy e-bost. Yn Llundain, dylid eu hanfon i caseprogression@administrativecourtoffice.justice.gov.uk, ar gyfer pob swyddfa arall defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

3. Dylech ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau ar gyfer ffeilio pob dogfen arall. Rhaid i'r cynrychiolydd proffesiynol wneud unrhyw gais i lwytho dogfennau trwy e-bost:

ar gyfer achosion yn Llundain i: DUC@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

4. Mae'r gofynion ar gyfer paratoi bwndeli yn Adran A ac Adran D (ffeilio hawliadau, yn berthnasol a rhaid eu dilyn. Sylwch ar y cyfyngiadau ar faint ffeil.

5. Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech ffonio Swyddfa'r Llys Gweinyddol fel y gellir gwneud trefniadau amgen. Ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn yn Llundain, y rhif ffôn yw 020 7947 6655 (optiwn 6). Ar gyfer hawliadau sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill defnyddiwch y rhif ffôn priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

E. GWAITH NAD YW'N FRYS: HAWLIADAU MEWN ACHOSION NEU FATERION TROSEDDOL, APELIADAU DRWY ACHOS DATGANEDIG

Ffeilio hawliadau a chychwyn ceisiadau ac apeliadau drwy achos datganedig

1. Pa bryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio hawliadau nad ydynt yn frys am adolygiad barnwrol mewn achosion neu faterion troseddol ac apeliadau drwy achos datganedig yn electronig gan ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau.

2. Dylid anfon ceisiadau i lwytho dogfennau ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn Llundain i: crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

3. Fe gewch wahoddiad drwy e-bost i lwytho eich dogfennau. Dylech wedyn lwytho'r hawliad/apêl/bwndel cais (a baratowyd yn unol â'r canllawiau a roddwyd yn Adran A). Os ydych yn cychwyn hawliad neu apêl yna dylech hefyd lwytho dogfen PDF arall sy'n cynnwys copi ychwanegol o'r Ffurflen Hawlio neu'r Hysbysiad o Apêl a'r ddogfen penderfyniad yr ydych yn ei herio. Os ydych chi'n ffeilio yn Llundain, dylech gynnwys rhif PBA neu dderbynnwch ar gyfer y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd / credyd neu dystysgrif dileu ffioedd (gweler Adran H); os ydych chi'n ffeilio yn unrhyw un o'r swyddfeydd y tu allan i Lundain, gweler hefyd Adran H.

4. Ar ôl i hawliad neu apêl gael ei gychwyn, bydd staff y Llys Gweinyddol yn anfon cyfeirnod yr achos at y partïon trwy e-bost.

5. Dylid anfon ceisiadau yng nghwrs achos trwy e-bost

ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn Llundain i:

crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

ar gyfer y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol a nodwyd yn Adran B uchod.

Ar gyfer ceisiadau yn Llundain, dylech gynnwys rhif PBA neu dderbynnwch ar gyfer y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd / credyd (gweler Adran H); os ydych chi'n ffeilio yr hawliad yn unrhyw un o'r swyddfeydd y tu allan i Lundain, gweler hefyd Adran H.

6. Mae'r gofynion ar gyfer paratoi bwndeli yn Adran A ac Adran D (ffeilio hawliadau, yn berthnasol a rhaid eu dilyn. Sylwch ar y cyfyngiadau ar faint ffeil.

7. Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol drwy ffonio 020 7947 6655 (opsiwn 6) fel y gellir gwneud trefniadau amgen.

Ymateb i hawliadau ac apeliadau drwy achos datganedig

1. Pryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio unrhyw ymateb i hawliad neu apêl neu rybudd cyflwyno cais yn electronig. Mae hyn yn cynnwys Cydnabyddiaethau Cyflwyno, Hysbysiadau i Atebwyr, ymatebion i geisiadau yng nghwrs achos, ac unrhyw fwndeli ategol.

2. Dylech ffeilio dogfennau llai (llai na 50 tudalen neu lai na 10mb) trwy e-bost. Yn Llundain, defnyddiwch crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk, ar gyfer pob swyddfa arall defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

3. Dylech ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau ar gyfer ffeilio pob dogfen arall. Dylid anfon ceisiadau i lwytho dogfennau ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn Llundain i: crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

ar gyfer achosion sy'n cael eu cychwyn yn y swyddfeydd eraill, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost priodol sydd wedi'i nodi yn Adran C uchod.

4. Mae'r gofynion ar gyfer paratoi bwndeli yn Adran A ac Adran D, yn berthnasol a rhaid eu dilyn. Sylwch ar y cyfyngiadau ar faint ffeil.
5. Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol drwy ffonio 020 7947 6655 (Opswn 6) fel y gellir gwneud trefniadau amgen.

F. APELIADAU ESTRADDODI

Ffeilio apeliadau a chodi Rhybuddion Cyflwyno Cais

1. Pa bryd bynnag y bo modd, rhaid anfon apeliadau estraddodi a cheisiadau yng nghwrs achos mewn apeliadau estraddodi yn electronig i:
crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Dylech gynnwys rhif PBA neu dderbynnwch ar gyfer y taliad a wnaed gyda cherdyn debyd / credyd (gweler Adran H). Os nad oes gennych gynrychiolaeth gyfreithiol ac nad oes gennych fynediad at e-bost, dylech gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol drwy ffonio 020 7947 6655 (Opswn 6) fel y gellir gwneud trefniadau amgen.

2. Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno seiliau diwygiedig ar gyfer yr apêl ddod i ben, rhaid ffeilio y Bwndel Apêl. Defnyddiwch y Ganolfan Llwytho Dogfennau. Rhaid i'r cynrychiolydd proffesiynol wneud unrhyw gais i lwytho dogfennau trwy anfon e-bost i:
crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk

Dylai ymgyfreithwyr drostynt eu hunain sydd heb fynediad at e-bost gysylltu â'r Llys i wneud trefniadau amgen - gweler paragraff 1 uchod.

3. Rhaid ffeilio unrhyw fwndeli pellach (p'un ai ar gyfer cais atgynhyrchu am ganiatâd i apelio neu i wrando ar yr apêl) trwy'r dulliau a nodir ym mharagraff 2 uchod.
4. Rhaid paratoi pob bwndel ar gyfer yr apêl neu (os gwrandewir y cais mewn gwrandawriad ar wahân i'r gwrandawriad am ganiatâd i apelio neu'r gwrandawriad apêl), ar gyfer unrhyw gais yn yr apêl yn unol â'r gofynion yn Adran A uchod. Os yw'r papurau sy'n cefnogi apêl neu gais yn fwy na 20mb, dylai'r Apelydd/Ceisydd ffeilio:
 - a. bwndel craidd (heb fod yn fwy na 20mb) sy'n cynnwys, o leiaf, yr Hysbysiad o Apêl a'r Seiliau, neu'r Rhybudd Cyflwyno Cais a'r seiliau; dogfennau a ystyrir yn hanfodol i'r apêl neu'r cais (er enghraifft y cais estraddodi, dyfarniad y Barnwr Rhanbarth, Hysbysiad yr Atebydd ac ati); unrhyw ddatganiadau tyst (neu ddatganiad tyst sylfaenol) y dibynnir arnynt i gefnogi'r apêl neu'r cais; a drafft o'r gorchymyn y gofynnir i'r llys ei wneud; a
 - b. bwndel arall sy'n cynnwys yr holl ddogfennau eraill.

Ymateb i apeliadau a Rhybuddion Cyflwyno Cais

1. Pa bryd bynnag y bo modd, dylid ffeilio ymatebion i apelïadau a Rhybuddion Cyflwyno Cais yn electronig gyda'r Llys Gweinyddol.
2. Dylid ffeilio dogfennau llai (llai na 50 tudalen neu lai na 10mb) trwy e-bost i Crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk.
3. Dylech ddefnyddio'r Ganolfan Llwytho Dogfennau ar gyfer ffeilio pob dogfen arall. Rhaid cyflwyno unrhyw gais i lwytho dogfennau trwy anfon neges e-bost i crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk
4. Dylai ymglyfreithwyr drostynt eu hunain nad oes ganddynt fynediad at e-bost gysylltu â Swyddfa'r Llys Gweinyddol drwy ffonio 020 7947 6655 (Opsïwn 6) fel y gellir gwneud trefniadau amgen.
5. Rhaid paratoi unrhyw ddogfennau ar gyfer gwrandawriad yr apêl neu'r cais yn unol â'r gofynion yn Adran A, a'u ffeilio yn y modd a ddisgrifir uchod yn y paragraffau sy'n ymwneud â ffeilio apelïadau.

Trefniadau eraill

G. PENDERFYNU HAWLIADAU

Ceisiadau papur

Bydd ceisiadau am ganiatâd i wneud cais am adolygiad barnwrol, ceisiadau am ganiatâd i apelio, a cheisiadau yng nghwrs achos yn parhau i gael eu hystyried ar sail y papurau, fel yn ôl yr arfer.

Gorchmynion

Bydd gorchmynion yn cael eu cyflwyno i bob parti trwy e-bost neu, os nad yw hyn yn bosib, fe'u cyflwynir trwy'r post.

Gwrandawiadau

1. Bydd yr holl faterion sydd i'w gwrandao yn ymddangos yn y Rhestr Achosion Dyddiol. Gall y rhestr newid ar fyr rybudd.
2. Gan amlaf, bydd gwrandawiadau yn cael eu cynnal wyneb i wyneb (yn y llys).
3. Gall barnwr, ar gais y partïon, ganiatáu math arall o wrandawriad: naill ai gwrandawriad hybrid, neu wrandawriad o bell. Gwrandawriad hybrid yw pan fydd rhai cyfranogwyr yn y llys ac eraill yn ymuno drwy fideo. Mewn gwrandawriad o bell, bydd pob cyfranogwr yn ymuno drwy fideo neu dros y ffôn. Cynhelir gwrandawiadau hybrid gan ddefnyddio Platfform Fideo'r Cwmwl (CVP) ar gyfer pobl sy'n mynychu trwy fideo. Cynhelir gwrandawiadau o bell trwy Platfform Fideo'r Cwmwl (CVP) neu Microsoft Teams (fideo), neu BT Meet Me (ffôn). Os cynhelir gwrandawriad trwy fideo a / neu dros y ffôn, bydd y trefniadau'n cael eu gwneud gan y llys.

3. Os gwneir cais i'r gwrandawriad fod ar ffurf gwrandawriad hybrid neu wrandawriad o bell, barnwr fydd yn penderfynu p'un a yw er budd cyfiawnder i ganiatáu'r cais. Pan fydd hynny'n bosibl bydd y barnwr yn gwneud y penderfyniad hwn gan ystyried barn y partion.

4. Os yw'n ymddangos efallai y bydd rhaid dad-restru gwrandawriad (e.e. oherwydd salwch) neu efallai y bydd angen newid y trefniadau ar gyfer y gwrandawriad (e.e. oherwydd bod angen i barti hunanynysu), rhwch wybod i'r llys cyn gynted â phosibl.

H. FFIGOEDD (MAE'N BERTHNASOL I BOB HAWLIAD)

Talu gyda cherdyn debyd neu gredyd (dros y ffôn neu e-bost)

Gallwch dalu ffi'r llys am hawliad yn Llundain gyda cherdyn debyd neu gredyd trwy ffonio'r Swyddfa Ffioedd ar 020 7073 4715 rhwng 10:00am a 16:00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc) neu trwy anfon e-bost i RCJfeespayments@justice.gov.uk Ar ôl i'r taliad gael ei brosesu fe gewch dderbynneb y dylech ei chyflwyno gyda'r ffurflen hawlio a / neu'r ffurflen gais.

Gallwch hefyd dalu ffioedd llys am hawliadau mewn swyddfeydd eraill gyda cherdyn debyd neu gredyd - rhwch eich rhif ffôn cyswllt yn yr e-bost / llythyr sy'n cyd-fynd â'r hawliad neu'r cais, a bydd rhywun yn eich ffonio i gymryd y taliad dros y ffôn.

Defnyddio cyfrif PBA i dalu

Os oes gennych gyfrif PBA, yna mae'n rhaid i chi gynnwys y cyfeirnod mewn llythyr eglurhaol gydag unrhyw ffurflen hawlio a / neu gais rydych chi'n ei gyflwyno fel y gellir tynnu'r ffi o'r cyfrif hwn.

Talu â siec

Dylid gwneud sieciau'n daladwy i GLITEM. Dylid anfon y siec gyda'r Ffurflen Hawlio neu'r Rhybudd Cyflwyno Cais, naill ai trwy'r post neu DX.

Ar gyfer hawliadau yn Llundain, gellir rhoi sieciau yn y blwch sydd wrth brif fynedfa'r Llysoedd Barn Brenhinol. Ar gyfer hawliadau mewn swyddfeydd eraill, os ydych wedi trefnu i ffeilio'r hawliad / cais yn bersonol, gallwch ddod â'r siec gyda chi.

Ymweld â chownter y Swyddfa Ffioedd (Llysoedd Barn Brenhinol, Llundain yn unig)

Mae cownter y Swyddfa Ffioedd ar agor i'r cyhoedd o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 10:00am a 4:30pm (ac eithrio Gwyliau Banc). **Rhaid trefnu apwyntiad i ymweld â chownter y Swyddfa Ffioedd. Nid allwch gerdded i mewn.** Tl wneud apwyntiad i fynychu'r cownter, cysylltwch â'r Swyddfa Ffioedd rhwng dydd Llun a dydd Gwener, 10.00am - 4.00pm (ac eithrio Gwyliau Banc), drwy ffonio (020 7947 6527) neu anfon neges e-bost i (feesofficecounterbooking@justice.gov.uk). Peidiwch â mynychu heb apwyntiad sydd wedi'i gadarnhau.

Unwaith y bydd y ffi wedi'i thalu neu y bydd ffurflen dileu ffioedd wedi'i llenwi, gellir anfon y Ffurflen Hawlio, yr Hysbysiad o Apêl neu'r Rhybudd Cyflwyno Cais a bydd yn cael ei hanfon ymlaen i swyddfa berthnasol y Llys Gweinyddol i'w phrosesu.

Help i dalu ffioedd

I wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i wefan Help i Dalu Ffioedd www.gov.uk/help-i-dalu-ffioedd-llysoedd-a-thribiwnlysoedd a dilynwch y broses gwneud cais cam wrth gam.

Os ydych yn gwneud eich hawliad yn Llundain anfonwch eich cyfeirnod 'HWF' at y Swyddfa Ffioedd feesrcj@justice.gov.uk ynghyd â chopi o'ch Ffurflen Hawlio a / neu ffurflen gais. Sylwch mai cadarnhad eich bod wedi gwneud cais yw'r cyfeirnod, nid cadarnhad eich bod am gael help i dalu ffioedd. Bydd y Swyddfa Ffioedd yn prosesu'ch cais ac yn cysylltu â chi gyda chanlyniad y cais am Help i Dalu Ffioedd a bydd yn dweud wrthyhych beth yw'r camau nesaf. Ar gyfer hawliadau y tu allan i Lundain, anfonwch eich cyfeirnod HWF gyda'r Ffurflen Hawlio a / neu'r ffurflen gais.

Atodiad 8 – Sut i gysylltu â'r Llys Gweinyddol drwy e-bost

Mae'r Llys yn cael llawer o negeseuon e-bost bob dydd. Byddwn yn gallu delio â'ch e-bost yn gyflymach os byddwch yn dilyn y canllawiau canlynol:

- Anfonwch eich neges e-bost i un o'r cyfeiriadau hyn yn unig. Os anfonwch neges i'r cyfeiriad e-bost anghywir, byddwn yn ei hanfon i'r un cywir.
- Peidiwch ag anfon eich neges e-bost at unigolyn. Byddwn yn anfon eich e-bost at yr unigolyn cywir.
- Cofiwch gynnwys dyddiad y gwrandawriad yn y llinell pwnc os yw'n digwydd yn fuan.
- Os yw'n berthnasol, marciwch eich neges e-bost yn flaenoriaeth uchel a rhowch y gair 'BRYD/URGENT' yn y blwch pwnc
- Cofiwch fod negeseuon e-bost a anfonir ar ôl 4.30pm yn Llundain, ac ar ôl 4pm yn y rhanbarthau, yn annhebygol o gael eu gweld tan y diwrnod gwaith nesaf.

MAE'R CYFEIRIADAU E-BOST CANLYNOL AR GYFER ACHOSION YN LLUNDAIN YN UNIG (ewch i ddiwedd y ddogfen i weld y cyfeiriadau e-bost ar gyfer achosion rhanbarthol):

Cyfeiriad e-bost	Natur yr ohebiaeth	Dylech gynnwys yn y llinell pwnc
immediates@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Gohebiaeth am ffeilio (neu gofyn cwestiynau) am geisiadau brys / di-oed ac eithrio achosion CJA / DTA ac achosion estraddodi	Rhif yr achos – os oes gennych un Amserlen arfaethedig ar gyfer ystyried unrhyw gais brys
generaloffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Gohebiaeth am gychwyn achosion newydd Ceisiadau newydd Anfon prawf o daliad neu rif PBA pan fydd ffi'n daladwy Ffeilio Gorchmynion Cydsynio a thalu'r ffi gan ddefnyddio PBA mewn achosion Sifil	Rhif yr achos – os oes gennych un Dyddiad y gwrandawriad – os yw eich ymholiad neu atodiadau yn ymwneud â gwrandawriad sy'n digwydd yn fuan Y gair 'BRYD/URGENT' os yw'r neges e-bost

	Gofyn am wahoddiadau cychwynnol gan y Ganolfan Llwytho Dogfennau i gychwyn achos newydd Ymholiadau cyffredinol am y Llys	neu'r atodiadau angen sylw ar frys
--	--	---

Cyfeiriad e-bost	Natur yr ohebiaeth	Dylech gynnwys yn y llinell pwnc
crimex@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Ffeilio ceisiadau a dogfennau byr (ac eithrio'r rhai hynny sydd wedi'u llwytho i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau) mewn achosion Estraddodi neu Droseddol ac achosion CJA/DTA Ymholiadau ynghylch cynnydd achosion estraddodi a throsteddol Ffeilio ceisiadau am fechnïaeth ar ran y RP, neu apelïadau erlyn yn erbyn caniatáu mechnïaeth, mewn materion Estraddodi yn unig Ffeilio Gorchmynion Cydsynio mewn achosion Estraddodi a Throsteddol, a thalu'r ffi drwy PBA Hysbysu'r Llys eich bod wedi llwytho dogfen i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau mewn achos Estraddodi neu Droseddol	Rhif yr achos – os oes gennych un Dyddiad y gwrandawriad – os yw eich ymholiad yn ymwneud â gwrandawriad sy'n digwydd yn fuan Nodi bod eich neges yn frys, os yw hynny'n berthnasol Y gair 'BRYs/URGENT', os yw hynny'n berthnasol

caseprogression@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Ymholiadau ynghylch cynnydd achosion sifil Ffeilio dogfennau byr mewn achosion sifil (ac eithrio'r rhai hynny sydd wedi'u llwytho i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau) Hysbysu'r Llys eich bod wedi llwytho dogfen i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau mewn achos Sifil	Rhif yr achos Dyddiad y gwrandawriad – os yw eich ymholiad yn ymwneud â gwrandawriad sy'n digwydd yn fuan Y gair 'BRYs/URGENT', os yw hynny'n berthnasol
--	--	---

Cyfeiriad e-bost	Natur yr ohebiaeth	Dylech gynnwys yn y llinell pwnc
Listoffice@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Ffeilio Hysbysiad Atgynhyrchu Ymholiadau ynghylch gwrandawriadau yn Llundain, gan gynnwys: - Dyddiadau - Fformat y gwrandawriad - Yn bresennol	Rhif yr achos Dyddiad y gwrandawriad – os yw eich ymholiad yn ymwneud â gwrandawriad sy'n digwydd yn fuan Y gair 'BRYs/URGENT', os yw hynny'n berthnasol
DUC@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	I'w ddefnyddio ar gyfer achosion ACO yn Llundain yn unig, i ofyn am ddolenni i lwytho dogfennau i'r Ganolfan Llwytho Dogfennau	Rhif yr achos – os oes gennych un Pan fyddwch yn llwytho dogfennau, nodwch gyfeirnod achos y Llys (os oes gennych un) pan ofynnir i chi wneud hynny Dyddiad y gwrandawriad Y gair 'BRYs/URGENT',

		os yw hynny'n berthnasol
London.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Ffeilio Dadleuon Fframwaith ar gyfer gwrandawiadau sydd yn digwydd yn fuan yn Llundain	Rhif yr achos Dyddiad y gwrandawriad Y gair 'BRYs/URGENT', os yw hynny'n berthnasol
OS NAD YW EICH ACHOS YN LLUNDAIN, DEFNYDDIWC H Y CYFEIRIAD E-BOST PERTHNASOL O'R RHESTR ISOD:		
Manchester.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Ffeilio dadleuon fframwaith ar gyfer gwrandawriad sydd ar ddigwydd ym - Manceinion - Leeds - Birmingham - Neu Gaerdydd	Rhif yr achos Dyddiad y gwrandawriad
Leeds@skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		
Birmingham.skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		
Cardiff@skeletonarguments@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		
Manchester@administrativecourtoffice.justice.gov.uk	Unrhyw ymholiadau eraill ynghylch achosion yn y Llys Gweinyddol ym - Manceinion - Leeds - Birmingham - Neu Gaerdydd	Rhif yr achos Y gair 'BRYs/URGENT', os yw hynny'n berthnasol
Leeds@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		
Birmingham@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		
Cardiff@administrativecourtoffice.justice.gov.uk		



© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen ichi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.